# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Bil Amaethyddiaeth (Cymru)** |
| **Swyddog/swyddogion sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith Integredig (enw/enwau ac enw'r tîm):** | **Is-adran Diwygio Rheoli Tir** |
| **Adran:** | **Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig** |
| **Pennaeth yr Is-adran/Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | **Mark Alexander** |
| **Ysgrifennydd y Cabinet/Y Gweinidog sy'n gyfrifol:** | **Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |
| **Dyddiad Cychwyn:** | |

## CYNNWYS


Adran 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham? ..... 3

Adran 2. Beth fydd yr effaith ar lesiant cymdeithasol? ..... 22

Adran 3. Beth fydd yr effaith ar lesiant diwylliannol a’r Gymraeg? ..... 41

Adran 4. Beth fydd yr effaith ar lesiant economaidd? ..... 45

Adran 5. Beth fydd yr effaith ar lesiant amgylcheddol? ..... 57

Adran 6. Beth fydd yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol? ..... 80

Adran 7. Cofnod o’r Asesiadau Effaith Llawn sy’n Ofynnol ..... 81

Adran 8. Casgliad ..... 82

Adran 9. Datganiad ..... 89

Asesiadau Effaith Llawn ..... 90

A. Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant ..... 90

B. Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb ..... 97

C. Asesiad o’r Effaith o ran Prawfesur Gwledig ..... 117

**D.** Sgrinio Asesiad o’r Effaith ar Ddiogelu Data ..... 128

E. Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg ..... 132

F. Asesiad o’r Effaith ar Fioamrywiaeth ..... 151

G. Asesiad o’r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ..... 169

# ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

**Cynnwys y Bil**

Mae Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud ag amryw o wahanol feysydd polisi o fewn amaethyddiaeth, sef:

- Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM)
- Cymorth yn y dyfodol ar gyfer amaethyddiaeth a gweithgareddau ategol
- Monitro ac adrodd ar SLM
- Monitro ac adrodd ar gymorth yn y dyfodol
- Casglu a rhannu data
- Coedwigaeth
- Tenantiaethau amaethyddol
- Maglau a thrapiau glud
- Safonau marchnata
- Dosbarthu carcasau
- Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol

Mewn rhai adrannau o'r asesiadau effaith, ni fydd unrhyw effeithiau perthnasol yn deillio o ddarpariaethau penodol; fel y cyfryw, ni fydd cynnwys yn ymwneud â phob darpariaeth ym mhob adran o'r asesiad effaith. Os na nodir y ddarpariaeth ar gyfer adran benodol, gellir rhagdybio bod yr adran honno'n ymwneud ag SLM a chymorth yn y dyfodol, gan mai dyma'r agwedd fwyaf ar y Bil.

Os nad oes unrhyw effeithiau perthnasol wedi'u nodi ar gyfer darpariaeth benodol, ni nodir hyn yn glir oni bai y bydd gwneud hynny'n darparu gwybodaeth ychwanegol. Os na sonnir am ddarpariaeth, gellir rhagdybio nad oes unrhyw effeithiau perthnasol wedi'u nodi y tro hwn. Bydd yr asesiadau effaith hyn yn cael eu hadolygu'n barhaus wrth i gynigion dilynol, megis y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) arfaethedig, gael eu datblygu.

Mae gweddill yr adran hon yn amlinellu manylion y cynnwys sy'n ymwneud â phob darpariaeth o fewn y Bil.

***Rheoli Tir yn Gynaliadwy***

Mae'r Bil yn gosod Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) fel yr egwyddor gyffredinol ar gyfer polisi amaethyddol i'r dyfodol, gan gynnwys rheoleiddio a chymorth. Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi diffinio SLM fel a ganlyn:

> *"Defnyddio adnoddau tir, gan gynnwys pridd, dŵr, anifeiliaid a phlanhigion, ar gyfer cynhyrchu nwyddau i ddiwallu anghenion newidiol dynol, tra ar yr un pryd yn sicrhau potensial hirdymor yr adnoddau hyn a chynnal a gwella eu buddion amgylcheddol".*[1]

[1] https://www.fao.org/land-water/land/sustainable-land-management/en

Mae'r Bil yn pennu pedwar amcan ar gyfer SLM:

1. Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy.
2. Lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo.
3. Yr angen i gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt.
4. Gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni.

Dywed y Bil hefyd:

*At ddibenion yr amcan cyntaf, mae'r ffactorau sy'n berthnasol i ba un a yw bwyd a nwyddau eraill yn cael eu cynhyrchu mewn modd cynaliadwy yn cynnwys gwytnwch busnesau amaethyddol o fewn y cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt, ymysg pethau eraill a'u cyfraniad at yr economi leol."*

Rhaid cyflawni'r amcanion hyn mewn ffordd sy'n:

a. Bodloni anghenion presennol heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
b. Cyfrannu at y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion i sicrhau bod cymorth i amaethyddiaeth yn y dyfodol yn cael ei ddarparu mewn ffordd sydd, yn eu barn nhw, yn cyfrannu orau at gyflawni amcanion SLM.

Er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau cymorth yn addas i'r diben ac yn cefnogi egwyddorion SLM, bob pum mlynedd byddwn yn cynnal gwerthusiad o effaith ac effeithiolrwydd y cymorth sy'n cael ei ddarparu o dan y Pŵer Cymorth. Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi (bob pum mlynedd yn y man lleiaf) Adroddiad Effaith sy'n darparu asesiad o sut mae pob cynllun cymorth wedi cefnogi dibenion y Pŵer Cymorth a/neu'r amcanion SLM.

***Pwerau i ddarparu cymorth***

Mae'r Bil yn rhoi pwerau cymorth i Weinidogion, gan gynnwys y gallu i agor cynlluniau ar gyfer amaethyddiaeth, ac yn gosod dibenion ar gyfer cymorth. Rydym hefyd wedi rhoi disgrifiad byr o'r hyn y gallai hyn ei olygu yn ymarferol i ffermwyr.

(a) Annog cynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy yn amgylcheddol
- Darparu ar gyfer cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, mewn ffordd sy'n cefnogi arferion/dulliau amaethyddol cynaliadwy yn amgylcheddol sy'n defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar gyflymder sy'n cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu.

(b) Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr
- Mae ffermydd yn lleihau eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr drwy wneud defnydd effeithlon o danwydd ac ynni, lleihau mewnbynnau allanol a chael da byw a chnydau cynhyrchiol.

(c) Dal a storio cymaint â phosibl o garbon
- Creu stociau carbon newydd a gwella'r stociau carbon presennol ar ffermydd.

(d) Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau
- Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau, gan sicrhau manteision i fioamrywiaeth, rhywogaethau a chynefinoedd.

(e) Gwarchod a gwella tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol
- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol.

(f) Gwella ansawdd aer
- Aer sydd â llygredd cyfyngedig (gronynnau wedi'u gwneud gan ddyn a nwyon niweidiol) gan gynnwys deunydd gronynnol mân, amonia a chyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn fethan.

(g) Gwella ansawdd dŵr
- Mae'r amgylchedd dŵr (gan gynnwys dŵr mewndirol) yn cael ei reoli'n gynaliadwy i gefnogi cymunedau iach, busnesau llewyrchus a bioamrywiaeth.

(h) Cynnal a gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol, a'u hymgysylltiad â nhw
- Mae'n haws i bobl fwynhau cefn gwlad er budd iechyd a lles.

(i) Lliniaru peryglon llifogydd a sychder
- Mae ffermydd yn paratoi ar gyfer cyfnodau o lawiad isel neu uchel, gan leihau'r peryglon i'r fferm a chymunedau o lifogydd, sychder ac erydu arfordirol.

(j) Cyflawni a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid
- Mae anifeiliaid yn iach, yn gynhyrchiol ac mae ganddynt ansawdd bywyd da.

(k) Gwneud y mwyaf o effeithlonrwydd adnoddau
- Defnyddio dull cylchol drwy ddefnyddio adnoddau a deunyddiau cyhyd ag y bo modd ac osgoi gwastraff.

(l) Helpu cymunedau gwledig i ffynnu a chryfhau'r cysylltiadau rhwng busnesau amaethyddol a'u cymunedau.
- Cyfrannu at gymunedau gwledig ffyniannus ac amrywiol drwy gryfhau'r cysylltiadau rhwng busnesau'r sector a'u cymunedau lleol; Cefnogi gwytnwch economaidd busnesau amaethyddol drwy arallgyfeirio ar ffermydd a chryfhau busnesau fferm i gefnogi a chyfrannu at gymunedau gwledig (lleol) ffyniannus.

(m) Gwella gwytnwch busnesau amaethyddol.
- Cymryd camau i gadw ffermwyr ar y tir, drwy wella gwytnwch a ffyniant busnesau (fferm) amaethyddol yn y dyfodol i gefnogi cynaliadwyedd sector amaethyddol Cymru a chynhyrchu bwyd a nwyddau eraill.

(n) Cynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.

- Cynnal a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y sector, drwy weithredoedd sy'n hwyluso'r defnydd ohoni ar bob lefel gallu; annog dysgwyr newydd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y sector amaethyddol.

(o) Annog busnesau amaethyddol i reoli ynni'n dda a'u hannog i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle.
- Cefnogi busnesau amaethyddol i fabwysiadu arferion a dulliau ynni effeithlon ac addasu iddynt, drwy ddatblygu a chynnal cynlluniau rheoli ynni a, lle bo hynny'n briodol, mynd â hyn gam ymhellach, trwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle.

***Monitro ac adrodd ar SLM***

Mae'r darpariaethau monitro ac adrodd ar SLM wedi'u dylunio i ddarparu adolygiad cynhwysfawr ac amserol o'r camau a gymerwyd o dan y darpariaethau SLM, yn ogystal â chysylltu â gwaith adrodd ar nodau ehangach Llywodraeth Cymru. Mae'r darpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd sut mae'r Bil yn cyflawni yn erbyn y pedwar amcan SLM bob pum mlynedd o leiaf, gyda'r adroddiad cyntaf i'w gyflwyno yn 2025. Er mwyn gwneud hyn, mae'n ofynnol i Weinidogion bennu o leiaf un dangosydd (a all fod yn ddirprwy) yn erbyn pob amcan ac o leiaf un targed yn erbyn pob dangosydd. Mae angen gosod y rhain cyn yr adroddiad cyntaf a gellir eu diwygio ar unrhyw adeg i fodloni blaenoriaethau sy'n newid drwy osod dangosyddion wedi'u diweddaru gerbron y Senedd. Mae'r defnydd o ddangosyddion a thargedau yn caniatáu gwerthusiad penodol o berfformiad SLM gan gydnabod ar yr un pryd y nodau hirdymor ac uchelgeisiol sydd wedi'u crynhoi yn yr amcanion SLM.

***Monitro ac adrodd ar gymorth yn y dyfodol***

Fel rhan o'r Bil, bydd gan Weinidogion Cymru y pwerau i alluogi monitro, adrodd a gwerthuso unrhyw gymorth o dan y Pŵer Cymorth (h.y. ar gyfer unrhyw gynllun cymorth, a boed a yw'r cymorth yn ariannol a/neu'n anariannol).

Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol, a fydd yn nodi manylion yr holl gymorth ariannol ac anariannol a ddarparwyd o dan y Pŵer Cymorth am y 12 mis blaenorol. Bydd yn cynnwys gwybodaeth am nifer y cynlluniau a manylion cymorth ariannol ac anariannol yn erbyn pob cynllun.

***Casglu a Rhannu Data***

Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion ei gwneud yn ofynnol casglu a monitro data ar gyfer gweithgareddau perthnasol sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth a gweithgareddau ategol, neu reoleiddio ar gyfer hynny.

***Coedwigaeth***

Mae'r Bil yn diwygio Deddf Coedwigaeth 1967 i ganiatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu amodau at drwyddedau cwympo coed, ac i ganiatáu i drwyddedau cwympo coed gael eu diwygio, eu hatal neu eu dirymu ar ôl i drwyddedau gael eu rhoi.

Ceisir y pwerau hyn i atal cwympo coed a fyddai'n mynd yn groes i ddeddfwriaeth amgylcheddol arall. Effaith hyn yn bennaf yw diogelu bywyd gwyllt a darparu diogelwch rhag difrod amgylcheddol, er y byddai hefyd yn galluogi trwyddedau cwympo coed i gael eu diwygio am resymau eraill megis

newid yn amcanion y perchennog. Mae hefyd yn galluogi amodau "amgylcheddol" o'r fath i gael eu gorfodi o dan y Ddeddf Coedwigaeth; yn helpu'r Ddeddf Goedwigaeth i gyd-fynd â deddfwriaeth amgylcheddol arall megis Rheoliadau Cynefinoedd 2017 ac yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gyflawni ei ddyletswydd SMNR (rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy) ac adran 6 o dan yr un Ddeddf.

***Tenantiaethau***

Mae llawer o brydlesi amaethyddol yn cynnwys cymalau cyfyngu landlordiaid safonol sy'n atal y tenant rhag ymgymryd â gweithgareddau a allai newid offer sefydlog y landlord neu'r defnydd tir ar y daliad heb i'r tenant gael caniatâd y landlord i ymgymryd â'r gweithgarwch hwnnw yn gyntaf (e.e. codi neu newid adeiladau, buddsoddi mewn offer sefydlog newydd, derbyn tir arall neu arallgyfeirio i weithgareddau anamaethyddol megis rheoli tir amgylcheddol).

Mae llawer o landlordiaid a thenantiaid yn gallu gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i drafod a goresgyn materion sy'n ymwneud â chymalau cyfyngol heb orfod troi at broses datrys anghydfod. Er enghraifft, mae tenantiaid yn aml yn gweithio gyda'u landlordiaid i gytuno ar gynlluniau arallgyfeirio ac i'w galluogi i ymuno â chynlluniau amgylcheddol. Deallwn nad yw hyn o reidrwydd yn wir am bob tenantiaeth ac efallai y bydd rhai tenantiaid yn gweld bod cymalau cyfyngol a ysgrifennwyd sawl blwyddyn yn ôl bellach yn cyfyngu ar eu gallu i ddatblygu busnes cynhyrchiol a hyfyw.

Rydym am sicrhau nad yw tenantiaid amaethyddol yn dioddef cyfyngiadau annheg rhag cael mynediad at unrhyw gynlluniau cymorth ariannol a ddarperir o dan Fil Amaethyddiaeth (Cymru). Felly, y nod yw rhoi llwybr i denantiaid Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 a Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 ddatrys anghydfodau o dan amgylchiadau lle mae eu landlord fod yn atal yn afresymol gydsyniad i gais i amrywio cymal cyfyngol yn y cytundeb tenantiaeth, lle mae'r cymal cyfyngol hwnnw'n eu hatal rhag gwneud cais am gynlluniau ariannol sy'n cael eu llywodraethu gan y Bil, a chael mynediad atynt neu yn achos Deddf 1995, rhag cydymffurfio â dyletswydd statudol.

***Maglau a thrapiau glud***

Mae'r Bil yn cyflwyno newid i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, gan alluogi Gweinidogion Cymru i wahardd defnyddio maglau i ddal anifeiliaid gwyllt, yn ogystal â gwahardd defnyddio trapiau glud ar gyfer anifeiliaid asgwrn cefn.

***Safonau Marchnata***

Er bod cyfran uchel o ddeddfwriaeth amaethyddol wedi'i phenderfynu ar lefel yr Undeb Ewropeaidd (UE) dros gyfnod datganoli yng Nghymru, gan fod Cymru bellach y tu allan i'r UE, bydd gan Weinidogion Cymru fwy o bwerau i bennu polisi amaethyddol. Roedd Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn caniatáu cadw cyfraith yr UE yng Nghymru, a ddiwygiwyd drwy gyfres o offerynnau statudol cywirol i'w gwneud yn weithredol yn y cyd-destun cyfansoddiadol newydd hwn.

Cymerwyd nifer o bwerau yn Neddf Amaethyddiaeth y DU 2020. Mae Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth y DU yn berthnasol i Gymru, gan gynnwys darparu pwerau safonau marchnata i Weinidogion Cymru, ond bydd yr atodlen hon yn dod i ben ar ddiwedd 2024, gyda'i swyddogaethau i'w disodli gan ddarpariaethau ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru).

Un o'r meysydd lle mae Llywodraeth Cymru yn cynnig parhau â phwerau i Weinidogion Cymru yw safonau marchnata mewn perthynas â chynhyrchion amaethyddol. Mae'r safonau hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- ddiffiniadau technegol, dynodiad a disgrifiadau gwerthu
- meini prawf dosbarthu megis graddio i ddosbarthiadau, pwysau, maint, oedran a chategori
- y rhywogaeth, y math o blanhigyn neu frîd yr anifail neu'r math masnachol
- cyflwyno, labelu, pecynnu, rheolau i'w cymhwyso mewn perthynas â chanolfannau pecynnu, marcio, blynyddoedd cynaeafu a defnyddio termau penodol
- meini prawf megis ymddangosiad, cysondeb, cydffurfiad, nodweddion cynnyrch a chanran y cynnwys dŵr
- sylweddau penodol a ddefnyddir wrth gynhyrchu, neu gydrannau neu gyfansoddion, gan gynnwys eu cynnwys meintiol, purdeb a'u nodi
- y math o ffermio a dull cynhyrchu, gan gynnwys arferion oenolegol
- 'coupage' breci gwin a gwin (gan gynnwys diffiniadau o'r termau hynny), cymysgu a chyfyngiadau hynny
- amlder casglu, dosbarthu, cadw a thrin, y dull cadwraeth a thymheredd, storio a chludo
- y man ffermio neu'r tarddle, ac eithrio dofednod byw, cig dofednod a brasterau taenadwy
- cyfyngiadau o ran defnyddio sylweddau ac arferion penodol
- defnydd penodol cynhyrchion
- yr amodau sy'n llywodraethu gwaredu, dal, dosbarthu a defnyddio cynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio â'r safonau marchnata, a gwaredu sgil-gynhyrchion
- defnyddio termau sy'n cyfleu nodweddion neu briodoleddau gwerth ychwanegol

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig parhau â phwerau gorfodi i Weinidogion Cymru, mewn perthynas â'r rheoliadau a amlinellir uchod. Byddai rheolaethau o'r fath yn darparu ar gyfer y canlynol:

- darparu gwybodaeth
- rhoi pwerau mynediad
- rhoi pwerau arolygu, chwilio ac atafaelu
- cadw cofnodion
- gosod cosbau ariannol
- creu troseddau diannod y gellir eu cosbi gyda dirwy (neu ddirwy nad yw'n fwy na swm a bennir yn y rheoliadau, na ddylai fod yn fwy na lefel 4 ar y raddfa safonol)
- apeliadau
- rhoi swyddogaethau (gan gynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud ag arfer disgresiwn) i berson

Byddai'r math o reoliadau a gynigir ar gyfer rhestr benodol o gynhyrchion amaethyddol. Mae'r rhestr yn cynnwys:

- llaeth a chynhyrchion llaeth
- brasterau taenadwy
- cig eidion a chig llo
- dofednod a chig dofednod

- wyau a chynhyrchion wyau
- ffrwythau a llysiau
- olew olewydd ac olifau bwyta
- hopys
- gwin
- gwin a bersawrwyd

Mae'r rhestr o gynhyrchion sydd wedi'u cynnwys yn y darpariaethau safonau marchnata wedi'i throsglwyddo o ddeddfwriaeth yr UE, felly ni fwriedir i'r ffaith eu bod wedi'u cynnwys adlewyrchu eu pwysigrwydd i sectorau amaethyddiaeth a bwyd Cymru. Y penderfyniad polisi ar gyfer y Bil yw cynnwys yr un rhestr o gynhyrchion ag a restrir yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 sydd, yn ei dro, yn adlewyrchu deddfwriaeth yr UE. Mae un o'r darpariaethau yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr o gynhyrchion y mae safonau marchnata penodol yn berthnasol iddynt, ond byddai cam o'r fath yn cael ei wneud mewn is-ddeddfwriaeth gan ddefnyddio'r pwerau yn y Bil. Byddai unrhyw newid o'r fath yn gofyn am ystyriaeth ofalus o'r effaith y byddai'n ei chael ar greu safonau gwahanol yng Nghymru o gymharu â gweddill Prydain Fawr a'r UE.

Mae'r ffaith bod Atodlen 5 i Fil Amaethyddiaeth y DU yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2024 yn golygu os na fyddai pwerau sy'n cyfateb i'r darpariaethau safonau marchnata a amlinellir uchod yn cael eu cynnwys ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru), byddai Gweinidogion Cymru yn colli eu gallu i ddiwygio neu ddirymu'r safonau presennol ac na fyddent yn gallu ychwanegu unrhyw rai newydd.

Gan fod safonau cynnyrch amaethyddol yn faes datganoledig o dan Adran C7 o Ddeddf Cymru 2017[2], mae'n bwysig bod gan Weinidogion Cymru y prif bwerau i bennu'r safonau hyn.

***Dosbarthu Carcasau***

Mae dosbarthu carcasau ar gyfer cig eidion a chig o foch wedi bod yn elfen o ddeddfwriaeth Sefydliad Marchnad Gyffredin yr UE o leiaf ers Rheoliad y Gymuned Economaidd Ewropeaidd (EEC) 1968 ar Gyd-Drefniadaeth y Farchnad mewn Cig Eidion a Chig Llo[3] yn achos cig eidion a Rheoliad EEC 1975 ar Gyd-Drefniadaeth y Farchnad mewn Cig o Foch[4] yn achos cig o foch. Mae'r ddeddfwriaeth hon wedi'i diweddaru dros amser ac mae wedi'i chadw ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.[5]

Roedd darpariaeth ar gyfer dosbarthu carcasau defaid yn absennol o'r rheoliadau hyn, felly gwnaed darpariaeth yn 2017 i Aelod-wladwriaethau bennu safonau o'r fath.[6] Roedd yn orfodol i Aelod-wladwriaethau'r UE weithredu'r rheoliadau ar gyfer cig eidion a chig o foch, ond nid felly ar

---

[2] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/4/schedule/1

[3] https://www.legislation.gov.uk/eur/1968/805/pdfs/eur_19680805_adopted_en.pdf

[4] https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/HTML/?uri=CELEX:31975R2759&from=EN

[5] Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) 2011, https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/1826/contents/made/welsh

[6] https://www.legislation.gov.uk/cy/eur/2017/1182/adopted

gyfer cig defaid. Uchelgais Gweinidogion Cymru yw defnyddio'r pwerau sydd yn rheoliadau'r UE a ddargedwir i wneud rheoliadau ar gyfer dosbarthu carcasau defaid.[7] Bydd pwerau'r UE a ddargedwir yn cael eu disodli gan y rhai a ddisgrifir yma.

Nid archwilio pa safonau y dylid eu gosod ar gyfer dosbarthu carcasau defaid, gwartheg neu foch yw nod yr asesiad effaith; yn hytrach, ei nod yw archwilio effaith cynnwys prif bwerau i Weinidogion Cymru bennu safonau dosbarthu carcasau ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru). Dyma'r pwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru sydd eisoes yn bodoli yn Neddf Amaethyddiaeth 2020, tan ddiwedd 2024.[8] Felly, bwriad cynnwys y pwerau hyn yn y Bil yw galluogi parhad, gan sicrhau bod gan Weinidogion Cymru y prif bwerau o hyd i bennu safonau dosbarthu carcasau.

***Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol***

O dan bwerau yn Neddf Amaethyddiaeth 2020, mae gan Weinidogion Cymru y pwerau i wneud datganiad o amodau eithriadol y farchnad a rhoi cymorth ariannol i gynhyrchwyr amaethyddol y mae'r amodau hyn yn effeithio'n andwyol arnynt.[9] Yn ogystal, mae gan Weinidogion Cymru y pwerau i lansio Cynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus a Chymorth Storio Preifat. Mae'r Cynllun Ymyrraeth Gyhoeddus yn fath o ymyrraeth yn y farchnad lle gall Llywodraeth Cymru brynu cynnyrch amaethyddol yn uniongyrchol gan gynhyrchwyr, eu storio a'u gwerthu ar adeg pan fo'r farchnad yn fwy sefydlog neu alw uwch. Mae Cymorth Storio Preifat yn debyg, ond yn hytrach na bod y Llywodraeth yn prynu'r cynhyrchion, mae cynhyrchwyr yn cadw perchnogaeth drostynt, a byddai'r Llywodraeth yn cyfrannu at eu costau storio am gyfnod cyfyngedig. Mae'r ddau bŵer hyn yn debyg i'r rhai a oedd yn bodoli yn neddfwriaeth flaenorol yr UE.[10]

Mae pwerau yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 i Weinidogion Cymru ddatgan argyfwng yn y farchnad, creu cynllun ymyrryd ar gyfer cynhyrchwyr amaethyddol a sefydlu Ymyrraeth Gyhoeddus neu Gymorth Storio Preifat yn gyfyngedig o ran amser, fodd bynnag, gyda'r atodlen berthnasol yn ddarostyngedig i "gymal machlud", sy'n golygu na fyddant bellach ar waith ar ôl diwedd 2024.[11] Y rheswm am hyn yw, wrth lunio Deddf Amaethyddiaeth y DU, rhagwelwyd y byddai'r pwerau hyn yn cael eu trosglwyddo i Fil Amaethyddiaeth (Cymru) o ddechrau 2025. Trosglwyddo pwerau Gweinidogion Cymru i ddatgan amodau marchnad eithriadol a rhoi cymorth ariannol i gynhyrchwyr amaethyddol y mae amodau eithriadol y farchnad yn effeithio'n andwyol arnynt o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 i'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) fel hyn yw testun yr asesiadau effaith hyn.

***Pontio o'r cymorth presennol***

[7] RHEOLIAD GWEITHREDU'R COMISIWN (UE) 2017/1184 dyddiedig 20 Ebrill 2017 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran graddfeydd yr Undeb ar gyfer dosbarthu carcasau cig eidion, moch a defaid ac o ran adrodd ar brisiau'r farchnad categorïau penodol o garcasau ac anifeiliaid byw

[8] https://publications.parliament.uk/pa/bills/lbill/58-01/130/5801130.pdf, Rhan 7, Cymal 44

[9] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2020/21/schedule/5/part/2/enacted, Atodlen 5, Rhan 2

[10] Rheoliad 1308/2013 yr UE, Rhan II, Teitl I, Pennod I ac Erthygl 219

[11] Ibid, Rhan 7, Pwynt 44.

Mae gosod Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel fframwaith polisi ar gyfer ffermio yng Nghymru yn y dyfodol yn golygu y bydd y cynllun cymorth presennol, Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS), yn cael ei ddiddymu'n raddol. Rhaid i unrhyw gynllun newydd ddangos sut mae'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Felly, mae'r Bil yn cynnwys y gallu i addasu'r BPS er mwyn gwneud lle i'r cymorth arfaethedig i amaethyddiaeth yn y dyfodol drwy ddarparu pwerau i ddarparu taliadau pontio fel rhan o gyfnod pontio rhwng yr hen gynllun a'r cynllun newydd drwy'r pŵer cymorth a'r pwerau BPS a'r pwerau addasu presennol. Bydd hyn yn sicrhau na fydd unrhyw ffermwr yn gweld ei daliadau'n dod i ben yn sydyn, p'un a oedd wedi dewis cymryd rhan mewn unrhyw gynllun yn y dyfodol ai peidio.

### *Cysyniadau Craidd*

Mae llawer o ddarnau o ddeddfwriaeth yn dibynnu ar ddiffiniad o amaethyddiaeth a ysgrifennwyd ym 1947. Er bod llawer o'r gweithgareddau craidd wedi aros yr un fath, mae arferion a dulliau gweithredu'r diwydiant wedi datblygu a symud ymlaen wrth i dechnoleg a blaenoriaethau newydd gael eu mabwysiadu.

Mae elfen Cysyniadau Craidd y Bil yn diffinio'r hyn a olygir gan amaethyddiaeth a'i gweithgareddau ategol o fewn terfynau'r Bil, gan geisio diweddaru'r diffiniad o amaethyddiaeth ond gan gydnabod hefyd ei hanes cyfoethog a'i arferion traddodiadol. Mae'n ceisio crynhoi'r ystod o arferion arloesol a ddefnyddir ar hyn o bryd yng Nghymru, yn ogystal ag edrych ymlaen at gamau y gallai fod angen i'r diwydiant eu cymryd wrth iddo addasu i'r heriau sydd o'n blaenau.

Mae'r diffiniadau'n cynnwys gweithgareddau sy'n caniatáu i'r sector gyflawni'r amcan SLM cyntaf, sef cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, a bodloni'r tri amcan arall ar yr un pryd. Ystyrir bod y gweithgareddau hyn yn cefnogi ei gilydd ac yn gydnaws.

### Y fframwaith cyfreithiol

Fel y nodwyd gennym yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*[12], mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol pwysig, sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd, i ddatblygu polisi rheoli tir yng Nghymru yn y dyfodol. Rydym wedi datblygu dull polisi ar gyfer yr holl gymorth amaethyddol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol yn seiliedig ar ofynion y ddwy Ddeddf hyn. Ceir trosolwg o'r gofynion perthnasol allweddol isod.

### Amcanion llesiant

Mae'r *Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad* yn nodi amcanion Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'w rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dyma'r amcanion yn y ddogfen sy'n uniongyrchol berthnasol i'r Bil:

[12] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-07/dogfen-ymgynghori-brexit.pdf

- *Creu system newydd o gymorth ffermio a fydd yn cynyddu pŵer amddiffynnol natur drwy ffermio, gan werthfawrogi anghenion penodol ffermydd teuluol yng Nghymru a chydnabod y broses o gynhyrchu bwyd lleol sy'n ecolegol gynaliadwy.*

- *Cyflwyno cyfnod pontio i'r cynllun cymorth ffermio newydd, gan gynnwys parhau â thaliadau sefydlogrwydd, y tu hwnt i dymor y Senedd bresennol.*

- *Gwahardd defnyddio maglau.*

- *Helpu ffermwyr a thirfeddianwyr gweithredol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru i annog creu coetiroedd ar dir sy'n llai cynhyrchiol ac ymchwilio i ffyrdd o ddenu buddsoddiad ar gyfer creu coetiroedd sy'n sicrhau perchnogaeth a rheolaeth leol.*

**Ffyrdd o Weithio**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gorff cyhoeddus sy'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ystyried cyfres o ffyrdd o weithio. Rydym yn disgrifio pob un ohonynt ac yn egluro sut rydym yn ei rhoi ar waith drwy'r cynigion a geir yn y Bil.

**1.** **Hirdymor** (pwysigrwydd cydbwyso anghenion y tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor, yn enwedig pan allai pethau a wneir i ddiwallu anghenion tymor byr gael effaith niweidiol yn yr hirdymor).

Mae'r amcanion SLM wedi'u dylunio i sicrhau bod anghenion byrdymor a hirdymor yn cael eu diwallu. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ystyried y ffordd orau o gyflawni'r amcanion SLM mewn unrhyw gymorth neu reoliad ar gyfer amaethyddiaeth, gan gynnwys cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, wrth ddatblygu polisi yn y dyfodol. Bydd hyn yn lliniaru yn erbyn y camau sy'n cael eu cymryd yn y byrdymor a allai gael effeithiau negyddol yn y tymor hwy, ac i'r gwrthwyneb. Y bwriad yw cyflwyno fframwaith sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd adnoddau economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen cymryd camau yn y byrdymor i ymateb i heriau dybryd yr argyfyngau hinsawdd a natur, ond rhaid gwneud hyn mewn ffordd gyfiawn a theg.

***Tenantiaethau***

Mae'r darpariaethau wedi'u dylunio i gefnogi amcanion strategol hirdymor allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth amaethyddol yn y dyfodol drwy alluogi mynediad teg at gynlluniau i ffermwyr â thir tenant a allai fel arall gael eu cyfyngu gan gymalau a ysgrifennwyd yn eu prydlesi flynyddoedd lawer yn ôl neu yn achos Deddf 1995, cydymffurfio â dyletswydd statudol.

**2.** **Integreiddio** (sy'n cael ei ddiffinio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel "yr angen [i gyrff cyhoeddus] gymryd ymagwedd integredig, drwy ystyried– (i) ym mha ffordd y gallai amcanion llesiant y corff effeithio ar bob un o'r nodau llesiant; ac (ii) effaith amcanion llesiant y corff ar ei gilydd neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill, yn arbennig pan all camau a gymerir gan y corff gyfrannu at gyflawni un amcan ond y gall fod yn niweidiol i gyflawni un arall").

***SLM a chymorth yn y dyfodol***

Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion ystyried sut y gallant gyfrannu orau at gyflawni'r pedwar amcan SLM wrth ddatblygu cymorth ar gyfer amaethyddiaeth. Mae'r amcanion yn seiliedig ar y gofyniad eu bod yn cael eu diwallu mewn ffordd sy'n diwallu anghenion presennol heb beryglu anghenion cenedlaethau'r dyfodol ac yn cyfrannu at y nodau Llesiant. Bydd hyn yn ymgorffori dull integredig o gefnogi amaethyddiaeth yn y dyfodol.

### *Coedwigaeth*

Mae'r cynnig yn cefnogi nod "Cymru Gydnerth" drwy ddiogelu bywyd gwyllt yn well a diogelu'n well rhag difrod amgylcheddol a allai godi o ganlyniad i gwympo coed. Mae angen i'r pwerau hyn fod yn briodol ac yn gymesur er mwyn i'r sector coedwigaeth barhau i gyfrannu at y nod "Ffyniannus a Diogel".

### *Tenantiaethau*

Mae'r darpariaethau'n integreiddio â nodau ehangach Llywodraeth Cymru. Maent yn hyrwyddo'r agenda Ffyniant i Bawb drwy gefnogi'r nod 'Ffyniannus a Diogel' o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd drwy gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun a, thrwy hynny, gynorthwyo cynaliadwyedd y diwydiant amaethyddol. Mae'r darpariaethau hefyd yn cyfrannu at yr amcan 'iach ac egnïol' drwy greu 'amgylcheddau gwell'.

### *Safonau Marchnata*

Gyda'r gallu i benderfynu ar gyfansoddiad cynnyrch, gall Gweinidogion ddylanwadu ar yr effaith ar iechyd pobl y sgil bwyta ac yfed cynhyrchion o'r fath, drwy gyfyngiadau ar gynhwysion sy'n niweidiol i iechyd, er enghraifft, yn ogystal ag effaith amgylcheddol eu cynhyrchu. Fel y cyfryw, bydd cynnwys darpariaethau ar safonau marchnata ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru) yn cyfrannu at amcanion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef Cymru Ffyniannus, Cymru Iachach a Chymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang.[13] Yn yr un modd, mae'r ystyriaethau hyn yn cyd-fynd ag amcanion Ffyniant i Bawb, yn benodol o dan y themâu Iach ac Egnïol[14] a Ffyniannus a Diogel[15].

### *Dosbarthu Carcasau*

Bydd y darpariaethau'n cyfrannu'n anuniongyrchol at amcanion Cymru ffyniannus a Chymru fwy cyfartal, fel y'u disgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.[16] Yn gyntaf, bydd y darpariaethau'n caniatáu i Weinidogion Cymru bennu safonau marchnad wedi'u cysoni, gan roi hwb i hyder busnesau drwy ganiatáu i ffermwyr a gwerthwyr cig fod yn fwy sicr o werth eu cynnyrch. Yn ail, byddai cysoni safonau yn golygu masnachu tecach ar draws y wlad, gan gynyddu cydraddoldeb, felly bydd y cam cyntaf hwn o ran sicrhau bod gan Weinidogion Cymru y pwerau

---

[13] Hanfodion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, t.6 https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf

[14] Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol. t.11 https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/01/Ffyniant-i-bawb.pdf

[15] Ibid. t.7

[16] https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/01/Ffyniant-i-bawb.pdf t.6

hyn yn cyfrannu at yr amcan hwnnw. Y ddau reswm hyn yw pam mae'r darpariaethau hefyd yn bodloni'r thema "ffyniannus a diogel" a nodir yn *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*.[17]

***Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol***

Mae'r darpariaethau'n gydnaws ag amcanion Llesiant Cymru Ffyniannus a Chymru Gydnerth.[18] Maent yn dod o dan ymbarél y cyntaf o'r amcanion hyn, gan eu bod yn caniatáu i bwerau Gweinidogion Cymru o ran rhoi cymorth i gynhyrchwyr amaethyddol barhau ar adeg pan fo amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth wedi cael effaith negyddol iawn ar eu busnes. Defnyddiwyd pwerau Cymorth Storio Preifat, er enghraifft, yn 2020 yn ystod y pandemig Coronafeirws i gefnogi ffermwyr llaeth a oedd yn gweld gostyngiad sylweddol ym mhris eu llaeth oherwydd cau busnesau gweini bwyd megis caffis. Bydd gallu Gweinidogion Cymru i ddefnyddio'r pwerau hyn yn caniatáu i'r economi wledig barhau i gynhyrchu cyfoeth ar ôl cyfnodau o argyfwng, yn hytrach na gweld cwymp economaidd a'r newidiadau posibl i ddefnydd tir a allai ddeillio o fusnesau fferm yn cau mewn niferoedd mawr.

Mae'r darpariaethau'n cyfrannu at yr amcan Cymru Gydnerth drwy roi'r gallu i Weinidogion Cymru ddefnyddio pwerau ariannol i sefydlogi refeniw busnesau fferm yn ystod argyfyngau ac felly osgoi iddynt orfod cau. Pe bai nifer fawr o ffermydd yn cau ar yr un pryd, gallai hyn gael effaith sylweddol ar gydlyniant cymunedau gwledig. Nod y darpariaethau yw sicrhau y bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i fod â'r pwerau hyn, gan ganiatáu ymateb a fydd yn lliniaru effeithiau gwaethaf argyfyngau o'r fath.

**3.** **Cynnwys** (pwysigrwydd cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb mewn cyrraedd y nodau llesiant a sicrhau bod y personau hynny'n adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru (pan fo'r corff yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru gyfan), neu y rhan o Gymru y mae'r corff yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â hi).

Ymgynghorwyd ar gynnwys arfaethedig y Bil fel rhan o ymarfer ymgynghori'r Papur Gwyn yn 2020. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ym mis Gorffennaf 2021[19].

*SLM a chymorth yn y dyfodol*

Rydym wedi cynnal dau ymgynghoriad arall ar gymorth yn y dyfodol, a arweiniodd at fwy na 15,000 o ymatebion. Yn ogystal, rydym wedi cynnal cyfarfodydd cyhoeddus ac wedi cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid drwy Grŵp y Ford Gron a'i gweithgorau pwnc. Cwblhawyd cam cyntaf y cyd-ddylunio yn 2020 gyda bron i 2,000 o ffermwyr yn cymryd rhan ynddo. Cafodd ail gam y cyd-ddylunio, lle gwahoddwyd ffermwyr a rhanddeiliaid eraill i roi adborth ar y Cynigion Bras ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ei gynnal yn 2022. Byddwn yn ymgynghori ar gynigion terfynol ar gyfer y CFfC a sut byddwn yn pontio yn 2023. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid wrth i

[17] https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/01/Ffyniant-i-bawb.pdf t.3

[18] Hanfodion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. t.6 https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf

[19] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-09/bil-amaethyddiaeth-cymru-crynodeb-or-ymatebion.pdf

gynigion gael eu datblygu i sicrhau bod y cynllun yn gweithio i'r diwydiant ac yn cyflawni'r canlyniadau rydym yn eu ceisio.

*Coedwigaeth*

Cafodd y cynigion eu cynnwys yn yr ymgynghoriad ehangach ar y Papur Gwyn Amaeth. Mae eu datblygiad wedi hynny wedi cynnwys ymgysylltu â grŵp o randdeiliaid allweddol a chael eu mewnbwn. Bydd canllawiau drafft ar sut y caiff y pwerau eu rhoi ar waith yn cael eu datblygu a fydd yn cynnwys ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid.

*Tenantiaethau*

Ymgynghorwyd ar y cynnig mewn dau ymgynghoriad cyhoeddus llawn, gan gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad Papur Gwyn. Rydym yn bwriadu parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol wrth ddatblygu unrhyw is-ddeddfwriaeth.

**4.** **Cydweithio** (ym mha ffordd y gallai cydlafurio ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff yn gweithio ar y cyd) gynorthwyo'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion).

*SLM a chymorth yn y dyfodol*

Mae datblygu'r Bil wedi golygu cydweithio sylweddol rhwng gwahanol dimau polisi yn Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a rhanddeiliaid eraill. Disgwyliwn i'r dull hwn barhau.

*Coedwigaeth*

Bydd y cynnig yn adeiladu ar broses ymgynghori fewnol ac allanol bresennol CNC mewn perthynas â thrwyddedau cwympo coed ac yn darparu gwell cydgysylltiad rhwng deddfwriaeth amgylcheddol a'r Ddeddf Coedwigaeth.

*Tenantiaethau*

Mae'r cynnig yn deillio o argymhellion a wnaed gan y Grŵp Diwydiant Diwygio Tenantiaethau (TRIG) yn 2017. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar ddiwygio cyfraith tenantiaethau amaethyddol yn 2019, ac ymgynghorwyd ymhellach ar y cynnig hwn ym Mhapur Gwyn Amaeth (Cymru). Rydym yn bwriadu parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol wrth ddatblygu unrhyw is-ddeddfwriaeth.

*Safonau Marchnata*

Mae gan gynhyrchwyr a manwerthwyr o bob rhan o'r cadwyni amaethyddiaeth a chyflenwi bwyd fuddiant yn y ddeddfwriaeth hon, ond mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng gallu Gweinidogion Cymru i reoleiddio o ran sector unigol, a'r arfer o wneud y rheoliadau hynny. Os a phryd y gwneir is-ddeddfwriaeth gan ddefnyddio pwerau ar safonau marchnata a roddir ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru), byddai cydweithio llawer ehangach wrth ddatblygu polisi yn digwydd gyda'r rhai sydd â buddiant allweddol yn y sector y gwneir deddfwriaeth ar ei gyfer. Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i is-ddeddfwriaeth gael ei gwneud gan ddefnyddio'r pwerau a gynigir yma, felly mae ein hasesiad o'r effeithiau yn seiliedig ar ba mor aml y gwnaed is-ddeddfwriaeth ar safonau marchnata yn y gorffennol.

**5.** **Atal** (ym mha ffordd y gallai defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant y corff neu amcanion corff arall).

*SLM a chymorth yn y dyfodol*

Bydd yr argyfyngau hinsawdd a natur yn cael effaith ddifrifol ar ein hadnoddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol os na chymerir camau i fynd i'r afael â nhw. Mae'r fframwaith SLM yn bwriadu cefnogi sector amaethyddol gwydn a all barhau i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, gan fynd ati ar yr un pryd i gyflawni'r canlyniadau sydd eu hangen dros yr hirdymor i leihau a lliniaru yn erbyn yr argyfyngau sy'n ein hwynebu. Mae atal diraddio ein hadnoddau diwylliannol a naturiol yn rhan annatod o gyflawni SLM.

*Coedwigaeth*

Nod y darpariaethau yw diogelu bywyd gwyllt yn well a diogelu'n well yn erbyn niwed amgylcheddol, gan leihau effaith bosibl cwympo coed. Dylai hyn helpu i gyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfwng natur, gan sicrhau bod y sector coedwigaeth yn parhau i gyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd hefyd.

*Tenantiaethau*

Bydd galluogi mynediad teg at gymorth amaethyddol yn y dyfodol i ffermwyr â thir tenant a allai fel arall fod wedi'u cyfyngu gan gymalau a ysgrifennwyd yn eu prydlesi flynyddoedd lawer yn ôl yn cynyddu'r tir sy'n cael ei reoli'n gynaliadwy a nifer y ffermwyr sy'n cael cymorth ariannol o dan gynlluniau yn y dyfodol.

*Safonau Marchnata*

Nid newid safonau yw nod cynnwys darpariaethau safonau marchnata ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru) ar hyn o bryd; yn hytrach, y nod yw dwyn ymlaen y pwerau presennol o Fil Amaethyddiaeth y DU i sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu diwygio safonau marchnata yn y dyfodol, pan fydd hynny'n angenrheidiol. Gyda datblygiadau mewn dulliau cynhyrchu, technoleg a gwybodaeth wyddonol, mae'n debygol y bydd angen gwneud newidiadau yn y dyfodol i safonau marchnata cynhyrchion amaethyddol a bwyd, a dyna pam mae parhad pwerau sylfaenol yn y maes hwn yn bwysig.

**Effaith**

*SLM a chymorth yn y dyfodol*

Er bod nifer o broblemau wedi'u nodi gyda'r fframwaith polisi cyffredinol a gyflwynwyd yn ein hail ymgynghoriad, *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, roedd cytundeb cyffredinol bod y fframwaith arfaethedig yn ymateb priodol i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. At ei gilydd, mae'r fframwaith yn cefnogi'r egwyddor o ddarparu cyllid yn y dyfodol i gefnogi a gwobrwyo ffermwyr sy'n gweithredu systemau ffermio cynaliadwy.

Yn *Brexit a'nTir* a *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, teimlai rhai ymatebwyr nad oedd y fframwaith yn rhoi sylw na chefnogaeth briodol i sicrhau cyflenwad bwyd digonol drwy roi cymhorthdal ar gyfer cynhyrchu bwyd. Roedd y safbwynt hwn yn sail i'r gwrthwynebiad cryfaf i'r fframwaith. Er y byddai'n heriol iawn i Gymru fod yn gwbl hunangynhaliol o ran cynhyrchu bwyd, rydym yn bwriadu

parhau i weithio gyda'r sector i ddarparu bwyd cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion defnyddwyr.

Nid yw cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy a chyflawni canlyniadau amgylcheddol yn agendâu sy’n cystadlu â’i gilydd. Mae’r Bil yn pennu bod cynhyrchu bwyd a nwyddau yn gynaliadwy yn un o’r pedwar amcan SLM ac felly mae’n gosod dyletswydd ar Weinidogion i ystyried sut orau y gallant gyflawni hyn ochr yn ochr â’r tri amcan arall wrth ddatblygu polisi yn y dyfodol. Mae annog cynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy hefyd wedi’i gynnwys yn y Bil fel diben ar gyfer cymorth yn y dyfodol.

Roedd yr ymatebion i ymgynghoriad Papur Gwyn Amaeth (Cymru) yn gadarnhaol ar y cyfan ond gyda chafeat bod angen manylion, yn enwedig o ran cymorth i amaethyddiaeth yn y dyfodol.

Rydym wedi cyhoeddi drafft o’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig. Nid dyma’r cynllun terfynol ond mae’n cynnwys manylion am y strwythur a’r camau y byddwn yn cefnogi ffermwyr i’w cymryd. Cynhaliwyd ail gam y cyd-ddylunio yn 2022 gan roi cyfle i’r sector lywio ein cynigion ymhellach a sicrhau eu bod yn gweithio i ffermwyr. Byddwn hefyd yn cynnal dadansoddiadau economaidd i lywio dyluniad y cynllun ymhellach, nodi effeithiau posibl a datblygu mesurau lliniaru lle y bo’n briodol.

Byddwn yn lansio ymgynghoriad ar ddyluniad terfynol y cynllun a’n dull o bontio yn 2023.

Felly, ffocws yr asesiadau effaith hyn yw’r pwerau galluogi a ddarperir gan y Bil. Bydd asesiad effaith pellach yn cael ei gynnal ar bolisi dilynol, fel yr un ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig.

*Coedwigaeth*

Mae’r Grŵp Rhanddeiliaid wedi bod yn gwbl glir ei fod o’r farn bod manteision y darpariaethau coedwigaeth i Fil Amaethyddiaeth (Cymru) 2022 yn sylweddol.

Fodd bynnag, mae cryn bryder o du’r sector coedwigaeth y gallai’r pwerau arwain at ‘ymgripiad cenhadaeth’ dros amser, gyda nifer cynyddol o amodau’n cael eu hychwanegu at drwyddedau a defnyddio pwerau i ddiwygio/atal/dirymu trwyddedau a roddwyd eisoes. Byddai hyn yn niweidiol i weithrediad y sector ac amcan Llywodraeth Cymru o sicrhau bod mwy o goetiroedd yn cael eu rheoli, a dymunwn osgoi hyn. Ceir darpariaeth yn y Bil i ganiatáu talu iawndal o dan Ddeddf Goedwigaeth 1967 pan gaiff hysbysiad i newid, atal neu ddirymu trwydded (waeth a fu tramgwydd neu os nad oes bai) ei ganslo wedi hynny o ganlyniad i apêl lwyddiannus. Gallai’r iawndal gynnwys gwerth y dibrisiant yn y pren a/neu gostau rhesymol a ysgwyddir, gan ddibynnu ar y math o drwydded a ganslwyd. Rhaid i’r potensial hwn i dalu iawndal a’r gofyn ar i CNC ddefnyddio’r pwerau a gynigir gydymffurfio ag egwyddorion Cyfraith Gyhoeddus, cod y rheoleiddwyr ac Egwyddorion Rheoleiddio CNC ei hun . Bydd hynny’n sicrhau bod y pwerau’n cael eu defnyddio lle bo hynny’n ofynnol, yn rhesymol ac yn gymesur.

*Tenantiaethau*

Roedd 79 y cant o’r ymatebwyr i ymgynghoriad 2019 yn cytuno’n gryf/cytuno â’r cynnig. Roedd pedwar y cant yn ansicr, roedd 18% yn anghytuno a 0% yn anghytuno’n gryf. Roedd y rhai a oedd yn cytuno yn tueddu i deimlo bod angen gweithdrefn ffurfiol, sy’n rhwymo’r ddau barti. Teimlai rhai

y byddai proses o'r fath yn hwyluso trafodaethau a negodiadau gwell rhwng landlord a thenant. Roedd rhai ymatebwyr a oedd yn anghytuno yn teimlo y byddai'n ymyrryd â thelerau contractau y cytunwyd arnynt, a dywedodd eraill y byddai'n amhriodol i denant allu gofyn am gael gwared ar gymal cyfyngol a rheoli'r tir yn groes i ddymuniadau hirsefydlog y tirfeddiannwr.

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y darpariaethau yn ateb cymesur i'r broblem drwy alluogi tenantiaidi herio cymalau cyfyngol os ydynt o'r farn eu bod yn rhwystr afresymol i allu cael cymorth ariannol. Mae'r rheoliadau gweithredu yn debygol o gynnwys darpariaethau tebyg i'r rhai sydd eisoes wedi'u gweithredu yn Lloegr, a ddatblygwyd drwy ymgynghori â rhanddeiliaid y diwydiant Grŵp y Diwydiant Diwygio Tenantiaethau i sicrhau dull teg a chytbwys rhwng buddiannau tenantiaid a landlordiaid. Mae'r rheoliadau'n darparu bod achosion yn cael eu penderfynu gan gymrodeddwr annibynnol neu (os yw'r ddau barti yn cytuno) drydydd parti. Cyfarwyddir y cymrodeddwr neu'r trydydd parti i ystyried:

- mwynhad tawel y tenant o'r daliad;
- buddiant gwrthdroadol y landlord yn y daliad;
- eiddo arall y landlord a'r tenant;
- tystiolaeth ynghylch amcanion sefydlog y landlord a'r tenant;
- dymunoldeb gwneud y newid lleiaf i'r denantiaeth sy'n rhesymol angenrheidiol i roi effaith i'r cyfryw amrywiad neu gymeradwyaeth y gall y cymrodeddwr neu'r trydydd parti ei gyfarwyddo neu ei chyfarwyddo.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod hyn yn taro cydbwysedd teg rhwng barn a buddiannau'r tenant a barn a buddiannau'r landlord. Byddai'r broses newydd yn rhoi cymhelliant i denantiaid a landlordiaid ddod i gytundeb a negodwyd er mwyn osgoi costau proses datrys anghydfod, gan ddarparu dewis olaf deddfwriaethol a dull o ddatrys i'r tenantiaid hynny na allant ddod i gytundeb rhesymol â'u landlord.

Heb droi at y dull datrys anghydfod hwn, gall rhai tenantiaid gael eu cyfyngu'n annheg rhag gallu manteisio ar ffrydiau incwm yn y dyfodol neu rhag cydymffurfio â dyletswyddau statudol, a byddai hynny'n effeithio ar ein gallu i gyflawni yn erbyn ein hamcanion strategol allweddol ac yn golygu risg o golled ariannol i'r tenant.

*Safonau Marchnata a Dosbarthu Carcasau*

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad Papur Gwyn ynghylch cynigion safonau marchnata yn gefnogol ond pwysleisiwyd yr angen am gysondeb rhwng gwahanol wledydd Prydain Fawr.[20] Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion i gymryd pwerau at ddibenion Dosbarthu Carcasau.

Pe na bai'r cymalau arfaethedig ar safonau marchnata yn cael eu cynnwys ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru), byddai Gweinidogion Cymru yn colli'r pwerau i greu rheoliadau safonau marchnata newydd yn y gadwyn amaethyddiaeth a chyflenwi bwyd. Ni fyddai peidio â chyflwyno'r pwerau hyn yn cael unrhyw effaith gadarnhaol amlwg. Gallai gwneud hyn rwystro marchnad fewnol y DU rhag

[20] Ibid. t.82

rhedeg yn esmwyth, pe bai gwledydd eraill y DU yn cyflwyno rheoliadau safonau marchnata newydd a Gweinidogion Cymru yn methu â gwneud hynny, a byddai'n golygu lleihau cyfrifoldebau Gweinidogion Cymru.

*Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol*

Roedd yr ymatebion i'r cynigion ar ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol yn ystyried ar y cyfan bod y cynigion yn werthfawr ac yn gymesur.[21]

Gan fod natur y cynnig hwn, i bob pwrpas, yn barhad o ran pwerau presennol, er o dan ddarn gwahanol o ddeddfwriaeth, mae ei effaith uniongyrchol yn fach neu'n ddibwys, er y gallai is-ddeddfwriaeth a grëir gan ddefnyddio'r pwerau hyn gael effaith fwy sylweddol. Caiff hyn ei adlewyrchu drwy'r asesiadau effaith hyn i gyd, ond rhaid ystyried pob agwedd yn ofalus o hyd er mwyn ystyried cydnawsedd ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[22].

Mae'n bwysig diffinio cwmpas yr asesiad hwn yma, gan mai dim ond rhan o linell waith hirach yw diben y darpariaethau. Gyda'r darpariaethau hyn, bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i fod â'r pŵer i ddeddfu is-ddeddfwriaeth os bydd tarfu difrifol ar y farchnad a rhoi cymorth ariannol i gynhyrchwyr amaethyddol o dan amgylchiadau o'r fath.

**Costau ac Arbedion**

*SLM a chymorth yn y dyfodol*

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn deillio o'r darpariaethau SLM a chymorth yn y dyfodol gan mai deddfwriaeth sylfaenol yw'r ffocws. Fodd bynnag, bydd goblygiadau o ran cost i unrhyw gynllun cymorth yn y dyfodol, gan gynnwys y CFfC arfaethedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal dadansoddiad economaidd o'r CFfC arfaethedig, a fydd yn ystyried effeithiau cynigion terfynol i fyny ac i lawr y gadwyn gyflenwi. Yn dilyn ymgynghoriad yn 2023, bydd cynigion y cynllun yn cael eu hadolygu a'r dadansoddiad economaidd yn cael ei ddiweddaru.

*Coedwigaeth*

Mae costau'n gysylltiedig â gweithredu'r pwerau o dan y cynnig hwn. Gweler y Dadansoddiad Cost a Budd sy'n cyd-fynd â'r Bil am asesiad o'r costau ac arbedion posibl.

*Tenantiaethau*

Bydd galluogi tenantiaid i herio unrhyw gymal yn eu prydlesi a allai gyfyngu ar eu gallu i gael mynediad at gynlluniau cymorth ariannol yn y dyfodol sy'n cael eu llywodraethu gan Fil Amaethyddiaeth (Cymru) neu i gydymffurfio â dyletswydd statudol yn cynyddu cyfanswm yr anghydfodau sy'n codi. Ar gyfer pob achos newydd, bydd cost i fusnes a fydd yn cael ei thalu gan y landlord, y tenant neu'r ddau (yn dibynnu ar natur yr achos).

---

[21] Ibid, tt.81-2

[22] Hanfodion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. t.6 https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf

Bydd costau amser i bob unigolyn, ond bydd hyn yn amrywio fesul achos. Mae natur anhysbys llawer o drafodaethau ac anghydfodau sydd wedi codi rhwng tenantiaid amaethyddol a thirfeddianwyr hyd yma yn ei gwneud yn amhosibl nodi'r gwir nifer a'r costau cysylltiedig. Mae hefyd yn amhosibl gwybod union nifer yr anghydfodau newydd a fydd yn codi o ganlyniad i'r ddarpariaeth hon ac mae meintioli yn arwain at risg o gamfarnu gormodol.

Fodd bynnag, rydym yn rhagweld na fydd y cynnig ond yn effeithio ar is-set fach o'r sector tenantiaid. Yn y rhan fwyaf o achosion, rydym yn disgwyl y bydd y broses newydd yn cymell tenantiaid a landlordiaid i ddod i gytundeb a negodwyd er mwyn osgoi costau datrys anghydfodau. Dim ond lleiafrif bach iawn na allant ddod i gytundebau a negodwyd a fydd yn dibynnu ar y darpariaethau pan fetho pob dim arall.

Mae'r asesiad hwn yn dibynnu ar gyngor gan arbenigwyr yn y diwydiant sy'n amcangyfrif y gallai'r darpariaethau arwain at ddeg i ugain o anghydfodau newydd y flwyddyn (1% o'r tenantiaethau), sy'n golygu bod angen penodi cymrodeddwyr. Mae'r mwyafrif llethol o anghydfodau (99%) yn cael eu setlo heb fod angen cyflafareddu llawn, gyda dim ond 1% yn mynd drwy'r broses gyfan. Byddai hyn yn cyfateb i uchafswm o un anghydfod yn mynd i gyflafareddu llawn y flwyddyn.

Gall y partïon dan sylw benodi cymrodeddwyr yn uniongyrchol lle gallant gytuno ynghylch pwy ddylai'r rheini fod, neu os na allant gytuno, person a benodir gan Gymdeithas y Gyfraith Amaethyddol (ALA), Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol (CAAV) neu Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Ar hyn o bryd, mae Rheoliadau Daliadau Amaethyddol (Ffi) 2022 yn pennu ffi benodi o £195.

Mae arbenigwyr yn y diwydiant yn amcangyfrif mai cost gyfartalog cyflafareddu llawn yw tua £25,000. Mae hyn yn cynnwys cost amser cymrodeddwr a ffioedd cysylltiedig ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol.

Mae'r costau'n llai lle penodir cymrodeddwyr ond lle daw'r partïon i gytundeb heb fod angen cyflafareddu llawn. Mae arbenigwyr yn y diwydiant yn amcangyfrif bod hyn yn costio oddeutu £15,000 fesul achos, yn bennaf drwy ffioedd cyfreithiol a osgowyd.

Mae penderfyniad arbenigol yn ddewis rhatach a chyflymach na chyflafareddu. Yn hytrach na bod partïon yn cyflwyno eu hachos i gymrodeddwr, maent yn cytuno i benodi trydydd parti a ddylai fod ag arbenigedd yn y mater y mae anghytundeb yn ei gylch. Mae'r person hwn yn adolygu'r dystiolaeth ac yn gwneud penderfyniad i setlo'r anghydfod. Mae'r penderfyniad yn rhwymo a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y gellir apelio yn ei erbyn neu ei herio. Mae'r broses fel arfer yn cymryd tri i chwe mis ac amcangyfrifir y bydd yn costio £5,000 ar gyfartaledd yn ôl asesiad TRIG yn 2014 i lywio Deddf Dadreoleiddio 2015. Bydd hyn wedi codi i tua £6,000 gan ystyried chwyddiant.

Felly, rydym yn amcangyfrif bod cyfanswm y gost i fusnesau rhwng £172,000 a £334,000 y flwyddyn.

I rai, gallai'r costau a'r amser sydd eu hangen i fynd drwy'r broses atal unigolion a busnesau rhag defnyddio'r darpariaethau. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y bydd y darpariaethau'n gymhelliant i denantiaid a landlordiaid ddod i gytundeb a negodwyd er mwyn osgoi costau datrys anghydfod, ond gan ddarparu dewis olaf deddfwriaethol i'r rhai na allant ddod i gytundeb rhesymol.

*Safonau Marchnata*

Gan mai dim ond creu deddfwriaeth sylfaenol newydd a chynnwys pwerau presennol yn y ddeddfwriaeth sylfaenol newydd honno yw nod y darpariaethau, mae llawer o'n dadansoddiad o'r costau a'r manteision yn seiliedig ar newidiadau posibl i is-ddeddfwriaeth gan ddefnyddio'r pwerau hyn. Mae'r holl ragfynegi costau a manteision yn ddamcaniaethol i ryw raddau, ond hyd yn oed yn fwy yn yr achos hwn gan ein bod yn ystyried effeithiau posibl y ddeddfwriaeth hon ynddi'i hun, a deddfwriaeth ddamcaniaethol i'w chreu yn ei sgil.

Gan nad yw'r pwerau arfaethedig yn ddarostyngedig i derfyn amser, ac y gallent fodoli felly am gyfnod amhenodol, pennir terfyn amser ein dadansoddiad i'r deng mlynedd ar ôl creu'r pwerau hyn. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb â'r canllawiau a nodir yn *Llyfr Gwyrdd* Trysorlys EM.[23]

*Dosbarthu Carcasau*

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynlluniau i ddiwygio safonau dosbarthu carcasau gwartheg a moch gan ddefnyddio'r pwerau arfaethedig hyn, ond mae diweddariadau i reoliadau o'r fath wedi'u gwneud yn gyson dros y blynyddoedd o ganlyniad i newidiadau i dechnoleg a threfniadaeth y farchnad. Mae'r polisi ar ddosbarthu carcasau defaid wrthi'n cael ei ddatblygu ac nid ydym eto'n gallu gwneud asesiad cadarn o'i effaith.

**Dull gweithredu**

Mae'r Bil yn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ochr yn ochr â Bil Amaethyddiaeth (Cymru).

[23] 2018, https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/938046/The_Green_Book_2020.pdf , t.42

# ADRAN 2. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT CYMDEITHASOL?

## 2.1 Pobl a Chymunedau

## Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar bobl a chymunedau?

*Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) a chymorth yn y dyfodol*

Dylai gosod SLM fel y fframwaith ar gyfer cymorth yn y dyfodol gael effaith gadarnhaol ar bobl a chymunedau drwy ddiogelu ein hadnoddau naturiol a chynhyrchu canlyniadau iechyd cadarnhaol i bobl Cymru. Mae SLM wedi'i ddylunio i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol, ac mae'n cyfrannu at y nodau llesiant a nodir yn Adran 4 o *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.* Bydd cymorth yn galluogi ffermwyr i gael eu gwobrwyo am gyflawni canlyniadau SLM ac am eu cyfraniad at iechyd a llesiant ein cenedl. Bydd hyn yn dod â manteision i ffermwyr, teuluoedd ffermio, cymunedau gwledig, defnyddwyr cynnyrch o Gymru a phobl Cymru.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd gwahanol grwpiau'n profi gwahanol effeithiau. Felly, rydym yn darparu asesiad manwl o'r effeithiau disgwyliedig ar unigolion, grwpiau a chymunedau penodol yn yr asesiadau effaith llawn, sydd i'w gweld yn Atodiadau'r ddogfen hon.

*Tenantiaethau*

Disgwyliwn i'r darpariaethau gael effaith gadarnhaol fach ar bobl a chymunedau drwy hwyluso cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol a mynediad at gynlluniau yn y dyfodol a ariennir o dan y dibenion cymorth, gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) arfaethedig, ar gyfer tenantiaid amaethyddol a allai fel arall fod wedi'u cyfyngu gan gymalau a ysgrifennwyd yn eu prydlesi sawl blwyddyn yn ôl. Po fwyaf o ffermwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun ac yn rheoli eu tir yn gynaliadwy, y mwyaf yw'r manteision i'r amgylchedd ac i'r cyhoedd.

*Safonau Marchnata*

Yn y pen draw, bydd rheoliadau a wneir yn y dyfodol drwy bwerau a roddir yn y cynnig hwn yn cael effaith ar bawb yng Nghymru, ond byddant yn cael effaith benodol ar berchnogion a gweithwyr busnesau amaethyddol a bwyd, sy'n bwysicach i'r economi wledig o gymharu â'r economi drefol. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, y bydd y darpariaethau hyn yn effeithio ar bob defnyddiwr yng Nghymru. Mae pawb yn bwyta bwyd, ac mae defnyddwyr yn dibynnu ar reoleiddio digonol i fod â hyder yn ansawdd y cynhyrchion y maent yn eu prynu.

Bydd y pwerau safonau marchnata yn y Bil yn parhau â gallu Gweinidogion Cymru i effeithio ar sut mae cynhyrchion amaethyddol yn cael eu cyflwyno i ddefnyddwyr yng Nghymru, gan gynnwys y defnydd o dermau sy'n cyfathrebu nodweddion neu briodoleddau sy'n ychwanegu gwerth. Yn ogystal â'r manteision hyn i'r defnyddiwr, mae busnesau sy'n cynhyrchu ac yn gwerthu nwyddau bwyd yn elwa ar effeithlonrwydd cynyddol safonau wedi'u cysoni ar draws y gadwyn cyflenwi bwyd.

*Dosbarthu Carcasau*

Mae’r pwerau i Weinidogion Cymru bennu safonau dosbarthu carcasau, pan gânt eu defnyddio, o fudd i gymunedau gwledig yn benodol, oherwydd dibyniaeth uwch ar amaethyddiaeth yng nghefn gwlad. Pe bai is-ddeddfwriaeth yn cael ei rhoi ar waith i ddiwygio safonau ar gyfer rheoliadau dosbarthu cig defaid, gwartheg neu foch, byddai’r manylion hyn yn cael eu harchwilio ymhellach yn yr asesiadau effaith a ysgrifennir ar gyfer y gwaith hwnnw.

*Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol*

Mae’r pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol, pan gânt eu defnyddio, o fudd i gymunedau gwledig yn benodol, oherwydd dibyniaeth uwch ar amaethyddiaeth yng nghefn gwlad. Pe bai is-ddeddfwriaeth yn cael ei rhoi ar waith i lansio cynllun ymyrryd, byddai’r manylion hyn yn cael eu harchwilio ymhellach yn yr asesiadau effaith a ysgrifennir ar gyfer y gwaith hwnnw.

## 2.2 Hawliau Plant

*SLM a chymorth yn y dyfodol*

Gweler Atodiad A am yr Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant.

*Tenantiaethau*

Disgwyliwn i’r darpariaethau gael effaith gadarnhaol fach ar bobl a chymunedau drwy hwyluso cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol a mynediad at y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig ar gyfer tenantiaid amaethyddol a allai fel arall fod wedi’u cyfyngu gan gymalau a ysgrifennwyd yn eu prydlesi sawl blwyddyn yn ôl. Rhagwelir y bydd mynediad at ffrydiau ariannu yn y dyfodol yn cael effaith gadarnhaol ar blant ffermwyr tenant o’r fath drwy wneud y busnes yn fwy cadarn yn economaidd.

Yn ogystal, bydd cyflawni amcanion SLM yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant, nawr ac yn y dyfodol; mae’r fframwaith SLM yn ategu’r nodau llesiant yn Adran 4 o *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015*.

## 2.3 Cydraddoldeb

Gweler Atodiad B am yr Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb.

## 2.4 Prawfesur Gwledig

**Sut (naill ai’n gadarnhaol neu’n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar unigolion a gwledig?**

*SLM a chymorth yn y dyfodol*

Gweler Atodiad C am yr Asesiad o’r Effaith o ran Prawfesur Gwledig.

*Coedwigaeth*

Mae’r cynigion yn rhan o’r drefn bresennol o drwyddedau cwympo coed sy’n darparu cyflogaeth ac incwm gwledig drwy refeniw pren.

*Tenantiaethau*

Bydd y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â thenantiaethau yn effeithio ar rai unigolion a chymunedau gwledig sydd â chysylltiadau â daliadau â thenant. Rhagwelir y bydd y darpariaethau'n rhoi cymhelliant i'r rhan fwyaf o denantiaid a landlordiaid ddod i gytundeb a negodwyd ynghylch cydymffurfio â dyletswyddau statudol a mynediad at ffrydiau ariannu yn y dyfodol er mwyn osgoi costau datrys anghydfod. Dim ond pan fetho popeth arall y bydd nifer fach o ffermwyr sy'n denantiaid yn dibynnu ar y darpariaethau lle na ellir dod i gytundebau a negodwyd. Nodir costau cyflafareddu a phenderfyniadau trydydd parti yn Adran 1.

Ni fydd y darpariaethau:

- yn cael effaith benodol ar bobl sy'n byw mewn ardaloedd tenau eu poblogaeth na phobl sydd ar wahân yn ddaearyddol;
- yn effeithio ar fynediad at wasanaethau i bobl wledig;
- yn cael effaith wahaniaethol ar bobl hŷn;
- yn effeithio ar dai mewn ardaloedd gwledig;
- yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg;
- yn cael effaith ar dlodi mewn gwaith a thlodi tanwydd.

Am y rhesymau hyn, nid oes angen Asesiad o'r Effaith o ran Prawfesur Gwledig llawn mewn perthynas â'r darpariaethau tenantiaeth.

*Safonau Marchnata*

Mae asesiad o effeithiau'r darpariaethau Safonau Marchnata ar ardaloedd gwledig i'w weld yn Atodiad C.

*Dosbarthu Carcasau*

Mae asesiad o effeithiau'r darpariaethau Dosbarthu Carcasau ar ardaloedd gwledig i'w weld yn Atodiad C.

*Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol*

Mae asesiad o effeithiau'r darpariaethau Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol ar ardaloedd gwledig i'w weld yn Atodiad C.

## 2.5 Iechyd

### Crynodeb o'r effeithiau a ragwelir

*SLM a chymorth yn y dyfodol*

Rhagwelir y bydd SLM a'r pwerau ar gyfer cymorth yn cael amryw o effeithiau iechyd ar y cyhoedd ac ar y gymuned ffermio. Mae'r Bil yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer SLM fel fframwaith polisi'r dyfodol ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru, gydag amcanion strategol yn cwmpasu cynhyrchu bwyd, lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, gwytnwch ecosystemau a gwarchod a

gwella diwylliant a chefn gwlad. Bydd hyn yn paratoi'r ffordd ar gyfer mecanweithiau cymorth yn y dyfodol a fydd yn helpu i gyflawni SLM. Yn benodol:

- Gwelliannau amgylcheddol sy'n cynnig manteision iechyd corfforol i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae'r fframwaith SLM wedi'i ddylunio i gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd, gyda manteision iechyd cysylltiedig i bobl Cymru. Yn benodol, mae gwell ansawdd aer a dŵr a llai o berygl llifogydd yn cael eu gosod fel dau o'r dibenion ar gyfer cymorth yn y dyfodol;
- Atal, rheoli a dileu clefydau anifeiliaid, a fydd yn cyfrannu at fwyd mwy diogel, gwella iechyd y cyhoedd a lleihau'r risg i bobl o glefydau fel salmonelosis. Mae cyflawni a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid yn cael ei osod fel diben ar gyfer cymorth;
- Cyfleoedd i gynyddu gweithgarwch corfforol drwy wella cyfleoedd mynediad i'r cyhoedd a chyswllt â natur, ac effeithiau cadarnhaol hyn ar iechyd corfforol a meddyliol y boblogaeth. Mae cynnal a gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad wedi'i osod fel diben ar gyfer cymorth.

Fodd bynnag, mae gan lefel y newid y potensial i gael effeithiau negyddol ar iechyd meddwl ffermwyr os na chaiff ei reoli'n briodol. Bydd cyngor, arweiniad a chymorth clir yn bwysig i helpu i liniaru hyn. Yn ogystal, bydd cyfnod pontio o sawl blwyddyn i roi sefydlogrwydd i ffermwyr wrth symud o Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) presennol i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) arfaethedig. Ni fydd taliadau unrhyw ffermwr yn dod i ben yn sydyn, hyd yn oed os ydynt yn dewis peidio â chymryd rhan yn y cynllun newydd. Rydym yn parhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid i ddeall materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl ac i sicrhau bod mesurau lliniaru addas ar waith lle mae materion yn codi.

Rydym wedi nodi nifer o effeithiau a allai fod yn sylweddol ar iechyd yn y Bil.

Drwy gydol y broses o ddatblygu'r polisi, mae camau lliniaru a nodwyd yn ein hasesiad effaith cychwynnol wedi'u cynnwys; disgrifir y rhain isod yn adran 2.5a.

*Tenantiaethau*

Disgwyliwn i'r darpariaethau gael effaith gadarnhaol fach ar bobl a chymunedau drwy hwyluso cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol a mynediad at y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig ar gyfer tenantiaid amaethyddol a allai fel arall fod wedi'u cyfyngu gan gymalau a ysgrifennwyd yn eu prydlesi sawl blwyddyn yn ôl. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol fach iawn ar benderfynyddion iechyd allweddol iechyd y cyhoedd o ganlyniad i ddefnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol a mwy o gyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad. Dylai fod manteision hirdymor i fioamrywiaeth, ansawdd aer, ansawdd dŵr, perygl llifogydd ac iechyd anifeiliaid.

Gall straen a chostau cyflafareddu gael rhai effeithiau negyddol ar iechyd meddwl y lleiafrif eithriadol o fach o denantiaid a landlordiaid a allai ddefnyddio'r darpariaethau. Nid yw'n briodol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau gan fod cytundebau tenantiaeth amaethyddol yn gontractau preifat rhwng tenantiaid a landlordiaid. Mae'r ddwy ochr yn debygol o geisio cyngor proffesiynol ar eu hamgylchiadau penodol mewn perthynas â'r darpariaethau hyn. Fodd bynnag, datblygwyd canllawiau a arweinir gan y diwydiant gan TRIG ac mae ar gael yn eang i denantiaid, landlordiaid a chynghorwyr proffesiynol drwy gyrff sy'n cynrychioli'r diwydiant, gan gynnwys Cymdeithas y Ffermwyr Tenant, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, y Gymdeithas Tir a Busnesau

Cefn Gwlad, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, Cymdeithas y Gyfraith Amaethyddol a Chymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol.

*Safonau Marchnata*

Dylai'r darpariaethau gael effaith fach ar benderfynyddion iechyd. Bydd hyn yn wahanol ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y pwerau a gynigir yma, lle bydd cynnwys cynnyrch amaethyddol a bwyd yn effeithio ar iechyd pobl.

*Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol*

Gallai is-ddeddfwriaeth a wneir drwy bwerau Ymyrryd yn y Farchnad gael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl ffermwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol. Mae'n debygol na fyddai'r darpariaethau'n cael fawr o effaith ar iechyd corfforol.

**2.5a Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar benderfynyddion iechyd?**

Rydym yn ystyried penderfynyddion o dan y penawdau canlynol, a gall pob un ohonynt fod â nifer o is-adrannau perthnasol:

- *Ffyrdd o fyw*
- *Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd*
- *Lles meddyliol*
- *Amodau byw/amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd*
- *Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd*
- *Mynediad i wasanaethau ac ansawdd gwasanaethau*
- *Ffactorau macroeconomaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd*

## Ffyrdd o fyw

Dylai'r Bil ddarparu manteision cymedrol i benderfynyddion iechyd pobl Cymru sy'n ymwneud â ffordd o fyw. Dylai gwell cyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad, ymgysylltu ag ef a'i fwynhau gyfrannu at well canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol i'r boblogaeth gyffredinol, fel y dylai gwelliannau mewn diogelwch bwyd sy'n deillio o godi safon iechyd a lles anifeiliaid.

*Deiet ac Iechyd y Cyhoedd*

Mae cyflawni a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid yn un o'r dibenion SLM ar gyfer cymorth a nodir yn y Bil. Bydd hyn yn caniatáu darparu cymorth i atal, rheoli a dileu clefydau anifeiliaid, gan gyfrannu at fwyd mwy diogel a gwella iechyd y cyhoedd. Gall lleihau'r risg i bobl o

glefydau fel salmonelosis helpu i leihau'r galw ar wasanaethau iechyd a'r angen am driniaeth wrthfiotig[24].

Mae da byw llai iach yn llai effeithlon ac yn debygol o fod ag allyriadau nwyon tŷ gwydr dwysedd uwch h.y. maent yn cynhyrchu mwy o gilogramau o nwyon tŷ gwydr fesul cilogram o allbwn bwytadwy. Mae gwaith a gomisiynwyd gan Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (UKCCC) wedi nodi mai gwella iechyd anifeiliaid yw un o'r mesurau lliniaru mwyaf effeithiol. Bydd anifeiliaid iachach a mwy cynhyrchiol yn arwain at lai o lygredd ac allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac felly'n lleihau'r risg i iechyd pobl[25].

Ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR) yw un o'r bygythiadau hirdymor mwyaf i iechyd pobl, yng Nghymru ac yn fyd-eang. Mae effeithiau AMR heb eu lliniaru yn eang ac yn hynod gostus, nid yn unig yn ariannol, ond hefyd o ran iechyd byd-eang, diogelwch bwyd, lles amgylcheddol a datblygiad economaidd-gymdeithasol. Eisoes, amcangyfrifir bod AMR yn achosi o leiaf 700,000 o farwolaethau ar draws y byd bob blwyddyn. Rhagwelir y bydd y ffigur hwnnw'n codi i 10 miliwn, ynghyd â chost gronnol o $100 triliwn, erbyn 2050 heb weithredu[26].

Bydd AMR hefyd yn effeithio ar Gymru os na chaiff ei reoli, er nad yw gwaith i fesur yr effaith o ran bywydau a gollir wedi'i wneud eto.

Mae AMR yn cael ei sbarduno gan y defnydd o wrthfiotigau. Rhan o'r dull rheoli yw lleihau'r defnydd o wrthfiotigau, mewn anifeiliaid, p'un a ydynt yn cael eu ffermio neu eu cadw at ddibenion eraill, ac mewn pobl. Ar gyfer anifeiliaid fferm, mae hyn yn golygu eu cadw mor iach â phosibl mewn systemau cynhyrchu iechyd uchel. Mae hyn yn lleihau'r angen i ddefnyddio gwrthfiotigau ac felly'n lleihau'r risg o ddatblygu AMR. Mae egwyddorion SLM wedi'u dylunio i sbarduno cynhyrchu da byw iach, gan fabwysiadu dull 'atal yn well na gwella', a fyddai felly'n helpu i fynd i'r afael â'r mater AMR.

*Ffyrdd o Fyw a Gweithgarwch Corfforol*

Un o'r ffyrdd mae ffermwyr yn cefnogi lles corfforol a meddyliol y boblogaeth gyffredinol yw drwy gynnal a chadw cefn gwlad a hawliau tramwy. Mae cefn gwlad Cymru yn darparu lle ar gyfer gweithgarwch corfforol sy'n cyfrannu at les corfforol a meddyliol. Dangoswyd bod treulio amser yng nghefn gwlad yn cael effeithiau cadarnhaol ar iechyd a lles meddyliol[27]. Mae ffermwyr yn rheoli tua 90% o'r tir yng Nghymru[28], sy'n cynnwys 16,000 o filltiroedd o lwybrau troed, 3,000 o filltiroedd o

---

[24] https://www.theccc.org.uk/publication/non-co2-abatement-in-the-uk-agricultural-sector-by-2050-scottish-rural-college/

[25] https://www.theccc.org.uk/publication/non-co2-abatement-in-the-uk-agricultural-sector-by-2050-scottish-rural-college/

[26] WHO (2019), No time to Wait: Securing the future from drug resistant infections

[27] Pretty, J., Griffin, M., Peacock, J., Hine, R., Sellens, M., a South, N. (2005). A countryside for health and wellbeing: the physical and mental health benefits of green exercise. Countryside Recreation Network, Prifysgol Sheffield Hallam.

[28] Naill ai drwy dir fferm neu dir comin. https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-12/arolwg-or-cyfrifiad-amaethyddol-garddwrol-mehefin-2020-913.pdf

lwybrau ceffylau, 1,200 o filltiroedd o rwydwaith beicio a 460,000 hectar o dir mynediad agored[29], yn ogystal â gwrychoedd, waliau cerrig sych a nodweddion tirwedd eraill.

Bydd SLM a'r pwerau cymorth yn galluogi darpariaeth ar gyfer mynediad cyhoeddus i gefn gwlad. Mae gwell mynediad ac ymgysylltiad yn un o'r dibenion i gefnogi'r amcan strategol o warchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol ac i hyrwyddo mynediad cyhoeddus iddynt ac ymgysylltiad â nhw. Dylai hyn gynyddu lefelau hamdden a mwynhad o gefn gwlad Cymru ymysg pobl Cymru ac ymwelwyr â Chymru.

Ceir corff sylweddol o dystiolaeth sy'n cefnogi'r syniad y gallai cyfleoedd ehangach i'r cyhoedd gael mynediad i gefn gwlad hefyd arwain at fanteision ychwanegol i iechyd y cyhoedd. Er enghraifft:

- Daeth adolygiad yn 2007[30] o'r cysylltiadau rhwng yr amgylchedd naturiol a lles i'r casgliad canlynol "*The natural environment provides physical, mental and social well-being benefits. There are synergistic effects between these benefits"*. Nododd hefyd *"…increased levels of physical activity are known to have both a preventative role in cardiovascular and musculo-skeletal diseases and inhibiting stroke and cancer. It also has a positive effect on range of health determinants such as body weight, blood pressure, cholesterol levels and so forth".*
- Daeth astudiaeth yn 2007[31] yn edrych ar effeithiau amrywiaeth o weithgareddau gwyrdd cefn gwlad ar iechyd meddwl ledled y DU i'r casgliad canlynol *"... green exercise generates mental health benefits regardless of the level of intensity, duration or type of green activity undertaken".* Nododd yr astudiaeth fod yr holl gyfranogwyr yn dangos "*significant improvement in their self-esteem and total mood disturbance… factors of anger-hostility, confusion-bewilderment, depression-dejection and tension-anxiety all significantly improved post-activity."*
- Gwerthusodd astudiaeth yn 2009[32] newidiadau mewn hunan-barch a hwyliau ar ôl cerdded mewn pedwar gwahanol safle naturiol a threftadaeth English National Trust, gan ganfod "*Feelings of anger, depression, tension and confusion all significantly reduced and vigour increased. Thus, the environment plays an important role in facilitating physical activities and helping to address sedentary behaviours. Walking, in particular, can serve many purposes including exercise, recreation, travel, companionship, relaxation and restoration. However, walking in greenspaces may offer a more sustainable option, as the primary reward is enhanced emotional well-being through both exposure to nature and participation in exercise."*

---

[29] NFU Cymru (2017), Ffermio – Creu Cymru Unedig.

[30] Newton, J. (2007). Wellbeing and the Natural Environment: A brief overview of the Evidence, Prifysgol Caerfaddon.

[31] Roedd y gweithgareddau'n cynnwys cadwraeth, cerdded, beicio mynydd, gweithgareddau coetir, marchogaeth, cychod a physgota. Pretty, J., Peacock, J., Hine, R., Sellens, M., South, N., a Griffin, M. (2007). Green exercise in the UK countryside: Effects on health and psychological wellbeing, and implications for policy and planning. *Journal of environmental planning and management*, *50*(2), 211-231.

[32] Barton, J., Hine, R., a Pretty, J. (2009). The health benefits of walking in greenspaces of high natural and heritage value. *Journal of Integrative Environmental Sciences*, *6*(4), 261-278.

- Dangosodd astudiaeth yn y Ffindir yn 2023[33] fod cysylltiad rhwng ymweld yn aml â mannau gwyrdd a defnyddio llai o feddyginiaethau seicotroffig, atal pwysedd gwaed uchel ac asthma i'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd trefol. Ni welwyd y cysylltiad hwnnw â mannau gwyrdd neu las preswyl nac â gweld golygfeydd gwyrdd neu las o'r cartref.

Serch hynny, ni fydd gwella mynediad i gefn gwlad yn cael effaith sylweddol ar iechyd y cyhoedd oni bai bod mwy o ddefnydd ohono. Mae amcanion strategol y Bil yn cynnwys hyrwyddo mynediad i gefn gwlad ac ymgysylltiad ag ef, a byddwn yn ystyried y ffordd orau o gyflawni'r amcan hwn drwy gymorth yn y dyfodol.

Mae SLM a'r pwerau cymorth wedi'u dylunio i gefnogi'r cyhoedd i gael mynediad diogel i gefn gwlad, ac wedyn elwa ar ganlyniadau iechyd gwell. Bydd cynlluniau yn y dyfodol, gan gynnwys y CFfC arfaethedig, yn gallu cefnogi cynnydd yng nghyfran yr hawliau tramwy cyhoeddus sydd ar agor, yn hawdd eu defnyddio a chydag arwyddion da.

*Maglau a thrapiau glud*

Bydd y ddarpariaeth yn y Bil i wahardd maglau yn rhoi sicrwydd bod lles anifeiliaid yng nghefn gwlad yn flaenoriaeth uchel o hyd. Ar hyn o bryd, mae maglau yn achosi poen a dioddefaint sylweddol i lwynogod ac i rywogaethau nad ydynt yn dargedau megis moch daear ac anifeiliaid anwes (h.y. cŵn a chathod), ac mae gwahardd eu defnyddio yn gam pwysig tuag at ddiogelu anifeiliaid rhag niwed yng Nghymru.

Mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r farn bod trapiau glud yn greulon hefyd – maent yn aml yn achosi dioddefaint meddyliol a chorfforol estynedig i'r anifail sy'n cael ei ddal. Mae'r astudiaethau achos o anifeiliaid anwes ac anifeiliaid gwyllt sydd wedi cael eu dal mewn trap glud wedi cael llawer o sylw cyhoeddus, ond y realiti yw bod y potensial i ddioddef yn gyffredinol i bob bod, gan gynnwys y rhai a ystyrir yn 'bla'. Mae yna ddigon o ddulliau amgen a llai creulon o reoli cnofilod neu eu hatal yn y lle cyntaf ar gael. Mae'r gwaharddiad ar drapiau glud yn gam pwysig arall tuag at wella lles anifeiliaid yng Nghymru.

## Diogelwch ar Ffermydd

Mae data gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)[34] yn dangos y bu saith marwolaeth ar ffermydd yng Nghymru yn 2020-21, o gymharu â chyfartaledd symudol pum mlynedd (2016-17 i 2020-21) o bump y flwyddyn. Mae llawer mwy wedi cael eu hanafu'n ddifrifol neu wedi mynd yn sâl ac o ganlyniad yn methu gweithio. Mae iechyd a diogelwch ar ffermydd yn un o ofynion sylfaenol busnes ffermio cynaliadwy a dylid ei ystyried yn rhan hanfodol o reoli busnes fferm. Wrth i'n cynigion ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ddatblygu, byddwn yn

---

[33] Turunen AW, Halonen J, Korpela K*, et al*. Cross-sectional associations of different types of nature exposure with psychotropic, antihypertensive and asthma medication. *Occupational and Environmental Medicine* 2023;**80:**111-118. (https://oem.bmj.com/content/80/2/111)

[34] Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (2018). Fatal injuries in agriculture, forestry and fishing in Great Britain 2017/18.

ystyried sut y gallai Datblygiad Proffesiynol Parhaus gynnwys diogelwch ar ffermydd. Disgwylir y bydd nodi a rheoli risgiau'n briodol, ynghyd â lefelau uchel o addysg a sgiliau, yn arwain at wella safonau iechyd a diogelwch ar ffermydd.

## Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd

Mae adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru[35] yn nodi nifer o ffynonellau ansicrwydd a heriau allweddol sydd â'r potensial i effeithio ar les ffermwyr, ac un ohonynt yw teimlo'n ynysig ac yn unig. Ceir tystiolaeth y gall cymryd rhan mewn cynlluniau amgylcheddol liniaru rhai o'r problemau lles hyn. Er enghraifft, nododd adroddiad UK LIFE[36] ar brosiect Burren LIFE yn Iwerddon y canlynol "*Another initially unforeseen benefit of the subcontracted conservation work was its ability to offset the social isolation that many farmers experience as the work was usually carried out by teams of at least two and provided an opportunity for social interaction".*

Yn yr un modd, nododd arolwg[37] o gyfranogwyr Stiwardiaeth Amgylcheddol (ES) yn Lloegr y gall ES chwarae "...*an important part in developing new social contacts and networks. Of the advisors used by agreement holders, 40% were not known to them previously, which indicates these agreement holders had to reach out beyond the established social networks around their farm or business for this expertise. This was particularly the case for HLS [Higher Level Stewardship] agreement holders and for the lowland dairy and livestock farms. These new linkages and flows of information can potentially lead to profound changes in social and business activity*." Canfu'r arolwg fod cynlluniau ES, yn enwedig HLS, hefyd wedi dod â deiliaid cytundebau i gysylltiad â mwy o ffermwyr a'r cyhoedd. Mae'n ymddangos y gellir rhoi gwerth mawr ar y cyswllt cymdeithasol a ddaw yn sgil aelodaeth o gynllun (cynnal neu fynychu teithiau fferm, cyfarfodydd i drafod opsiynau, ymweliadau gan gynghorwyr).

Mae'r dystiolaeth uchod yn awgrymu y gallai ariannu camau SLM cydweithredol ymysg ffermwyr, a rhwng ffermwyr ac aelodau o'r gymuned ehangach, leihau ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd ymysg cyfranogwyr y cynllun, ac felly cyfrannu at well iechyd meddwl ymhlith ffermwyr. Caiff hyn ei ystyried ymhellach wrth i gynigion ar gyfer y CFfC gael eu datblygu.

## Lles meddyliol

Mae SLM a'r pwerau cymorth wedi'u dylunio i gefnogi cyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad a'i fwynhau, gan gyfrannu at well canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol i'r boblogaeth gyffredinol. Mae effeithiau cadarnhaol nodweddion tirwedd ar lesiant y rhai sy'n treulio amser yn yr

[35] Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Sefydliad Iechyd Meddwl (2019). Cefnogi cymunedau ffermio yn ystod cyfnodau o ansicrwydd. Fframwaith gweithredu i gefnogi iechyd meddwl a lles ffermwyr a'u teuluoedd.

[36] Adroddiad Terfynol Technegol (LIFE04NAT/IE/000125). Burren LIFE Farming for Conservation in the Burren.

[37] Mills, J., et al. (2010). Estimating the Incidental Socioeconomic Benefits of Environmental Stewardship Schemes. Final Report. Countryside and Community Research Institute.

amgylchedd naturiol yn cael eu hamlinellu yn yr adroddiad *"A Countryside for Health and Wellbeing: The Physical and Mental Health Benefits of Green Exercise"* [38].

Yn ogystal ag iechyd a lles cymdeithas yn gyffredinol, mae iechyd meddwl ffermwyr yn ystyriaeth bwysig, gan fod y diwygiadau sy'n deillio o SLM a chymorth yn y dyfodol yn debygol o gael effaith fwy amlwg ar eu bywydau o ddydd i ddydd o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. O ran mynediad, nododd arolwg gan y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol (NSA)[39] fod ffermwyr wedi gweld cynnydd mewn ymosodiadau poeni defaid gan gŵn ers dechrau'r pandemig Covid-19, wrth i berchnogaeth cŵn a mynediad i gefn gwlad gynyddu. Mae cynnydd mewn sbwriel hefyd wedi cael ei adrodd yn eang yn y cyfryngau. Rydym yn cydnabod y gall cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â chefn gwlad, os na chaiff ei reoli'n briodol, gael effaith ddofn ar iechyd meddwl ffermwyr, gydag ymatebwyr i arolwg yr NSA yn nodi teimladau o bryder, dicter, gofid, straen a rhwystredigaeth. Cyflwynwyd mesurau newydd i fynd i'r afael â phoeni da byw yng Nghymru a Lloegr yn 2021[40] er mwyn lliniaru'r mater hwn.

Mae data rhyngwladol yn dangos bod gan ffermio nifer uchel o achosion o hunanladdiad o gymharu â galwedigaethau eraill, a gall ynysigrwydd cymdeithasol yn y gwaith fod yn ffactor pwysig yn hyn o beth[41]. Yng Nghymru, dangosodd data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod 32 o ffermwyr wedi marw drwy hunanladdiad rhwng 2011 a 2019 (31 o ddynion ac 1 fenyw). Fel grŵp galwedigaeth yn ôl y Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC), Ffermwyr (cod SOC 5111) oedd yr 11eg categori galwedigaeth uchaf yn gydradd â sector arall) ar gyfer nifer yr achosion o hunanladdiad ymhlith dynion yn 2019.

Mae adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru[42] a grybwyllir uchod yn nodi *"... Gall delio ag ansicrwydd gynyddu gorbryder a chael effaith niweidiol ar les meddyliol, ymhlith ffermwyr, eu teuluoedd a chymunedau gwledig. Mae ffermwyr yn profi lefelau uchel o straen a gorbryder oherwydd ymdeimlad bod ganddynt lai o reolaeth dros brosesau'r sector ffermio (cystadleuaeth, rheoleiddio a phrisiau) a'r amgylchedd ehangach sy'n effeithio ar arferion ffermio (clefydau a'r tywydd). Mae ffermwyr yn wynebu risg uwch o deimlo ar adegau nad yw bywyd yn werth ei fyw, nad oes ganddynt gymorth cymdeithasol, ac maent wedi'u nodi fel grŵp galwedigaethol sydd â risg uwch o hunanladdiad"*.

Mae'r adroddiad yn nodi chwe her a ffynhonnell ansicrwydd allweddol sydd â'r potensial i effeithio ar iechyd meddwl a lles ffermwyr:

---

[38] Pretty, J., Griffin, M., Peacock, J., Hine, R., Sellens, M., a South, N. (2005). A Countryside for Health and Wellbeing: The Physical and Mental Health Benefits of Green Exercise – Executive Summary. *Countryside Recreation Network*.

[39] https://www.nationalsheep.org.uk/for-the-public/culture/sheep-worrying/survey-results/

[40] https://www.gov.uk/government/news/crackdown-on-livestock-worrying-in-england-and-wales

[41] Roberts SE, Jaremin B, Lloyd K. High-risk occupations for suicide. *Psychol Med*. 2013;43(6):1231-1240.; Stark, C., Gibbs, D., Hopkins, P., Belbin, A., Hay, A., a Selvaraj, S. (2006). Suicide in farmers in Scotland.

[42] Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Sefydliad Iechyd Meddwl (2019). Cefnogi cymunedau ffermio yn ystod cyfnodau o ansicrwydd. Fframwaith gweithredu i gefnogi iechyd meddwl a lles ffermwyr a'u teuluoedd

1. Ansicrwydd a hyfywedd ffermio yng Nghymru;
2. Cynllunio olyniaeth;
3. Rheoleiddio, gwaith gweinyddol a digideiddio;
4. Ffermwyr yn blaenoriaethu eu hiechyd eu hunain;
5. Ynysigrwydd ac unigrwydd (*manylion yn 'Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol' uchod*);
6. Y diwylliant ffermio a'r disgwyliadau ohono.

Rydym yn gwneud sylwadau ar bob mater isod mewn perthynas ag SLM a'r pwerau cymorth.

*1. Ansicrwydd a hyfywedd ffermio yng Nghymru*

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi bod y *"...broses Brexit wedi creu ansicrwydd ariannol a rheoleiddiol sylweddol, yn arbennig i ffermwyr. Mae sefyllfaoedd masnachu ac ansicrwydd rheoleiddiol ar ôl Brexit yn cael eu cydnabod fel heriau i'r diwydiant ffermio yng Nghymru."* Er bod yr egwyddorion a'r cyfeiriad polisi ar gyfer cymorth yn y dyfodol wedi'u nodi yn y Bil*,* mae ansicrwydd o hyd ynghylch natur cydberthnasau masnachu'r DU mewn cynnyrch amaethyddol nawr ein bod wedi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE).

Mae'r Bil yn nodi diwygiad sylweddol i bolisi amaethyddol a chymorth i amaethyddiaeth drwy'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy, a gall hyn achosi ansicrwydd i'r sector ffermio. Rydym yn cynnig lliniaru hyn drwy lunio a gweithredu cynllun cyfathrebu cynhwysfawr sy'n annog pawb sy'n dymuno cyfrannu i wneud hynny drwy weithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Bydd rhagor o fanylion am y cynllun arfaethedig yn cael eu rhannu â rhanddeiliaid fel rhan o'r broses gyd-ddylunio barhaus. Bydd hyn yn cyfrannu at fwy o wybodaeth a llai o ansicrwydd ynghylch y cynllun arfaethedig o fewn y gymuned ffermio. Ymhen amser, bydd y Bil yn rhoi mwy o sefydlogrwydd i ffermwyr gan ei fod yn nodi'r dull hirdymor o roi cymorth amaethyddol yng Nghymru. Yn benodol, "Gwella cadernid busnesau amaethyddol" yw un o ddibenion y cymorth a nodir yn y Bil, sy'n golygu y gellir rhoi cymorth yn y dyfodol ar gyfer gweithredoedd sy'n gwneud cyfraniad positif at hyfywedd ffermio yng Nghymru. Ystyrir bod gwytnwch busnesau amaethyddol yn rhan o gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy yn amcanion y Bil.

Yn ogystal, bydd pontio wedi'i reoli rhwng y BPS presennol a'r CFfC arfaethedig. Mae hyn yn golygu na fydd ffermwyr yn profi newidiadau sydyn i'w taliadau a bydd cynlluniau i helpu ffermwyr i baratoi ar gyfer cyflwyno'r CFfC cyn ei lansio.

*2. Cynllunio olyniaeth*

Canfu adolygiad mawr[43] o strategaethau olyniaeth ffermydd fod *"the probability of intra-family succession increases with farm performance, which was measured in annual farm revenues"* a *"family farms that pursue innovative and sustainable business strategies are expected to have a higher probability of succession because they are more attractive for the next generation".* Rydym eisoes wedi amlinellu[44] y dylai'r cynllun arfaethedig fod ar gael i bob fferm ac y dylai ddarparu ffrwd refeniw bwysig ar gyfer ffermydd sy'n cymryd rhan. Dylai hyn helpu i gefnogi ffermydd i gynllunio ar

---

[43] Suess-Reyes, J., a Fuetsch, E. (2016). The future of family farming: A literature review on innovative, sustainable and succession-oriented strategies. *Journal of rural studies*, *47*, 117-140.

[44] Llywodraeth Cymru (2019). Ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir.

gyfer eu busnesau yn y tymor hir. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth y bydd y fframwaith SLM a'r pwerau cymorth yn cael effaith negyddol ar gynllunio olyniaeth ffermydd; yn wir, mae'r ddeddfwriaeth wedi'i dylunio i hyrwyddo cynaliadwyedd busnesau ffermio, yn ogystal â chynaliadwyedd amgylcheddol, yn enwedig trwy'r diben cymorth i wella gwytnwch busnesau amaethyddol, a gobeithiwn weld effaith gadarnhaol ar gynllunio olyniaeth ffermydd. Wrth i ni ddylunio Cynllun Ffermio Cynaliadwy i'r dyfodol, rydym yn archwilio ffyrdd y gallwn gynnig cymorth i ffermwyr o ran olyniaeth.

*3. Rheoleiddio, gwaith gweinyddol a digideiddio*

Mae adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi bod deall a chydymffurfio â rheoliadau yn her allweddol i gynnal iechyd a lles meddyliol da ffermwyr a rheolwyr tir. Mae hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ailedrych ar y cynnydd a wnaed yn dilyn adroddiad *Hwyluso'r Drefn 2011*[45].

Gall difa unrhyw anifail cyn amser, a diboblogi daliadau cyfan yn llwyr mewn rhai achosion, gael effaith andwyol sylweddol ar les meddyliol ceidwaid da byw na all iawndal yn unig wneud iawn amdano. Mae straen ac iselder yn gysylltiedig â digwyddiadau o'r fath[46], a all wedyn effeithio ar les corfforol. Bydd gweithredu SLM, sydd â safon uchel o iechyd a lles anifeiliaid fel un o'i ddibenion ar gyfer cymorth yn y dyfodol, yn lleihau'r risg o achosion o glefydau ar raddfa fawr a pha mor aml y profir effeithiau negyddol mesurau rheoli clefydau mwy difrifol.

Gan gydnabod effaith achosion o Dwbercwlosis (TB) Buchol ar iechyd meddwl ffermwyr a theuluoedd ffermio, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y rhaglen Cymorth TB i ddarparu cymorth milfeddygol a ariennir gan y Llywodraeth gan filfeddygon preifat lleol sydd wedi derbyn hyfforddiant penodol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi contractio'r Rhwydwaith Cymunedau Ffermio (FCN) i ddarparu cymorth iechyd meddwl a lles ffermwyr pwrpasol i'r rhai y mae TB yn effeithio arnynt. Yn fwy diweddar, gwnaed gwaith cydweithredol trawsadrannol o fewn Llywodraeth Cymru i gefnogi datblygiad grŵp trydydd sector sy'n cynnwys FCN, Tir Dewi, Sefydliad Daniel Picton-Jones a Mind Cymru. Rydym yn bwriadu parhau i sicrhau y bydd cymorth yn y dyfodol yn helpu ffermwyr i ddeall sut i gael gafael ar gymorth iechyd meddwl a lles.

*4. Ffermwyr yn blaenoriaethu eu hiechyd eu hunain*

O ran effaith cymryd rhan mewn cynllun amaeth-amgylcheddol ar iechyd meddwl ffermwyr, mae tystiolaeth[47] yn awgrymu "...*the self-reported mental health of farmers adopting agri-environmental schemes in Wales was significantly better than non-adopters. Although correlation was shown, rather than causation, interpretation of the results suggest that poor mental health of farmers may be one cause of non-adoption of agri-environment schemes*." Dylid nodi y gallai'r berthynas

---

[45] Llywodraeth Cymru (2012). Datganiad Ysgrifenedig – Ymateb Llywodraeth Cymru i 'Hwyluso'r Drefn' – adroddiad ar argymhellion i Lywodraeth Cymru ar wella'r drefn reoleiddio i ffermwyr.

[46] Y Sefydliad Iechyd Gwledig a Phrifysgol Morgannwg (2003). Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru: The impact of the foot and mouth outbreak on mental health and well-being in Wales.

[47] Hounsome, B., Edwards, R.T., ac Edwards-Jones, G. (2006). A note on the effect of farmer mental health on adoption: The case of agri-environment schemes. *Agricultural Systems*, *91*(3), 229-241.

weithio'r ddwy ffordd; gallai ddangos bod ffermwyr sydd â gwell iechyd meddwl yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol, yn hytrach na bod y cynlluniau hyn yn arwain at well iechyd meddwl. Mae'n amlwg, fodd bynnag, fod cysylltiad rhwng y ddau, ac felly, wrth i ni ddylunio'r CFfC arfaethedig, byddwn yn ystyried y rhesymau dros beidio â mabwysiadu mewn cynlluniau blaenorol i leihau'r rhwystrau mynediad at y cynllun newydd.

5. *Ynysigrwydd ac unigrwydd (manylion yn 'Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol' uchod*);

6. *Y diwylliant ffermio a'r disgwyliadau ohono*

Mae adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru yn disgrifio diwylliant o hunanddibyniaeth mewn amaethyddiaeth, gyda disgwyl i ffermwyr 'fwrw ati' a pheidio ag ystyried methu. Nid yw'n syndod bod diwylliant o'r fath a'r pwysau sy'n gysylltiedig ag ef wedi'u hamlygu fel her allweddol wrth fynd i'r afael ag iechyd meddwl ffermwyr. Mae'r adroddiad yn cynnig "Atal drwy gefnogi newid diwylliannol i geisio cyngor a gwerthfawrogi iechyd".

Bydd y pwerau cymorth yn galluogi cyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, a fydd yn cynnwys gwasanaeth cynghori a chymorth, a chyfleoedd ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus, gan adeiladu ar waith rhaglen bresennol Cyswllt Ffermio. Canfu gwerthusiad diweddar SQW o Cyswllt Ffermio (Hindle, 2021) ei bod yn ymddangos ei fod wedi gwneud y gwahaniaeth mwyaf o ran dylanwadu ar ddatblygiad personol ffermwyr, yn enwedig o ran cryfhau hyder ac uchelgais, a chreu'r "sylfeini" ar gyfer newid. Mae hyn wedi dylanwadu ar brosesau rheoli busnes a gwneud penderfyniadau ochr yn ochr â gwell sgiliau technegol.

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at awydd i'r CFfC arfaethedig hwyluso cymorth, cyngor a hyfforddiant rhwng cymheiriaid. Gallai hyn annog ffermwyr i gefnogi ei gilydd i roi SLM ar waith.

Yn ogystal, rydym yn cydnabod y gall ffermwyr, wrth weithredu SLM, wynebu heriau, canlyniadau annisgwyl, neu hyd yn oed ganfod y gallai'r camau a gymerir ganddynt fod yn aflwyddiannus o dan eu hamgylchiadau penodol. Bydd y CFfC yn ceisio cefnogi ffermwyr i oresgyn a datrys unrhyw broblemau, yn hytrach na chosbi methiannau nas rhagwelwyd.

## Amodau byw/amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd

Mae'r Bil yn pennu Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel fframwaith polisi ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru yn y dyfodol, ac mae amcanion strategol y Bil yn cynnwys lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo, a chynnal a gwella gwytnwch ecosystemau. Bydd cymorth yn y dyfodol, y mae'r Bil yn darparu pwerau ar ei gyfer, yn annog camau gweithredu sy'n cyfrannu at well ansawdd aer (yn enwedig drwy leihau amonia), lleihau'r perygl o lifogydd a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, felly dylai'r Bil gyfrannu at ganlyniadau iechyd corfforol a meddyliol gwell yn y boblogaeth gyffredinol.

Bydd gan y dibenion cymorth y potensial i effeithio'n uniongyrchol ar iechyd y cyhoedd. Y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw:

1. *Gwella ansawdd* aer a *Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr;*
2. *Gwella ansawdd dŵr* a *Lliniaru peryglon llifogydd a sychder;*
3. *Cynnal a gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol ac ymgysylltiad â nhw;*

4. *Cyflawni a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid.*

Rydym yn ystyried pob un o'r rhain isod.

1. *Gwella ansawdd aer* a *Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr;*

Bob blwyddyn yng Nghymru, gellir priodoli'r hyn sy'n cyfateb i 1,604 (5.4%) o farwolaethau i gysylltiad â $PM_{2.5}$ (deunydd gronynnol), a'r hyn sy'n cyfateb i 1,108 o farwolaethau i gysylltiad ag $NO_2$ (nitrogen deuocsid)[48]. Mae amcanion ansawdd aer cenedlaethol wedi'u nodi ar gyfer y DU yn seiliedig ar derfyn y Gyfarwyddeb Ewropeaidd a gwerthoedd targed ar gyfer diogelu iechyd pobl. Nodir manylion y rhain yn y dystiolaeth o'n Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP)[49].

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru[50] yn nodi mai'r llygryddion aer sy'n peri'r pryder mwyaf i iechyd y cyhoedd yw $PM_{2.5}$ ac $NO_2$. Mae llygredd aer, ynghyd ag agweddau eraill ar yr amgylchedd cymdeithasol a ffisegol, yn creu baich clefydau annheg ar rannau mwy difreintiedig o gymdeithas. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi bod y rhan fwyaf o broblemau llygredd aer lleol yn cael eu hachosi gan allyriadau o gerbydau ffordd, ond mae ffynonellau eraill yn dylanwadu ar ansawdd aer hefyd, megis ffynonellau diwydiannol, amaethyddol a phreswyl/domestig.

Mae gan lygredd o amaethyddiaeth y potensial i effeithio'n ddifrifol ar iechyd corfforol drwy allyriadau llygryddion megis amonia neu ocsidau nitraidd. Gall llygredd aer deithio'n bell iawn, felly gallai lleihau llygredd mewn ardaloedd gwledig gael effaith gadarnhaol ar gymunedau gwledig a threfol ledled Cymru. Ers 2005, nid yw allyriadau amonia o'r sector wedi gweld gostyngiadau sylweddol ar lefel y DU; yn wir, roedd allyriadau amonia o wrtaith a gweddillion treuliad anaerobig yn uwch yn 2019 nag yn 2005[51].

Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y *Cynllun Aer Glân i Gymru*[52] yn nodi'r canlynol yn benodol:

- Mae **Amonia ($NH_3$)** yn nwy di-liw ag arogl cryf. Gall ffurfio deunydd gronynnol eilaidd hefyd drwy adweithiau yn yr atmosffer, teithio pellteroedd mawr a gollwng ar dir a chynyddu lefelau cefndir. Amaethyddiaeth yw ei brif ffynhonnell e.e. storio a lledaenu tail, slyri a gwrteithiau. Mae amonia'n uniongyrchol niweidiol i iechyd pobl.
- Grŵp mawr o gyfansoddion cemegol organig, ac eithrio methan, yw **cyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn fethan (NMVOC)**. Un ffynhonnell o NMVOCs yw

[48] Effeithiau llygredd aer ar iechyd: https://airquality.gov.wales/cy/about-air-quality/health-advice

[49] Jones, L. et al. (2019). Atodiad 8: Gwella Ansawdd Aer a Llesiant. Adroddiad ERAMMP i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297). Gweler tudalennau 12-14.

[50] Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (2019). Goblygiadau Brexit i Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru Adroddiad Technegol Rhan 2. (Saesneg yn unig)

[51] National Atmospheric Emissions Inventory, 'Ammonia emissions from agriculture'.

[52] Llywodraeth Cymru (2019). Cynllun Aer Glân i Gymru. Awyr Iach, Cymru Iach.

amaethyddiaeth e.e. taenu gwrtaith, llosgi gwastraff amaethyddol mewn caeau. Mae NMVOCs yn niweidiol i iechyd pobl, mae gan rai effeithiau gwenwynig uniongyrchol a gall eraill waethygu afiechydon anadlol a chardiofasgwlaidd.

Hefyd, mae amonia yn achosi ffurfio deunydd gronynnol, $PM_{2.5}$**,** llygrydd niweidiol arall. Mae ymgynghoriad *Cynllun Aer Glân* Llywodraeth Cymru yn nodi ein huchelgais ar $PM_{2.5}$: *"Rydym am i grynodiadau ledled Cymru fod yn is na chanllawiau WHO ar gyfer $PM_{2.5}$ lle bo hynny'n bosibl, ac yn is eto lle mae potensial digonol a lle mae cysylltiad y cyhoedd yn uchel neu risg uchel i grwpiau sensitif. Ein nod yw gwneud yr uchelgais hon yn gyfraith yng Nghymru."*

Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi y gall ansawdd aer gwael gael effaith anghymesur ar iechyd a lles plant, pobl hŷn, pobl dlawd a phobl agored i niwed. Bydd lleihau llygredd aer yn cael effaith uniongyrchol a sylweddol ar wella iechyd a lles pawb.

Mae tystiolaeth gan ERAMMP hefyd yn nodi: *"Mae amonia atmosfferig (NH3) yn brif lygrwr sy'n cael ei allyrru gan weithgareddau amaethyddol ac, i raddau llai wrth brosesu deunyddiau organig (e.e. treuliad anerobig), trafnidiaeth a diwydiant. Y prif ffynonellau o amonia o amaethyddiaeth yw (mewn trefn ddisgynnol yn fras) gwasgaru gwrtaith, lletya anifeiliaid, storio gwrtaith, pori da byw a rhoi gwrteithiwr (yn enwedig wrea ac wrea-amoniwm nitrad)".*

Mae aer glân a dŵr glân yn ddau o'r dibenion cymorth a fydd yn bodloni amcanion strategol SLM. Byddai ein cynigion ar gyfer CFfC y dyfodol yn helpu ffermwyr i fynd i'r afael yn benodol ag allyriadau amonia, er enghraifft, drwy newidiadau i'r ffordd y caiff slyri ei gadw a'i wasgaru. Gall plannu coetiroedd mewn lleoliadau priodol rhyng-gipio allyriadau amonia hefyd. Bydd y cynllun yn adeiladu ar Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 drwy gymell ymhellach gamau i leihau'r risg o lygredd gwasgaredig o ffermydd. Bydd gweithredu SLM yn arwain at fanteision i ansawdd pridd, aer a dŵr drwy leihau llygredd, a dylai hynny yn ei dro arwain at welliant yng nghanlyniadau iechyd y cyhoedd.

2. *Gwella ansawdd dŵr* a *Lliniaru peryglon llifogydd a sychder*

Mae lliniaru peryglon llifogydd a sychder yn cael ei osod fel diben ar gyfer cymorth yn y Bil. Disgwylir felly y bydd y Bil, a chynlluniau yn y dyfodol, yn cyfrannu at leihau'r perygl o lifogydd. Bydd gwella iechyd a strwythur y pridd, ynghyd â chynyddu deunydd organig pridd, yn caniatáu i ddŵr wyneb ymdreiddio'n gyflymach a chael ei gadw o fewn y pridd am gyfnodau hwy nag y byddai fel arall. Hefyd, mae gan amaeth-goedwigaeth sydd wedi'i lleoli'n gywir y potensial i gynyddu ymdreiddiad yn ddyfnach i'r pridd a lleihau'r perygl o lifogydd.

Mae gwella ansawdd dŵr hefyd yn cael ei osod fel diben ar gyfer cymorth ond, mewn llawer o achosion, gellir gwella ansawdd dŵr hefyd drwy gymorth at ddibenion eraill. Mae gwelliannau o ran ansawdd pridd o ganlyniad i Reoli Tir yn Gynaliadwy yn cyfrannu at wella ansawdd dŵr, tra bydd lleihau allyriadau hefyd yn cyfrannu at ddŵr glanach fel y trafodwyd uchod. Mae llygredd dŵr sy'n mynd i ddalgylchoedd afonydd o amaethyddiaeth yn teithio i lawr yr afon, felly bydd lleihau allyriadau yn arwain at fanteision cadarnhaol mewn ardaloedd trefol yn ogystal â rhai gwledig.

Yn gyffredinol, mae'r amcanion SLM wedi'u dylunio i arwain at leihad yn y risg i'r cyhoedd o lifogydd a sychder, a chynnydd mewn ansawdd dŵr, a ddylai gyfrannu at ganlyniadau iechyd corfforol a meddyliol cadarnhaol.

3. *Cynnal a gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol ac ymgysylltiad â nhw* .

Fel y disgrifiwyd uchod, mae cynnal a gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol ac ymgysylltiad â nhw wedi'i bennu fel diben ar gyfer cymorth yn y Bil. Bydd hyn yn galluogi cynlluniau yn y dyfodol, gan gynnwys y CFfC arfaethedig, i ddarparu cymorth ar gyfer uwchraddio a chynnal a chadw'r llwybrau presennol, a gwella'r amgylchedd presennol. Dylai hyn alluogi mwy o hamdden ar ffurf cerdded yng nghefn gwlad Cymru a'i fwynhau ymhlith pobl Cymru ac ymwelwyr â Chymru.

4. *Cyflawni a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid*

Ceir manylion am sut y gall gwella iechyd a lles anifeiliaid gael effaith gadarnhaol ar iechyd pobl yn yr adran *Ffyrdd o Fyw (Deiet ac Iechyd y Cyhoedd*) uchod*.*

## Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd

Bydd effaith economaidd SLM a chymorth yn y dyfodol ar fusnesau fferm yng Nghymru yn allweddol i benderfynu a fydd unrhyw effeithiau ar ddiweithdra, incwm a'r ffactorau economaidd-gymdeithasol ac iechyd cysylltiedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal dadansoddiad economaidd o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, a fydd yn ystyried effeithiau'r cynigion terfynol i fyny ac i lawr y gadwyn gyflenwi. Yn dilyn ymgynghoriad yn 2023, bydd cynigion y cynllun yn cael eu hadolygu a'r dadansoddiad economaidd yn cael ei ddiweddaru.

## Mynediad i wasanaethau ac ansawdd gwasanaethau

Nid ydym yn rhagweld y bydd y Bil yn effeithio ar fynediad i wasanaethau ac ansawdd gwasanaethau.

## Ffactorau macroeconomaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd

### *SLM a chymorth yn y dyfodol*

*Bioamrywiaeth*

Gwnaeth adolygiad yn 2003[53] o effaith bioamrywiaeth ar ansawdd bywyd ystyried iechyd corfforol a meddyliol yn benodol. Nododd nad yw llawer o astudiaethau ar bwysigrwydd natur ar gyfer lles yn gwahaniaethu'n dda rhwng amgylchoedd naturiol sy'n gyfoethog o ran bioamrywiaeth a mannau gwyrdd mwy ffurfiol, nac yn wir ddylanwadau diwylliannol sy'n deillio o ymdeimlad o le. Casgliad cyffredinol y dystiolaeth feddygol a adolygwyd yw "*the weight of evidence shows that contact with nature is good for you".*

[53] Lees, S., a Evans, T. (2003). *Biodiversity's Contribution to the Quality of Life: A Research Report for English Nature*. English Nature.

Yn yr un modd, daeth adolygiad yn 2005[54] i'r casgliad canlynol "...*nature plays a vital role in human health and wellbeing, and that parks and nature reserves play a significant role by providing access to nature for individuals. Implications suggest contact with nature may provide an effective population-wide strategy in prevention of mental ill health, with potential application for subpopulations, communities and individuals at higher risk of ill health".*

Mae SLM a'r pwerau cymorth wedi'u dylunio i gyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, fel y nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r Bil yn pennu cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau fel un o'r amcanion SLM. Bydd hyn yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn rhan annatod o bob cymorth a pholisi ar gyfer amaethyddiaeth yn y dyfodol, a dylai alluogi a gwella gallu tir Cymru i barhau i gyflwyno'r manteision iechyd a amlinellir yn y dystiolaeth uchod. Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth am ragor o fanylion am yr effeithiau disgwyliedig.

*Hinsawdd*

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (2021) yn nodi, fel amcanion llesiant allweddol, yr angen i "*Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn"* ac "*Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl.*" Yn ogystal, mae'r Bil yn pennu'r amcan o liniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo. Bydd lleihau ôl troed carbon ffermydd mor agos at sero â phosibl a chynyddu gorchudd coetir yng Nghymru yn cyfrannu at yr amcanion hyn ac, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles pobl Cymru. Mae'r dibenion ar gyfer cymorth, megis lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn adlewyrchu'r uchelgeisiau hyn. Mae adroddiad UKCCC[55] yn tynnu sylw at gydfanteision lleihau allyriadau, gan gynnwys gwell iechyd o ansawdd aer uwch a gwelliannau o ran lliniaru llifogydd.

Wrth i'r hinsawdd newid, bydd yr amgylchedd, anghenion bioamrywiaeth a'r ecosystem fiolegol i gyd yn newid hefyd. Mae SLM a'r pwerau cymorth wedi'u dylunio i gyflawni amcanion y Rhaglen Lywodraethu ond byddant hefyd yn galluogi Llywodraeth Cymru i ymateb i'r newidiadau hyn er mwyn i ffermydd barhau i fod yn wydn.

### 2.5b. A ellid cael effaith wahaniaethol ar iechyd grwpiau penodol?

Byddwn yn ystyried y categorïau canlynol:

- Grwpiau sy'n gysylltiedig ag oedran
- Grwpiau sy'n gysylltiedig ag incwm
- Grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall
- Grwpiau daearyddol

Yn ogystal, trafodir yr effaith bosibl ar iechyd meddwl ffermwyr yn helaeth yn adran *Lles Meddyliol* cwestiwn 2.5a.

---

phosibl[54] Maller, C., Townsend, M., Pryor, A., Brown, P., a St Leger, L. (2006). Healthy nature healthy people: contact with nature as an upstream health promotion intervention for populations. Health promotion international, 21(1), 45-54.

[55] Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (2020), *Land Use Policies for a Net Zero UK*

## Grwpiau sy'n gysylltiedig ag oedran

Bydd SLM a'r pwerau cymorth yr un mor berthnasol i bob ffermwr ac mae CFfC y dyfodol yn cael ei ddylunio i fod yn hygyrch i bob ffermwr cymwys, waeth beth fo'i oedran. Ceir manylion am effeithiau'r Bil, gan gynnwys mewn perthynas ag iechyd, ar wahanol grwpiau oedran yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad B).

Gall cynllunio ar gyfer olyniaeth fod yn destun pryder i ffermwyr a bydd yn debygol o gael effaith negyddol fwy difrifol ar iechyd meddwl ffermwyr hŷn sy'n agosáu at ymddeol. Gall gwella cynaliadwyedd busnesau ffermio gael effaith gadarnhaol drwy leddfu pwysau iechyd meddwl pe bai'r cynlluniau a ariennir yn y dyfodol o dan y pwerau cymorth, gan gynnwys y CFfC, yn arwain at gynllunio ar gyfer olyniaeth yn fwy llwyddiannus, a byddai hyn yn cael ei deimlo'n fwy gan ffermwyr hŷn.

O ran y boblogaeth yn fwy cyffredinol, mae ymchwil yn dangos bod plant a phobl hŷn yn fwy agored i effeithiau negyddol dod i gysylltiad â llygredd aer[56]. Mae SLM wedi'i ddylunio'n benodol gyda'r nod o ymateb i'r argyfwng hinsawdd, gyda'r dibenion ar gyfer cymorth, megis aer glanach a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, wedi'u dylunio i gyflawni'r amcan hwn. Oherwydd eu bod yn fwy agored i niwed, disgwylir mai plant a phobl hŷn fydd yn gweld y manteision iechyd mwyaf yn sgil hyn.

## Grwpiau sy'n gysylltiedig ag incwm

Bydd prif effeithiau SLM a chymorth yn y dyfodol mewn perthynas â grwpiau sy'n gysylltiedig ag incwm yn ymwneud ag aelwydydd ffermio. Mae ymchwil i ffermydd bach a bach iawn yng Nghymru (sy'n cyfrif am 87% o ffermydd Cymru) yn dangos nad yw maint economaidd ffermydd o reidrwydd yn rhagweld incwm aelwydydd ar gyfer y rhan fwyaf o ffermydd yng Nghymru[57]. Roedd ffermydd bach iawn yn fwy tebygol o fod ag incwm aelwyd o £10,000 i £29,999, tra bod ffermydd bach yn fwy tebygol o fod ag incwm aelwyd rhwng £50,000 a £69,999, er nad oedd yr un o'r canlyniadau hyn yn ystadegol arwyddocaol yn yr ymchwil. Yn gyffredinol, bydd gan y mwyafrif llethol (82%) o ffermydd bach a bach iawn Cymru incwm aelwyd rhwng £10,000 a £69,999.

Yn wahanol i'r system ariannu bresennol, bydd cynlluniau yn y dyfodol, gan gynnwys y CFfC arfaethedig, yn gallu cefnogi ffermwyr yn ariannol yn unol â'r dibenion ar gyfer cymorth a chyflawni'r canlyniadau hyn. Ni ddisgwylir ar hyn o bryd y bydd y pwerau galluogi ar gyfer y fframwaith SLM a chymorth yn y dyfodol yn cael effaith wahaniaethol ar grwpiau sy'n gysylltiedig ag incwm. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal dadansoddiad economaidd o'r CFfC arfaethedig, a fydd yn ystyried effeithiau'r cynigion terfynol. Yn dilyn ymgynghoriad yn 2023, bydd cynigion y cynllun yn cael eu hadolygu a'r dadansoddiad economaidd yn cael ei ddiweddaru.

[56] Fann N., Roman H., Fulcher C. et al. (2011). Maximising health benefits and minimizing inequality: incorporating local-scale data in the design and evaluation of air quality policies. Risk Anal; 31(6):908-22.

[57] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-10/deall-cymhellion-ffermwyr-ffermydd-bach-bach-iawn-adroddiad-llawn.pdf Cyfeiriwch at adran 5 o'r ddogfen i gael rhagor o wybodaeth am nodweddion ffermydd ymhlith ymatebwyr, gan gynnwys perchnogaeth a math o fferm.

### Grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall

Nid ydym yn rhagweld y bydd SLM a'r pwerau cymorth yn effeithio'n benodol ar iechyd grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall, ac eithrio'r manteision iechyd i'r boblogaeth gyffredinol a ddisgrifiwyd gennym uchod. I gael rhagor o wybodaeth am effeithiau'r Bil ar y rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol, gweler yr Asesiad o'r Effaith ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, ac am effeithiau ar y rhai sydd â Nodweddion Gwarchodedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb y DU 2010, gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

### Grwpiau daearyddol

Ni nodwyd unrhyw effeithiau anghymesur penodol ar gyfer yr effaith ar iechyd grwpiau daearyddol. Fel y disgrifir yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, mae'r cyfrannau uchaf o bobl 50 oed a throsodd mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru megis Powys, Ceredigion a Gwynedd. Er bod effeithiau iechyd ar bobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, maent yn canolbwyntio ar gyflawni materion allweddol yn ymwneud ag iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a thrafnidiaeth. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth y bydd y Bil yn cael effaith negyddol ar les pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig.

## 2.6 Preifatrwydd

#### A fydd y cynnig yn cynnwys prosesu gwybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unigolion?

Bydd y Bil yn galluogi prosesu gwybodaeth bersonol. Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data.

# ADRAN 3. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT DIWYLLIANNOL A'R GYMRAEG?

## 3.1 Lles Diwylliannol

Nod diwylliannol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw 'Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden'. Mae diwylliant yn cynnwys amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd a'r celfyddydau; mae treftadaeth yn cynnwys yr amgylchedd hanesyddol adeiledig a threftadaeth anniriaethol megis traddodiadau; mae'r celfyddydau'n cwmpasu sectorau perfformio a chreadigol gan gynnwys cerddoriaeth, llenyddiaeth, theatr a chelf, tra bod chwaraeon a hamdden yn cynnwys chwaraeon elît a chymunedol, yn ogystal â chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored ehangach.

### 3.1a Sut gall y cynnig gyfrannu'n weithredol at y nod o hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth ac annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden? (ar gyfer y Gymraeg, gweler adran 3.2)

*SLM a chymorth yn y dyfodol*

Mae cysylltiad annatod rhwng diwylliant a threftadaeth Cymru a'r dirwedd a'r amgylchedd naturiol. Mae datganiad Llywodraeth Cymru, *Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru,* yn pwysleisio pwysigrwydd tirwedd y wlad fel cefndir ac ysbrydoliaeth i lawer o'r cynnyrch diwylliannol yng Nghymru. Rhan annatod o'r berthynas hon yw amaethyddiaeth; amcangyfrifir bod 90% y cant o dir Cymru yn cael ei neilltuo i amaethyddiaeth[58].

Mae'r Datganiadau Ardal a ddatblygwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru[59] yn dangos y berthynas hon rhwng tirweddau, diwylliant a threftadaeth yng Nghymru. Er enghraifft, mae tir amaethyddol wedi'i adfer ar wastadeddau Gwent (Datganiad Ardal y De-ddwyrain) nid yn unig o bwysigrwydd hanesyddol ac archeolegol, ond mae hefyd yn gynefin pwysig i lawer o rywogaethau. Yn yr un modd, mae Datganiad Ardal y Gogledd-ddwyrain yn dangos sut mae hanes Cymru wedi'i wreiddio yn y dirwedd drwy systemau caeau canoloesol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Mae'r Bil yn pennu Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel fframwaith polisi ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru yn y dyfodol ac mae ganddo bedwar amcan strategol y bydd angen i Weinidogion eu hystyried. Y pedwerydd o'r rhain yw "gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt ac ymgysylltiad â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni". Felly, ystyrir bod diwylliant a threftadaeth, gan gynnwys y Gymraeg, yn elfen allweddol o ddyfodol ffermio yng Nghymru, ochr yn ochr â'r amcanion yn ymwneud â chynhyrchu bwyd, y newid yn yr hinsawdd a gwytnwch ecosystemau. Yn ogystal, bydd y pwerau ar gyfer cymorth yn y dyfodol yn galluogi Gweinidogion i gefnogi camau gweithredu yn uniongyrchol o

[58] Naill ai drwy dir fferm neu dir comin. https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-12/arolwg-or-cyfrifiad-amaethyddol-garddwrol-mehefin-2020-913.pdf

[59] Cyfoeth Naturiol Cymru. Datganiadau Ardal. https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/?lang=cy

dan y dibenion, gan gynnwys cynnal a gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol ac ymgysylltiad â nhw a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd. Yn ôl Sefydliad Siartredig yr Archeolegwyr[60], mae mwy na 80% o asedau treftadaeth archaeolegol yng Nghymru wedi'u lleoli ar dir amaethyddol. Ni ddylai unrhyw newidiadau i'r dirwedd fod ar draul asedau treftadaeth a'r amgylchedd hanesyddol; mae SLM yn ei gwneud yn ofynnol i'r llywodraeth a ffermwyr ystyried y dirwedd mewn ffordd gyfannol er mwyn cyflawni'r amcanion strategol a nodir yn y Bil. Er bod newid tirwedd yn anochel dros amser drwy brosesau naturiol, ni ddylai newid a achosir gan arferion SLM danseilio'r gwerth diwylliannol sy'n deillio o nodweddion unigol na'r cyd-destun a ddarperir gan eu tirwedd gyfagos.

Bydd y Bil yn diogelu ac yn gwella diwylliant a threftadaeth mewn pedair ffordd:

1. Bydd cefnogi busnesau fferm cynaliadwy a gwydn yn helpu i sicrhau bod ffermydd a thir Cymru yn parhau i fod yn gonglfaen i ddiwylliant Cymru ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.
2. Mae treftadaeth yn cynnwys "traddodiadau" a nodweddion tirwedd traddodiadol (e.e. gwrychoedd). Dengys tystiolaeth gan ERAMMP fod llawer o arferion SLM yn gyson â'r hyn a ystyrir yn arferion ffermio "traddodiadol". Yn yr ystyr hwn, bydd SLM yn hyrwyddo ac yn diogelu'r dreftadaeth a gynrychiolir gan arferion a nodweddion ffermio traddodiadol.
3. Mae llawer o safleoedd treftadaeth Cymru i'w cael ar dir amaethyddol, ac mae'r dirwedd ei hun o bwysigrwydd diwylliannol a threftadaeth. Rydym yn parhau i ddatblygu Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) y dyfodol, a bydd hyn yn cynnwys camau gweithredu penodol sy'n ymwneud â diogelu, cynnal a chadw a gwella cyflwr y nodweddion hanesyddol ar dir fferm.
4. Bydd y Bil yn galluogi cymorth uniongyrchol i gamau gweithredu sy'n diogelu ac yn gwella ein diwylliant a'n treftadaeth, gan gynnwys y Gymraeg, yn unol â'r amcanion strategol.

Mae mwy o fanylion am y ffordd y mae disgwyl i Reoli Tir yn Gynaliadwy a'r pwerau cymorth hyrwyddo a diogelu ein hamgylchedd naturiol a'n cefn gwlad, a threftadaeth ddiwylliannol yn sgil hynny, wedi'u cynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth ar gyfer y Bil. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn ymdrin yn llawn ag effeithiau'r Bil ar yr agwedd benodol hon ar ddiwylliant Cymru.

Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth y bydd y Bil yn effeithio, yn gadarnhaol nac yn negyddol, ar gyfranogiad pobl yn y celfyddydau nac mewn chwaraeon.

O ran hamdden, fodd bynnag, fel y nodir yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Iechyd (Adran 2), disgwylir i SLM a'r pwerau cymorth arwain at fanteision cymedrol i iechyd pobl Cymru. Mae gwell mynediad ac ymgysylltiad yn un o'r dibenion ar gyfer cymorth a nodir yn y Bil, a fydd yn galluogi cymorth i gael mwy o gyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad a'i fwynhau Yn ei dro, bydd hyn yn cyfrannu at ganlyniadau iechyd corfforol a meddyliol gwell i'r boblogaeth gyffredinol, yn ogystal â mwy o ymwybyddiaeth a mwynhad o asedau treftadaeth a'r amgylchedd hanesyddol.

*Tenantiaethau*

[60] https://www.archaeologists.net/advocacy/toolkit/Agriculture_wales_campaign

Disgwyliwn i'r darpariaethau gael effaith gadarnhaol fach ar bobl a chymunedau drwy hwyluso cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol a mynediad i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig ar gyfer tenantiaid amaethyddoil a allai fel arall fod wedi'u cyfyngu gan gymalau a ysgrifennwyd yn eu prydlesi sawl blwyddyn yn ôl. Bydd yr effeithiau lles diwylliannol a ddisgrifir uchod yn codi o ganlyniad i gymryd rhan yn y cynllun.

*Safonau Marchnata*

Mae'r darpariaethau'n debygol o gael effaith isel ar ddiwylliant a threftadaeth ac nid oes unrhyw effaith ar y celfyddydau, chwaraeon na hamdden. Mae potensial ar gyfer is-ddeddfwriaeth i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu a gwerthu bwyd o Gymru a nwyddau eraill a wneir o gynhyrchion amaethyddol, sy'n rhan o ddiwylliant a threftadaeth Cymru.

Ceir enghraifft o hyn yn y safonau marchnata penodol presennol ar gyfer ffrwythau a llysiau, lle mae'r wlad tarddiad ac enw a chyfeiriad y tyfwr wedi'u rhestru ar ddeunydd pacio.[61] Mae pobl yn ymfalchïo mewn prynu cynnyrch lleol neu gynnyrch o darddiad penodol, sy'n cael effaith ar y diwylliant sy'n gysylltiedig â bwyd. Mae defnyddwyr yn fwy ymwybodol o filltiroedd awyr bwyd pan fyddant yn gweld ar ddeunydd pacio bod cynnyrch â safonau marchnata penodol wedi dod o ben draw'r byd, a gellir dylanwadu arnynt i brynu mwy o gynnyrch a dyfir yn nes at adref. Mae hyn mewn cyferbyniad, er enghraifft, â chynnyrch wedi'i brosesu a all fod wedi'i wneud o gynhwysion sy'n tarddu o sawl gwlad, ac felly sydd â mwy o filltiroedd awyr, ond heb y gofyniad i restru'r gwledydd tarddiad oherwydd cymhlethdod gwneud hynny. Fel hyn, mae deddfwriaeth safonau marchnata yn cael effaith ar ddiwylliant bwyd.

Mae'r defnydd o Ddynodiadau Daearyddol (GI) gan gynhyrchion allweddol o Gymru hefyd wedi bod yn allweddol wrth sefydlu ymdeimlad o le yn Niwydiant Bwyd a Diod Cymru. Mae'r teulu o gynhyrchion GI yng Nghymru yn parhau i dyfu, a bydd y safonau marchnata GI a gymhwysir i'r cynhyrchion hyn yn parhau i helpu i hyrwyddo treftadaeth Cymru ac yn gweithredu fel arf allforio allweddol.

*Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol*

Gallai'r darpariaethau gael effaith anuniongyrchol ar ddiwylliant a threftadaeth, ond ychydig iawn i ddim effaith ar y celfyddydau, chwaraeon a hamdden. Bwriedir i fesurau ymyrryd yn y farchnad atal methiant busnes eang a achosir gan aflonyddwch ar raddfa fawr yn y farchnad. Byddai atal nifer fawr o ffermydd rhag cau ar yr un pryd yn diogelu'r diwylliant a'r dreftadaeth sy'n deillio o ffermio yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys dulliau ffermio a rheoli tirwedd, yn ogystal â thafodieithoedd a therminoleg sector-benodol y Gymraeg a ddefnyddir gan ffermwyr a'u teuluoedd.

**3.1b A yw'n bosibl y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth, neu ar allu pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden? Os felly,**

[61] Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 543/2011 dyddiedig 7 Mehefin 2011 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1234/2007 mewn perthynas â'r sector ffrwythau a llysiau a'r sector ffrwythau a llysiau wedi'u prosesu (legislation.gov.uk), Atodiad 1, Rhan A, Adran 4

**pa gamau y gallwch eu cymryd i osgoi neu leihau'r effaith honno (er enghraifft, drwy ddarparu cyfleoedd amgen)?**

Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth y gallai'r Bil gael effaith negyddol ar hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth, na gallu pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden. Mae'r amcanion strategol yn y Bil a'r dibenion ar gyfer cymorth wedi'u dylunio i gael effaith gadarnhaol ar y pethau hyn drwy bennu SLM fel fframwaith polisi ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae gan Gymru dreftadaeth amaethyddol gyfoethog ac mae ffermydd o bwysigrwydd diwylliannol i lawer o gymunedau yng Nghymru. Nod y Bil yw cefnogi gwytnwch y busnesau hyn ac felly cymunedau gwledig; mae dibenion cymorth yn y dyfodol yn cynnwys helpu cymunedau gwledig i ffynnu a gwneud busnesau amaethyddol yn fwy gwydn. Rydym yn nodi rhagor o fanylion yn ein Hasesiad o'r Effaith o ran Prawfesur Gwledig.

## 3.2 Y Gymraeg

Gweler Atodiad E ar gyfer Asesiad o Effaith y Bil ar y Gymraeg.

# ADRAN 4. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT ECONOMAIDD?

Mae cefnogi twf yn economi Cymru, a thrwy hynny drechu tlodi, wrth wraidd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

## 4.1 Busnes, y cyhoedd ac unigolion

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar fusnes a'r cyhoedd?**

### Busnesau ffermio a rheoli tir

*Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM)*

Bwriedir i SLM gael effaith gadarnhaol ar fusnesau fferm a chefnogi sector gwydn nawr a thros yr hirdymor. Rhaid i Weinidogion ystyried sut orau y gallant gyfrannu at gyflawni'r holl amcanion SLM wrth roi cymorth i amaethyddiaeth. Bydd gwneud hynny yn galluogi cynhyrchu bwyd cynaliadwy, a chymunedau ac economïau gwledig gwydn, gan ymateb hefyd i heriau'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Mae'r Bil yn cynnwys gofyn ar i Weinidogion gynhyrchu cynllun cymorth amlflynyddol bob pum mlynedd. Er na cheir rhagolygon ariannol yn y cynlluniau cymorth amlflynyddol hyn, byddant yn gyfrwng i roi sicrwydd a thryloywder i'r sector amaethyddol y bydd cynlluniau Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r sector ac ar ei draws o fewn cyfnod y cynllun.

*Cymorth yn y Dyfodol*

Disgwylir y bydd mabwysiadu SLM fel y fframwaith cyffredinol ar gyfer cymorth amaethyddol yn y dyfodol yn cael effaith gadarnhaol ar fusnesau fferm. Nod yr 11 diben ar gyfer cymorth yw cynnal a gwella cynaliadwyedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol busnesau fferm yng Nghymru. Mewn llawer o achosion, gallai cefnogi'r dibenion hyn drwy gamau gweithredu ar y fferm gynyddu cynhyrchiant y sector a lleihau costau.

Gellir *lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr* drwy gamau gweithredu megis defnyddio dulliau gwasgaru allyriadau isel. Gall defnyddio technoleg allyriadau isel gynyddu tyfiant glaswellt ond hefyd leihau'r defnydd o wrtaith oherwydd bod nitrogen yn cael ei amsugno'n fwy effeithlon, ac felly mae o fudd i'r busnes fferm. Bydd gan gynlluniau yn y dyfodol, gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) arfaethedig, y pŵer i gefnogi ffermwyr i fabwysiadu camau gweithredu megis dulliau gwasgaru allyriadau isel er mwyn cyflawni'r diben hwn a fydd o fudd cadarnhaol i'w busnesau.

Gellir *dal a storio cymaint â phosibl o garbon* drwy gamau gweithredu megis plannu coed a gwrychoedd. Gall cynnwys coed yn nhirwedd y fferm helpu i atal erydiad pridd, gan gadw a gwella capasiti'r pridd y mae cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy yn dibynnu arno.

Bydd *cynyddu gwytnwch ecosystemau* yn helpu i ddiogelu a gwella llif yr adnoddau sy'n dod o'r amgylchedd naturiol, yn galluogi parhau i gynhyrchu bwyd cynaliadwy a gweithrediad busnesau fferm. Mae Fforwm Economaidd y Byd wedi nodi bod colli bioamrywiaeth yn fygythiad allweddol i ffyniant economaidd byd-eang[62]. Er enghraifft, mae peillio yn wasanaeth ecosystem allweddol i amaethyddiaeth fyd-eang, gan wella cynhyrchiant mewn tua 75% o rywogaethau cnydau byd-eang[63]. Mae'r galw am gnydau sy'n dibynnu ar bryfed peillio wedi parhau i gynyddu[64] ac mae pryder rhyngwladol cynyddol ynghylch effaith colli pryfed peillio ar gynhyrchu bwyd[65]. O fewn y DU, gostyngodd poblogaethau pryfed peillio tua 25% rhwng 1980 a 2013[66], wedi'i sbarduno gan lai o rywogaethau prin. Cysylltwyd poblogaethau pryfed peillio sy'n dirywio ag amhariadau i rwydweithiau pryfed peillio planhigion ac mae diffygion peillio cnydau eisoes wedi'u cofnodi[67]. Bydd gan gynlluniau yn y dyfodol, gan gynnwys y CFfC, y pŵer i roi cymorth i fusnesau fferm i gynyddu gwytnwch ecosystemau drwy gynnal a chreu cynefinoedd a nodweddion ffiniau megis coridorau bywyd gwyllt ac ymylon llawn blodau. Bydd hyn yn cyfrannu at allu parhau i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy drwy gefnogi poblogaethau pryfed peillio.

*Tirweddau naturiol gwarchodedig a'r amgylchedd hanesyddol*. Mae tirweddau gwledig, ardaloedd gwarchodedig ac amgylchedd hanesyddol Cymru yn fannau o harddwch naturiol, yn rhan bwysig o'n treftadaeth ac yn sicrhau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ledled Cymru. Gall ffermydd sy'n gweithredu mewn tirweddau gwarchodedig, neu sydd â nodweddion hanesyddol ar eu tir, wynebu amodau heriol sy'n dylanwadu ar y ffordd y gallant ffermio. Bydd cymorth o dan y diben hwn yn galluogi busnesau fferm i gynnal a gwella cefn gwlad ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd diogelu'r ardaloedd a'r nodweddion hyn o'r amgylchedd gwledig yn helpu i gefnogi cymunedau a busnesau gwledig gwydn drwy barhau i ddarparu gwasanaethau ecosystem a manteision twristiaeth.

*Gwella ansawdd aer*. Gall camau gweithredu ar y fferm i wella ansawdd aer leihau costau i fusnes y fferm hefyd. Mae cynllunio rheoli maethynnau yn sicrhau bod y meintiau cywir o faethynnau yn cael eu defnyddio ar yr adegau cywir, a all leihau'r swm cyffredinol a ddefnyddir. Mae hyn yn lleihau allyriadau fel amonia ($NH_4$) ac ocsid nitraidd ($N_2O$), gan wella ansawdd aer, ond mae hefyd

---

[62] Fforwm Economaidd y Byd. Adroddiad Risgiau Byd-eang 2020. http://www3.weforum.org/docs/WEF_Global_Risk_Report_2020.pdf (2020)

[63] Potts, S.G., et al. "The assessment report of the Intergovernmental Science-Policy Platform on Biodiversity and Ecosystem Services on pollinators, pollination and food production." (2016). https://nora.nerc.ac.uk/id/eprint/519227/1/individual_chapters_pollination_20170305.pdf

[64] Aizen, M.A., et al. "Global agricultural productivity is threatened by increasing pollinator dependence without a parallel increase in crop diversification." *Global Change Biology* 25.10 (2019): 3516-3527. https://onlinelibrary.wiley.com/doi/full/10.1111/gcb.14736

[65] Potts, S.G., et al. "The assessment report of the Intergovernmental Science-Policy Platform on Biodiversity and Ecosystem Services on pollinators, pollination and food production." (2016).

[66] Powney, G.D., et al. "Widespread losses of pollinating insects in Britain." Nature communications 10.1, (2019): 1-6. https://www.nature.com/articles/s41467-019-08974-9

[67] Garratt, M., et al. "Avoiding a bad apple: Insect pollination enhances fruit quality and economic value." *Agriculture, ecosystems & environment* 184 (2014): 34-40. https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0167880913003848

yn lleihau costau i'r busnes drwy wella effeithlonrwydd y defnydd o nitrogen (N). Bydd cynlluniau yn y dyfodol, gan gynnwys y CFfC, yn gallu cefnogi ffermydd i ymgymryd â gwaith cynllunio rheoli maethynnau, gan gynnwys cynnal profion pridd, er mwyn helpu i sicrhau bod mewnbynnau'n cyfateb i anghenion cnydau.

*Gwella ansawdd dŵr*. Gellir gwella ansawdd dŵr hefyd drwy dechnegau rheoli maetholion, gan arbed costau i'r busnes drwy golli llai o faetholion i'r amgylchedd. Gall rheoli'r borfa a chnydau gorchudd gynyddu gallu pridd i gadw maethynnau, gan leihau dŵr ffo, a hefyd helpu i gynnal gallu cynhyrchiol y pridd drwy wella iechyd y pridd. Disgwylir i'r cymorth ar gyfer camau gweithredu o dan y diben hwn gael effaith gadarnhaol ar fusnesau fferm.

*Gwell mynediad ac ymgysylltiad*. Mae cerdded fel gweithgarwch yn cynhyrchu £562 miliwn o alw ychwanegol yn economi Cymru, £275 miliwn o Werth Ychwanegol Crynswth (GYC) a thua 11,980 o flynyddoedd person o gyflogaeth. Canfu adroddiad yn gwerthuso manteision Llwybr Arfordir Cymru[68] i fusnesau fod mwy na 5,400 o fusnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth mewn sefyllfa dda i gael budd o'r rhai sydd eisoes yn defnyddio'r llwybr a'r niferoedd cynyddol y disgwylir iddynt wneud hynny yn y dyfodol. I'r busnesau fferm hynny sydd wedi arallgyfeirio ar gyfer twristiaeth, mae gan fwy o ymwelwyr y potensial i gael effaith gadarnhaol ar fusnes y fferm. Bydd cymorth ar gyfer camau gweithredu o dan y diben hwn yn galluogi ffermydd i gael eu talu i gynyddu a gwella mynediad y cyhoedd i'r amgylchedd gwledig a'u hymgysylltiad ag ef.

Gall gwell mynediad ac ymgysylltiad hefyd gynnig manteision economaidd i fusnesau gwledig drwy dwristiaeth. Nodwyd bod ansawdd cefn gwlad a thirwedd Cymru yn gymhelliant allweddol i ymwelwyr – rhestrodd dros hanner yr ymwelwyr dydd o'r DU (52%) a bron i bedwar o bob pump (79%) ymwelydd a oedd yn aros yng Nghymru y dirwedd fel rheswm dros ymweld yn 2019[69]. Mae Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 yn datgelu bod ymwelwyr dydd o'r DU, ymwelwyr sy'n aros o'r DU ac ymwelwyr tramor yn fodlon iawn ar eu taith i Gymru. Ansawdd yr amgylchedd naturiol a gafodd y sgôr gyfartalog uchaf o'r holl agweddau penodol a werthuswyd ar gyfer ymwelwyr dydd ac ymwelwyr sy'n aros, gyda 78% o ymwelwyr dydd a 69% o ymwelwyr sy'n aros yn dweud eu bod yn 'fodlon iawn' â'r amgylchedd naturiol. Ar gyfer ymwelwyr tramor, dywedodd 74% eu bod yn teimlo'n 'fodlon iawn' ag ansawdd yr amgylchedd naturiol, yn ail yn unig i'r teimlad o groeso (roedd 75% yn 'fodlon iawn'). Cerdded oedd y gweithgarwch mwyaf poblogaidd ymhlith ymwelwyr sy'n aros yng Nghymru a ddaeth i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, gydag 80% yn dweud eu bod wedi cerdded dros ddwy filltir yn ystod eu harhosiad.

*Effeithlonrwydd adnoddau.* Mae defnyddio adnoddau yn effeithio ar berfformiad economaidd ac amgylcheddol busnesau fferm. Bydd cadw adnoddau a deunyddiau mewn defnydd cyhyd ag y bo modd yn cynnig arbedion cost i fusnes y fferm ond hefyd yn galluogi cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy drwy gynnal yr adnoddau y mae amaethyddiaeth yn dibynnu arnynt, megis pridd a dŵr. Felly, disgwylir i gynyddu effeithlonrwydd adnoddau gael effeithiau economaidd cadarnhaol ar ffermydd.

---

[68] https://walescoastpathcdn-01.azureedge.net/media/1325/evaluating-the-benefits-to-business-of-the-wales-coast-path.pdf?rnd=132064934010000000

[69]https://llyw.cymru/arolwg-ymwelwyr-cymru-2019

*Safon uchel o iechyd a lles anifeiliaid.* Mae cost economaidd ymateb i achos o glefyd yn pwyso'n drwm ar geidwaid anifeiliaid, y Llywodraeth a'r trethdalwr. Y gost i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i'r achosion o glwy'r traed a'r genau yn 2001 oedd £102 miliwn, ac amcangyfrifir mai cost gyfartalog glanhau a diheintio pob daliad yr effeithiwyd arno yng Nghymru oedd £38,000. Gyda phob masnach ar stop, roedd yr effaith ariannol ar fusnesau yn sylweddol, gydag allforion yn cyfrif am 40% o holl gynhyrchiant cig oen a defaid Cymru cyn yr achosion. Cyhoeddwyd ymchwil a gomisiynwyd ar y cyd gan Defra a Llywodraeth Cymru i amcangyfrif cost economaidd achosion o TB buchol ar ffermydd gwartheg yn Ardaloedd Risg Uchel ac Ymylol Cymru a Lloegr ar 28 Awst 2020. Amcangyfrifir mai cost gyfartalog achosion o TB buchol yw £34,000. O'r swm hwn, amcangyfrifir bod y Llywodraeth yn ysgwyddo £20,000, yn bennaf fel iawndal am anifeiliaid sy'n cael eu lladd yn orfodol a chostau profi. Y ffermwr sy'n gyfrifol am y £14,000 sy'n weddill o ganlyniad i golli anifeiliaid, costau profi ar y fferm ac effaith cyfyngiadau symud yn amharu ar y busnes. Bydd SLM yn caniatáu cymorth i atal, rheoli a dileu clefydau anifeiliaid drwy'r diben cymorth 'cyflawni a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid', a fydd yn cael effaith economaidd gadarnhaol ar geidwaid da byw a'u busnesau.

*Lliniaru peryglon llifogydd a sychder*. Gall tywydd eithafol megis llifogydd a sychder arwain at gostau economaidd difrifol i fusnesau fferm. Mae rhagfynegiadau hinsawdd yn awgrymu bod cyfnodau o sychder a llifogydd yn debygol o ddigwydd yn amlach.

Mae sychder estynedig yn achosi i gnydau fethu, yn lleihau cyflenwadau porthiant ac yn gallu achosi straen gwres mewn da byw. Mae'r effeithiau hyn yn arwain at ganlyniadau economaidd difrifol i fusnesau fferm. Er enghraifft, amcangyfrifwyd bod sychder 1995 a effeithiodd ar Gymru a Lloegr wedi costio £290 miliwn i'r diwydiant[70]. Felly, gall camau gweithredu ar y fferm i gynyddu ei allu i wrthsefyll y digwyddiadau hyn gael effaith gadarnhaol ar fusnes y fferm. Gall arallgyfeirio ar borfa gan ddefnyddio planhigion gwreiddio dwfn helpu i sicrhau bod glaswellt ar gael yn ystod cyfnodau o lawiad isel, gall lleiniau cysgodi a choed roi cysgod i dda byw a gall casglu dŵr glaw helpu i sicrhau cyflenwad parhaus o ddŵr.

Gall llifogydd achosi pob math o broblemau i ffermydd, gan gynnwys halogi pridd, methiant cnydau, colli stoc neu anafiadau i stoc, mwy o berygl o glefydau a difrod i gartrefi, asedau a seilwaith, neu eu colli. Mae'r holl effeithiau hyn yn cael effaith negyddol ar sefyllfa economaidd busnes fferm yn y tymor byr a'r tymor hwy. Amcangyfrifwyd bod y llifogydd a effeithiodd ar Gymru a Lloegr yn 2000 wedi costio £603 miliwn[71] i'r diwydiant, ac amcangyfrifwyd bod llifogydd Rhagfyr 2013-Mawrth 2014 wedi achosi gwerth £19 miliwn o ddifrod (Cymru a Lloegr)[72]. O dan y diben

[70] Defra, UK – Science Search
http://sciencesearch.defra.gov.uk/Default.aspx?Menu=Menu&Module=More&Location=None&Completed=0&ProjectID=18670

[71] Defra, UK – Science Search
http://sciencesearch.defra.gov.uk/Default.aspx?Menu=Menu&Module=More&Location=None&Completed=0&ProjectID=18670

[72] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/603549118fa8f5480a5386be/The_costs_and_impacts_of_the_winter_2013_to_2014_floods_-_report.pdf

hwn, gellid cefnogi camau i leihau llif dŵr, megis adfer cynefinoedd yr ucheldir (gan gynnwys mawndiroedd) a choetir ar orlifdiroedd, gan ddarparu budd economaidd i fusnes y fferm drwy daliadau i ymgymryd â chamau gweithredu a'r lleihad hirdymor mewn difrod o ganlyniad i lifogydd. Byddai cymhellion i gydweithio ar raddfa tirwedd yn arbennig o fuddiol i'r diben hwn.

Roedd astudiaeth Forest Research[73] yn amcangyfrif mai cyfanswm gwerth y storfa lifogydd a ddarperir gan bob coetir, a'r holl goed (y tu allan i goetir) yng Nghymru oedd £82.5m y flwyddyn o'i gymharu â phridd moel, a £34.4m o'i gymharu â glaswelltir. Mae hyn yn dangos gwerth economaidd potensial rhagor o goed ar gyfer atal llifogydd. Fodd bynnag, dim ond 3% o goed Cymru sydd ar orlifdiroedd o'u cymharu â 4.4% yn Lloegr.

*Cynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy.* Mae cefnogi ffermwyr i aros ar eu tir a pharhau yn eu rôl fel cynhyrchwyr bwyd yn un o egwyddorion allweddol y Bil. Bydd y dibenion cymorth yn annog gwneud cynhyrchu bwyd yn fwy cynaliadwy, mewn termau amgylcheddol ac economaidd. Bydd llawer o'r camau y gellid eu cymryd ar ffermydd i gynyddu cynaliadwyedd yn arwain at arbedion cost hefyd.

*Helpu cymunedau gwledig i ffynnu a chryfhau'r cysylltiadau rhwng busnesau amaethyddol a'u cymunedau.* Byddai'r camau a gymerir o dan y diben hwn yn ceisio arallgyfeirio a chryfhau busnesau fferm yn y fath fodd fel bod buddion busnes, economaidd a chyflogaeth yn cael eu teimlo yn yr ardaloedd yng nghyffiniau'r fferm a ledled Cymru. Byddai'r diben yn annog cefnogi arferion arloesol sydd wedi'u cynllunio i adfywio busnesau fferm yn ogystal â chreu cyfleoedd mewn cymunedau gwledig. Gallai'r effaith y gallai hyn ei chael ar annog busnesau newydd a gwahanol greu mwy o gyfleoedd a chyflogaeth mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig i bobl iau. Mae busnesau fferm sydd wedi arallgyfeirio hefyd yn debygol o allu gwrthsefyll heriau'r dyfodol.

*Gwneud busnesau amaethyddol yn fwy gwydn*. Mae ffermydd gwydn mewn sefyllfa well i ddygymod ac ymateb i newidiadau yn yr amgylchedd neu'r farchnad y maent yn gweithredu ynddi. Bydd busnesau fferm gwydn hefyd yn gallu darparu gwaith hirdymor dibynadwy a chyfleoedd i ddarparu sgil-wasanaethau, lle mae sgiliau a phrofiad yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae busnesau gwydn sy'n gallu addasu yn fwy tebygol o ffynnu a goroesi ergydion i'r sector fel y pandemig, gwrthdaro, problemau â'r gadwyn gyflenwi a'r newid yn yr hinsawdd.

Mae busnesau amaethyddol ffyniannus yn fwy tebygol o aros ar y tir gan gyfrannu at gymunedau gwledig ffyniannus a chynyddu'r tebygolrwydd y bydd tir amaethyddol Cymru yn cael ei gynnal er lles cenedlaethau'r dyfodol.

*Cynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.* Byddai camau gweithredu o dan y diben hwn yn atgyfnerthu a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau amaethyddol, gan weithio tuag at gynnal a chynyddu ei defnydd mewn sawl fformat. Gallai'r camau gynnwys gofynion o ran darparu deunyddiau, gwasanaethau a chymorth dwyieithog o fewn amaethyddiaeth yn gyffredinol, gan ganiatáu i ffermwyr sy'n siarad Cymraeg gynnal eu busnes yn fwy effeithlon yn eu dewis iaith.

---

[73] https://cdn.forestresearch.gov.uk/2023/01/Revised-valuation-of-flood-regulation-services-of-existing-forest-cover-2023.pdf

Gellid helpu busnesau amaethyddol i roi deunydd pacio dwyieithog ar eu cynnyrch, er enghraifft. Fel rhan o duedd ehangach yn y galw am fwyd a gynhyrchir yn lleol yn y DU[74], mae ymchwil yn Nghymru yn dangos hefyd bod busnesau ffyniannus o Gymru'n pwysleisio tarddiad Cymreig eu cynnyrch yn eu brandio[75]. Datgelodd yr ymchwil y byddai 44% o'r rhai a holwyd yn barod i dalu mwy am fwyd a diod o Gymru.

*Annog busnesau amaethyddol i reoli ynni yn effeithiol.* Byddai gwneud busnesau fferm yn fwy ynni effeithlon a chynyddu'r ynni adnewyddadwy a gynhyrchir ar y fferm yn lleihau costau'r busnes, drwy leihau'r ddibyniaeth ar ynni wedi'i brynu a chostau ynni cyffredinol. Gallai cynhyrchu ynni gwyrdd ddarparu ffrwd incwm i ffermydd, os ydynt yn cynhyrchu mwy nag y maent yn ei ddefnyddio a'u bod yn gallu ei werthu.

*Pontio i gymorth yn y dyfodol*

Rydym yn cydnabod y gallai symud o'r system bresennol sy'n seiliedig ar hawliau i un sy'n seiliedig ar gymorth i gyflawni SLM effeithio ar fusnesau fferm mewn ffyrdd gwahanol. Felly, mae'n bwysig bod pontio wedi'i reoli rhwng y system bresennol o gymorth a'r CFfC arfaethedig, er mwyn osgoi ansicrwydd a chyllid yn dod i ben yn sydyn. Byddwn yn ymgynghori ar ein dull o bontio ochr yn ochr â'r cynigion terfynol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2023.

*Coedwigaeth*

Mae costau'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth i ddiwygio Deddf Coedwigaeth 1967 a'r pwerau y mae hyn yn eu cyflwyno – y gallu i ychwanegu amodau at drwyddedau cwympo coed ac i ddiwygio/atal/dirymu trwyddedau cwympo coed a roddwyd eisoes. Mae amodau sylfaenol i'w cymhwyso i bob trwydded cwympo coed er mwyn sicrhau bod y drefn trwyddedau cwympo coed yn cyd-fynd â deddfwriaeth amgylcheddol arall. Mae eisoes yn ofynnol i'r sector coedwigaeth gydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol arall, felly ni ddylai fod unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o'r amodau sylfaenol, ond bydd yn ffurfioli cydymffurfiaeth o fewn y drefn trwyddedau cwympo coed.

Gallai costau i ymgeiswyr sy'n gwneud cais am drwyddedau cwympo coed gynyddu, ond mae hynny'n dibynnu ar amodau safleoedd unigol. Nid yw costau cydymffurfio ag amodau mwy penodol i safleoedd mewn trwyddedau cwympo coed yn hysbys oherwydd natur hynod amrywiol trwyddedau cwympo coed o ran mynychder, graddfa, rhywogaethau coed, ansawdd coed a manylion safleoedd. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i'r pwerau hyn gael eu defnyddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) dim ond lle bo angen a hynny'n gymesur yn unol ag egwyddorion Cyfraith Gyhoeddus, cod y rheoleiddwyr ac Egwyddorion Rheoleiddio CNC ei hun.

*Tenantiaethau*

Disgwyliwn i'r darpariaethau tenantiaeth gael effaith gadarnhaol fach ar fusnesau fferm, yn enwedig busnesau fferm sydd â chytundebau tenantiaeth a allai fel arall fod wedi'u cyfyngu gan

[74] https://www.statista.com/statistics/1285643/percent-of-uk-consumers-planning-to-shop-local/

[75] https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/sites/foodanddrink/files/documents/value_of_welshness.pdf

gymalau a ysgrifennwyd yn eu prydlesi sawl blwyddyn yn ôl. Bydd effaith o ran amser ac arian ar y busnesau fferm hynny sy'n defnyddio'r darpariaethau, fel y nodir yn Adran 2.

*Gwahardd defnyddio maglau a thrapiau glud*

Er bod sylwadau wedi'u gwneud yn y gorffennol y gallai cyfyngu ar y defnydd o faglau effeithio ar allu tirfeddianwyr, ciperiaid a ffermwyr i fynd i'r afael ag ysglyfaethu eu stoc (o lwynogod sy'n ymosod ar ŵyn ac adar hela), mae digon o fesurau rheoli plâu amgen – megis saethu gyda chymorth delweddu thermol neu lampio – ar gael yn rhwydd ac maent yn fwy effeithlon. Yn hollbwysig, mae'r dewisiadau amgen hyn yn cynnig gwell amodau lles anifeiliaid, felly maent yn fwy derbyniol i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae rhai o'r cwmnïau masnachol a ymatebodd i'n hymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol wedi datgan eu bod yn parhau i ddefnyddio dulliau rheoli plâu ac na fyddent am ei weld yn cael ei wahardd; fodd bynnag, nid oes llawer i awgrymu y byddai'r gwaharddiad yn cael effaith negyddol ar eu busnes gan fod digon o ddulliau rheoli amgen yn bodoli a'u bod ar gael yn rhwydd i'r cwmnïau hyn. Yn wir, mae gan rai cwmnïau rheoli plâu eu gwaharddiad eu hunain (am resymau lles anifeiliaid) ar drapiau glud ac maent yn defnyddio dulliau amgen yn hynod effeithiol.

Dylid nodi hefyd nad ydym yn gwybod am unrhyw weithgynhyrchwyr maglau na thrapiau glud sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae maglau a thrapiau glud yn rhad i'w gwneud, yn amrywio o £4 i £8 yr un, a gellir eu hadeiladu o ddeunyddiau sydd ar gael yn rhwydd, felly nid ydynt yn gynhyrchion arbenigol. O'r herwydd, ni ragwelir y bydd y gwaharddiad yn arwain at unrhyw effaith fasnachol yng Nghymru.

Mae Deddf newydd i gyfyngu ar y defnydd o drapiau glud yn Lloegr wedi'i phasio yn San Steffan yn ddiweddar, ac mae'r Alban hefyd wedi cyhoeddi gwaharddiad llwyr. Mae arwyddion cynnar, pe bai pob llywodraeth ym Mhrydain Fawr yn mynd yn ei blaen yn ôl y bwriad, y gellid goresgyn unrhyw rwystrau i wahardd gwerthu trapiau glud, megis y Ddeddf Marchnadoedd Mewnol, ac y byddai hyn yn ymestyn y gwaharddiad o ddefnyddio i feddiannu neu werthu/prynu.

*Safonau Marchnata*

Mae busnes yn un maes lle bydd y darpariaethau hyn yn cael effaith nodedig. Cynhaliwyd dadansoddiad cost/budd manwl o'r darpariaethau fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae hyn yn cwmpasu'r costau i'r sectorau preifat a chyhoeddus.

Bydd yr effaith ar fusnesau a'r cyhoedd yn dibynnu ar natur yr is-ddeddfwriaeth. Mae'n annhebygol y byddai unrhyw ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud heb yr amcan o naill ai gynyddu rhwyddineb busnes neu gryfhau hyder defnyddwyr. Wrth gwrs, mae'n bosibl y bydd cyflawni un o'r amcanion hyn yn cael effaith negyddol ar y llall, ond mae'n amhosibl ar hyn o bryd rhagweld pa safonau marchnata y gellir eu newid heb i gynlluniau cadarn gael eu gwneud.

*Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol*

Bydd y darpariaethau'n effeithio ar fusnes a'r cyhoedd, gan fod parhad pwerau Gweinidogion Cymru i lansio Ymyrraeth yn y Farchnad yn rhoi lefel o hyder i fusnesau. Mae'n debygol o gael effaith gadarnhaol gyffredinol ar fusnesau, gan na fwriedir i'r pwerau gael eu defnyddio i gynnal

busnesau aneffeithlon, ond yn hytrach eu defnyddio pan fydd argyfwng yn effeithio ar sector penodol.

Bwriedir i'r darpariaethau barhau â'r pwerau presennol sydd gan Weinidogion Cymru, felly nid yw'n debygol y bydd effaith bendant ar unwaith o gyflwyno'r darpariaethau.

## Busnes Arall

*SLM a chymorth yn y dyfodol*

Ystyrir bod gwytnwch busnesau amaethyddol o fewn y cymunedau a'r economïau lleol y maent yn gweithredu ynddynt yn rhan o gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy yn amcanion y Bil. Mae hyn yn cydnabod y buddion economaidd y mae busnesau amaethyddol yn eu rhoi i fusnesau eraill yn eu cymunedau. Bydd y Bil hefyd yn galluogi cymorth ar gyfer gwytnwch ehangach y gadwyn gyflenwi a busnesau gyda'r nod o:

- Wella'r cynnig hyrwyddo ar gyfer cynnyrch ffermwyr drwy eu galluogi i ddangos tystiolaeth effeithiol o gynaliadwyedd y cynhyrchion y maent yn eu cynhyrchu;
- Annog mwy o aliniad â'r farchnad;
- Nodi a goresgyn rhwystrau yn y gadwyn gyflenwi;
- Byrhau cadwyni cyflenwi ar gyfer cynhyrchion o Gymru.

Mynegodd ymatebwyr i'n hymgynghoriadau blaenorol amrywiaeth o safbwyntiau a oedd yn adlewyrchu pwysigrwydd busnesau gwledig a chymunedau gwledig. Mae enghreifftiau'n cynnwys cyfeiriad at bwysigrwydd lladd-dai, llaethdai, storfeydd grawn a gweithfeydd prosesu bwyd ar raddfa fach mewn lleoliad lleol. Mae'r pwerau ar gyfer darparu cymorth yn y dyfodol yn y Bil yn cynnwys dibenion cymorth i wneud busnesau amaethyddol yn fwy gwydn ac i gryfhau'r cysylltiadau rhwng y busnesau hyn a'u cymunedau. Dylai cymorth i'r diwydiant amaethyddol a'r gadwyn gyflenwi, lle mae'n galluogi Rheoli Tir yn Gynaliadwy, fod o fudd i fusnesau yng Nghymru.

Gweler y Dadansoddiad Cost a Budd sy'n cyd-fynd â'r Bil am amcangyfrifon o gostau a manteision y darpariaethau. Wrth i gynigion ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gael eu datblygu, byddwn yn cynnal dadansoddiad economaidd pellach.

*Dosbarthu Carcasau*

Mae'r darpariaethau'n debygol o gael rhywfaint o effaith ar fusnesau yn y gadwyn cyflenwi cig. Byddai rheoliadau a wneir o dan y pwerau yn y Bil yn cael eu gwneud naill ai i wella effeithlonrwydd busnes neu hyder defnyddwyr, felly byddent yn fwy tebygol o fod o fudd ariannol i fusnesau. Dylai gwybod y bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i fod â'r prif bwerau i bennu safonau dosbarthu carcasau feithrin hyder y cyhoedd a busnesau y gellir cysoni safonau yn y maes hwn, sy'n ddatblygiad cadarnhaol.

## Y Cyhoedd ac Unigolion

*SLM a chymorth yn y dyfodol*

Dylai darpariaethau'r Bil gael effaith gadarnhaol ar unigolion a'r cyhoedd.

Mae llawer o'r effeithiau cadarnhaol yn gysylltiedig ag iechyd a lles ac fe'u hamlinellir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a'n Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Amlinellir effeithiau economaidd-

gymdeithasol posibl yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Gall fod effeithiau cadarnhaol ar gyflogaeth hefyd, fel yr amlinellir yn Adran 5 yn yr Asesiad o'r Effaith ar Adnoddau Naturiol o dan *cefnogi cyflogaeth ddiogel a sefydlog.*

Yn benodol, disgwylir yr effeithiau canlynol ar y cyhoedd:

- Bydd cynnal safonau cynhyrchu bwyd Cymru yn darparu bwyd o safon i ddefnyddwyr ac yn diogelu tirwedd ac adnoddau naturiol Cymru ar yr un pryd;
- Bydd gwell darpariaeth ar gyfer cyfleoedd i'r cyhoedd gael mynediad i gefn gwlad yn cyflwyno manteision o ran iechyd, lles a thwristiaeth;
- Bydd diogelu tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol yn cynnal ein hasedau diwylliannol ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol;
- Bydd gwell ansawdd aer a dŵr, drwy ddarparu SLM, hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles.
- Bydd safonau uchel o iechyd a lles anifeiliaid yn cyfrannu at fwyd mwy diogel, gwell iechyd cyhoeddus, llai o alw ar wasanaethau iechyd a'r angen am driniaeth wrthfiotig. Mae clefydau anifeiliaid yn fygythiad cyson i'r sector da byw yng Nghymru a gall achosion o glefydau gael effaith ddinistriol ar ddiwydiant, cymunedau gwledig ac economi Cymru. Mae risg hefyd o filheintiau (clefydau y gellir eu trosglwyddo o anifeiliaid i bobl e.e. salmonela) a all gael effaith ar iechyd y cyhoedd. Mae da byw iach a gedwir i safonau lles uchel yn cyfrannu at gymunedau gwledig drwy gynnal busnesau fferm proffidiol, cefnogi cyfleoedd marchnata a masnach a helpu ffermwyr i gynyddu elw, yn ogystal â diogelu a chreu swyddi.

## 4.2 Y Sector Cyhoeddus gan gynnwys llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar y sector cyhoeddus?**

Disgwyliwn i'r elfennau canlynol o'r Bil gael effaith ar y sector cyhoeddus:

*SLM a chymorth yn y dyfodol*

Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion ddarparu cymorth mewn cysylltiad â'r dibenion SLM, felly nid yw'n ystyried modelau cyflawni ar gyfer y CFfC arfaethedig na chynlluniau eraill yn y dyfodol.

Fodd bynnag, y bwriad yw y bydd SLM, a'r pwerau ar gyfer cymorth yn y dyfodol, yn galluogi effaith gadarnhaol ar y sector cyhoeddus. Er enghraifft, bydd y gost is o ddelio ag achosion o glefydau ac ymateb iddynt o ganlyniad i gyflawni'r diben 'cyflawni a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid' o fudd i'r Llywodraeth, trethdalwyr a cheidwaid anifeiliaid.

Ar hyn o bryd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cefnogi'r gwaith technegol o gyflawni cynlluniau Glastir, yn enwedig gyda barn Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, caniatâd ar gyfer cynigion ar safleoedd dynodedig, trwyddedau Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop a cheisiadau am drwyddedau cwympo coed. Byddwn yn parhau i weithio gyda CNC wrth i'n cynigion ar gyfer cymorth yn y dyfodol ddatblygu.

Gweler y Dadansoddiad Cost a Budd sy'n cyd-fynd â'r Bil am asesiad o sut y gallai SLM a'r pwerau cymorth effeithio ar y sector cyhoeddus. Cynhelir asesiad pellach ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig.

*Coedwigaeth*

Mae'r Dadansoddiad Cost a Budd cysylltiedig ar gyfer y Bil yn cynnwys amcangyfrifon o gostau posibl i CNC o ganlyniad i ddiwygio Deddf Coedwigaeth 1967. Mae hyn yn cynnwys costau sefydlu yn ogystal â chostau ychwanegol parhaus o weithredu'r darpariaethau.

*Gwahardd maglau a thrapiau glud*

Derbyniwyd sylwadau gan chwe awdurdod lleol yng Nghymru i'n hymgynghoriad â rhanddeiliaid. O'r rhain, ymatebodd dau i ddweud nad ydynt byth yn defnyddio trapiau glud a dau i ddweud eu bod ond yn eu defnyddio o dan amgylchiadau eithriadol iawn. Dywedodd un awdurdod lleol fod hyn yn digwydd mewn llawer llai nag 1% o'r holl achosion o reoli plâu ac un arall nad oedd wedi'u defnyddio yn y 12 mis diwethaf. Ymatebodd dau awdurdod lleol i ddweud nad ydynt byth yn defnyddio trapiau glud ar gyfer anifeiliaid asgwrn cefn gan eu bod yn cael eu hystyried yn annynol, ac felly ystyrir bod dulliau amgen o reoli plâu yn ddigonol. I'r perwyl hwn, ni chredir y bydd y gwaharddiad ar drapiau glud yn cael effaith negyddol ar awdurdodau lleol yng Nghymru.

*Safonau Marchnata*

Bydd y darpariaethau yn effeithio ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru oherwydd eu rôl o ran gorfodi safonau marchnata gofynnol mewn amaethyddiaeth a chynhyrchion bwyd. Er y byddai pontio i'r system lle na fyddai Gweinidogion Cymru yn gallu addasu rheoliadau safonau marchnata yn cael effaith ar Awdurdodau Lleol, gan na fyddent yn troi at yr un bobl sy'n gwneud penderfyniadau am arweiniad, bydd y ddarpariaeth i gynnal y sefyllfa bresennol ar lawr gwlad ar ôl i bwerau gael eu dileu o Fil Amaethyddiaeth y DU a'u trosglwyddo i Fil Amaethyddiaeth (Cymru) yn golygu parhad. Bydd y parhad hwn yn berthnasol i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus, megis yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Asiantaeth Taliadau Gwledig.

*Dosbarthu Carcasau*

Ni ddylai'r sector cyhoeddus deimlo fawr ddim effaith o ganlyniad i'r darpariaethau, ond bydd unrhyw is-ddeddfwriaeth yn cael effaith ar waith yr Asiantaeth Taliadau Gwledig yn ei gwaith yn gorfodi rheoliadau. Mae'n annhebygol yr effeithir ar gyrff cyhoeddus eraill.

*Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol*

Gwneir taliadau ymyrryd mewn argyfwng drwy Taliadau Gwledig Cymru (RPW), corff o fewn Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, Llywodraeth Cymru ei hun ddylai fod yr unig gorff sector

cyhoeddus i gael ei effeithio'n uniongyrchol gan y darpariaethau ar gyfer datgan amodau eithriadol yn y farchnad a sefydlu taliadau argyfwng i ffermwyr.

Yn draddodiadol, mae cynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus a Chymorth Storio Preifat wedi cael eu rhedeg gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig (RPA) ar ran Llywodraeth Cymru. Mae parhau â phwerau presennol Gweinidogion Cymru i lansio cynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus a Chymorth Storio Preifat yn golygu y bydd gan yr RPA yr un disgwyliadau o Lywodraeth Cymru yn y tymor byr mewn perthynas â sefydlu a rheoli'r cynlluniau hyn.

## 4.3 Trydydd Sector

### Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar sefydliadau'r trydydd sector a'r hyn maen nhw'n ei wneud?

*SLM a chymorth yn y dyfodol*

Rydym wedi ymgysylltu â sefydliadau'r trydydd sector yn ystod ein tri ymgynghoriad ar y cynigion a'n grwpiau rhanddeiliaid a byddwn yn parhau i ymgynghori â nhw wrth i'n cynigion ddatblygu ymhellach i helpu i nodi effeithiau posibl, yn enwedig o ran cynigion ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Ar hyn o bryd, nid ydym yn disgwyl i'r darpariaethau fframwaith effeithio'n gadarnhaol nac yn negyddol ar y trydydd sector.

*Gwahardd maglau a thrapiau glud*

Mae sawl sefydliad lles anifeiliaid yn monitro ac yn ymchwilio i'r defnydd o faglau gan ffermwyr a chiperiaid yng Nghymru. Gall y sefydliadau hyn hefyd fod yn rhan o'r gwaith o achub ac adsefydlu anifeiliaid sy'n cael eu dal mewn maglau – megis moch daear neu gŵn a chathod. Gyda maglau wedi'u gwahardd, rhagwelir y bydd llai o achosion o anifeiliaid gwyllt ac anwes yn cael eu dal ac angen gofal. Byddai hyn yn golygu llai o gostau i sefydliadau o'r fath mewn perthynas â ffioedd milfeddygol a chyfnodau hir o adsefydlu mewn canolfannau achub anifeiliaid. Ar hyn o bryd, gall o leiaf un sefydliad erlyn unigolion neu gwmnïau yr amheuir eu bod yn defnyddio maglau'n anghyfreithlon (er enghraifft, rhywogaeth nad yw'n darged, neu drwy beidio â gwirio maglau a osodwyd mor aml ag sy'n ofynnol), felly gallent weld gostyngiad mewn achosion os yw'r gwaharddiad yn gweithredu fel rhwystr yn y ffordd y'i bwriadwyd. Mae sefydliadau achub anifeiliaid hefyd yn achub, adsefydlu ac erlyn mewn perthynas ag anifeiliaid sy'n cael eu dal mewn trapiau glud, er bod nifer yr achosion hyn yn fach iawn oherwydd y problemau cynhenid wrth ddarganfod achosion o'r fath.

Mae pob sefydliad lles anifeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad wedi croesawu'r ddarpariaeth i wahardd maglau a thrapiau glud.

## 4.4 Effaith ar Gyfiawnder

*Coedwigaeth*

Mae'r darpariaethau coedwigaeth yn creu trosedd newydd, lle nad yw'r camau sydd eu hangen i fynd i'r afael ag amod sydd wedi'i thorri wedi'u cymryd. Mae peidio â chydymffurfio ag elfennau eraill nad ydynt yn ymwneud â'r camau gofynnol, mewn hysbysiadau a gyflwynwyd i orfodi'r

pwerau newydd yn gallu arwain at ddirwy o dan a.17 “Cosb am gwympo coed heb drwydded” sydd ddim yn drosedd newydd. Fodd bynnag, bydd yr amgylchiadau lle mae’r drosedd yn codi yn ehangach gan y bydd hefyd yn cynnwys y rhai sydd wedi cwympo coed lle mae eu trwydded cwympo coed wedi’i hatal neu ei dirymu. Mae lefel y ddirwy o dan a.17 wedi’i diwygio i “ddirwy ddiderfyn” yn unol ag a.24 o’r Ddeddf a’r drosedd newydd a amlinellir uchod er mwyn bod yn rhwystr mwy effeithiol. Bydd yn mynd i’r afael hefyd â’r anghysondeb rhwng y ddirwy ddiderfyn am beidio â chydymffurfio â hysbysiad o dan a.24 a’r ddirwy gyfyngedig bresennol am gwympo coed yn anghyfreithlon yn a.17. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i Lysoedd osod dirwy uwch yn achos digwyddiad mawr. Adlewyrchir y lefel hon o ddirwy yn Lloegr hefyd. Mae darpariaeth wedi’i gwneud i ganiatáu talu iawndal pan gaiff hysbysiad i newid, atal neu ddirymu trwydded (waeth a fu tramgwydd neu os nad oes bai) ei ganslo wedi hynny o ganlyniad i apêl lwyddiannus. Gallai’r iawndal gynnwys gwerth y dibrisiant yn y pren a/neu gostau rhesymol a ysgwyddir, gan ddibynnu ar y math o hysbysiad a ganslwyd. Yn unol ag egwyddorion Cyfraith Gyhoeddus a’i Egwyddorion Rheoleiddio, bydd CNC yn gweithio gyda deiliaid trwyddedau cwympo i gytuno ar waith lliniaru neu adfer trwy ddiwygiad er mwyn gostwng nifer yr apelau a lleihau’r iawndal posibl. Bydd copi o’r ffurflen Nodi’r Effaith ar y System Gyfiawnder (“JSII”) ar gael adeg cyflwyno’r Bil.

*Tenantiaethau*

Ni fydd y darpariaethau’n effeithio ar y system gyfiawnder. Bydd unrhyw anghydfodau newydd sy’n codi o ganlyniad i’r darpariaethau yn cael eu trafod gan gymrodeddwr (a benodir gan RICS, CAAV neu ALA) neu drydydd parti (lle mae’r ddau barti’n cytuno) yn hytrach na thrwy’r llysoedd neu’r tribiwnlysoedd.

*Maglau a thrapiau glud*

Bydd y Bil yn creu dwy drosedd newydd. Bydd person yn cyflawni trosedd os bydd yn defnyddio magl i ddal neu ffrwyno unrhyw anifail gwyllt neu drap glud i ddal neu ffrwyno anifail asgwrn cefn. Bydd cosbau yn unol â’r rhai yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 am y rhan fwyaf o droseddau Rhan 1; sef carchar am gyfnod nad yw’n hwy na 6 mis neu ddirwy ddiderfyn ar euogfarn ddiannod (gweler adran 22(1) o’r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad). Ystyriwyd yr effeithiau a ragwelir ar y system cyfiawnder troseddol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhagweld na fyddai fawr ddim effaith ar y system gyfiawnder. Bydd copi o’r ffurflen Nodi’r Effaith ar y System Gyfiawnder (“JSII”) ar gael adeg cyflwyno’r Bil.

*Safonau Marchnata, Ymyrryd yn y Farchnad, Dosbarthu Carcasau*

Mae’r darpariaethau’n cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol newydd a fydd yn cynnal y sefyllfa bresennol; ni fydd unrhyw droseddau’n cael eu creu, eu dileu na’u diwygio. Gan fod y newidiadau’n sicrhau parhad, nid yw proses lawn Nodi’r Effaith ar y System Gyfiawnder yn cael ei chynnal ar gyfer y darpariaethau hyn.

## ADRAN 5. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT AMGYLCHEDDOL?

O dan Adran 9 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi, cyhoeddi a gweithredu polisi adnoddau naturiol a chymryd pob cam rhesymol i'w weithredu ac annog eraill i gymryd camau o'r fath. Cyhoeddwyd y Polisi Adnoddau Naturiol ym mis Awst 2017.

| | | |
|---|---|---|
| **Gofynnol ar gyfer pob cynnig:** | • Blaenoriaethau, heriau a chyfleoedd cenedlaethol Polisi Adnoddau Naturiol | 5.1a<br>5.1b |
| **Gofynnol ar gyfer pob cynnig** | • Bioamrywiaeth | 5.2 ac Atodiad F |
| **Gofynnol ar gyfer pob cynnig** | • Newid Hinsawdd | 5.3 |
| Cynlluniau a rhaglenni penodol sy'n gofyn am AAS o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 | • Asesiad Amgylcheddol Strategol | 5.4 a Chanllawiau IIA |
| Cynigion a allai effeithio ar Ardal Cadwraeth Arbennig neu Ardal Gwarchodedig Arbennig (ACA/AGA): | • Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | 5.5 a Chanllawiau IIA |
| Prosiectau penodol sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref, trafnidiaeth, amaethyddiaeth, coedwigaeth, morol, draenio tir a thrydan sy'n gofyn am EIA o dan y Rheoliadau EIA amrywiol | • Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol | 5.6 a Chanllawiau IIA |

## 5.1 Adnoddau Naturiol

### 5.1a Sut y bydd y cynnig yn cyflawni un neu fwy o'r Blaenoriaethau Cenedlaethol yn y Polisi Adnoddau Naturiol (NRP)?

Y Blaenoriaethau Cenedlaethol yn yr NRP yw:

- **Dod o hyd i atebion seiliedig ar natur;**
- **Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau; a thrwy wneud hynny,**
- **Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar le.**

*Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) a phwerau cymorth*

Bydd pennu'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) yn helpu i gyflawni pob un o'r tair Blaenoriaeth Genedlaethol fel y'u nodir yn y Polisi Adnoddau Naturiol.

**Atebion seiliedig ar natur:** Nod SLM a'r pwerau cymorth yw cyfrannu at bridd iach, aer glân ac amgylchedd gwydn gyda mwy o fioamrywiaeth. Cyflawnir y nodau hyn drwy atebion seiliedig ar natur, gan y gellir cyflawni'r canlyniadau rydym yn eu ceisio drwy newid arferion rheoli ffermydd. Er enghraifft, dylai cynnwys coed yn y system ffermio helpu i leihau'r perygl o lifogydd, a bydd adfer mawndiroedd a chynyddu deunydd organig mewn tir amaethyddol wedi'i wella yn cyfrannu at ddatgarboneiddio. Bydd y Bil yn rhoi'r pwerau i Weinidogion gefnogi'r gweithgareddau hyn o dan y dibenion cymorth.

**Cynyddu effeithlonrwydd adnoddau:** Mae'r Bil yn pennu cynyddu effeithlonrwydd adnoddau fel un o'r 11 diben y gall Gweinidogion ddarparu cymorth ar eu cyfer.

Gellir sicrhau mwy o effeithlonrwydd o ran adnoddau ar y fferm drwy fesur a gwella perfformiad sydd, yn ei dro, yn helpu i leihau'r defnydd o fewnbynnau ac yn lleihau costau gorbenion.

Nid yn unig y mae'r effeithlonrwydd hwn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar elw ffermydd, ond mae iddo fanteision amgylcheddol cadarnhaol hefyd. Mae dod yn fwy effeithlon yn golygu bod y fferm yn gweithio'n dda o fewn ei hamgylchedd ac yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau naturiol sydd ar gael iddi. Er enghraifft, bydd llawer o'r camau a gymerir i wella dwysedd allyriadau nwyon tŷ gwydr hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad ariannol. Mae ffermydd sy'n perfformio'n well hefyd yn gallu ymdopi'n well â newid a, thrwy wneud y defnydd gorau o adnoddau naturiol, maent yn fwy tebygol o allu cyflawni'r dibenion SLM.

Bydd y Bil yn golygu y bydd cynlluniau yn y dyfodol, gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) arfaethedig, yn gallu cefnogi ffermydd i ddeall eu costau a nodi lle y gellir gwneud gwelliannau, gan gynnwys defnyddio ynni adnewyddadwy, i gynyddu effeithlonrwydd a chynaliadwyedd.

Yn ogystal, un o bwrpasau'r Bil yw cefnogi busnesau amaethyddol i reoli ynni'n effeithlon. Disgwylir i ddefnydd mwy effeithlon ar ynni arwain at arbed costau i fusnesau amaethyddol a bydd yn helpu i leihau'r pwysau ar y cyflenwad ynni cenedlaethol.

**Dull seiliedig ar le:** Bydd y fframwaith SLM yn cefnogi dull seiliedig ar le o ymdrin â pholisi amaethyddol yn y dyfodol. Mae SLM yn bwriadu cefnogi ffermio mewn ffordd sy'n gweithio gyda natur, yn helpu i fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur, yn cefnogi cymunedau gwledig bywiog yn ogystal â galluogi a chefnogi cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy. Mae'r 11 diben ar gyfer cymorth yn nodi'r canlyniadau rydym yn ceisio eu cyflawni, ond bydd y camau y mae angen eu cymryd i'w cyflawni yn amrywio yn ôl fferm, lleoliad a blaenoriaethau lleol. Ar gyfer y CFfC arfaethedig, rydym yn ystyried ystod o dystiolaeth, gan gynnwys yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) a Datganiadau Ardal CNC i nodi'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd lleol hyn i gefnogi cydweithio ar raddfa dalgylch neu dirwedd.

*Coedwigaeth*

Mae coedwigaeth a choetiroedd yn cynnig amrywiaeth o fanteision mewn perthynas â Blaenoriaethau Cenedlaethol y Polisi Adnoddau Naturiol. Mae rheoli coetiroedd yn cyfrannu'n bwysig at wella cyflwr coetiroedd ac ansawdd pren, yn ogystal â chynnal gwytnwch fel nodwedd cynefinoedd neu dirwedd. Fodd bynnag, ni ellir cynnwys amodau sy'n ofynnol i fodloni deddfwriaeth amgylcheddol mewn trwyddedau cwympo coed ar hyn o bryd. Bydd y darpariaethau'n helpu i fynd i'r afael â'r diffyg cysylltiad rhwng deddfwriaeth amgylcheddol a Deddf Coedwigaeth 1967 ac, wrth wneud hynny, diogelu'n well rhag niwed amgylcheddol.

*Tenantiaethau*

Disgwyliwn y bydd y darpariaethau'n hwyluso mynediad at gynlluniau yn y dyfodol ar gyfer rhai tenantiaid y Ddeddf Daliadau Amaethyddol (AHA) a allai fel arall fod wedi'u cyfyngu gan gymalau a ysgrifennwyd yn eu prydlesi sawl blwyddyn yn ôl. Dylai hyn helpu i gyflawni'r Blaenoriaethau Cenedlaethol ymhellach.

*Safonau Marchnata, Dosbarthu Carcasau*

Nid oes gan y darpariaethau y gallu i gael eu defnyddio i weithredu unrhyw un o'r Blaenoriaethau Cenedlaethol yn y Polisi Adnoddau Naturiol, gan na all y pwerau sylfaenol arfaethedig hyn gael effaith benodol ar sail lle na gwella'r amgylchedd naturiol yn uniongyrchol.

*Ymyrryd yn y Farchnad*

Nid oes gan y darpariaethau y gallu i gael eu defnyddio i weithredu unrhyw un o'r Blaenoriaethau Cenedlaethol yn y Polisi Adnoddau Naturiol, gan na all y pwerau sylfaenol arfaethedig hyn gael effaith benodol ar sail lle na gwella'r amgylchedd naturiol yn uniongyrchol. Pan wneir is-ddeddfwriaeth yn ystod argyfwng marchnad, mae'n bosibl y bydd rhai ardaloedd daearyddol yn cael eu heffeithio'n fwy oherwydd bod cyfran uchel o fusnesau amaethyddol yn y sector yr effeithir arnynt yn yr ardal honno. Gan fod y ddarpariaeth hon yn gysylltiedig ag argyfyngau, fodd bynnag, mae'n amhosibl rhagweld sut y byddai defnyddio'r pwerau hyn yn y fath fodd yn cael effaith ar sail lle ar hyn o bryd.

### 5.1b A yw'r cynnig yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd cenedlaethol canlynol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

## Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth – drwy ddatblygu rhwydweithiau ecolegol gwydn

*SLM a chymorth yn y dyfodol*

Mae cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau wedi'i osod fel un o'r amcanion SLM. Rhaid i Weinidogion ystyried y ffordd orau o gyflawni'r amcanion hyn wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Bil.

Mae cynyddu gwytnwch ecosystemau a rheoli safleoedd amgylcheddol dynodedig yn ddau o'r dibenion ar gyfer cymorth a ddiffinnir yn y Bil, ond gellid disgwyl hefyd y bydd nifer o'r dibenion eraill yn cael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth a rhwydweithiau ecolegol. Er enghraifft, gellir gwella ansawdd dŵr drwy gynlluniau rheoli maethynnau a chyfateb mewnbynnau i anghenion planhigion. Gall hyn hefyd wella iechyd pridd a bioamrywiaeth. Mae'r Gymdeithas Frenhinol[41] yn nodi'r canlynol: "*Biodiversity and soil structure are closely linked; soil structure influences the nature and activity of soil organisms, while soil organisms affect the physical structure of the soil. Good soil structure benefits a number of species and habitats. In addition, soil biodiversity, and its associated influence on soil structure, contributes to a range of ecosystem functions such as decomposition of dead matter and nutrient cycling. Soil also contributes to ecosystem services such as support of above-ground biodiversity, control of plant, animal and human pests and diseases, and climate regulation"*.

Disgwyliwn y bydd SLM a'r pwerau cymorth yn galluogi effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth. Amlinellir effeithiau disgwyliedig pellach yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth.

*Coedwigaeth*

Mae'r darpariaethau i ddiwygio Deddf Coedwigaeth 1967 i ddarparu pwerau i ychwanegu amodau at drwyddedau cwympo coed ac i ddiwygio/atal/dirymu trwyddedau cwympo coed a roddwyd eisoes yn cael eu ceisio i atal cwympo coed a fyddai'n mynd yn groes i ddeddfwriaeth amgylcheddol arall. Effaith hyn yn bennaf yw diogelu bywyd gwyllt a darparu diogelwch rhag difrod amgylcheddol. Mae hefyd yn galluogi gorfodi amodau "amgylcheddol" o'r fath o dan y Ddeddf Coedwigaeth; yn helpu'r Ddeddf Goedwigaeth i gyd-fynd â deddfwriaeth amgylcheddol arall megis Rheoliadau Cynefinoedd 2017 ac yn galluogi CNC i gyflawni ei ddyletswydd SMNR (rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy) ac Adran 6 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

## Diogelu a chynyddu storfeydd carbon mewn priddoedd a biomas

Mae'r Bil yn pennu lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo fel un o'r pedwar amcan SLM. Er mwyn ymateb i'r her hon, mae dal a storio cymaint â phosib o garbon yn cael ei osod fel diben ar gyfer cymorth ochr yn ochr â lleihau allyriadau.

Fel yr amlinellwyd yn adroddiad cadwyni rhesymeg Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP) [76], mae dal a storio carbon yn digwydd mewn cynefinoedd gwahanol ledled Cymru, gan gynnwys coetiroedd, morfa heli, mawndiroedd a glaswelltir. Gellir diogelu a

[76] https://erammp.wales/sites/default/files/ERAMMP%20Rpt-40%20SFS%20Cadwyni%20Rhesymeg%20v1.0_cy.pdf

chynyddu storfeydd carbon drwy arferion megis rheoli'r borfa, rheoli maethynnau a chynyddu gorchudd coed.

Yn ogystal, dylai rheoli ac adfer cynefinoedd naturiol sy'n gweithredu fel storfeydd carbon arwain at gynyddu gallu gwahanol ecosystemau i gadw carbon. Mae'r dystiolaeth[77] yn dangos y canlynol:

- Ar hyn o bryd, mae gan briddoedd Cymru lefelau canolraddol o garbon yn y pridd o gymharu â Lloegr a'r Alban, sy'n awgrymu bod rhywfaint o botensial i wella;
- Mae'r cynnydd mewn Carbon Organig Pridd (SOC) oherwydd newid penodol mewn dull rheoli neu ddefnydd tir yn gyfyngedig. Bydd stociau SOC yn tueddu i drwytho wrth i gyflwr ecwilibriwm newydd gael ei gyflawni. Yn yr un modd, efallai y bydd enillion SOC posibl ar eu mwyaf mewn ardaloedd sydd â stoc SOC isel ar hyn o bryd sy'n gweld newidiadau mewn defnydd tir, yn hytrach na mân newidiadau rheoli;
- Efallai na fydd cynnydd yn y SOC oherwydd newid penodol mewn dull rheoli neu ddefnydd tir yn barhaol. Mae dychwelyd i'r dull rheoli gwreiddiol yn debygol o ryddhau SOC cronedig, felly mae newidiadau hirdymor mewn arferion yn bwysig;
- Gallai cynyddu Deunydd Organig Pridd (SOM) hefyd gael effeithiau synergaidd drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr amaethyddol; gallai cynnydd bach mewn SOM wella nodweddion pridd a chynhyrchiant planhigion a lleihau dibyniaeth ar wrtaith nitrogen.

Bydd cymorth i amaethyddiaeth yn y dyfodol, gan gynnwys y CFfC arfaethedig, yn gallu cefnogi ffermydd i ymgymryd ag amrywiaeth o arferion rheoli a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar storfeydd carbon mewn priddoedd a biomas. Bydd ein cynigion i annog integreiddio plannu coetiroedd mewn systemau fferm yn dal a storio mwy o garbon yn y coed a'r cynefinoedd a grëir.

## Cynnal gallu cynhyrchiol, yn enwedig drwy wella ansawdd pridd a bioddiogelwch

*Ansawdd Pridd*

Mae ansawdd pridd yn rhan annatod o egwyddor SLM a rhaid ei gynnal a'i wella er mwyn cyflawni'r amcanion strategol.

O ran pwysigrwydd ansawdd pridd i allu cynhyrchiol, mae'r Gymdeithas Frenhinol[78] yn nodi'r canlynol: "...*there is a correlation between improvements in soil structure and increasing grain yield of cereals. A well-structured soil can improve crop productivity through providing a habitat for earthworms and other soil organisms. Compacted soil is often associated with a decrease in yield through detrimental effects on the crop's root system. Improved soil structure can help to prevent soil erosion, where the upper layer of soil is displaced. Soil erosion significantly affects the productivity of soil, with Defra estimating that the total cost of erosion in England and Wales is in the region of £150 million a year[79]".*

---

[77] Alison, J., et al. (2019). Atodiad 3: Rheoli Carbon Pridd. Adroddiad ERAMMP i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297).

[78] Y Gymdeithas Frenhinol (2020). Soil structure and its benefits.

[79] Graves, A., Morris, J., Deeks, L., Rickson, R., Kibblewhite, M., Harris, J., Farewell, T. a Truckle, I., (2015). The total costs of soil degradation in England and Wales. Ecological Economics, 119, t.399-413.

Mae adroddiad gan ERAMMP[80] yn cynghori fel a ganlyn: "*Mae ystyried y maethynnau a gyflenwir gan ddeunyddiau organig yn allweddol er mwyn lleihau colledion maethynnau i ddŵr a'r aer o systemau amaethyddol. Gellir gwella effeithlonrwydd defnyddio maethynnau tail drwy sicrhau bod tail yn cael ei ddefnyddio yn ôl cyfraddau defnydd nad yw'n cyflenwi mwy o faethynnau na sydd ei angen ar y cnydau. Bydd targedu defnyddio tail ar briddoedd sydd angen ffosffad er mwyn cynnal ffrwythlondeb pridd yn lleihau'r risg o golli ffosffad i ddŵr, yn ogystal ag osgoi defnyddio tail ar briddoedd sydd eisoes â lefelau P digonol".* Byddai defnyddio slyri mewn modd wedi'i dargedu (h.y. drwy chwistrellu) yn arwain at fanteision gan gynnwys mwy o gnydau, a lleihau colli maethynnau a dŵr ffo ar yr un pryd, sydd wedi arwain at effeithiau amgylcheddol sy'n niweidiol i fioamrywiaeth, gan gynnwys ewtroffigedd.

Mae tystiolaeth gan SoNaRR yn dangos pwysigrwydd diogelu ein priddoedd:

- Mae'r priddoedd o'r ansawdd gorau a'r tir amaethyddol mwyaf cynhyrchiol yn adnodd prin a chyfyngedig yng Nghymru; gan gyfrif am lai na 7% o arwynebedd y tir[81];
- Mae ansawdd pridd wedi dirywio ar draws pob cynefin ar wahân i goetiroedd lle bu rhywfaint o welliant;
- Nid yw difrifoldeb a graddau gofodol erydiad pridd wedi'u mesur yn uniongyrchol yng Nghymru. Credir bod cywasgu pridd difrifol yn effeithio ar tua 10-15% o gaeau glaswelltir yng Nghymru a Lloegr, a bod 50-60% mewn cyflwr cymedrol.

Bydd camau gweithredu ar y fferm i wella ansawdd pridd yn aml yn sicrhau manteision ehangach hefyd megis llai o nwyon tŷ gwydr, gwell ansawdd dŵr, gwell ansawdd aer ac ecosystemau mwy gwydn, gan gynnal gallu cynhyrchiol y tir. Bydd cymorth yn y dyfodol, gan gynnwys y CFfC, yn gallu cefnogi ffermydd i fonitro a gwella iechyd pridd drwy gamau gweithredu megis profion pridd a Chynlluniau Rheoli Maethynnau (NMP).

Gall cymorth ar gyfer NMP a phrofion pridd helpu i sicrhau bod ffermwyr yn rhoi'r dull rheoli mwyaf priodol ar waith ar eu fferm, gan wella'r canlynol hefyd:

- proffidioldeb ffermydd – drwy reoli costau mewnbynnau;
- bïom pridd – drwy fywyd amrywiol yn y pridd megis ffyngau neu organebau bach mwy o faint e.e. llyngyr;
- strwythur pridd – drwy gael pridd sy'n cydgrynhoi'n well a thrwy sicrhau lefelau sefydlog o garbon yn y pridd; lleihau erydiad;
- dal a storio carbon yn y pridd;
- cyfradd ymdreiddiad pridd – gan ganiatáu i fwy o ddŵr gael ei gadw gan briddoedd, gan leihau llifogydd.

*Bioddiogelwch*

---

[80] Williams, J.R., et al. (2019). Atodiad 1: Rheoli maethynnau pridd ar gyfer tir wedi'i wella Adroddiad ERAMMP i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297).

[81] Cyfoeth Naturiol Cymru (2016). Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR): Asesiad o reolaeth gynaliadwy o'n adnoddau naturiol. Adroddiad Technegol.

Mae clefydau endemig sy'n cyfyngu ar gynhyrchiant yn cyfyngu'n fawr ar gynhyrchu da byw yn effeithlon ac maent yn effeithio ar ôl troed carbon, effeithlonrwydd a phroffidioldeb ffermydd. Mae systemau Cymru yn arbennig o agored i effeithiau clefydau endemig gan eu bod yn seiliedig ar dir pori i raddau helaeth. Mae Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (UKCCC) wedi nodi gwell iechyd anifeiliaid drwy fioddiogelwch fel mesur lliniaru effeithiol, yr amcangyfrifir ei fod yn arbed arian i ffermwyr ac yn cyfrannu at leihau allyriadau CO2e.

Dangosodd adroddiad cadwyni rhesymeg ERAMMP[82] y gallai da byw iachach a mwy cynhyrchiol yn sgil bioddiogelwch gwell ddarparu:

- gwell cynhyrchiant, gan leihau nifer y da byw sydd eu hangen ar gyfer yr un allbwn;
- cynnal a gwella bioddiogelwch fel budd ynddo'i hun;
- lleihad yn effeithiau meddyginiaethau milfeddygol ar rywogaethau eraill (e.e. chwilod tail) a phrosesau (e.e. ailgylchu maethynnau) a gwasanaethau (e.e. ansawdd dŵr) ecosystem cysylltiedig;
- llai o wrthfiotigau'n gollwng i'r amgylchedd;
- gwell ansawdd aer a llai o allyriadau carbon fesul uned, sy'n fanteision anuniongyrchol anifeiliaid mwy cynhyrchiol.

Bydd SLM yn galluogi darparu cymorth i gyflawni a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid, ac mae bioddiogelwch yn elfen bwysig o hynny. Bydd hyn yn galluogi lefel dda o fioddiogelwch ar draws ffermydd, drwy'r gallu i ddarparu cymorth i gymryd camau gweithredu megis sicrhau bod ffiniau'n ddiogel i atal stoc rhag crwydro, sicrhau bod gorsafoedd golchi ar gael a sicrhau storfeydd bwyd anifeiliaid i gadw bywyd gwyllt a fermin allan.

## Lleihau'r perygl o lifogydd

Mae'r Bil yn pennu lliniaru peryglon llifogydd a sychder fel diben ar gyfer cymorth o dan SLM, felly mae wedi'i ddylunio i gael effaith gadarnhaol ar berygl llifogydd.

Mae amrywiaeth o ffactorau megis topograffi, cynefin a glawiad yn dylanwadu ar y perygl o lifogydd[83]. Mae adroddiad cadwyni rhesymeg ERAMMP yn tynnu sylw at ystod o gamau gweithredu ar y fferm y byddai disgwyl iddynt liniaru'r perygl o lifogydd:

- Gall rheoli'r borfa a chnydau gorchudd gynyddu cyfraddau ymdreiddiad a chadw dŵr;
- Gall plannu gwrychoedd a chlustogfeydd eraill (e.e. mewn parthau glan afon) arafu dŵr ffo;
- Mae coetir fferm yn gwella'r ffordd mae dŵr yn cael ei ryng-gipio drwy wella strwythur y pridd.

Mae amrywiaeth eang o ecosystemau yn cynnig budd amlwg o ran rheoli llifogydd pan fyddant mewn cyflwr da. Mae un enghraifft o hyn yn cael ei chodi gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn

[82] Dickie, I. a Neupauer, S. (2021). Adroddiad 40-ERAMMP: Cadwyni Rhesymeg y CFfC. Adroddiad i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017)(UKCEH 06297/06810)

[83] Keenleyside, C.B. et al. (2019). Atodiad 9: Lleihau llifogydd. Adroddiad ERAMMP i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297).

perthynas ag ardaloedd Ffridd yng Nghanol De Cymru, lle sonnir am liniaru llifogydd fel un o nifer o fanteision rheoli'r ecosystem yn dda[84].

Mae tystiolaeth gan ERAMMP[85] yn dangos bod "...*adfer tiroedd gwlyb y gorlifdiroedd yn sicrhau manteision o ran rheoli'r risg o lifogydd drwy ostwng pa mor aml y mae'r llifogydd yn digwydd a chynyddu'r cyfnodau amser rhwng y llifogydd, er bod hefyd risg posibl (a rennir gan y mwyafrif o ymyraethau WWNP) o gydamseru eu huchafbwynt gan arwain at lifogydd ymhellach i lawr yr afon. Dylanwadir ar eu heffeithiolrwydd gan ffactorau sy'n ymwneud yn benodol â'r safle, yn enwedig pa mor dda y maent wedi'u cysylltu â'r afon a hefyd eu lleoliad, topograffeg y tirlun, nodweddion y pridd a'r math o reolaeth".* Mae tystiolaeth ERAMMP hefyd yn nodi manteision bioamrywiaeth gorlifdiroedd wedi'u hadfer, sy'n gallu *"...darparu amrywiaeth eang o gynefinoedd (gan gynnwys cynefinoedd sy'n derbyn blaenoriaeth megis ffeniau, gwelyau cyrs a chorsydd wedi'u codi ar dir isel) a buddion ar gyfer y rhywogaethau sy'n defnyddio'r rhain fel mannau bwydo, bridio a gorffwys. Ymysg y rhywogaethau a'r tacsonau sy'n elwa mae rhydwyr, adar gwyllt, pysgod, mamaliaid, amffibiaid ac anifeiliaid diasgwrn-cefn. Mae tri chwarter y tiroedd gwlybion a adferwyd yn cael eu defnyddio gan adar sy'n mudo".*

Gall rheoli pridd hefyd gyfrannu at lai o berygl llifogydd. Mae'r Gymdeithas Frenhinol[86] yn nodi "*Soil can act as "…'natural flood management infrastructure' by increasing water infiltration into the ground and also by providing natural water storage, for example through uptake into root systems. However, both these benefits are negatively affected by compacted soil structure. Compaction of the pores within the soil reduces the ability of rainfall to infiltrate the soil and acts as an obstacle to root penetration. The degree to which soil can contribute to flood prevention is strongly reliant on it being well-structured".*

Mae'r dystiolaeth uchod yn dangos y gellid disgwyl hefyd i lawer o gamau eraill y gellid eu cymryd i fodloni'r dibenion eraill ar gyfer cymorth e.e. plannu coed ar gyfer dal a storio carbon, gael effaith gadarnhaol ar y gallu i liniaru'r perygl o lifogydd. Amcangyfrifir bod y storfa lifogydd a ddarperir gan goed yng Nghymru yn werth £82.5m y flwyddyn o'i gymharu â phridd moel, a £34.4m o'i gymharu â glaswelltir[87].

## Cefnogi lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo drwy ddulliau ecosystem

Diffinnir dulliau ecosystem o addasu i'r newid yn yr hinsawdd gan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol fel a ganlyn:

---

[84] Cyfoeth Naturiol Cymru. Datganiad Ardal Canol De Cymru: Adeiladu ecosystemau gwydn. https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/south-central-wales-area-statement/building-resilient-ecosystems/?lang=cy

[85] Keenleyside, C.B. et al. (2019). Atodiad 9: Lleihau llifogydd. Adroddiad ERAMMP i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297).

[86] Y Gymdeithas Frenhinol (2020). Soil structure and its benefits.

[87] https://cdn.forestresearch.gov.uk/2023/01/Revised-valuation-of-flood-regulation-services-of-existing-forest-cover-2023.pdf

"The use of biodiversity and ecosystem services […] to help people adapt to the adverse effects of climate change"[88] "…that may include sustainable management, conservation and restoration of ecosystems, as part of an overall adaptation strategy that takes into account the multiple social, economic and cultural co-benefits for local communities[89]

Mae'n bwysig nodi bod y diffiniad hwn yn rhoi pwyslais ar les pobl a chymunedau ac yn defnyddio mesurau sy'n sicrhau manteision ehangach. Mae hyn yn cyd-fynd â'r amcan SLM strategol o liniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo y mae'n rhaid ei wneud mewn ffordd sy'n:

- Diwallu anghenion y presennol heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain; a
- Chyfrannu at nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gall ecosystemau iach weithredu fel clustog yn erbyn tywydd garw a achosir gan y newid yn yr hinsawdd. Mae CNC wedi cynghori, yn natganiad ardal Gogledd-orllewin Cymru, fod effeithiau'r newid yn yr hinsawdd eisoes yn digwydd yng Nghymru gyda sychder difrifol, tanau gwyllt a straen ar ein cynefinoedd brodorol yn dod yn fwy cyffredin[90]. Byddai'r camau gweithredu a'r canlyniadau isod yn bodloni amcanion strategol SLM a hefyd yn bodloni nifer o'r dibenion ar gyfer cymorth:

- **Cynnwys carbon uchel yn y pridd.** Mae'r Gymdeithas Frenhinol[91] yn nodi'r canlynol: "*Soil is the largest terrestrial store of organic carbon and its potential as a carbon sink means it could have an important role in climate change mitigation……The capacity for soil carbon sequestration depends on soil type and land use. For example, the soil of wetlands and peatlands accumulates carbon at faster rates, due to high soil moisture and decreased rates of microbial decomposition……the restoration of former crop fields to grassland or forests can restore soil carbon;*
- **Adfer Mawndiroedd.** Mae tystiolaeth[92] yn dangos bod adfer mawndiroedd defnyddio 3.4 gwaith yn llai o nitrogen na dal a storio carbon mwynol yn y pridd, ac mae'n gofyn am lawer llai o arwynebedd tir, felly mae hyn yn galw am ystyriaeth gryfach o adsefydlu mawndiroedd fel mesur lliniaru;

[88] Confensiwn Amrywiaeth Fiolegol (CBD) (2009) Connecting Biodiversity and Climate Change Mitigation and Adaptation. Report of the Second Ad Hoc Technical Expert Group on Biodiversity and Climate Change. CBD Technical Series No. 41. Secretariat of the Convention on Biological Diversity, Montreal, Canada

[89] Confensiwn Amrywiaeth Fiolegol (CBD) (2010) Decision adopted by the Conference of the Parties to the Convention on Biological Diversity at its 10th Meeting. X/33. Biodiversity and climate change. UNEP/CBD/COP/DEC/X/33.

[90] Cyfoeth Naturiol Cymru. Datganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru. https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/north-west-wales-area-statement/climate-and-environment-emergency-adaptation-and-mitigation/?lang=cy

[91] Y Gymdeithas Frenhinol (2020). Soil structure and its benefits.

[92] Leifeld, J., a Menichetti, L. (2018). The underappreciated potential of peatlands in global climate change mitigation strategies. *Nature communications*, *9*(1), 1-7.

- **Amaeth-goedwigaeth[93].** Dengys tystiolaeth[94] y gall systemau amaeth-goedwigaeth gyfrannu at arafu'r cynnydd hwnnw [mewn crynodiadau carbon deuocsid ($CO_2$) atmosfferig] a chyfrannu at liniaru'r newid yn yr hinsawdd...... Y gronfa carbon organig pridd (SOC), yn arbennig, yw'r unig gronfa ddaearol sy'n storio rhywfaint o garbon (C) am filenia y gellir ei wella'n fwriadol gan arferion amaeth-goedwigaeth. Gall hyd at 2.2 Petagram (Pg) o Garbon (1 Pg = $10^{15}$ g) gael eu dal uwchben ac islaw'r ddaear am ros 50 mlynedd mewn systemau amaeth-goedwigaeth;
- **Coetir.** Mae'r UKCCC[95] yn nodi pwysigrwydd cynyddu gorchudd coetir (ar lefel y DU): "*Our analysis shows that using land released from agriculture for carbon sequestration and restoring natural habitats can deliver deep emissions reduction to 2050. Alternative uses of land could lead to emissions reductions of as much as 35-80% (20-40 MtCO2e per annum) by 2050. The key measures to deliver this are: afforestation (increasing forest cover from 13% of all UK land today up to 19% by 2050) and better management of existing forests; restoring 55-70% of peatlands could reduce emissions by 4-11 MtCO2e annually by 2050; sustainable energy crops representing up to 5% of land where wider environmental risks are managed; and more diverse uses of land that include trees on farms and hedgerow planting. Afforestation and restoring peatlands would also provide a range of additional benefits, including increased biodiversity, improved water quality and flood alleviation*". Mae Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd yn cynghori y bydd gweithredu ar draws y DU yn arwain at gyfanswm o £61 biliwn o Ddal a Storio Carbon, heb hyd yn oed ystyried manteision cymdeithasol y camau hyn.[96]

Bydd y dibenion ar gyfer cymorth yn caniatáu i gynlluniau yn y dyfodol, gan gynnwys y CFfC, gefnogi ffermydd i ddefnyddio'r dulliau ecosystem uchod, ymhlith eraill, ar eu fferm. Dylai hyn helpu i gynyddu'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd ond, yn bwysig iawn, dylai ddarparu manteision cymdeithasol a diwylliannol ehangach drwy sicrhau cynaliadwyedd amaethyddiaeth a chymunedau gwledig.

## Lleihau llygredd sŵn a lefelau llygredd yn ein haer, a gwella ansawdd aer

Mae allyriadau nwyon amaethyddol (e.e. amonia) yn effeithio ar ansawdd aer ac yn cael effeithiau negyddol ar iechyd pobl ac ecosystemau. Mae llawer o'r ecosystemau a'r adnoddau naturiol yng Nghymru yn gweithredu mewn ffyrdd i leihau llygredd. Mae hyn yn cynnwys coetiroedd yn dal a storio carbon ac yn rhyng-gipio allyriadau amonia, ynghyd â nifer o fanteision gan wahanol dirweddau. Ymdrinnir ag effeithiau disgwyliedig ansawdd aer gwell ar iechyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.

[93] Mae amaeth-goedwigaeth yn cyfeirio at gynhyrchu cnydau, da byw a biomas coed ar yr un darn o dir.

[94] Lorenz, K., a Lal, R. (2014). Soil organic carbon sequestration in agroforestry systems. A review. *Agronomy for Sustainable Development*, *34*(2), 443-454.

[95] Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (2018) Land use: Reducing emissions and preparing for climate change.

[96] Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (2020), Land Use Policies for a Net Zero UK, t.58

Mae nitrogen yn cael ei golli i'r aer fel amonia pan fydd wrin yn cymysgu â thail ac wrth daenu gwrtaith. Mae'n cronni yn yr atmosffer ac yna'n syrthio ar y tir, gan ymyrryd ag ecosystemau. Yn 2018, cafodd 88% o gynefinoedd sensitif yng Nghymru nitrogen gormodol uwchlaw trothwyon lle mae'n niweidiol i blanhigion a bioamrywiaeth sensitif. Yn ogystal, mae nitrogen yn cael effaith andwyol ar 29% o'r cynefinoedd mwyaf sensitif[97].

Amcangyfrifir bod colledion maethynnau blynyddol o amaethyddiaeth Cymru yn dod i oddeutu 20,000 tunnell o amonia ac 8,000 tunnell o ocsid nitraidd i'r aer.

Er mwyn llwyddo i gyrraedd targed y DU ar gyfer 2030 a bennwyd gan NECD, bydd angen i allyriadau amonia fod 16% yn is o gymharu â lefelau 2005. O gymharu â llygryddion eraill yr NECD, gostyngodd allyriadau amonia rhwng 1990 a 2007, ond maent wedi bod yn codi ers hynny.

Bydd yr hyn sy'n achosi allyriadau amonia yn wahanol ar bob fferm ond dyma restr ohonynt yn nhrefn gyffredinol eu pwysigrwydd[98]:

- taenu slyri a thail (26%);
- siediau da byw (24%);
- gwrtaith, yn enwedig wrea (19%);
- pori (12%);
- storio tail a slyri (11%).

Mae gwella ansawdd aer yn cael ei bennu fel diben ar gyfer cymorth yn y Bil. Fel y trafodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a'r Asesiad o'r Effaith Economaidd, byddai'r camau sy'n cael eu cymryd ar y fferm i gyflawni'r diben hwn hefyd yn arwain at fanteision iechyd i bobl Cymru a manteision economaidd i fusnes y fferm drwy leihau costau mewnbynnau.

Mae llawer o ymyriadau sy'n gyson â'r dibenion SLM ar gyfer cymorth a fyddai'n sicrhau ansawdd aer gwell[99]:

- Rheoli colledion nitrogen (N) ar y fferm a gwella effeithlonrwydd y defnydd o N yw'r elfennau allweddol ar gyfer lleihau allyriadau $NH_3$ yn gyffredinol. Er enghraifft, ar ffermydd da byw cymysg, mae rhwng 10% a 40% o'r golled N yn gysylltiedig ag allyriadau $NH_3$[100];

---

[97] https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/692861/sonarr2020-nod-1-asesiad.pdf

[98] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cod-ymarfer-amaethyddol-da-canllawiau-i-leihau-allyriadau-amonia.pdf

[99] Williams, J.R., et al. (2019). Atodiad 1: Rheoli maethynnau pridd ar gyfer tir wedi'i wella Adroddiad ERAMMP i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297).

[100] Jones, L. et al. (2019). Atodiad 8: Gwella Ansawdd Aer a Llesiant. Adroddiad ERAMMP i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297).

- Mae gan y defnydd o systemau argymell gwrtaith (h.y. paru cyflenwad maethynnau o dail organig a gwrteithiau wedi'u gweithgynhyrchu i ofynion maethynnau cnydau) y potensial i leihau tua 5% y colledion nitrogen a ffosfforws i ddŵr ac allyriadau amonia ac ocsid nitraidd i'r aer;
- Gallai opsiynau lleihau amonia eraill leihau colledion amonia o'r llwybr colled wedi'i thargedu hyd at 80% (e.e. gorchuddion cadarn ar storfeydd slyri – bydd gorchuddio storfeydd tail hylifol, ynghyd â defnyddio technolegau taenu manwl-gywir ar gyfer taenu tail hylifol, yn lleihau allyriadau amonia).

Yn ôl tystiolaeth arall gan ERAMMP[101], *"...mae sylw yn gallu cael ei roi ar bump maes bras lle mae lleihau amonia wedi cael ei ymchwilio'n dda yn barod a'i brofi fel dull effeithiol. Y rhain yw:*

- *Strategaethau bwydo da byw;*
- *Lleihau allyriadau amonia o lety anifeiliaid;*
- *Atal allyriadau o gyfleusterau storio piswail;*
- *Technegau cymhwyso piswail allyru isel;*
- *Gall allyriad3 NH o osod gwrteithiwr mwynol gael ei ostwng wrth ddewis gwrteithwyr allyrru N isel, fel amoniwm nitrad, gan osgoi wrea sy'n gysylltiedig ag allyriadau llawer uwch."*

Mae'r Dadansoddiad Cost a Budd sy'n cyd-fynd â'r Bil yn rhoi amcangyfrif o'r effeithiau posibl ar ansawdd aer o gymryd ystod o gamau gweithredu ar y fferm sy'n gyson ag SLM.

Er nad yw llygredd sŵn wedi'i dargedu'n benodol at ddibenion cymorth SLM, gellid disgwyl y gallai cyflawni dibenion eraill leihau llygredd sŵn hefyd. Canfu adroddiad gan Eftec ar gyfer Defra (2018) fod cyfalaf naturiol wedi helpu i liniaru lefelau sŵn ffyrdd rhwng 8,000 a 22,000 o gartrefi yng Nghymru[102]. Gallai cynyddu gwytnwch ecosystemau gefnogi hyn ymhellach.

### Gwella ansawdd a sicrhau maint ein dŵr

Amcangyfrifir bod colledion maethynnau blynyddol o amaethyddiaeth Cymru tua 37,000 tunnell o nitrad-N a 700 tunnell o ffosfforws i ddŵr[103]. Allyriadau nitradau, ffosffadau a gwaddodion o dir amaethyddol yw un o'r prif ffynonellau pwysau ar ansawdd dŵr croyw yng Nghymru[104].

Gellir gwella ansawdd dŵr drwy amrywiaeth o fesurau ar y fferm[105] sy'n lleihau colledion maethynnau, erydiad yr uwchbridd ac atal unrhyw golledion rhag cyrraedd cyrsiau dŵr:

---

[101] Jones, L. et al. (2019). Atodiad 8: Gwella Ansawdd Aer a Llesiant. Adroddiad ERAMMP i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297).

[102] Eftec a CEH (2018) Modelling noise mitigation for UK urban natural capital accounts. Adroddiad. t.38.

[103] Williams, J.R., et al. (2019). Atodiad 1: Rheoli maethynnau pridd ar gyfer tir wedi'i wella Adroddiad ERAMMP i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297).

[104] https://erammp.wales/sites/default/files/ERAMMP%20Rpt-40%20SFS%20Cadwyni%20Rhesymeg%20v1.0_cy.pdf

[105] https://erammp.wales/sites/default/files/ERAMMP%20Rpt-40%20SFS%20Cadwyni%20Rhesymeg%20v1.0_cy.pdf

- Gall cynlluniau rheoli maethynnau sicrhau bod y meintiau cywir yn cael eu taenu ar yr adeg gywir, gan leihau colledion i ddŵr;
- Gall gwrychoedd, cynefinoedd a choed gynyddu nifer y maethynnau sy'n cael eu rhyng-gipio, gan eu hatal rhag cyrraedd cyrsiau dŵr;
- Gall cnydau gorchudd gynyddu'r maethynnau sy'n cael eu cadw, lleihau colledion a chynnal yr uwchbridd.

Bydd pennu gwella ansawdd dŵr fel un o'r 11 diben ar gyfer cymorth SLM yn caniatáu i'r camau uchod gael eu cefnogi.

Byddai llawer o gamau gweithredu sy'n gyson â SLM yn lleihau niwed i ansawdd dyfrffyrdd, yn enwedig drwy fesurau megis taenu gwrtaith mewn modd wedi'i dargedu ac annog arferion megis adfywio gwrychoedd a rheoli pridd. Nod y rhain yw lleihau lefel y maethynnau golchi dros y pridd yn sgil erydu pridd, ynghyd â rhwystrau naturiol sy'n cael eu creu i leihau'r llygredd sy'n mynd i ddyfrffyrdd. Felly, rydym yn disgwyl i'n cynigion gael effaith gadarnhaol ar ansawdd dŵr.

## Cymryd camau i leihau'r pwysau ar adnoddau naturiol, megis drwy effeithlonrwydd adnoddau ac ynni adnewyddadwy

Mae'r Bil yn pennu effeithlonrwydd adnoddau a rheolaeth effeithlon ar ynni fel dibenion penodol ar gyfer cymorth. Mae effeithlonrwydd adnoddau yn hanfodol ar gyfer lliniaru'r newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd amaethyddiaeth. Gall adnoddau fferm fod yn amgylcheddol (e.e. dŵr, pridd) neu gallant fod yn fewnbynnau (e.e. ynni, gwrtaith, disel, plaladdwyr).

Drwy SLM, ein nod yw cefnogi ffermydd i fod yn gynhyrchiol yn gynaliadwy, drwy wella effeithlonrwydd eu cynhyrchu o fewn gallu naturiol y tir. Bydd y Bil hefyd yn galluogi cymorth i wella effeithlonrwydd adnoddau yn y gadwyn gyflenwi gysylltiedig, i gefnogi SLM.

Gall gwell effeithlonrwydd nid yn unig wneud busnesau fferm yn fwy gwydn, drwy leihau costau a gwastraff (e.e. drwy ddefnyddio llai o ynni neu wrtaith), ond gall hefyd gyflawni'r dibenion SLM a helpu i leihau'r pwysau o ran adnoddau ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Bydd cyflawni'r dibenion SLM yn ehangach, megis aer glân, dŵr glân a dal a storio mwy o garbon, hefyd yn lleihau'r pwysau ar adnoddau naturiol ac yn cynyddu gwytnwch ein hecosystemau.

Disgwyliwn i'n cynigion gael effaith gadarnhaol ar effeithlonrwydd adnoddau a lleihau'r pwysau ar adnoddau naturiol.

## Cefnogi dulliau ataliol o ymdrin â chanlyniadau iechyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar faterion iechyd cyhoeddus allweddol, er enghraifft, llygredd aer a sŵn sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, mynd i'r afael ag anweithgarwch corfforol ac iechyd meddwl

Bwriad y fframwaith SLM yw lleihau llygredd aer, gwella ansawdd aer a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cyfleoedd i'r cyhoedd gael mynediad i gefn gwlad ac ymgysylltu ag ef. Yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Iechyd, rydym wedi nodi tystiolaeth o'r prif feysydd lle bydd ein cynigion yn cyfrannu at iechyd meddyliol a chorfforol.

## Cefnogi camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac economaidd

Bydd y darpariaethau'n cyfrannu at well ansawdd aer a dŵr ac, i'r graddau y mae ansawdd aer a dŵr gwael yn effeithio'n anghymesur ar y rhai sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel (mewn ardaloedd difreintiedig), dylai ein darpariaethau gael effaith gadarnhaol ar anghydraddoldebau iechyd aelwydydd incwm isel.

Mae rhannau o Gymru ymhlith yr ardaloedd â'r ansawdd aer gwaethaf ym Mhrydain o hyd, gan gyfrannu at tua 1,000-4,000 o farwolaethau bob blwyddyn. Ochr yn ochr â hyn, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi disgrifio'r sefyllfa fel argyfwng iechyd cyhoeddus, gydag amcangyfrif cost i economi Cymru o £1 biliwn mewn diwrnodau gwaith a gollir a chostau i'n gwasanaeth iechyd[106]. Byddai gweithredu SLM yn helpu i wella'r sefyllfa hon ac yn ehangu mynediad i dirwedd Cymru, a allai fod o fudd i'r rheini o ardaloedd tlawd neu ddifreintiedig.

Mae ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi y bydd y canlyniadau amgylcheddol a gyflawnir gan y darpariaethau yn cael effaith gadarnhaol ar bob un o'r tri is-faes amgylchedd ffisegol (ansawdd aer; perygl llifogydd; a mynediad i fannau gwyrdd) ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC)[107]. O'r herwydd, gallai hyn leihau nifer yr ardaloedd[108] yng Nghymru y dangosir eu bod yn ddifreintiedig yn amgylcheddol o dan y maes amgylchedd ffisegol ym MALlC. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les y bobl hynny sy'n byw yn yr ardaloedd hynny ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at leihau anghydraddoldeb amgylcheddol.

## Cefnogi cydlyniant cymunedol

Disgwylir i'r Bil gyfrannu'n gadarnhaol at gyfalaf cymdeithasol a lles cymunedol.

Mae cymunedau gwledig ar flaen y gad o ran yr argyfyngau hinsawdd a natur. Os na chymerir camau i fynd i'r afael â'r heriau hyn, bydd cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy a chadernid economïau a chymunedau gwledig o dan fygythiad.

Mae'r amcanion SLM wedi'u dylunio i ymateb i'r heriau hyn mewn ffordd sydd hefyd o fudd i gydlyniant cymdeithasol, diwylliant a threftadaeth ac sy'n cefnogi datgarboneiddio mewn ffordd deg a llewyrchus. Hefyd, mae dibenion cymorth yn cynnwys cryfhau'r cysylltiadau rhwng busnesau amaethyddol a'u cymunedau a helpu cymunedau gwledig i ffynnu.

Mae'r angen i gyflawni'r amcanion hyn yn cael ei gryfhau gan y gofyniad bod rhaid eu cyflawni mewn ffordd sy'n:

a) diwallu anghenion y presennol heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain; a

---

[106] Cyfoeth Naturiol Cymru. Datganiad Ardal Canol De Cymru – Gwella ein Hiechyd. https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/south-central-wales-area-statement/improving-our-health/?lang=cy

[107] Llywodraeth Cymru (2019). Adroddiad Canlyniadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC).

[108] Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI)

b) cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd SLM yn darparu fframwaith i Weinidogion gefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau a fydd yn cynyddu gwydnwch amaethyddiaeth a'r amgylchedd gwledig. Byddai hyn yn ei dro yn cefnogi cydlyniant cymunedol, fel yr amlinellir yn yr Asesiad o'r Effaith o ran Prawfesur Gwledig a'r Asesiad o'r Effaith ar Lesiant Economaidd.

## Cefnogi cyflogaeth ddiogel a sefydlog

Mae amcangyfrifon ar gyfer 2021[109] yn dangos mai cyfanswm nifer y bobl sy'n gweithio ar ddaliadau amaethyddol yng Nghymru yw 50,401. O'r cyfanswm hwn, mae 37,953 o brif ffermwyr, cyfarwyddwyr, partneriaid busnes a'u priod. Mae'r cyfanswm yn cynnwys 12,448 o weithwyr fferm rheolaidd llawn amser, rhan-amser rheolaidd a thymhorol/achlysurol. Nid yw'r ffigur yn cynnwys pobl hunangyflogedig na chontractwyr a all fod yn gweithio ar y fferm hefyd.

Disgwyliwn i'r Bil gyfrannu'n gadarnhaol at gyflogaeth. Mae tystiolaeth gan Tir Gofal yng Nghymru[110] ac Entry Level Stewardship yn Lloegr[111] wedi canfod bod y cynlluniau amaeth-amgylcheddol hyn yn gysylltiedig â chynnydd yn y galw am lafur. Yn ogystal, ar lefel y DU, awgrymir bod cyfraniad Colofn 2 at gyflogaeth wledig yn uwch (1.2%) o gymharu â chyfraniad Colofn 1 (1.0%)[112].

Mae dibenion cymorth yn y dyfodol o dan SLM yn cynnwys y diben i wneud busnesau amaethyddol yng Nghymru'n fwy gwydn. Drwy SLM, bydd sector amaethyddol gwydn hefyd yn cyfrannu at gyflogaeth ddiogel a sefydlog drwy alluogi cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol i barhau i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy a'r canlyniadau rydym yn eu ceisio. Dylai hyn gefnogi swyddi yn y sector amaethyddol, y gadwyn gyflenwi ehangach a chymunedau gwledig.

Mae'n hanfodol bod unrhyw newidiadau i amaethyddiaeth, defnydd tir ac arferion cysylltiedig yn deg ac yn creu cyfleoedd ar draws y gymuned wledig (ac ehangach). Bydd hyn yn gofyn am gyngor, cymorth a datblygu sgiliau priodol. Mae'r CFfC arfaethedig yn bwriadu darparu gwasanaeth cynghori i gefnogi pob busnes fferm i ddarparu SLM.

Yn ogystal, gall diogelu a chynyddu cynaliadwyedd treftadaeth, tirweddau ac adnoddau naturiol Cymru arwain at nifer o fanteision trydyddol ychwanegol sy'n gysylltiedig â chreu cyflogaeth ddiogel a sefydlog. Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol ym maes amaeth-dwristiaeth lle mae adnoddau naturiol Cymru wedi creu amgylchedd naturiol sy'n fyd-enwog. Ceir tystiolaeth o hyn yn

---

[109] Arolwg Amaethyddiaeth a Garddwriaeth mis Mehefin (2021).

[110] Agra CEAS (2005). Socio-economic evaluation of Tir Gofal, adroddiad ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Llywodraeth Cymru. Arolygwyd sampl o 251 o gyfranogwyr Tir Gofal (ychydig dros 20% o'r 1,166 o gyfranogwyr a oedd wedi derbyn taliadau ar ddechrau'r prosiect).

[111] Mills, J., Courtney, P., a Gaskell, P. (2010). Assessing the Incidental socio-economic impacts of Environmental Stewardship.

[112] Rizov, M., Davidova, S., a Bailey, A. (2018). Employment effects of CAP payments in the UK non-farm economy. *European Review of Agricultural Economics*, *45*(5), 723-748.

arolwg Ymwelwyr Cymru sy'n nodi'r amgylchedd naturiol fel y prif reswm i dwristiaid ddewis Cymru fel cyrchfan gwyliau[113].

*Tenantiaethau*

Disgwyliwn y bydd y darpariaethau'n hwyluso cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol a mynediad at gynlluniau yn y dyfodol i rai tenantiaid amaethyddol a allai fel arall fod wedi'u cyfyngu gan gymalau a ysgrifennwyd yn eu prydlesi sawl blwyddyn yn ôl. Bydd hyn yn hwyluso rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ymhellach.

*Safonau Marchnata, Dosbarthu Carcasau*

Ni fydd y darpariaethau'n cael unrhyw effaith ar fioamrywiaeth, priddoedd, gallu cynhyrchiol, llifogydd, lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, llygredd nac ansawdd dŵr, oherwydd ni fydd y ddeddfwriaeth sylfaenol arfaethedig yn arwain at newidiadau pendant ar lawr gwlad.

Gall is-ddeddfwriaeth ar safonau marchnata a wneir gyda'r pwerau a nodir yn y darpariaethau gael effaith ar y materion a nodir uchod ond, ar hyn o bryd, ni allwn ragweld beth fyddai'r rhain.

*Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol*

Bydd y darpariaethau'n caniatáu i ddeddfwriaeth gael ei gwneud a fyddai'n debygol o gadw ffermwyr mewn gwaith mewn argyfwng, yn hytrach na chaniatáu methiant busnes oherwydd force majeure. Byddai'r darpariaethau'n cefnogi cyflogaeth ddiogel a sefydlog a chydlyniant cymunedol yn uniongyrchol. Yn anuniongyrchol, byddai'n gweithredu fel dull ataliol o wella iechyd meddwl ymhlith ffermwyr a'u dibynyddion.

## 5.2 Bioamrywiaeth

**Er mwyn dangos cydymffurfiaeth ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid i chi gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth, yn atodiad F isod.**

Gweler Atodiad F ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth.

## 5.3 Newid Hinsawdd

Mae newid hinsawdd wedi'i nodi fel un o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Mae angen i ni leihau ein hallyriadau drwy ddatgarboneiddio (5.3a) ac addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd drwy gynyddu ein gwydnwch (5.3b).

---

[113] McAllister a McDonough (2017). Adroddiad Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016: Ymwelwyr sy'n aros o'r DU. Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad YGLI 14/2017. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-05/arolwg-ymwelwyr-cymru-2016-ymwelwyr-syn-aros-or-du.pdf

### 5.3a Datgarboneiddio

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar allyriadau yng Nghymru?**

Mae effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar amaethyddiaeth a choedwigaeth yn y DU wedi'u nodi'n helaeth[114]. Yn yr un modd, mae tystiolaeth ynghylch effaith y newid yn yr hinsawdd ar Adnoddau Naturiol Cymru[115], ac ar safleoedd gwarchodedig Cymru[116].

Yn eu hadroddiad ar ddefnydd tir, daw'r UKCCC[117] i'r casgliad canlynol: "*Throughout the UK there is an urgent need for a new approach: the legislative opportunities for real change are available and should progress immediately".*

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr i sero net erbyn 2050. Mae'r Bil yn pennu lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo fel amcan strategol a'i nod yw helpu Cymru i ddatgarboneiddio mewn ffordd deg a llewyrchus.

Yn 2019, roedd amaethyddiaeth yn cyfrif am 14% o allyriadau Cymru (5.3Mt$CO_2$e)[118]. Methan (66%) ac Ocsid Nitraidd (22%) yw'r allyriadau yn bennaf. Mae'r allyriadau hyn yn cael eu hachosi'n bennaf gan:

- Eplesiad enterig – 58%;
- Rheoli tail – 16%;
- Gwrteithiau anorganig a chalch – 11%;
- Tanwydd ar gyfer peiriannau symudol – 10%.

Mae storio cymaint o garbon â phosibl a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ddau o'r dibenion ar gyfer cymorth yn y dyfodol a ddiffinnir yn y Bil. Bydd y dibenion hyn yn caniatáu i Weinidogion gynorthwyo ffermydd yn uniongyrchol i ddatgarboneiddio a helpu Cymru i gyrraedd targed 2050. Mewn llawer o achosion, disgwylir i gymorth ar gyfer y dibenion eraill fel cefnogi busnesau amaethyddol i reoli ynni'n effeithlon neu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy, gyfrannu at gyrraedd y targed hwn hefyd.

*Lleihau allyriadau*

---

[114] Morison, J. a Matthews, R. (goln) (2016): Amaethyddiaeth a Choedwigaeth – Effeithiau Newid Hinsawdd, adroddiad cryno, Living With Environmental Change.

[115] Cyfoeth Naturiol Cymru (2016). Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR): Asesiad o Reolaeth Gynaliadwy o Adnoddau Naturiol. Adroddiad Technegol.

[116] Cyfoeth Naturiol Cymru (2018). Cynllun Gweithredu Thematig Natura 2000 Newid yn yr Hinsawdd a Chwalu Cynefinoedd, Rhaglen Natura 2000 LIFE ar gyfer Cymru.

[117] Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (2020). Land use: Policies for a Net Zero UK.

[118] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-10/cymru-sero-net-cyllideb-garbon-2-2021-25.pdf

Archwiliodd adroddiad gan *ERAMMP* y gostyngiad posibl mewn allyriadau o reoli da byw, tail a gwrteithiau[119]. Canfu y gellid cyflawni Uchafswm Gostyngiad Posibl Technegol[120] o 22.5% ar gyfer ocsid nitraidd a 32.4% ar gyfer methan erbyn 2050, gyda'r gostyngiadau mwyaf i'w cael drwy wella deiet, rheolaeth a geneteg yn y diwydiant llaeth a chig eidion a defnyddio Nitrogen yn fwy effeithlon. Ynghyd â gwelliannau mewn allyriadau peiriannau amaethyddol, dangosodd yr adroddiad botensial i leihau allyriadau i 3.8 $MtCO2_e$ y flwyddyn.

*Storio cymaint o garbon â phosibl*

Er mwyn storio cymaint o garbon â phosibl, mae angen diogelu'r stociau carbon presennol yn ogystal â chynyddu maint ein stociau.

Yng Nghymru, coetir yw'r brif ddalfa ar gyfer allyriadau[121] (-1.27 $MtCO2_e$) ac yna cynhyrchion pren wedi'u cynaeafu (-0.22 $MtCO2_e$).

Mae priddoedd a biomas yn ddalfa bwysig ar gyfer dal a storio carbon ond mae angen eu rheoli'n briodol er mwyn eu hatal rhag dod yn ffynhonnell allyriadau.

O ran rheoli'r borfa a glaswelltir, mae tystiolaeth[122] yn dangos bod *"tiroedd pori sydd wedi'u gwella yn cynnwys stociau helaeth o C, yn bennaf oherwydd bod cymaint o diroedd o'r fath yng Nghymru... C pridd mewn tir pori yn cyfateb i 47% o stociau carbon pridd Cymru hyd at ddyfnder o 1m. Mae cadw'r rhain a'r holl stociau C pridd yn hollbwysig er mwyn sicrhau nad yw priddoedd yn cyfrannu tuag at ragor o newid yn yr hinsawdd pan ddylent fod yn helpu i liniaru newid hinsawdd drwy storio C yn barhaus."*

O ran rheoli stociau coetir, mae tystiolaeth[123] hefyd yn awgrymu *"Os yw coetir yn cael ei reoli'n gynaliadwy, ac os yw pob cylchdro o goed yn tyfu i ddychwelyd i'r stoc garbon cyn cynhaeaf, yna mae stoc garbon y goedwig yn cael ei hadnewyddu ar sail gylchol. Yn ychwanegol at hyn, os yw'r coed sy'n cael eu cynaeafu'n cael eu defnyddio mewn cynnyrch â rhychwant oes hir gall hyn olygu bod system goetir sy'n cynhyrchu coed yn cyfrannu mwy tuag at liniaru newid hinsawdd na choetir nad yw'n cael ei gynaeafu. Bydd y budd hwn yn fwy os yw'r defnydd o'r cynnyrch coed hyn sydd wedi'u cynaeafu: (a) yn cymryd lle deunyddiau fel concrit, dur neu blastig; (b) yn cymryd lle coed sy'n cael eu mewnforio o wledydd lle nad yw'r coedwigoedd cynhyrchu'n cael eu rheoli'n gynaliadwy".*

[119] Prosser, H. (2022). Adroddiad ERAMMP-68: Adroddiad ERAMMP-68: Adolygiad o Leihau Allyrru Nwyon Tŷ Gwydr a Dal a Storio Carbon mewn Amaethyddiaeth i Ffurfio Polisi Amaethyddiaeth a Defnydd Tir Adroddiad i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (UKCEH 06297/06810)

[120] Ar y lefelau cynhyrchu presennol

[121] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-10/cymru-sero-net-cyllideb-garbon-2-2021-25.pdf

[122] Emmett, B. A et al. (2019). Adroddiad 10b: Ystyriaethau ar gyfer y cynllun newydd. Adroddiad ERAMMP i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297).

[123] Emmett, B.A et al. (2019). Adroddiad 10b: Ystyriaethau ar gyfer y cynllun newydd. Adroddiad ERAMMP i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297).

Mae ehangu coetiroedd a gwrychoedd yn ffordd sylfaenol o ddal a storio mwy o garbon. Mae'r UKCCC wedi argymell y dylai Cymru blannu 45,000ha o goetiroedd newydd erbyn 2030 a 180,000ha erbyn 2050. Gallai cyrraedd y targed hwn arwain at ostyngiadau ychwanegol mewn allyriadau Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth (LULUCF) o hyd at 304 kt $CO_2$e y flwyddyn yn 2050[124], gostyngiad o 2176 kt $CO_2$e y flwyddyn.

*Cyflawni a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid*

Mae anifeiliaid iach yn fwy cynhyrchiol. Mae angen llai o anifeiliaid iach i gynhyrchu'r un faint o gynnyrch o gymharu â rhai nad ydynt yn iach, gan arwain at lai o allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru astudiaeth unigryw, gan ddefnyddio technegau dadansoddi cylch bywyd, i bennu effaith Twbercwlosis (TB) Buchol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr[125]. Dangosodd yr astudiaeth y byddai dileu TB yng Nghymru yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector gwartheg tua 2% drwy leihau gwastraff a chynyddu effeithlonrwydd – cyfraniad bach, ond arwyddocaol, at y nod cyffredinol o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o ffermio.

Mae llawer o glefydau endemig y gallai rheolaeth ohonynt arwain at fwy fyth o ostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr. Fodd bynnag, mae mesur yr effaith yn gymhleth ac yn ddrud, ac mae adnoddau, hyd yma, wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar wneud gwelliannau iechyd, yn hytrach na mesur effeithiau'r gwelliannau hynny ar allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae SLM a'r pwerau cymorth wedi'u dylunio i wella iechyd a lles anifeiliaid. Fel yr amlinellwyd uchod, dylai atal clefydau arwain at anifeiliaid iachach a mwy cynhyrchiol, gyda llai o anifeiliaid yn allyrru llai o allyriadau. Bydd atal achosion o glefydau anifeiliaid ar raddfa fawr yn lleihau'r tebygolrwydd o effaith amgylcheddol achosion o'r fath a graddfa'r effaith, o ran yr achosion eu hunain a'r camau sy'n ofynnol wrth ymateb iddynt. Arweiniodd yr achosion o Glwy'r Traed a'r Genau yn 2001 at ddifa tua chwe miliwn o anifeiliaid drwy gladdu torfol, llosgi mewn coelcerthi a rendro, gan effeithio ar ansawdd dŵr, aer a thir. At hynny, roedd y defnydd dwys o dros 1.3 miliwn litr o ddiheintydd a gymeradwywyd gan y Llywodraeth, a oedd yn ofynnol i lanhau daliadau heintiedig a'i osod wrth fynedfeydd ar y ffyrdd ledled Cymru a Lloegr erbyn mis Hydref 2001, yn cyfrif am 18% o'r holl achosion o lygredd a gofnodwyd yn ystod yr achosion. Cafwyd effeithiau tymor hwy hefyd, gan yr amharwyd ar brosesau trin carthffosydd biolegol mewn gweithfeydd bach[126] . Er na ellir rhagweld achosion o glefydau anifeiliaid, dylai mwy o gamau ataliol drwy well bioddiogelwch ac iechyd a lles anifeiliaid leihau'r tebygolrwydd o achosion ac, os byddant yn digwydd, lleihau eu maint. Dylai hyn leihau'r effaith amgylcheddol a'r goblygiadau posibl sy'n deillio o gamau ymatebol.

*Tenantiaethau*

---

[124] Prosser, H. (2022). Adroddiad ERAMMP-68: Adroddiad ERAMMP-68: Adolygiad o Leihau Allyrru Nwyon Tŷ Gwydr a Dal a Storio Carbon mewn Amaethyddiaeth i Ffurfio Polisi Amaethyddiaeth a Defnydd Tir Adroddiad i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (UKCEH 06297/06810)

[125] Williams, A. a Sanders, D. (2016). Greenhouse Gas Emissions from bovine tuberculosis (bTB) in Wales. Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru (ar gael ar gais)

[126] http://environmentdata.org/archive/ealit:4290/OBJ/x69_EA_Footandmouthdisease_2001_0.pdf

Disgwyliwn y bydd y darpariaethau'n hwyluso cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol a mynediad at y cynllun i rai tenantiaid amaethyddol a allai fel arall fod wedi'u cyfyngu gan gymalau a ysgrifennwyd yn eu prydlesi sawl blwyddyn yn ôl. Bydd hyn yn cefnogi datgarboneiddio ymhellach.

*Safonau Marchnata*

Gallai'r darpariaethau gael effaith ar allyriadau yng Nghymru. Gallai unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir drwy bwerau a roddir yn y darpariaethau hyn ddylanwadu ar ddulliau cynhyrchu neu ddewis defnyddwyr mewn ffordd a fyddai'n effeithio ar allyriadau, ond ni ellir cyfrifo hyn yma.

***Crynodeb***

Bydd SLM a'r dibenion ar gyfer cymorth yn y dyfodol a ddiffinnir yn y Bil yn caniatáu cymorth i fusnesau fferm ymgymryd ag arferion ffermio er mwyn lleihau allyriadau a storio mwy o garbon.

Felly, yn dibynnu ar lefel y cyllid a chyfranogiad yn y cynllun yn y dyfodol, gallai effaith y cynllun ar ddatgarboneiddio fod yn sylweddol. Mae dadansoddiad Cost a Budd y Bil yn cynnwys asesiad pellach o effeithiau posibl ar allyriadau.

*Asesiad gan ddefnyddio methodoleg prisio Nwyon Tŷ Gwydr Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM*[127]

Mae Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM, sy'n rhoi canllawiau ar sut i arfarnu a gwerthuso polisïau, prosiectau a rhaglenni, wedi cael ei ddefnyddio gan gonsortiwm ERAMMP i ddatblygu cadwyni rhesymeg, sy'n nodi'r berthynas rhwng gwerth cymdeithasol nwyddau a gwasanaethau ecosystemau a chamau gweithredu SLM. Mae'r cadwyni rhesymeg[128] yn cynnwys y canlynol:

- Rheoleiddio'r hinsawdd;
- Mwy o orchudd coed;
- Morfa heli;
- Mawndiroedd;
- Glaswelltir;
- Datgarboneiddio.

Mae'r gwaith hwn wedi llywio ein hasesiad o effeithiau posibl cynigion y cynllun ar ddatgarboneiddio.

Mae'r Dadansoddiad Cost a Budd o'r Bil yn darparu asesiad o'r effeithiau posibl ar allyriadau nwyon tŷ gwydr gan ddefnyddio methodoleg Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM.

---

127 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/685903/The_Green_Book.pdf

128 https://erammp.wales/sites/default/files/ERAMMP%20Rpt-40%20SFS%20Cadwyni%20Rhesymeg%20v1.0_cy.pdf

### 5.3 b Addasu

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/ bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar y gallu i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd?**

Mae Rhaglen Lywodraethu 2021 wedi ymrwymo i ymgorffori ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn. Mae'r Bil yn rhan allweddol o'r ymrwymiad hwn ac mae'n gosod lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo fel amcan strategol. Wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Bil, bydd rhaid i Weinidogion ystyried y ffordd orau o gyflawni hyn ochr yn ochr â'r amcanion SLM eraill. Heb liniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo, mae gwytnwch ein hecosystemau, cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy a'n hadnoddau diwylliannol o dan fygythiad.

Mae amaethyddiaeth yn arbennig o agored i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd:

Yng nghyd-destun ffermio da byw, mae tystiolaeth[129] yn awgrymu'r canlynol: "...*climate change is a threat to livestock production because of the impact on quality of feed crop and forage, water availability, animal and milk production, livestock diseases, animal reproduction, and biodiversity… the livestock sector will be a key player in the mitigation of GHG emissions and improving global food security. Therefore, in the transition to sustainable livestock production, there is a need for: a) assessments related to the use of adaptation and mitigation measures tailored to the location and livestock production system in use, and b) policies that support and facilitate the implementation of climate change adaptation and mitigation measures".*

Yng nghyd-destun cnydau âr, mae tystiolaeth[130] yn awgrymu'r canlynol: "...*key effects [of climate change] will be felt through changes in the timing of the crop calendar and hence the farming year in: quality, yield, pest and disease management and crop distribution. Farmers may adapt readily to changes in average climate since effects will be gradual, but adaptations to some extremes will require more forward planning. Possible adaptation options by farmers, e.g. changing crop cultivars, and the wider industry, e.g. developing new varieties, need to be considered".*

Yng nghyd-destun ffermio llaeth, mae tystiolaeth[131] yn awgrymu'r canlynol: "...*it is essential to establish and adopt mitigation strategies covering available tools from management, nutrition, health and plant and animal breeding to cope with the future consequences of climate change on dairy farming".*

---

[129] Rojas-Downing, M., Nejadhashemi, A., Harrigan, T., a Woznicki, S. (2017). Climate change and livestock: Impacts, adaptation, and mitigation. *Climate Risk Management, 16*, 145-163.

[130] Hughes, G., a Hossel, J. (2008). Adapting UK arable agriculture to climate change. Yng *nghynhadledd HGCA* (t.23-24).

[131] Gauly, M., et al., (2013.) Future consequences and challenges for dairy cow production systems arising from climate change in Central Europe – a review.

Ceir tystiolaeth bellach o’r angen i feithrin gwydnwch yn y sector amaethyddol oherwydd y posibilrwydd o newid yn yr hinsawdd yn nadansoddiad SWOT Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru[132].

*Pwerau cymorth*

Bydd y pwerau cymorth yn caniatáu i gamau gael eu cymryd i addasu i effeithiau’r newid yn yr hinsawdd a chynyddu gwydnwch busnesau fferm.

Yn ogystal â chamau gweithredu sydd wedi’u targedu’n benodol at addasu i’r newid yn yr hinsawdd, bydd SLM a’r pwerau cymorth yn galluogi cymorth i ffermydd i ddod yn gynhyrchiol yn gynaliadwy, gan reoli tir o fewn eu gallu cynhyrchiol. Dylai rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy fel hyn wella cyflwr ein hecosystemau sydd, yn ei dro, yn cynyddu gallu’r amgylchedd i liniaru effeithiau’r newid yn yr hinsawdd. Er enghraifft, gall mwy o orchudd coed gael effaith oeri a lliniaru’r perygl o lifogydd. Bydd gwella iechyd a strwythur y pridd, ynghyd â chynyddu deunydd organig pridd, yn caniatáu i ddŵr wyneb ymdreiddio’n gyflymach a chael ei gadw yn y pridd am gyfnodau hwy nag y byddai fel arall. Bydd gwelliannau i ansawdd pridd yn cyfrannu at wella ansawdd dŵr hefyd.

Mae’r newid yn yr hinsawdd a thymereddau uwch yn cynyddu’r risg o glefydau anifeiliaid penodol, yn enwedig clefydau a gludir gan fector. Mae Feirws y Tafod Glas, er enghraifft, yn glefyd a drosglwyddir gan wybed, sydd â chyfradd goroesi uwch mewn tymereddau cynhesach. Yn ogystal, mae tymereddau cynhesach yn newid patrymau a llwybrau mudo adar gwyllt, gan achosi mwy o risg o ffliw adar (AI) i’n haid genedlaethol. Dylai gwell iechyd, lles a bioddiogelwch anifeiliaid leihau’r perygl o glefydau, gan gynnwys y risg gynyddol o glefydau a grëir gan y newid yn yr hinsawdd.

*Tenantiaethau*

Disgwyliwn y bydd y darpariaethau’n hwyluso cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol a mynediad at y cynllun i rai tenantiaid amaethyddol a allai fel arall fod wedi’u cyfyngu gan gymalau a ysgrifennwyd yn eu prydlesi sawl blwyddyn yn ôl. Bydd hyn yn cefnogi addasu i’r newid yn yr hinsawdd ymhellach.

*Safonau Marchnata*

Busnesau amaethyddol fydd yn teimlo effeithiau’r newid yn yr hinsawdd fwyaf, gyda thywydd eithafol a newidiadau i’r atmosffer yn cael effaith fawr ar gynhyrchu. Mae’n annhebygol y bydd newidiadau i reoliadau safonau marchnata yn cael effaith amlwg ar addasu i’r newid yn yr hinsawdd.

***Crynodeb***

[132] United Kingdom – Rural Development Programme (Regional) - Wales. Tudalen 81 ymlaen. https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-07/rural-development-programme-document-2014-to-2020.pdf

Disgwyliwn i'r Bil effeithio'n gadarnhaol ac, i ffermwyr sy'n cael cymorth yn y dyfodol, yn sylweddol ar eu gallu i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, megis tymereddau uwch, gwyntoedd cryfach a mwy o law.

## 5.4 Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

**Esboniwch eich penderfyniad ynghylch a yw AAS yn ofynnol yn ôl y gyfraith ai peidio.**

*SLM, pwerau cymorth, tenantiaethau, coedwigaeth*

Mae'r Bil yn strategol ac nid yw wedi'i briodoli i ardal benodol yng Nghymru, felly nid oes angen AAS. Caiff hyn ei adolygu ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth gysylltiedig.

## 5.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)

**Esboniwch eich penderfyniad ynghylch a yw HRA yn ofynnol yn ôl y gyfraith ai peidio.**

*SLM, pwerau cymorth, tenantiaethau, coedwigaeth*

Ni allwn briodoli unrhyw effeithiau i safleoedd gwarchodedig penodol oherwydd natur strategol y Bil, felly ni fydd angen HRA. Caiff hyn ei adolygu ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth gysylltiedig.

## 5.6 Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA)

**Esboniwch eich penderfyniad ynghylch a yw EIA yn ofynnol yn ôl y gyfraith ai peidio.**

*SLM, pwerau cymorth, tenantiaethau, coedwigaeth*

Bydd y Bil yn galluogi cymorth ar gyfer newidiadau mewn defnydd tir, gan gynnwys coedwigo. Bydd prosiectau unigol ar gyfer plannu coed o dan gynlluniau cymorth yn y dyfodol e.e. y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn destun yr un broses EIA ag sy'n digwydd ar hyn o bryd.

# ADRAN 6. BETH FYDD YR EFFAITH AR ANFANTAIS ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL?

**6.1 Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.**

Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldeb o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Dim ond i benderfyniadau o natur strategol y mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol.

*Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) a chymorth yn y dyfodol*

Gweler Atodiad G ar gyfer yr Asesiad llawn o'r Effaith ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

*Tenantiaethau*

Nid yw'r penderfyniad i gymryd pwerau fel y cynigir mewn perthynas â thenantiaethau yn strategol ei natur, felly rydym wedi penderfynu peidio â chynnal asesiad llawn o'r effaith ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ar gyfer y darpariaethau hyn. Disgwylion y bydd y darpariaethau'n hwyluso cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol a mynediad at y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig ar gyfer rhai o denantiaid amaethyddol a allai fel arall fod wedi'u cyfyngu gan gymalau a ysgrifennwyd yn eu prydlesau sawl blwyddyn yn ôl; bydd asesiad effaith llawn o gynllun y dyfodol yn cael ei gyhoeddi.

## ADRAN 7. COFNOD O'R ASESIADAU EFFAITH LLAWN SY'N OFYNNOL

| **Asesiad Effaith** | **Oes / Nac oes** | |
|---|---|---|
| Hawliau Plant | Oes | Cyflawn – gweler Atodiad A |
| Cydraddoldeb | Oes | Cyflawn – gweler Atodiad B |
| Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol | Oes | Cyflawn – gweler Atodiad G |
| Prawfesur Gwledig | Oes | Cyflawn – gweler Atodiad C |
| Iechyd | Oes | Cyflawn – gweler Adran 2 |
| Preifatrwydd | Oes | Cyflawn – gweler Atodiad D |
| Y Gymraeg | Oes | Cyflawn – gweler Atodiad E |
| Economaidd / Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Oes | Cyflawn – gweler Adran 4 |
| Cyfiawnder | Oes | Cyflawn – gweler Adran 4 |
| Bioamrywiaeth | Oes | Cyflawn – gweler Atodiad F |
| Newid yn yr Hinsawdd | Oes | Cyflawn – gweler Adran 5 |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol | Nac oes | Diangen |
| Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | Nac oes | Diangen |
| Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol | Nac oes | Diangen |

# ADRAN 8. CASGLIAD

## 8.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

### Ymgynghoriadau

Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddwyd yr ymgynghoriad *Brexit a'n Tir.* Cyflwynwyd dros 12,000 o ymatebion. Roedd hyn yn cynnwys dros 1,000 o ymatebion sylweddol gyda gweddill yr ymatebion yn dod o saith ymgyrch unigryw.

Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddwyd yr ymgynghoriad *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir.* Derbyniwyd dros 3,300 o ymatebion yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd ychydig dros 500 yn ymatebion unigryw gan unigolion a sefydliadau, gyda'r gweddill yn rhan o dair ymgyrch wahanol.

Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn Amaeth (Cymru). Cawsom 232 o ymatebion unigryw ac 887 arall o un ymgyrch.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion[133,134,135] a'n hymateb ein hunain i'r safbwyntiau a fynegwyd ar gyfer pob un o'r tri ymgynghoriad hyn[136,137,138].

Ar draws yr ymgynghoriadau hyn fe wnaethom ymgysylltu'n uniongyrchol â ffermwyr a rhanddeiliaid gwledig eraill mewn sioeau amaethyddol rhanbarthol ac amrywiaeth o ddigwyddiadau pwrpasol i egluro a thrafod ein cynigion ymhellach.

Roedd y rhai a gyflwynodd ymatebion unigol i'n hymgynghoriadau yn cynrychioli amrywiaeth eang o leisiau a safbwyntiau. Dywedodd y gyfran fwyaf o ymatebwyr eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â ffermio; roedd yr ail grŵp mwyaf o ymatebwyr yn unigolion ac yn sefydliadau â buddiannau amgylcheddol.

Ym mhob un o'n hymgynghoriadau rydym wedi ceisio barn ar yr effeithiau y gallai ein cynigion eu cael ar y Gymraeg a sut y gellid eu llunio er mwyn cael effaith gadarnhaol.

---

[133] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-05/crynodeb-o-ymatebion-brexit.pdf

[134] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-05/cefnogi-ffermwyr-crynodeb-o-ymatebion_1.pdf

[135] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-09/bil-amaethyddiaeth-cymru-crynodeb-or-ymatebion.pdf

[136] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/brexit-an-tir-ein-hymatebion.pdf

[137] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-07/ein-ymateb-ffermio-cynaliadwy-an-tir.pdf

[138] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-09/bil-amaethyddiaeth-cymru-ein-hymateb-blaengynllun.pdf

## Cyd-ddylunio ac ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid

Wrth ddatblygu'r Bil rydym wedi ceisio barn sefydliadau rhanddeiliaid fel undebau'r ffermwyr, sefydliadau amgylcheddol a'r rhai sy'n cynrychioli rhannau penodol o'r sector, megis Cymdeithas y Ffermwyr Tenant a'r Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad. Cawsom ymatebion i'r ymgynghoriadau gan Gomisiynydd y Gymraeg a Chymdeithasau Ffermwyr Ifanc hefyd.

Rydym wedi ymgysylltu â mwy na 1,900 o randdeiliaid (y rhan fwyaf ohonynt yn ffermwyr) drwy gam cyntaf y gwaith cyd-ddylunio er mwyn canfod eu barn ynglŷn â'n cynigion ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC).

Roedd y prosiect hwn yn cynnwys arolwg, gweithdai a chyfweliadau un i un, ac roedd pob un ohonynt ar gael yn ddwyieithog. Roedd modd i'r cyfranogwyr gwblhau'r arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg a chynigiwyd dewis iddynt o ran pa iaith y byddai'n well ganddynt ei defnyddio yn y gweithdai a'r cyfweliadau. Ymchwiliwyd hefyd i'r effeithiau posibl ar y Gymraeg.

Rydym wedi lansio ail gam ein gwaith cyd-ddylunio. Bydd hyn, ynghyd ag ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid, yn ein helpu i ddatblygu ein cynigion cyn ymgynghori ar y cynllun terfynol yn 2023. Fel gyda'r cam cyntaf, bydd pob agwedd ar y prosiect hwn ar gael yn ddwyieithog a byddwn unwaith eto'n archwilio effeithiau posibl y cynllun arfaethedig ar y Gymraeg ac ar siaradwyr Cymraeg.

## Ymgysylltu i lywio tystiolaeth

Mae yna amrywiaeth o dystiolaeth a dadansoddiadau sydd wedi llywio datblygiad y Bil, ynghyd â'n hasesiadau o'r effeithiau a nodwyd. Ymgynghorwyd ar ddrafft cynharach o'r Asesiad Effaith Integredig ochr yn ochr â'r Papur Gwyn yn 2020. Cafodd adborth ar y drafft hwnnw ei ystyried, ac mae'r adborth hwnnw wedi llywio'r fersiwn derfynol hon. Bydd asesiadau effaith pellach yn cael eu cwblhau ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth ddilynol.

Rydym wedi sefydlu grŵp tystiolaeth rhanddeiliaid fel y gall swyddogion ymgysylltu â rhanddeiliaid a sicrhau ein bod yn ystyried amrywiaeth o dystiolaeth wrth i gynigion polisi gael eu datblygu.

Cafodd Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil ei lywio gan grŵp cyfeirio o randdeiliaid allanol a sefydlwyd i gynnig mewnbwn arbenigol a chanllawiau technegol ar asesu costau, manteision a phennu gwerth yr opsiynau a aseswyd.

*Maglau a Thrapiau Glud*

Yn dilyn cyhoeddi'r bwriad i wahardd defnyddio maglau yng Nghymru, mae swyddogion wedi cyfarfod â chynrychiolwyr defnyddwyr maglau, megis yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt a Chymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain, i wrando ar eu pryderon. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi bod ar waith ers 2014 pan ddechreuodd swyddogion ddrafftio'r Cod arferion gorau ar ddefnyddio maglau wrth reoli llwynogod (y 'Cod'). Ers cyhoeddi'r Cod yn 2015, aethpwyd ati'n flynyddol i ymgysylltu â rhanddeiliaid a chasglu tystiolaeth ganddynt. Bwriad y sesiynau – a gynhaliwyd wyneb yn wyneb a thrwy e-bost – oedd monitro effeithiolrwydd y Cod.

Rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Ionawr 2022 cynhaliwyd ymgynghoriad penodol â rhanddeiliaid ar drapiau glud, a chafwyd ymatebion gan awdurdodau lleol, sefydliadau lles anifeiliaid a chyrff

rheoli plâu. Ymhellach, ym mis Mai 2022 cyfarfu swyddogion â chynrychiolydd o Gymdeithas Rheoli Plâu Prydain i drafod effaith gwahardd trapiau glud ar y diwydiant yng Nghymru.

*Coedwigaeth*

Cafodd y ddarpariaeth coedwigaeth i ddiwygio Deddf Coedwigaeth 1967 ei chynnig yn y lle cyntaf yn yr ymgynghoriad “Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy” yn 2017, ac roedd yr ymatebwyr yn gefnogol ar y cyfan. Ymgynghorwyd unwaith yn rhagor ar y ddarpariaeth coedwigaeth fel rhan o Bapur Gwyn Amaeth (Cymru). Sefydlwyd Grŵp Rhanddeiliaid Darpariaethau Coedwigaeth y Bil Amaethyddiaeth (Cymru), dan nawdd Fforwm Rheoli Tir Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), i alluogi rhanddeiliaid a phartïon â buddiant i roi sylwadau ar ddatblygiad y ddarpariaeth coedwigaeth ar gyfer y Bil hwn a chyfrannu at y gwaith datblygu. Bydd gwaith ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ar y darpariaethau yn parhau wrth i CNC ddatblygu canllawiau ar gyfer staff mewnol a rhanddeiliaid allanol i fod yn barod erbyn bydd y pwerau’n cael eu gweithredu.

*Dosbarthu carcasau*

Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid gwledig fel rhan o’r ymgynghoriad ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru). Roedd y sylwadau a gafwyd ar y cynnig hwn yn gefnogol ar y cyfan, ond roeddent yn pwysleisio pa mor bwysig yw cael safonau cyson ledled Prydain Fawr.[139]

*Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol*

Roedd y cynnig yn rhan o’r ymgynghoriad ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru), lle cafodd gefnogaeth eang gan randdeiliaid.[140]

### 8.2 Beth yw’r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Yn draddodiadol, mae cymorth ar gyfer amaethyddiaeth wedi canolbwyntio ar bolisïau sydd wedi cynyddu cynhyrchiant amaethyddol a darparu bwyd rhatach. I lawer, mae’r polisïau hyn wedi arwain at lefelau cynhyrchu uwch fesul hectar, ond mae’r cynnydd hwn wedi arwain at gost amgylcheddol a chymdeithasol ehangach. Mae effeithiau rhai arferion dwysáu ar fioamrywiaeth tir fferm, ansawdd aer a dŵr, iechyd y cyhoedd a’r hinsawdd yn faterion y mae’n rhaid mynd i’r afael â hwy ar frys.

Nod y Bil yw cefnogi’r sector amaethyddiaeth gan gyflawni yn erbyn heriau’r argyfyngau hinsawdd a natur ar yr un pryd. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol pwysig sy’n canolbwyntio ar gynaliadwyedd, a’r fframwaith hwn sy’n sail i’n cynigion ar gyfer polisi rheoli tir yn y dyfodol. Mae’r fframwaith hwn yn sail i’n darpariaethau deddfwriaethol hefyd.

[139] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-09/bil-amaethyddiaeth-cymru-crynodeb-or-ymatebion.pdf, t.82

[140] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-09/bil-amaethyddiaeth-cymru-crynodeb-or-ymatebion.pdf, tt.81-2

Mae'r Bil yn cynnwys amcanion strategol sy'n cydbwyso anghenion ffermwyr, yr amgylchedd a phobl Cymru yn ehangach. Bydd angen i unrhyw gymorth ar gyfer y sector amaethyddol yn y dyfodol gyflawni yn erbyn y fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy, ac mae'r Bil yn nodi'r dibenion y gall unrhyw gynllun yn y dyfodol ddarparu cymorth ar eu cyfer.

Disgwylir y bydd pennu amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) ar gyfer cymorth amaethyddol yn cael effaith gadarnhaol ar ffermwyr a chymunedau gwledig drwy gynyddu cynaliadwyedd busnesau fferm. Bydd hyn hefyd yn helpu i wella gwydnwch mewn perthynas â'r amgylchedd masnachu yn y dyfodol ac o ran effeithiau'r argyfyngau hinsawdd a natur; mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi nodi bod ffermio yn arbennig o agored i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd[141].

Bydd cefnogi ffermwyr i gyflawni canlyniadau SLM yn cynyddu gwytnwch ecolegol y tir y maent yn ei reoli ynghyd â gwydnwch economaidd eu busnesau. Bydd gwella effeithlonrwydd y model busnes fferm oddi mewn i allu naturiol y tir yn galluogi cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol i barhau i ffermio, gan gynnig cadernid hirdymor i'r cymunedau y maent wedi'u gwreiddio ynddynt. Disgwylir i hyn esgor ar effeithiau cadarnhaol ar gymunedau gwledig yng Nghymru i'r dyfodol, gan gadw ffermydd wrth galon eu cymunedau, darparu masnach i fusnesau lleol, a chynnig cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth.

Bydd y ddarpariaeth ar gyfer cynorthwyo ffermwyr i gyflawni'r canlyniadau hyn hefyd yn cynnig ffrwd refeniw amgen – sef ffrwd refeniw na fydd newidiadau mewn amodau masnachu yn effeithio arni. Dylai'r ffrwd incwm hon hefyd gefnogi cymunedau gwledig gwydn, yn enwedig yn achos busnesau lleol sy'n dibynnu ar gwsmeriaeth ffermydd, yn unol ag amcanion y Bil.

Bydd gofyn i ffermwyr weithredu er mwyn iddynt gael cyllid, ac mae yna bosibilrwydd y bydd effaith economaidd wahaniaethol ar ffermwyr mewn gwahanol sectorau/rhanbarthau.

Ymhellach, trwy gyfrwng yr ymatebion i'n hymgynghoriadau blaenorol a cham cyntaf ein gwaith cyd-ddylunio, mynegwyd pryderon ynglŷn ag effaith bosibl cynllun newydd ar ardaloedd gwledig a'r effaith ddilynol ar y Gymraeg. Bydd dibenion y cymorth o ran gwytnwch cymunedau gwledig, y Gymraeg a chynaliadwyedd busnesau fferm yn helpu cymunedau gwledig i ffynnu ac yn diogelu'r defnydd o'r Gymraeg ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae cynnal, hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn rhan o'r pedwerydd amcan SLM hefyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal dadansoddiad economaidd o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig. Bydd y dadansoddiad hwn yn ystyried effeithiau economaidd y cynigion i fyny ac i lawr y gadwyn gyflenwi ac yn caniatáu i ni nodi unrhyw effeithiau negyddol posibl ar y Gymraeg.

Drwy gefnogi ffermio i gyflawni o fewn y fframwaith SLM dylem weld canlyniadau'n cael eu cyflawni, fel gwell ansawdd aer a dŵr – sef meysydd y mae amaethyddiaeth yn effeithio arnynt ar hyn o bryd. Mae hyn yn hanfodol i iechyd ein cenedl, ac i lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Bydd y gefnogaeth a ddarperir gan y pwerau yn y Bil hwn yn allweddol i Lywodraeth Cymru allu gwireddu ei hymrwymiad i gyflawni yn erbyn ei thargedau Sero Net a Bioamrywiaeth.

[141] https://phw.nhs.wales/publications/publications1/ymateb-i-her-driphlyg-brexit-covid-19-ar-newid-yn-yr-hinsawdd-i-iechyd-llesiant-a-thegwch-yng-nghymru/

*Coedwigaeth*

Effaith y ddarpariaeth coedwigaeth yn bennaf yw diogelu bywyd gwyllt a gwarchod rhag difrod amgylcheddol, ond byddai hefyd yn caniatáu diwygio trwyddedau cwympo coed am resymau eraill fel newid mewn amcanion y perchennog. Mae hefyd yn golygu bod modd gorfodi amodau "amgylcheddol" o'r fath o dan y Ddeddf Coedwigaeth, yn helpu'r Ddeddf Coedwigaeth i gyd-fynd â deddfwriaeth amgylcheddol arall fel Rheoliadau Cynefinoedd 2017, ac yn galluogi CNC i gyflawni ei ddyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR) a'i ddyletswydd adran 6 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Bydd cynyddu'r ddirwy gysylltiedig yn a.17 i fod yn un ddiderfyn yn mynd i'r afael â'r anghysondeb presennol rhwng adrannau gwahanol ond cysylltiedig o'r Ddeddf Coedwigaeth. Bydd hefyd yn well rhwystr i gwympo coed yn anghyfreithlon, gan roi hyblygrwydd i'r llysoedd osod dirwyon uwch lle bo'n briodol. Bydd y pwerau hyn yn cael eu cymhwyso'n unol â Diben Cyffredinol CNC o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'i dyletswydd gydbwysol o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967, ynghyd ag Egwyddorion Rheoleiddio CNC, Cod y Rheoleiddwyr ac egwyddorion Cyfraith Gyhoeddus a fydd yn sicrhau bod y pwerau'n cael eu defnyddio'n briodol ac yn gymesur.

Cynigir bod canllawiau clir i ymgeiswyr yn cyd-fynd â'r pwerau hyn er mwyn i'r ymgeiswyr a'r deiliaid trwyddedau ddeall yn iawn pryd y defnyddir y pwerau yma a'r hyn sy'n ofynnol.

*Maglau a Thrapiau Glud*

Disgwylir i'r gwaharddiad ar ddefnyddio maglau a thrapiau glud gael effaith gadarnhaol ar safonau lles anifeiliaid yng Nghymru. Nid yn unig y bydd llai o anifeiliaid 'pla' targed yn dioddef o ganlyniad i gael eu dal naill ai gan faglau neu drapiau glud, ond disgwylir y bydd anifeiliaid nad ydynt yn cael eu targedu – ond sy'n aml yn cael eu dal – hefyd yn elwa. Mae'n amlwg bod safonau gwell mewn lles anifeiliaid o fudd i'r gymdeithas ehangach[142]. Mae'n cyfrannu at les ac at falchder yn enw da Cymru fel cenedl sy'n parchu ac yn diogelu anifeiliaid. Mae'r gwaharddiad hefyd yn cynnig cyfle i drafod rheoli anifeiliaid mewn cyd-destun ehangach er mwyn herio cysyniadau o'r hyn sy'n gyfystyr â 'phla' a sut y gall termau o'r fath gyfrannu at ddelwedd negyddol o anifeiliaid penodol. Mae pob anifail yn ymdeimladol, yn gallu profi poen a dioddefaint, ac mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau bod deddfwriaethau ac arferion yn adlewyrchu hynny – gyda'r gwaharddiad ar ddefnyddio maglau a thrapiau glud yn gam arwyddocaol arall.

*Dosbarthu Carcasau*

Yn ymarferol, bach fydd effaith y darpariaethau. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cadw eu pwerau mewn perthynas â phennu'r safonau ar gyfer Dosbarthu Carcasau, ac i ffermwyr bydd hyn yn golygu'r un pwynt cyfeirio ar gyfer cysoni safonau dosbarthu. Bydd cynnal pwerau Gweinidogion Cymru yn y maes hwn hefyd yn sicrhau bod datganoli'n parhau i weithredu o ran amaethyddiaeth.

*Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol*

---

[142] https://www.cafonline.org/docs/default-source/about-us-research/uk_giving_report_2021.pdf. Mae'r adroddiad hwn wedi canfod nad yw'r pandemig wedi effeithio ar frwdfrydedd y cyhoedd ym Mhrydain dros les anifeiliaid, yn ôl tystiolaeth rhoddion – gyda 27% o roddwyr yn cefnogi elusennau anifeiliaid, gan roi cyfanswm o £1 biliwn (amcangyfrif).

Yn ymarferol, bach fydd effaith y darpariaethau. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cadw eu pwerau mewn perthynas ag Ymyrryd yn y Farchnad amaethyddol, ac i ffermwyr bydd hyn yn golygu y gallant ddisgwyl yr un set o ddulliau ymateb pe bai argyfwng yn codi. Bydd cynnal pwerau Gweinidogion Cymru yn y maes hwn hefyd yn sicrhau bod datganoli'n parhau i weithredu o ran amaethyddiaeth.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a / neu**
- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

**SLM a'r nodau llesiant**

Mae'r Fframwaith SLM yn cynnig sail ar gyfer cyflawni ystod o ganlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae'r Bil yn pennu pedwar o amcanion SLM y mae'n rhaid i Weinidogion eu hystyried wrth benderfynu ar y ffordd orau o arfer unrhyw swyddogaeth, e.e. darparu cymorth, mewn perthynas ag amaethyddiaeth. Caiff yr amcanion hyn eu hategu'n benodol gan ystyriaeth o'u cyfraniad at y nodau llesiant. Bydd hyn yn sicrhau y bydd polisi amaethyddol y dyfodol yn diwallu anghenion y presennol heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

**Lliniaru effeithiau posibl**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd unrhyw effaith economaidd bosibl ar y sector ac ar gymunedau gwledig, a'r potensial ar gyfer effeithiau amrywiol ar draws gwahanol rannau o Gymru. Mae'r dadansoddiad cost a budd sy'n cyd-fynd â'r Bil yn dangos asesiad cychwynnol yn seiliedig ar gyflawni ystod o ymyriadau SLM. Mae cynigion ar gyfer y CFfC yn parhau i ddatblygu a byddwn yn cynnal dadansoddiadau economaidd pellach er mwyn llywio dyluniad y cynllun ac er mwyn ein galluogi i wneud penderfyniad terfynol ynglŷn â'r cynllun. Bydd canlyniadau ail gam ein gwaith cyd-ddylunio hefyd yn ein helpu i ddeall a lliniaru unrhyw effeithiau posibl.

Caiff y CFfC ei lunio ar sail yr egwyddor y dylai fod ar gael i ffermydd o bob math, gan gynnwys tenantiaid a'r rhai sydd â hawliau tir comin. Bydd ein cynigion i gael cyfres o gamau gweithredu cyffredinol ar gyfer y cynllun yn golygu y bydd y cynllun yn hygyrch i ffermwyr gweithredol sy'n bodloni safonau da o ran yr amgylchedd ac iechyd anifeiliaid. Bydd hyn yn rhoi sefydlogrwydd i ffermwyr ac yn rhoi sylfaen i'r rhai sy'n dymuno dewis camau gweithredu ychwanegol ar gyfer taliadau pellach.

Rydym yn ystyried sut y gallwn strwythuro taliadau ar wahanol haenau'r cynllun, e.e. drwy gapio, er mwyn sicrhau y bydd cyllid yn cael ei ddosbarthu'n deg.

Bydd cyfnod pontio rhwng y system gymorth bresennol a'r CFfC yn cael ei gyflwyno er mwyn i ffermydd allu addasu ac er mwyn sicrhau na fydd taliadau ffermwyr yn dod i ben yn sydyn, pa un a fyddant yn dewis ymuno â'r CFfC arfaethedig ai peidio. Byddwn yn ymgynghori ar ein dull o fynd i'r afael â hyn ochr yn ochr â'n hymgynghoriad ar gynigion terfynol y cynllun yn 2023.

Yn y cyfamser, rydym yn cyflwyno fframwaith o gymorth ariannol i ffermydd er mwyn iddynt allu cymryd camau yn wyneb yr heriau sy'n ein hwynebu'n awr, a pharatoi ar gyfer y CFfC. Bydd y mentrau hyn yn paratoi ffermydd ar gyfer y system gymorth newydd.

Bydd gwasanaeth cynghori yn cyd-fynd â'r cynllun, a elwir hefyd yn Cyswllt Ffermio. Bydd ar gael i bob fferm ledled Cymru. Bydd y gwasanaeth hwn ar gael yn ddwyieithog a bydd yn cynorthwyo ffermydd i bontio i'r CFfC a chyflawni'r camau gweithredu o fewn y cynllun. Bydd y gwasanaeth hwn yn helpu i sicrhau bod ffermydd yn gallu cael gafael ar y cyngor a'r arweiniad y mae arnynt eu hangen i addasu i'r newidiadau.

Mae'r Bil yn darparu'r pwerau ar gyfer monitro ac adrodd ar SLM yn ei gyfanrwydd, a hefyd ar gyfer cymorth yn y dyfodol, gan adeiladu ar Gynllun Monitro a Gwerthuso presennol Glastir. Bydd strategaeth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol yn manylu ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu asesu'r modd y cyflawnir canlyniadau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, a bydd yn nodi effeithiau yn ystod oes y cynllun.

Bydd y strategaeth fonitro a gwerthuso hefyd yn llywio adolygiad rheolaidd o ddyluniad y cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn dal i fod yn addas i'r diben.

## 8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

*SLM a phwerau cymorth*

Bydd yn ofynnol i Weinidogion adrodd ar gynnydd yn erbyn y pedwar amcan SLM a bydd ganddynt y pwerau i alluogi gwaith monitro, adrodd a gwerthuso mewn perthynas ag unrhyw gymorth o dan y pwerau cymorth (h.y. ar gyfer unrhyw gynllun cymorth, a pha un a yw'r cymorth yn ariannol a/neu'n anariannol).

Bydd strategaeth fonitro a gwerthuso yn nodi sut y caiff SLM a chynlluniau yn y dyfodol, gan gynnwys y CFfC, eu barnu o ran gwerth am arian ac o ran y canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer Cymru.

Bydd y strategaeth yn cydnabod natur hirdymor y canlyniadau yr anelir atynt, gan nodi mesurau dros dro a all ddangos cynnydd.

*Maglau a thrapiau glud*

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer Cydgysylltydd Troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt Cymru Gyfan, sef rôl o fewn yr heddlu sy'n cydgysylltu ar draws y pedwar heddlu. Bydd gwaith i asesu effeithiolrwydd y gwaharddiad ar faglau a thrapiau glud yn rhan o'r gwaith hwn a bydd cyfleoedd hefyd i gynrychiolwyr o'r sector gyflwyno tystiolaeth ynglŷn â sut y mae pob gwaharddiad yn gweithio'n ymarferol.

## ADRAN 9. DATGANIAD

**Datganiad**

Rwy’n fodlon bod effaith y cam gweithredu arfaethedig wedi’i hasesu a’i chofnodi’n ddigonol.

Enw’r Uwch Swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr:

Adran:

Dyddiad:

# ASESIADAU EFFAITH LLAWN

## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i Brotocolau Dewisol wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau.

Y broses Asesu'r Effaith ar Hawliau Plant yw'r dull cytunedig y dylai swyddogion ei ddefnyddio i gynorthwyo Gweinidogion i gyflawni'r ddyletswydd hon a sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth gytbwys i hawliau plant wrth iddynt wneud penderfyniadau.

### 1. Amcanion y polisi

Mae'r Bil yn pennu Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) fel fframwaith polisi ar gyfer cymorth amaethyddol yng Nghymru yn y dyfodol. Bwriad SLM yw ymateb i heriau'r argyfyngau hinsawdd a natur tra'n galluogi a chynorthwyo cynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy a diogelu ein hadnoddau naturiol, ein diwylliant a'n treftadaeth.

Bydd y Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion gynorthwyo amaethyddiaeth yng Nghymru. Wrth ddefnyddio'r pwerau hyn yn y dyfodol, bydd angen ystyried sut orau i gyflawni amcanion SLM. Mae amrywiaeth o ddarpariaethau ychwanegol wedi'u cynnwys yn y Bil; gweler Adran 1 y ddogfen hon am fanylion.

Mae'r asesiad effaith hwn yn asesu'r penderfyniad i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol y Bil. Bydd y defnydd a wneir o'r pwerau yn y Bil, e.e. agor cynlluniau i gyflawni SLM, yn destun asesiad effaith pellach, gan gynnwys yr effaith ar Hawliau Plant.

### 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

**Newid Hinsawdd**

Mae Unicef wedi datgan bod yr argyfwng hinsawdd yn argyfwng hawliau plant[143]. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn bygwth hawliau sylfaenol, fel mynediad at ddŵr glân, aer glân ac iechyd, ac mae plant yn anghymesur o agored i niwed.

Mae'r Mynegai Risgiau i Blant yn Sgil yr Hinsawdd[144] yn asesu i ba raddau y daw plant i gysylltiad â pheryglon newid yn yr hinsawdd ledled y byd a pha mor agored ydynt i niwed yn sgil y peryglon hyn. Mae'r mynegai hwn wedi'i strwythuro yn ôl dwy golofn:

1) Dod i gysylltiad â siociau a straen fel llygredd aer, llifogydd, llygredd dŵr;

[143] https://www.unicef.org/reports/climate-crisis-child-rights-crisis?utm_campaign=climateindex&utm_source=twitter&utm_medium=organic-

[144] https://www.unicef.org/media/105376/file/UNICEF-climate-crisis-child-rights-crisis.pdf

2) Pa mor agored i niwed ydynt o ran iechyd, maeth, mynediad at addysg, glanweithdra a thlodi.

Mae'r DU wedi cael sgôr 'ganolig' yn y mynegai risg (pwynt tri ar raddfa pum pwynt, lle mae pump yn arwydd o'r risg fwyaf) gan fod plant yn dod i gysylltiad mawr â siociau a pheryglon amgylcheddol. Dengys hyn fod hawliau plant yn y DU yn cael eu bygwth gan y newid yn yr hinsawdd.

Ceir tystiolaeth hefyd fod plant a phobl ifanc yn poeni am y dyfodol ansicr o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd a gall hyn arwain at iechyd meddwl a lles negyddol[145,146].

Felly, dylai cymryd camau i liniaru'r newid yn yr hinsawdd a lleihau cysylltiad â pheryglon, fel llygredd aer a thywydd eithafol, leihau'r bygythiadau i hawliau plant yng Nghymru a gwella lles.

Mae'r Bil yn pennu bod lliniaru'r newid yn yr hinsawdd yn un o amcanion SLM. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw gymorth i amaethyddiaeth yn y dyfodol yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Bydd yr 11 diben ar gyfer cymorth yn esgor ar weithredu uniongyrchol i liniaru'r risg hon, ac felly byddant o fudd cadarnhaol i blant.

**Grwpiau gwahanol**

I'r graddau y mae ansawdd aer a dŵr gwael yn effeithio'n anghymesur ar y rhai sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel (mewn ardaloedd difreintiedig), dylai'r Bil gael effaith gadarnhaol ar les plant mewn aelwydydd incwm isel.

Yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb nodwn mai nod y Bil yw esgor ar ganlyniadau amgylcheddol, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar y tri is-faes amgylchedd ffisegol (sef ansawdd aer; perygl llifogydd; a mynediad i fannau gwyrdd) ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC)[147]. O'r herwydd, gallai hyn leihau nifer yr ardaloedd y dangosir eu bod yn ddifreintiedig yn amgylcheddol o dan y maes amgylchedd ffisegol yn y Mynegai, gan fod o fudd cadarnhaol i blant yn yr ardaloedd hyn. Mae'r manteision hyn yn cynnwys lleihau'r risgiau i iechyd a achosir gan lygredd aer; lleihau digwyddiadau perygl llifogydd, ynghyd â'r perygl a'r amharu y gall digwyddiadau o'r fath eu peri i blant; a chynyddu'r cyfle i fwynhau manteision iechyd corfforol a meddyliol yn sgil cynyddu mynediad i fannau gwyrdd.

Mae plant mewn ardaloedd gwledig yn debygol o fod yn fwy agored i effeithiau tywydd garw fel llifogydd. Bydd SLM a'r pwerau cymorth yn ei gwneud hi'n bosibl i gefnogi camau i liniaru'r digwyddiadau hyn, ac felly gallai plant yn yr ardaloedd hyn elwa'n arbennig. Un arall o ddibenion cymorth y Bil yw helpu cymunedau gwledig i ffynnu.

---

145 Young People's Voices on Climate Anxiety, Government Betrayal and Moral Injury: A Global Phenomenon gan Elizabeth Marks, Caroline Hickman, Panu Pihkala, Susan Clayton, Eric R. Lewandowski, Elouise E. Mayall, Britt Wray, Catriona Mellor, Lise van Susteren : SSRN, https://papers.ssrn.com/sol3/papers.cfm?abstract_id=3918955

146 Sanson (2019) Responding to the Impacts of the Climate Crisis on Children and Youth (wiley.com) https://srcd.onlinelibrary.wiley.com/doi/pdfdirect/10.1111/cdep.12342

147 Llywodraeth Cymru (2019) Adroddiad Canlyniadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC).

Mae ein Hasesiad o’r Effaith ar y Gymraeg yn amlinellu’r effeithiau posibl ar siaradwyr Cymraeg, yn enwedig y rhai hynny mewn ardaloedd gwledig.

**Pa waith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc ydych chi wedi’i ddefnyddio i lywio eich polisi? Os nad ydych wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, esboniwch pam.**

Er y gall plant mewn teuluoedd sy’n ffermio ymgymryd â gweithgareddau sy’n briodol i’w hoedran ar y fferm, ni fydd plant yn cymryd rhan ffurfiol yng nghynlluniau’r dyfodol ac ni fyddant yn gyfrifol am gynnal gweithgareddau amaethyddol. Er hynny, disgwylir i bob plentyn elwa ar gyflawni SLM, cymunedau gwledig gwydn a chynaliadwyedd y sector amaethyddol yn y tymor hir. Yn ogystal, bydd pobl ifanc mewn teuluoedd sy’n ffermio yn cael cyfle i ennill gwybodaeth a sgiliau’n ymwneud ag SLM, a bydd modd iddynt ddefnyddio’r wybodaeth a’r sgiliau hyn yn y dyfodol pe baent yn cymryd yr awenau ar y fferm neu’n dechrau ffermio yn rhywle arall. Am hynny, cyfeirir at wytnwch busnesau fferm yn amcanion y Bil. Bydd diben y cymorth o ran gwneud busnesau amaethyddol yn wytnach yn helpu hefyd i estyn oes eu busnesau er lles cenedlaethau’r dyfodol.

Mae’r ymatebion i’n hymgynghoriadau blaenorol[148] yn cynnwys ymatebion gan sefydliadau sy’n cynrychioli ffermwyr iau/y genhedlaeth nesaf o ffermwyr ac rydym yn disgwyl parhau â’r ymgysylltu hwn wrth ddatblygu’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig.

## 3. Dadansoddi’r dystiolaeth ac asesu’r effaith

**Gan ddefnyddio’r dystiolaeth a gasglwyd gennych, pa effaith y mae eich polisi yn debygol o’i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?**

Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd hyd yn hyn, disgwyliwn i’r Bil gael effaith gadarnhaol ar fywydau plant. Mae’r effeithiau cadarnhaol hyn yn ymwneud â’r canlyniadau y bwriedir i SLM esgor arnynt – gwell ansawdd aer, gwell ansawdd dŵr, ecosystemau mwy gwydn ac adfer rhywogaethau, gwell cyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad ar gyfer ymarfer corff a lles cymdeithasol, diogelu nodweddion tirwedd a lliniaru rhag newid yn yr hinsawdd. Dylai’r canlyniadau hyn effeithio’n gadarnhaol ar fywydau plant, nawr ac yn y dyfodol.

Yn yr Asesiad o’r Effaith ar Iechyd, rydym wedi nodi potensial y canlyniadau amgylcheddol disgwyliedig i gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth yn gyffredinol. Mae gwell ansawdd aer, er enghraifft, yn debygol o fod o fudd i blant – yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru[149] *“Mae wedi'i ddogfennu'n dda bod amlygiad i lygredd aer yn effeithio ar bobl wahanol mewn ffyrdd*

[148] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-05/crynodeb-o-ymatebion-brexit.pdf
https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-05/cefnogi-ffermwyr-crynodeb-o-ymatebion_1.pdf
https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-09/bil-amaethyddiaeth-cymru-crynodeb-or-ymatebion.pdf

[149] Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru (2018) Gweithio gyda’n gilydd i leihau llygredd aer awyr agored, risgiau ac anghydraddoldebau. Canllawiau er mwyn helpu i ddatblygu polisi ac arfer ym mhob rhan o’r GIG yng Nghymru.

*gwahanol; er enghraifft, ystyrir bod plant, pobl hŷn a'r rhai â chyflyrau cronig yr ysgyfaint neu'r galon yn fwy agored i effeithiau amlygiad llygredd aer".*

Disgwylir y bydd SLM yn cael effaith gadarnhaol ar blant o ganlyniad i wneud busnesau fferm yn fwy gwydn. Bydd hynny'n un o ddibenion cymorth y Bil, yn unol ag amcanion SLM. Dylai busnesau fferm gwydn gefnogi cymunedau gwledig gwydn. Bydd hynny yn ei dro, o fudd i blant yr ardaloedd hynny. Efallai y bydd cymorth yn y dyfodol, yn cynnwys y CFfC arfaethedig - yn esgor ar effaith economaidd, a allai effeithio ar blant.

Nod SLM a'r pwerau cymorth yw sicrhau y bydd yna sector amaethyddol gwydn ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol, a dylai hyn effeithio'n gadarnhaol ar blant. Fel y nodir yn ein Hasesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a'n Hasesiad o'r Effaith o ran Prawfesur Gwledig, mae gan newidiadau i'r diwydiant amaeth y potensial i effeithio ar gymunedau gwledig a'r Gymraeg, ac fe allai hyn yn ei dro effeithio ar blant.

Mae anifeiliaid iachach a safonau lles uchel yn helpu i feithrin gwydnwch mewn economïau a chymunedau gwledig (sonnir rhagor am hyn yn yr Asesiad o'r Effaith o ran Prawfesur Gwledig), gan esgor ar gyfleoedd ac effeithiau cadarnhaol posibl i blant a phobl ifanc yn y cymunedau hynny.

Bydd dibenion SLM yn cefnogi cadernid cymunedau gwledig a Chymraeg eu hiaith, gan effeithio'n gadarnhaol ar fywydau plant yn yr ardaloedd hyn a ledled Cymru.

*Tenantiaethau*

Disgwyliwn i'r darpariaethau tenantiaeth yn y Bil hwyluso cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol a mynediad at gynlluniau yn y dyfodol, gan gynnwys y CFfC, ar gyfer rhai o denantiaid amaethyddol a allai fel arall fod wedi'u cyfyngu gan gymalau a ysgrifennwyd yn eu prydlesau sawl blwyddyn yn ôl. Rhagwelir y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar blant ffermwyr tenant o'r fath drwy wneud y busnes yn fwy gwydn yn economaidd.

Yn ogystal, bydd SLM ar ffermydd tenant o'r fath yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau cynlluniau'r dyfodol, megis lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a mynd i'r afael â materion iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig ag allyriadau amaethyddol. Bydd y canlyniadau'n cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant, nawr ac yn y dyfodol.

**Sut y mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y'u nodir yn erthyglau CCUHP a'i Brotocolau Dewisol?**

| Erthyglau CCUHP neu Brotocol Dewisol | Yn gwella (X) | Heriau (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| • **Erthygl 24 (iechyd a gwasanaethau iechyd):** Mae gan bob plentyn yr hawl i'r iechyd gorau posibl. Rhaid i lywodraethau ddarparu gofal iechyd o ansawdd da, dŵr glân, bwyd maethlon, amgylchedd glân ac addysg ar iechyd a llesiant fel y gall plant aros yn iach. Rhaid i wledydd cyfoethocach helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn. | X | | Mae plant yn anghymesur o agored i niwed yn sgil effeithiau newid hinsawdd. Gall dod i gysylltiad â pheryglon fel llygredd aer a thywydd eithafol fygwth iechyd a lles.<br><br>Bydd y Bil yn arwain at gymorth i gyflawni dibenion SLM ar gyfer cymorth fel aer glân, gwell ansawdd dŵr, gwytnwch ecosystemau a gwell mynediad i gefn gwlad. Byddai hyn yn esgor ar well cyfleoedd i blant wneud gweithgareddau iach mewn amgylchedd diogel, ynghyd ag iechyd corfforol a meddyliol da. |
| • **Erthygl 27 (safon byw ddigonol):** Mae gan bob plentyn yr hawl i gael safon byw sy'n ddigonol ar gyfer datblygiad corfforol, meddyliol, ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plentyn. | X | | Mae lliniaru'r newid yn yr hinsawdd yn un o'r amcanion SLM a ddiffinnir yn y Bil. Gall tywydd eithafol, fel llifogydd a stormydd, ddinistrio tai a chreu amgylcheddau anniogel. Bydd cymorth yn y dyfodol yn ei gwneud hi'n bosibl i gymryd camau i liniaru perygl llifogydd a sychder, gwella ansawdd aer a dŵr a lleihau nwyon tŷ gwydr. Bydd cyflawni'r canlyniadau hyn yn helpu i ddiogelu a gwella'r amgylchedd y mae plant yn tyfu ynddo. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| • **Erthygl 31 (hamdden, chwarae a diwylliant):** Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau diwylliannol a chelfyddydol. | X | | Mewn adolygiad[150] o bwysigrwydd natur i ddatblygiad plentyndod, daethpwyd i'r casgliad canlynol: "…*contact with nature is supportive of healthy child development in several domains – cognitive, social and emotional. Until proven otherwise, we can continue to assume, just as they need good nutrition and adequate sleep, children many very well need contact with nature".*<br><br>Gallai mwy o gyfleoedd o ran darparu mynediad i gefn gwlad roi cyfle i blant i fwynhau mwy o gyswllt â natur. Byddai hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad plentyndod, ar sail y dystiolaeth uchod. Bydd y Bil hefyd yn galluogi cymorth i ddiogelu a gwella ein tirweddau a'n treftadaeth naturiol, gan ddarparu diwylliant i blant nawr ac yn y dyfodol. |

## 4. Cyngor a phenderfyniadau gweinidogol

### Sut y bydd eich dadansoddiad o'r effeithiau hyn yn llywio eich cyngor gweinidogol?

Bydd yr effeithiau a nodir yn yr asesiad hwn yn rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth a ystyrir gan Weinidogion fel rhan o broses gymeradwyo'r Bil cyn ei gyflwyno i'r Senedd.

## 5. Cyfathrebu â Phlant a Phobl ifanc

[150] Taylor, A.F., Kuo, F.E., Spencer, C., a Blades, M. (2006). Is contact with nature important for healthy child development? State of the evidence. *Children and their environments: Learning, using and designing spaces*, *124*.

**Os ydych wedi gofyn am farn plant a phobl ifanc ynglyn â'ch cynnig, sut y byddwch yn rhoi gwybod iddynt am y canlyniad?**

Fel y nodir yng Nghwestiwn 1, nid ydym wedi gofyn yn benodol am farn plant ar y Bil, er bod yr ymatebion i'n hymgynghoriadau blaenorol wedi cynnwys ymatebion gan sefydliadau sy'n cynrychioli ffermwyr iau/y genhedlaeth nesaf o ffermwyr. Byddwn yn ystyried sut y gallwn geisio barn plant a phobl ifanc ynglŷn â'n cynigion wrth i'r gwaith o ddatblygu'r CFfC barhau.

## 6. Monitro ac Adolygu

**Amlinellwch pa ddulliau monitro ac adolygu y byddwch yn eu rhoi ar waith i adolygu'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn. Yn dilyn yr adolygiad hwn, a fydd angen cyflwyno unrhyw ddiwygiadau i'r polisi neu i'r modd y caiff ei weithredu?**

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn wedi ystyried yr effeithiau posibl sy'n deillio o bwerau galluogi'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Bydd polisïau a ddatblygir yn y dyfodol o ganlyniad i'r Bil Amaethyddiaeth, gan gynnwys ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, yn destun asesiad effaith pellach. O'r herwydd, bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn yn cael ei adolygu'n barhaus wrth i gynigion gael eu datblygu.

Ymgynghorwyd ar ddrafft o'r Asesiad hwn ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar gyfer y Bil. Disgwyliwn barhau â'r dull hwn fel y gellir ymgorffori barn a thystiolaeth rhanddeiliaid yn ein hasesiad o effeithiau posibl.

## B. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

**1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

### Sut y bydd y cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus Cymru i roi 'sylw dyledus' i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.

*Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) a chymorth yn y dyfodol*

Bydd SLM a'r pwerau cymorth yr un mor berthnasol i bob ffermwr, a bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) arfaethedig ar gael i bob ffermwr cymwys sy'n dymuno cymryd rhan ynddo. Nod y CFfC ar gyfer y dyfodol fydd cynnal busnesau fferm sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol drwy gyflawni dibenion SLM.

Ni ddisgwylir i'r Bil gael unrhyw effeithiau negyddol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, rydym yn ystyried yr effeithiau posibl ar wahanol grwpiau fel rhan o'r Asesiad Effaith hwn. Bydd gan y Bil rai manteision cyffredinol i'r boblogaeth gyfan, gan gynnwys pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig. Mae'r manteision generig hyn yn ymwneud â'r canlynol:

- Yr effeithiau ar iechyd pobl yn sgil y canlyniadau amgylcheddol y bydd y darpariaethau'n eu creu;
- Y manteision o ran gwell cyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad a diogelu nodweddion tirwedd.

Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig yn destun asesiad effaith pellach wrth i'r cynigion ddatblygu. Byddwn yn ystyried sut y gellir lliniaru unrhyw rwystrau o ran mynediad ar gyfer grwpiau gwarchodedig.

*Tenantiaethau*

Bydd y darpariaethau sy'n ymwneud â thenantiaethau yn hyrwyddo cydraddoldeb rhwng landlordiaid a thenantiaid drwy gymell trafodaethau a chytundebau a negodwyd er mwyn osgoi'r costau sydd ynghlwm wrth ddatrys anghydfod, tra'n darparu dewis olaf deddfwriaethol i'r rhai na allant ddod i gytundeb rhesymol.

I rai, gallai'r costau a'r amser sydd eu hangen i fynd drwy'r broses atal unigolion a busnesau rhag defnyddio'r darpariaethau. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y bydd y darpariaethau'n gymhelliant i denantiaid a landlordiaid ddod i gytundeb a negodwyd er mwyn osgoi costau datrys anghydfod, ond gan ddarparu dewis olaf deddfwriaethol i'r rhai na allant ddod i gytundeb rhesymol.

Mae'n bosibl y gallai rhai pobl mewn grwpiau gwarchodedig gael eu hatal rhag defnyddio'r darpariaethau pe bai'r darpariaethau'n gymhleth neu feichus yr olwg. Nid yw'n briodol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau gan fod cytundebau tenantiaethau amaethyddol yn gontractau preifat

rhwng tenantiaid a landlordiaid. Mae’r ddwy ochr yn debygol o geisio cyngor proffesiynol ynglŷn â’u hamgylchiadau penodol mewn perthynas â’r darpariaethau hyn. Fodd bynnag, datblygwyd canllawiau o dan arweiniad y diwydiant gan Grŵp y Diwydiant ar Ddiwygio Tenantiaethau (TRIG) ac mae’r canllawiau hyn ar gael yn eang i denantiaid, landlordiaid a chynghorwyr proffesiynol trwy gyfrwng cyrff sy’n cynrychioli’r diwydiant, gan gynnwys Cymdeithas y Ffermwyr Tenant, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, Cymdeithas y Gyfraith Amaethyddol a Chymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol.

Ar ôl i’r darpariaethau gael eu gweithredu mewn is-ddeddfwriaeth, byddwn yn monitro eu heffaith drwy ymgysylltu’n barhaus â chynrychiolwyr y diwydiant. Bydd yr wybodaeth hon yn llywio’r angen am unrhyw ddiwygiadau i’r is-ddeddfwriaeth.

*Safonau Marchnata*

Gyda’r pŵer i bennu deddfwriaeth glir sy’n benodol i nodweddion rhai cynhyrchion amaethyddol a bwyd penodol, bydd modd i Weinidogion Cymru sicrhau bod cynhyrchwyr bwyd yn cystadlu’n deg ac mewn ffordd sy’n lleihau effeithiau andwyol ar yr amgylchedd, gan roi hyder i ddefnyddwyr bod y cynhyrchion a brynant wedi’u cynhyrchu’n ôl safon dderbyniol ofynnol.

Ni fydd y darpariaethau’n cael unrhyw effeithiau uniongyrchol ar gynhyrchwyr na defnyddwyr, gan mai o is-ddeddfwriaeth ddilynol yn unig y bydd effeithiau o’r fath yn deillio. Mae’n annhebygol y bydd yr effeithiau hyn yn cael effaith fawr ar gydraddoldeb.

O ran parhad pwerau Gweinidogion Cymru dros safonau marchnata cynnyrch amaethyddol, ni ddylid gweld unrhyw effaith andwyol benodol ar bobl yn unrhyw un o’r grwpiau nodweddion gwarchodedig fel y’u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.[151] Fodd bynnag, fel darpariaeth a fydd yn ymwneud yn bennaf â chynhyrchwyr amaethyddol a chynhyrchwyr bwyd, dylid nodi y bydd unrhyw is-ddeddfwriaeth yn effeithio’n anghymesur, boed hynny mewn ffordd gadarnhaol neu mewn ffordd negyddol, ar bobl sy’n byw mewn ardaloedd gwledig lle mae’r rhan fwyaf o’r gwaith cynhyrchu amaethyddol yn digwydd.

Gan na ddisgwylir i’r darpariaethau effeithio’n benodol ar bobl â nodweddion gwarchodedig, ni fydd angen creu fframwaith i fesur effeithiau o’r fath sy’n deillio ohono.

*Dosbarthu Carcasau*

Gyda’r pŵer parhaus i bennu’r safonau ar gyfer dosbarthu carcasau cig eidion, cig o foch a chig defaid, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu darparu lefel o fasnach fwy effeithlon a chyfartal i gymunedau sy’n dibynnu ar amaethyddiaeth. Cymunedau gwledig yw’r rhain yn bennaf, lle mae oedran cyfartalog y boblogaeth yn uwch ar y cyfan na’r boblogaeth gyffredinol.

Er gwaethaf hyn, ni fydd y darpariaethau’n cael unrhyw effeithiau uniongyrchol ar gynhyrchwyr, gan mai o is-ddeddfwriaeth ddilynol yn unig y bydd effeithiau o’r fath yn deillio. Cynhelir Asesiad o’r

---

[151] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/section/4

Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer unrhyw is-ddeddfwriaeth o'r fath. Fodd bynnag, mae'n annebygol y bydd unrhyw is-ddeddfwriaeth o'r fath yn cael unrhyw effaith amlwg ar gydraddoldeb.

O ganlyniad i'r darpariaethau, ni ddylid gweld unrhyw effaith andwyol benodol ar bobl yn unrhyw un o'r grwpiau nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, fel darpariaeth a fydd yn ymwneud yn bennaf â chynhyrchwyr amaethyddol a chynhyrchwyr bwyd, dylid nodi y bydd unrhyw is-ddeddfwriaeth yn effeithio'n anghymesur, boed hynny mewn ffordd gadarnhaol neu mewn ffordd negyddol, ar bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig lle mae'r rhan fwyaf o'r gwaith cynhyrchu amaethyddol yn digwydd.

Gan na ddisgwylir i'r darpariaethau effeithio'n benodol ar bobl â nodweddion gwarchodedig, ni fydd angen creu fframwaith i fesur effeithiau o'r fath sy'n deillio ohono.

*Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol*

Gyda'r pŵer i ddatgan amodau eithriadol yn y farchnad, y pŵer i ymyrryd er mwyn cefnogi cynhyrchwyr amaethyddol yn ariannol mewn argyfwng a'r pŵer i lansio cynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus a Chymorth Storio Preifat, bydd modd i Weinidogion Cymru sicrhau hirhoedledd a chynaliadwyedd cymunedau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth. Cymunedau gwledig yw'r rhain yn bennaf, lle mae oedran cyfartalog y boblogaeth yn uwch ar y cyfan na'r boblogaeth gyffredinol.

Er gwaethaf hyn, ni fydd y darpariaethau'n cael unrhyw effeithiau uniongyrchol ar gynhyrchwyr, gan mai o is-ddeddfwriaeth ddilynol yn unig y bydd effeithiau o'r fath yn deillio. Felly, dylid ystyried bod y darpariaethau'n paratoi'r tir, gan gynnig y potensial i wella cydraddoldeb yng Nghymru drwy gynigion polisi yn y dyfodol.

Wrth greu'r ddeddfwriaeth sylfaenol hon, ni ddylid cael unrhyw effaith andwyol benodol ar bobl yn unrhyw un o'r grwpiau nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, fel darpariaeth a fydd yn ymwneud yn bennaf â chynhyrchwyr amaethyddol a chynhyrchwyr bwyd, dylid nodi y bydd unrhyw is-ddeddfwriaeth yn effeithio'n anghymesur, boed hynny mewn ffordd gadarnhaol neu mewn ffordd negyddol, ar bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig lle mae'r rhan fwyaf o'r gwaith cynhyrchu amaethyddol yn digwydd.

Gan na ddisgwylir i'r darpariaethau effeithio'n benodol ar bobl â nodweddion gwarchodedig, ni fydd angen creu fframwaith i fesur effeithiau o'r fath sy'n deillio ohono.

**Grwpiau gwarchodedig**

Mae'r ystadegau canlynol yn defnyddio data Cyfrifiad 2011 i archwilio materion sy'n wynebu'r Gymru wledig. Maent yn dangos bod rhai grwpiau'n cael eu gorgynrychioli neu eu tangynrychioli mewn cymunedau gwledig. Golyga hyn fod mwy neu lai o bobl na'r disgwyl yn meddu ar nodweddion penodol pe bai grwpiau o'r fath yn cael eu dosbarthu'n gymesur ar draws ardaloedd trefol a gwledig yn ôl niferoedd y boblogaeth.

Yn adrannau diweddarach yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, rydym yn archwilio effeithiau posibl y Bil ar wahanol grwpiau gwarchodedig, gan gynnwys effeithiau cadarnhaol a fyddai'n cyfrannu at fwy o gydraddoldeb yng Nghymru.

- **Plant:** Mae plant (o dan 16 oed) yn tueddu i gael eu tangynrychioli yn Awdurdodau Lleol Gwledig[152] Cymru. Er bod y rhan fwyaf o blant sy’n byw mewn Awdurdodau Lleol Gwledig yn byw mewn Ardaloedd Gwledig[153], mae effaith y tangynrychioli ychydig yn fwy amlwg yn yr ardaloedd hyn, gyda phlant yn cael eu gorgynrychioli mewn Ardaloedd Trefol.
- **Pobl ifanc**: Mae data Cyfrifiad 2011 yn dangos bod pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yn cael eu tangynrychioli mewn Ardaloedd Gwledig; roedd hyn yn wir yn achos 18 o blith y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Er enghraifft, yn Sir Benfro roedd 73% o’r trigolion 16 i 24 oed yn byw mewn Ardaloedd Gwledig o gymharu â 78% o drigolion dros 25 oed[154].
- **Pobl hŷn o oedran gweithio:** Mae gweithwyr hŷn rhwng 60 a 64 oed yn cael eu gorgynrychioli yn Ardaloedd Gwledig bron pob un o Awdurdodau Lleol Cymru[155].
- **Pobl hŷn dros 64 oed.** Mae rhai o’r cyfrannau uchaf o bobl 64 oed a hŷn i’w gweld yn Awdurdodau Lleol Gwledig Cymru. Mewn nifer o’r Awdurdodau Lleol hyn, caiff pobl hŷn eu gorgynrychioli yn y boblogaeth wledig, gan gyfateb i fwy nag un ymhob pump o’r trigolion.
- **Anabledd.** Roedd cyffredinrwydd anabledd yng Nghymru ar ei uchaf yn Awdurdodau Lleol Castell-nedd Port Talbot a’r Cymoedd. Ar lefel yr Ardal Gynnyrch, mae cyffredinrwydd anabledd yn tueddu i fod ychydig yn uwch mewn Ardaloedd Trefol nag mewn Ardaloedd Gwledig. Mae’n bwysig nodi, fodd bynnag, y gall anghenion pobl anabl mewn Ardaloedd Gwledig fod yn wahanol iawn i anghenion pobl mewn Ardaloedd Trefol, gyda mwy o heriau o ran cael gafael ar ofal a chymorth priodol. Mae anabledd hefyd wedi’i ganoli ymhlith grwpiau oedran hŷn; roedd mwy na hanner y rhai a ddywedodd fod eu gweithgarwch o ddydd i ddydd yn gyfyngedig iawn yn 65 oed a hŷn.
- **Hil ac ethnigrwydd:** Dengys data’r Cyfrifiad yn 2011 fod 4.4% o boblogaeth Cymru yn cynnwys unigolion a oedd yn perthyn i grwpiau lleiafrifoedd ethnig[156]. Fodd bynnag, ceir crynhoad sylweddol o grwpiau lleiafrifoedd ethnig mewn Ardaloedd Trefol; roedd 88% o’r rhai a oedd yn perthyn i grŵp lleiafrifoedd ethnig yn byw mewn Ardal Drefol, gyda’r mwyafrif llethol yn byw’n benodol yng Nghaerdydd, yng Nghasnewydd neu yn Abertawe. Yn 18 o blith y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru, roedd cyfran yr unigolion a oedd yn perthyn i

---

[152] Mae Awdurdodau Lleol yn cael eu dosbarthu yn ôl https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/080515-statistical-focus-rural-wales-08-en.pdf

[153] Yma, mae Ardal Drefol/Wledig yn cyfeirio at y dynodiad a roddir i bob Ardal Gynnyrch, ardal ddaearyddol sy’n cynnwys rhwng 100 o bobl (neu 40 o aelwydydd, pa un bynnag sydd leiaf) a 625 o bobl (neu 250 o aelwydydd, pa un bynnag sydd fwyaf). Mae Ardaloedd Cynnyrch wedi’u cynllunio i fod yn ddigon bach fel nad ydynt yn cynnwys cymysgedd o amgylcheddau trefol a gwledig.

[154] Mae’r anghysondeb yn arbennig o amlwg yng Ngwynedd a Cheredigion, ond mae’n debygol bod niferoedd uchel o fyfyrwyr fel cyfran o’r boblogaeth (sy’n mynychu’r brifysgol ym Mangor, Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan) yn arwain at nifer anghymesur o bobl ifanc mewn ardaloedd trefol. Cynhaliwyd Cyfrifiad 2011 yn ystod y tymor prifysgol.

[155] Caerffili yw’r unig eithriad. Mae hyn yn wir hyd yn oed pan gaiff y rhai rhwng 18 a 24 oed eu tynnu o’r cyfrifiad i ddileu effaith poblogaethau myfyrwyr mewn siroedd sy’n wledig yn bennaf. Gweler y troednodyn blaenorol.

[156] Grwpiau ethnig cymysg/lluosog, Asiaidd Prydeinig, Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig, a Grŵp ethnig arall. Nid yw grwpiau lleiafrifol Gwyn wedi’u cynnwys yn y grŵp hwn.

grwpiau lleiafrifoedd ethnig mewn Ardaloedd Gwledig yn llai na hanner y ffigur ar gyfer Cymru gyfan (llai na 2.2%).

- **Rhyw a rhywedd:** O ran gweithgarwch economaidd, adeg Cyfrifiad 2011 roedd dynion a menywod mewn Ardaloedd Gwledig yng Nghymru yn fwy tebygol o fod mewn gwaith na dynion a menywod mewn Ardaloedd Trefol; roedd dynion a menywod yn llai tebygol o fod yn ddi-waith neu'n llai tebygol o fod yn economaidd anweithgar. Yn gyffredinol, mae gan Awdurdodau Lleol Gwledig Cymru gyfraddau diweithdra is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. I'r rhai a oedd yn economaidd anweithgar mewn Ardaloedd Gwledig, roedd dynion ychydig yn fwy tebygol na menywod o fod felly oherwydd salwch neu anabledd hirdymor. Roedd menywod bron wyth gwaith yn fwy tebygol na dynion o fod yn gofalu am y cartref neu'r teulu; mae'r gwahaniaeth yn fwy amlwg nag mewn Ardaloedd Trefol.

Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod gwahaniaethau amlwg i'w cael o ran nodweddion cyffredinol y rhai sy'n byw yn y Gymru wledig, o'u cymharu â'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol. Mae'n annhebygol y bydd y canfyddiadau demograffig hyn wedi newid yn sylweddol ers Cyfrifiad 2011 nes peri iddynt fod yn annilys. Yn wir, mae amcangyfrifon gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar gyfer 2020 yn dangos, mewn perthynas ag oedran, y gall gorgynrychiolaeth pobl hŷn a thangynrychiolaeth pobl iau fod yn amlycach erbyn hyn mewn Awdurdodau Lleol gwledig [157].

## Beth yw'r effeithiau negyddol posibl ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig a'r rhai sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel, a sut y byddwch yn lliniaru'r rhain?

### Plant

Fel y nodir yn yr Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd a Hawliau Plant, gallai'r Bil effeithio ar blant mewn sawl ffordd. Disgwylir i effaith SLM a'r pwerau cymorth ar blant fod yn gadarnhaol, drwy gyflawni dibenion SLM megis aer a dŵr glân sy'n esgor ar fanteision iechyd, a gwell cyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad gan hwyluso mwy o gyswllt â natur.

Gallai plant mewn teuluoedd sy'n ffermio ac yn y gymuned wledig ehangach deimlo unrhyw effaith economaidd a all ddeillio o'r Bil. Bwriad SLM a'r pwerau cymorth yw cefnogi busnesau amaethyddol cadarn, ac felly byddant yn cefnogi cymunedau gwledig cadarn, gan fod o fudd i blant yn yr ardaloedd hyn, a'u gwneud yn lleoliadau mwy hyfyw i deuluoedd fyw ynddynt.

### Pobl Ifanc

Gwyddom y gall allfudo net o ardaloedd gwledig ymhlith pobl ifanc gael effaith negyddol sylweddol ar gynllunio ar gyfer olyniaeth mewn ffermydd ac economïau gwledig. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn a gwella cynaliadwyedd ffermio ar gyfer y dyfodol, mae angen creu cyfleoedd i bobl ifanc ymuno ag amaethyddiaeth – i'r rhai a fagwyd mewn teuluoedd ffermio a'r rhai sy'n dymuno ymuno â'r diwydiant o gefndiroedd eraill.

Mae ein cynigion o ran y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfer y dyfodol yn cynnwys datblygu cyngor ac arweiniad i ffermwyr, yn ogystal â darparu Datblygiad Proffesiynol Parhaus priodol. Wrth

[157] https://cy.ons.gov.uk/datasets/mid-year-pop-est/editions/mid-2020-april-2021-geography/versions/1

inni lunio'r cynllun, rydym yn archwilio'r ffordd orau o ddarparu cymorth i ffermwyr o bob math, a dylai'r ffynonellau cyngor ac arweiniad hyn fod yn arbennig o werthfawr i'r rheini sy'n newydd i'r diwydiant, er enghraifft, i bobl ifanc sydd wedi gorffen addysg yn ddiweddar.

Ar hyn o bryd, mae pobl ifanc a newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant ffermio yn wynebu nifer o heriau gan gynnwys mynediad at dir a chyllid, a meithrin yr wybodaeth/sgiliau sy'n angenrheidiol i redeg busnes llwyddiannus. Mae Cyswllt Ffermio wedi arwain nifer o fentrau i fynd i'r afael â'r heriau hyn, a byddwn yn ystyried y dulliau gorau o adeiladu ar y gwaith hwn ochr yn ochr â'r cynllun arfaethedig ar gyfer y dyfodol neu fel rhan o'r cynllun hwnnw. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y Cynllun Mentro[158] sy'n paru newydd-ddyfodiaid â ffermwyr sydd am gamu'n ôl o'r diwydiant er mwyn dod yn bartneriaid busnes;
- Yr Academi Amaeth[159] sy'n ceisio ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o arloeswyr ac entrepreneuriaid drwy ddarparu rhaglen datblygiad personol ar gyfer arweinwyr amaethyddol y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant, mentora, rhwydweithio, cymorth ac arweiniad dros dair sesiwn breswyl ddwys.

Mae grwpiau sy'n cynrychioli Ffermwyr Ifanc wedi cymryd rhan yn ein hymgynghoriadau a'n rhaglen cyd-ddylunio, ac wedi crybwyll yr angen i gefnogi newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant.

Mae annog pobl ifanc a newydd-ddyfodiaid i ymuno ag amaethyddiaeth yn rhan bwysig o sicrhau gwydnwch y diwydiant yn y dyfodol. Rydym yn parhau i ddatblygu Cynllun Ffermio Cynaliadwy y dyfodol a byddwn yn ystyried sut i adeiladu ar y cynnig presennol i bobl ifanc wrth inni ddatblygu ein cynigion ar gyfer cynllun a chymorth cynghori'r dyfodol.

Ceir rhywfaint o dystiolaeth[160] sy'n awgrymu bod ffermwyr iau yn fwy tebygol o fanteisio ar dechnolegau a gwybodaeth newydd. Canfu gwaith ymchwil yn ymwneud â chymhellion ffermwyr mai ffermwyr o dan 40 oed oedd fwyaf tebygol o gytuno'n gryf neu gytuno eu bod bob amser yn ceisio dysgu sgiliau newydd a'u bod yn agored i dechnoleg newydd[161]. O ystyried y bydd y CFfC arfaethedig yn helpu ffermwyr i fabwysiadu dulliau newydd ac arloesol yn ogystal ag arferion ffermio traddodiadol, efallai y bydd ffermwyr ifanc mewn sefyllfa dda i weithredu SLM ac elwa ar y cynllun yn y dyfodol. Mae'n debygol y bydd yna effaith gadarnhaol ar ffermwyr iau, gan y gallent fod yn fwy tebygol o optio i mewn i gynllun o'r fath.

**Pobl Hŷn**

---

[158] https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/busnes/mentro

[159] https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/busnes/sgiliau-hyfforddiant/academi-amaeth

[160] Dim ond ffermydd 'bach' a 'bach iawn' a ystyriwyd gan yr ymchwil; mae'r rhain yn cyfrif am 87% o ffermydd yng Nghymru ac yn meddiannu 60% o dir ffermio Cymru.

[161] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-10/deall-cymhellion-ffermwyr-ffermydd-bach-bach-iawn-adroddiad-llawn.pdf

Mae problemau i bobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn tueddu i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a thrafnidiaeth allweddol[162]. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth y bydd y Bil yn cael effaith negyddol ar les pobl hŷn yn y gymuned wledig ehangach; disgwylir i'r Bil gefnogi economi wledig ffyniannus a chynaliadwy, ac felly byddai unrhyw effaith gadarnhaol ar hyfywedd cymunedau gwledig o fudd i drigolion hŷn. O ran effeithiau cadarnhaol posibl, nodwn yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Iechyd (yn Adran 2) botensial y canlyniadau amgylcheddol, sy'n deillio o'r dibenion ar gyfer cymorth, i gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth yn gyffredinol. Nodwn y cyfeiriad at effaith dod i gysylltiad ag ansawdd aer gwael ar bobl hŷn.

Amcangyfrifwyd mai oedran canolrifol ffermwyr yng Nghymru yn 2016 oedd 61 oed, gyda'r rhan fwyaf o brif ffermwyr Cymru dros 55 oed (68%)[163]. Bydd SLM a'r pwerau cymorth yn berthnasol i bob ffermwr yng Nghymru, ac felly mae angen cyfleu newidiadau'n rhesymol i bob ffermwr. Er bod cyfryngau digidol yn ffordd ddefnyddiol o ddiweddaru cyhoeddiadau, mae adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru, *Cefnogi cymunedau ffermio yn ystod cyfnodau o ansicrwydd* (2019), yn nodi bod digideiddio yn her, yn enwedig i ffermwyr hŷn. Mae'n amlwg na allwn ddibynnu'n llwyr ar ddulliau cyfathrebu digidol ar gyfer materion yn ymwneud â'r Bil a'r CFfC arfaethedig, rhag ofn y bydd yna effaith negyddol anghymesur ar ffermwyr hŷn. Mae gennym brofiad o gyfathrebu â ffermwyr drwy'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm a chylchlythyr Gwlad, a byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ein strategaethau cyfathrebu. Cymerwyd camau i sicrhau cynrychiolaeth deg o ffermwyr o bob grŵp oedran yn ail gam y gwaith cyd-ddylunio.

O ystyried y pandemig Covid-19, rydym hefyd yn ymwybodol nad yw llawer o ddulliau ymgysylltu traddodiadol y gallai rhanddeiliaid hŷn fod wedi'u ffafrio mewn ymgynghoriadau blaenorol, e.e. cymorthfeydd galw heibio a chyfarfodydd wyneb yn wyneb, wedi bod ar gael. Rydym yn ymwybodol o hyn wrth inni ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu parhaus.

Yn groes i'r canfyddiadau'n ymwneud â ffermwyr ifanc, mae ymchwil yn awgrymu mai ffermwyr hŷn sydd leiaf tebygol o gytuno'n gryf neu gytuno eu bod bob amser yn ceisio dysgu sgiliau newydd a'u bod yn agored i ddefnyddio technoleg newydd[164]. Gall hyn fod yn gysylltiedig â'r ffaith eu bod yn nes at ymddeol a'u bod yn dewis gadael penderfyniadau ynghylch newidiadau i'w holynydd. Gallent hefyd wynebu mwy o heriau corfforol na ffermwyr iau wrth ymgymryd â chamau fel rhan o CFfC y dyfodol. Bydd angen inni sicrhau bod ffermwyr hŷn yn cael eu hannog i gymryd rhan yn CFfC y dyfodol a'u bod yn cael eu cefnogi i fabwysiadu SLM mewn ffordd sy'n ymarferol ac yn gydnaws â chynllunio ar gyfer olyniaeth. Bydd y gwasanaethau gwybodaeth a chymorth a ddarperir ochr yn ochr â'r cynllun yn rhan annatod o hyn.

Wrth inni gynllunio CFfC y dyfodol, byddwn yn monitro effaith y cynllun ymddeol a roddir ar waith yn Lloegr gan DEFRA a byddwn yn ystyried a oes angen ymyrryd yng Nghymru.

---

[162] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (heb ddyddiad) Taflen Ffeithiau Cydraddoldeb a Gwledigrwydd.

[163] Llywodraeth Cymru (2019). Amaethyddiaeth yng Nghymru.

[164] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-10/deall-cymhellion-ffermwyr-ffermydd-bach-bach-iawn-adroddiad-llawn.pdf

**Anabledd**

Yn ystod y broses o ddatblygu cyngor a chanllawiau mewn perthynas â pholisi amaethyddol, bydd swyddogion yn gweithio i sicrhau eu bod yn hygyrch i bob ffermwr ac felly byddant yn ystyried addasiadau rhesymol i'r rhai ag anableddau.

Fel y nodir uchod, disgwyliwn i'r canlyniadau a gyflawnir o ganlyniad i SLM gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth yn gyffredinol, gan gynnwys pobl ag anableddau. Ymhellach, gall unrhyw welliannau i'r llwybrau mynediad presennol sy'n cynyddu hygyrchedd gael effaith gadarnhaol drwy ganiatáu i fwy o bobl anabl fwynhau cefn gwlad a'i fanteision cysylltiedig. Y nod fydd cynyddu cyfran yr hawliau tramwy cyhoeddus sy'n agored ac ynn hawdd eu defnyddio – gan gynnwys ar gyfer y rhai â symudedd cyfyngedig – ac sydd ag arwyddion da.

Ceir trafodaeth fanwl ar iechyd meddwl ffermwyr yn Adran 2 y ddogfen hon.

**Hil ac ethnigrwydd**

Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau andwyol ar hil ac ethnigrwydd yn sgil y Bil. Fel y nodir uchod, disgwylir i SLM a'r pwerau cymorth arwain at ganlyniadau a fydd yn effeithio'n gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth yn gyffredinol.

Mae grwpiau lleiafrifoedd ethnig wedi'u canoli mewn ardaloedd trefol i raddau mwy na grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig eraill, felly perthnasol yw ystyried i ba raddau y bydd effeithiau cadarnhaol SLM ar iechyd yn cael eu teimlo mewn trefi a dinasoedd yn ogystal ag yng nghefn gwlad. Gall llygredd aer a dŵr deithio pellteroedd sylweddol, felly bydd unrhyw leihad mewn allyriadau o du amaethyddiaeth yn cael effaith gadarnhaol ar bobl mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd trefol. Amaethyddiaeth yw prif allyrrydd amonia yng Nghymru[165], sy'n cyfrannu at ffurfio deunydd gronynnol ($PM_{2.5}$), ac yn ei dro mae hyn yn peri risgiau i iechyd pobl mewn cymunedau ledled Cymru.

O ran dŵr, mae'r rhan fwyaf o drefi a dinasoedd Cymru wedi'u lleoli ger afonydd, felly bydd llygredd amaethyddol a ddaw i mewn i'r dalgylch i fyny'r afon yn effeithio ar ardaloedd trefol hefyd. Er enghraifft, mae ymchwiliadau wedi dangos na fydd gwelliannau mewn ansawdd dŵr ar gyfer ymdrochi yn y Rhyl yn cael eu gwireddu heb leihau llygredd amaethyddol yn nalgylch Clwyd[166]. Bydd lleihau llygredd dŵr hefyd yn arwain at fanteision cadarnhaol o ran hamdden i bawb sy'n defnyddio cefn gwlad, yn ogystal â lleihau costau trin dŵr.

Gwyddys fod yna wahaniaethau o ran mynediad i gefn gwlad [167] ymhlith gwahanol grwpiau ethnig, a dywedir bod materion fel diffyg ymwybyddiaeth wrth wraidd y gwahaniaeth hwn[168]. Mae yna

---

[165] https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/693285/sonarr2020-theme-air-quality.pdf

[166] https://environment.data.gov.uk/wales/bathing-waters/profiles/profile.html?lang=cy&site=ukl1302-40650

[167] Jay, M., Peters, K., Buijs, A. E., Gentin, S., Kloek, M. E., ac O'Brien, L. (2012). Towards access for all? Policy and research on access of ethnic minority groups to natural areas in four European countries. *Forest Policy and Economics*, *19*, 4-11.

[168] http://www.ben-network.co.uk//uploaded_Files/Ben_1/Ben_file_1_26.pdf

botensial y bydd cymorth i ffermwyr ddarparu gwell mynediad ac ymgysylltiad yn eu cymunedau lleol, gan gynnwys mewn ffyrdd a anelir at blant, yn codi ymwybyddiaeth ymhlith teuluoedd, gan gynnwys y rhai sy'n perthyn i grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ac yn annog mwy o ddefnydd o gefn gwlad ymhlith y plant hynny yn ddiweddarach yn eu bywydau.

O ran y ffermwyr eu hunain, dengys data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol[169] yn 2018-19 fod mwy na 99% o'r rhai a oedd yn gweithio mewn Crefftau Amaethyddol a Chysylltiedig Medrus yn y DU yn Wyn, o gymharu â'r boblogaeth weithio gyffredinol ar y pryd lle'r oedd 88% yn Wyn. Mae Galwedigaethau Amaethyddol Elfennol wedi'u cynnwys mewn grŵp mwy o Grefftau Elfennol a Galwedigaethau Cysylltiedig, felly er na allwn ddwyn cymhariaeth uniongyrchol, efallai y bydd mwy o amrywiaeth o fewn Galwedigaethau Amaethyddol Elfennol. Nid oes gennym ddata ar gyfer Cymru yn benodol a nodwn fod ffermydd âr sydd angen mwy o weithwyr tymhorol ar gyfer gweithgareddau fel cynaeafu yn llai cyffredin yng Nghymru nag yn Lloegr. Ymhellach, mae lefel uchel y gwaith achlysurol a di-dâl mewn amaethyddiaeth yn gallu ei gwneud yn rhy heriol i bennu gwir nifer y gweithwyr.

Fel arfer, mae'n anodd i newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant ffermio ddechrau gyrfa ffermio gan fod cynifer o ffermydd yn cael eu hetifeddu. Yn ogystal â'r crynhoad hysbys o leiafrifoedd ethnig mewn Ardaloedd Trefol, gall hyn gyfrannu at dangynrychiolaeth sylweddol o leiafrifoedd ethnig mewn ffermio.

| Ethnigrwydd | 51: Crefftau Amaethyddol a Chysylltiedig Medrus | 91: Crefftau Elfennol a Galwedigaethau Cysylltiedig | Poblogaeth 16 i 64 oed |
|---|---|---|---|
| Gwyn | 99.2% | 89.1% | 87.5% |
| Cymysg/Grwpiau Aml-ethnig | * | 0.7% | 12.4% |
| Indiaidd | - | 2.7% | 1.2% |
| Pacistanaidd | * | 1.4% | 2.8% |
| Bangladeshaidd | - | 0.3% | 1.5% |
| Tseiniaidd | 0.2% | 0.11% | 0.6% |

[169] https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/adhocs/10663occupationatuklevelbysectorindustryageandethnicity

| | | | |
|---|---|---|---|
| Unrhyw gefndir Asiaidd arall | * | 0.8% | 0.5% |
| Du / Affricanaidd / Caribïaidd/ Du Prydeinig | 0.4% | 2.5% | 3.0% |
| Grŵp ethnig arall | 0.2% | 2.4% | 2.8% |

51: Mae Crefftau Amaethyddol a Chysylltiedig Medrus yn cynnwys Ffermwyr (5111), Crefftau garddwriaethol (5112), Garddwyr a garddlunwyr (5113), Tirmyn a gofalwyr y grîn (5114), a Chrefftau amaethyddol a physgota nad ydynt wedi eu rhestru yn unman arall (5119)

91: Mae Crefftau Elfennol a Galwedigaethau Cysylltiedig yn cynnwys Galwedigaethau Amaethyddol Elfennol (911), Galwedigaethau Adeiladu Elfennol (912) a Galwedigaethau Gweithfeydd Prosesu Elfennol (913). Yn ei dro, mae 911: Galwedigaethau Amaethyddol Elfennol yn cynnwys Gweithwyr fferm (9111), Gweithwyr coedwigaeth (9112) a Physgota a galwedigaethau amaethyddol elfennol eraill nad ydynt wedi eu rhestru yn unman arall (9119)

* = Mae maint y sampl yn llai na 3 pherson ac yn rhy fach i gynnig amcangyfrifon dibynadwy

- = Dim ffigurau i'w hadrodd

Felly, mae SLM a'r pwerau cymorth o ran ffermio yn debygol o gael llai o effaith ar grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig na'r rhai yn y grwpiau ethnig Gwyn, a hynny gan eu bod wedi'u tangynrychioli i raddau helaeth yn y diwydiant amaethyddol.

**Priodas a phartneriaeth sifil**

Nid ydym yn disgwyl i'r Bil effeithio'n negyddol ar bobl am eu bod yn briod neu am eu bod mewn partneriaeth sifil.

**Beichiogrwydd a mamolaeth**

Cyflawni a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid yw un o ddibenion y cymorth a nodir yn y Bil; trwy ddarparu cymorth i'r diben hwn, dylid lleihau'r risgiau a achosir gan glefydau o fewn y boblogaeth da byw ac a allai fynd i mewn i'r gadwyn fwyd. Mae rhai milheintiau (clefydau y gellir eu trosglwyddo i bobl) a chyfryngau heintus yn peri risg ddifrifol i fenywod beichiog a'u babanod yn y groth, felly disgwyliwn y bydd unrhyw gamau i leihau clefydau yn cael effaith gadarnhaol arnynt. Yn ogystal, bydd effeithiau iechyd cyffredinol, fel gwell ansawdd aer, hefyd yn arbennig o bwysig i fenywod beichiog.

**Ailbennu rhywedd**

Nid ydym yn disgwyl i'r Bil effeithio'n negyddol ar bobl sy'n mynd trwy'r broses o ailbennu eu rhywedd. Byddwn yn parhau i fonitro hyn wrth i gynigion ar gyfer y CFfC ddatblygu.

**Crefydd a chred**

Nid ydym yn disgwyl i'r Bil effeithio'n negyddol ar bobl oherwydd eu crefydd neu eu ffydd. Byddwn yn parhau i fonitro hyn wrth i gynigion ar gyfer y CFfC ddatblygu.

### Cyfeiriadedd rhywiol

Nid ydym yn disgwyl i’r Bil effeithio’n negyddol ar bobl oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol. Byddwn yn parhau i fonitro hyn wrth i gynigion ar gyfer y CFfC ddatblygu.

### Rhyw/rhywedd

Dynion yw rheolwyr fferm ac unig ddeiliaid[170] yn bennaf; fodd bynnag, mae amcangyfrifon sy’n deillio o’r Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth[171] yn dangos bod nifer y ffermwyr benywaidd yng Nghymru wedi mwy na dyblu ers 2001. Mae menywod yn wynebu nifer o rwystrau yn y byd ffermio, ac yn 2015, lansiodd Cyswllt Ffermio fenter o’r enw Merched mewn Amaeth i gefnogi menywod yn y diwydiant. Bydd y Bil yn rhoi pwerau i Lywodraeth Cymru greu Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC), ac wrth i’n cynigion ar gyfer y cynllun barhau i ddatblygu, byddwn yn ystyried sut y gallwn adeiladu ar waith mentrau fel Merched mewn Amaeth.

Ymhellach, hyd yn oed os yw’r prif ffermwr yn wryw, mae menywod mewn teuluoedd ffermio yn aml yn weithgar o ran rhedeg busnes y fferm, er efallai na chânt eu cydnabod fel gweithwyr ffurfiol. Mae ymchwil ar gyfraniad gwragedd ffermwyr[172] yn dod i’r casgliad hwn: “*The contribution which farmers' wives make to the farm business is typically overlooked and under-valued, yet the farm could not function without it*.” Fel arfer, mae cyfraniadau o’r fath yn cynnwys agweddau hanfodol ar y busnes, megis cadw cyfrifon, gwaith gweinyddol a gwneud penderfyniadau. Mae’n amlwg, felly, y bydd y Bil yn cael effaith y tu hwnt i’r prif ffermwr, ac y dylai ein gwaith ymgysylltu adlewyrchu hynny.

### Aelwydydd Incwm Isel

Mae incwm busnesau fferm yn gallu bod yn anwadal yn sgil amodau amaethyddol (gan gynnwys y tywydd) ac amodau’r farchnad. Gall yr anwadalrwydd hwn esgor ar heriau i gynllunio busnes hirdymor. Bydd y Bil yn darparu’r pwerau ar gyfer cymorth yn y dyfodol, a bydd y CFfC arfaethedig yn darparu ffrwd incwm yn seiliedig ar gyflawni dibenion SLM ar gyfer cymorth; ni fydd yr anwadalrwydd hwn yn effeithio ar y rhain. Ar gyfer ffermydd sy’n cymryd rhan, dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar bobl o aelwydydd incwm isel drwy ddarparu incwm mwy sefydlog.

Mae ein Hasesiadau o’r Effaith ar Lesiant Economaidd a Phrawfesur Gwledig yn ystyried effeithiau economaidd posibl y Bil yn fanylach.

### Aelwydydd mewn ardaloedd difreintiedig

[170] Arolwg Strwythur Ffermydd yr UE (2016).

[171]https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/adhocs/009745workersbysexindetailedoccupationgroupings2000to2018

[172] https://onlinelibrary.wiley.com/doi/cd/10.1111/j.1477-9552.1992.tb00200.x

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC)[173] yn cynnwys ansawdd amgylchedd ffisegol ardaloedd fel un o ddangosyddion amddifadedd. Mae'r elfen 'amgylchedd ffisegol' hon yn cynnwys ansawdd aer, perygl llifogydd a mynediad i fannau gwyrdd.

Mae'r Bil yn pennu SLM fel y fframwaith ar gyfer ffermio yng Nghymru yn y dyfodol, a'i nod yw lleihau allyriadau, lleihau perygl llifogydd drwy ddefnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur (e.e. amaeth-goedwigaeth, gwella iechyd pridd) a chreu mwy o fynediad i gefn gwlad. Felly, dylai'r Bil ddylanwadu'n gadarnhaol ar yr amgylchedd ffisegol a gwella'r dangosydd amgylchedd ffisegol yn y mesur MALlC. Caiff effaith y Bil ar yr amgylchedd ei hystyried ymhellach yn yr Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth, ac yn Adran 5 y ddogfen hon, sy'n ymwneud â Lles Amgylcheddol.

## Pa rwystrau, os o gwbl, y mae pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn eu hwynebu? A ellir lleihau, dileu, lliniaru'r rhwystrau hyn?

Nid ydym yn disgwyl i'r Bil greu rhwystrau i'r rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Wrth inni barhau i ddatblygu ein cynigion ar gyfer y CFfC, byddwn yn ystyried sut y gallwn sicrhau na fydd unrhyw rwystrau'n bodoli o ran atal pobl sy'n perthyn i grwpiau gwarchodedig rhag cyfranogi. Ymhellach, byddwn yn ystyried a oes angen mentrau wedi'u targedu i gefnogi grwpiau na chânt eu cynrychioli'n ddigonol mewn amaethyddiaeth, megis menywod a'r rhai sy'n perthyn i grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl gyngor a'r holl ganllawiau sy'n gysylltiedig â'r Bil a'r CFfC yn cael eu cyfleu mewn ffyrdd hygyrch.

**Monitro'r cynigion**

Yn ogystal â darparu'r pwerau ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfer y dyfodol, bydd y Bil yn darparu'r pwerau monitro a gwerthuso perthnasol, ar gyfer cymorth yn y dyfodol ac ar gyfer SLM yn ei gyfanrwydd. Bydd yn ofynnol i weinidogion adrodd ar fetrigau penodol; bydd rhagor o fanylion ynglŷn â'r strategaeth fonitro a gwerthuso yn cael eu nodi ar ôl i gynigion y cynllun gael eu cwblhau.

Bydd y strategaeth fonitro a gwerthuso hon yn nodi sut y caiff y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ei farnu o ran gwerth am arian a'r canlyniadau a gyflawnir ganddo ar gyfer Cymru. Bydd y strategaeth yn cydnabod natur hirdymor y canlyniadau yr anelir atynt a bydd yn nodi mesurau interim a all ddangos cynnydd.

| Tabl Cryno – Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig: Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru'r Effeithiau? |
|---|---|---|---|

[173] https://llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-diweddariad-llawn-ir-mynegai-gyda-graddfeydd-2019

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran) | Gall pobl hŷn elwa'n arbennig ar gyflawni dibenion SLM ar gyfer cymorth, fel aer glanach. | Mae pobl hŷn yn arbennig o agored i niwed yn sgil llygredd aer, a bydd y darpariaethau yn y Bil yn gwella ansawdd aer. | Mae hyn yn effaith gadarnhaol, ac nid oes angen lliniaru. |
| | Efallai y bydd yna effaith negyddol ar rai ffermwyr hŷn os mai dulliau digidol yn unig a ddefnyddir i gyfathrebu am y Bil a'r modd y'i rhoddir ar waith. | Mae adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru, *Cefnogi cymunedau ffermio yn ystod cyfnodau o ansicrwydd* (2019), yn nodi bod digideiddio'n her, yn enwedig i ffermwyr hŷn. | Bydd angen cyhoeddi cyngor ac arweiniad mewn amrywiaeth o fformatau a byddwn yn ystyried sut i gyrraedd rhanddeiliaid drwy amrywiaeth o ddulliau. |
| | Gallai symud o gynllun cymorth sy'n seiliedig ar arwynebedd i gynllun sy'n seiliedig ar gyflawni dibenion SLM effeithio ar newydd-ddyfodiaid, a all hefyd fod yn bobl iau. | Ar hyn o bryd, mae pobl ifanc a newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant ffermio yn wynebu nifer o heriau, gan gynnwys mynediad at dir a chyllid, a meithrin yr wybodaeth/sgiliau sy'n angenrheidiol i redeg busnes llwyddiannus. | Byddwn yn ystyried sut i adeiladu ar y cynnig cynghori presennol ar gyfer pobl iau a newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant. |
| | Bydd y ddarpariaeth safonau marchnata yn cael mwy o effaith ar bobl o oedran gweithio, a hynny oherwydd y posibilrwydd dilynol o ddiwygio rheoliadau | Mae'r ddarpariaeth hon yn ceisio efelychu'r pwerau a gaiff Gweinidogion Cymru trwy gyfrwng Bil Amaethyddiaeth y DU, felly bydd yn cynnig | Ni fydd angen unrhyw liniaru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | safonau marchnata a'r effaith a gaiff hyn ar fusnesau.<br>Bydd defnyddwyr o bob rhan o'r sbectrwm oedran yn teimlo effaith unrhyw is-ddeddfwriaeth a lunnir yn sgil y pwerau hyn, gan fod bwyd a diod yn eitemau hanfodol i bawb. | parhad.[174] Gan hynny, mae'r penderfyniad yn cynnal y sefyllfa bresennol yn hytrach na newid y system er budd y naill grŵp neu'r llall. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd) | Bydd y canlyniadau amgylcheddol yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth yn gyffredinol, gan gynnwys pobl ag anableddau. Gall gwelliannau i lwybrau mynediad gael effaith gadarnhaol ar y rhai sydd ag anghenion hygyrchedd. | | Mae hyn yn effaith gadarnhaol, ac nid oes angen lliniaru. |
| | Mae'n bosibl y gallai'r rhai sydd â nam ar eu golwg neu anawsterau dysgu gael eu hatal rhag defnyddio'r darpariaethau tenantiaeth os yw'n ymddangos eu bod yn anhygyrch, yn rhy gymhleth neu'n feichus. | | Datblygwyd canllawiau o dan arweiniad y diwydiant gan TRIG ac maent ar gael yn eang i denantiaid, landlordiaid a chynghorwyr proffesiynol trwy gyfrwng cyrff sy'n cynrychioli'r diwydiant, gan gynnwys Cymdeithas y Ffermwyr Tenant, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, Sefydliad Brenhinol y |

[174] https://publications.parliament.uk/pa/bills/lbill/58-01/112/5801112.pdf, t.68

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Syrfewyr Siartredig, Cymdeithas y Gyfraith Amaethyddol a Chymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol.<br><br>Byddwn yn monitro effaith y darpariaethau drwy barhau i ymgysylltu â chynrychiolwyr y diwydiant. Bydd y wybodaeth hon yn llywio'r angen am unrhyw ddiwygiadau i'r is-ddeddfwriaeth. |
| Ailbennu Rhywedd (y weithred drawsnewid a Phobl Drawsryweddol) | Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol. | | Ni fydd angen unrhyw liniaru ar hyn o bryd, ond byddwn yn parhau i fonitro hyn wrth i gynigion ddatblygu ar gyfer CFfC y dyfodol. |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Bydd llai o glefydau da byw yn lleihau'r risg i fenywod beichiog a'u babanod yn y groth yn sgil milheintiau (clefydau y gellir eu trosglwyddo i bobl). Bydd y canlyniadau amgylcheddol yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth yn gyffredinol, gan gynnwys menywod beichiog. | | Mae hyn yn effaith gadarnhaol, ac nid oes angen lliniaru. |
| Hil (yn cynnwys lleiafrifoedd ethnig gwahanol, Sipsiwn a Theithwyr, a Mudwyr, Ceiswyr | Mae ffermwyr yn perthyn yn bennaf i'r grŵp ethnig Gwyn, felly bydd y Bil yn cael llai o | | Ni fydd angen unrhyw liniaru ar hyn o bryd, ond byddwn yn parhau i fonitro hyn wrth i |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Lloches a Ffoaduriaid) | effaith ar leiafrifoedd ethnig.<br>Nid oes unrhyw agweddau ar y Bil a fyddai'n cael effaith negyddol ar Sipsiwn a Theithwyr (megis newidiadau i hawliau tir neu fynediad at addysg).<br>Bydd cefnogi economi wledig ffyniannus yn parhau i gynnig cyfleoedd i weithwyr mudol. | | gynigion ddatblygu ar gyfer CFfC y dyfodol. |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol. | | Ni fydd angen unrhyw liniaru ar hyn o bryd, ond byddwn yn parhau i fonitro hyn wrth i gynigion ddatblygu ar gyfer CFfC y dyfodol. |
| Rhyw / Rhywedd | Dynion yw rheolwyr fferm ac unig ddeiliaid yn bennaf, ac fe allai hyn gael effaith negyddol ar gydraddoldeb rhywiol o ran mynediad at gymorth ariannol. | | Byddwn yn ystyried sut y gallwn adeiladu ar fentrau fel rhaglen Merched mewn Amaeth Cyswllt Ffermio wrth i'n cynigion polisi ddatblygu. |
| Cyfeiriadedd rhywiol | Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol. | | Ni fydd angen unrhyw liniaru ar hyn o bryd, ond byddwn yn parhau i fonitro hyn wrth i gynigion ddatblygu ar gyfer CFfC y dyfodol. |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol. | | Ni fydd angen unrhyw liniaru ar hyn o bryd, ond byddwn yn parhau i fonitro hyn wrth i gynigion ddatblygu ar gyfer CFfC y dyfodol. |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Disgwylir i blant a phobl ifanc elwa'n gadarnhaol ar gyflawni dibenion SLM ar gyfer cymorth. | Mae plant yn arbennig o agored i niwed yn sgil llygredd aer. | Mae hyn yn effaith gadarnhaol, ac nid oes angen lliniaru. |
| | Gallai symud o gynllun sy'n seiliedig ar arwynebedd i gynllun sy'n seiliedig ar gyflawni dibenion SLM | | Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal dadansoddiad economaidd o'r Cynllun |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | esgor ar effeithiau economaidd; gallai hyn effeithio ar blant, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. | | Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, a fydd yn ystyried effeithiau'r cynigion terfynol. Yn dilyn ymgynghoriad yn 2023, caiff cynigion y cynllun eu hadolygu, a bydd y dadansoddiad economaidd yn cael ei ddiweddaru. |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Ni nodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol. | | Ni fydd angen unrhyw liniaru ar hyn o bryd, ond byddwn yn parhau i fonitro hyn wrth i gynigion ddatblygu ar gyfer CFfC y dyfodol. |
| Aelwydydd incwm isel | Gallai symud o gynllun cymorth sy'n seiliedig ar arwynebedd i gynllun sy'n seiliedig ar gyflawni dibenion SLM esgor ar effeithiau economaidd, a gallai hyn effeithio ar aelwydydd ffermio incwm isel. | | Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal dadansoddiad economaidd o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, a fydd yn ystyried effeithiau'r cynigion terfynol. Yn dilyn ymgynghoriad yn 2023, caiff cynigion y cynllun eu hadolygu, a bydd y dadansoddiad economaidd yn cael ei ddiweddaru. |
| | Efallai y bydd rhai unigolion a busnesau yn cael eu hatal rhag defnyddio'r darpariaethau tenantiaeth, oherwydd y costau a'r amser sydd eu hangen i fynd drwy'r broses. | | Rydym yn rhagweld y bydd y darpariaethau'n gweithredu fel cymhelliad i denantiaid a landlordiaid ddod i gytundeb a negodwyd er mwyn osgoi'r costau sydd ynghlwm wrth ddatrys anghydfod ond gan ddarparu dewis olaf deddfwriaethol i'r rhai na allant ddod i gytundeb rhesymol.<br>Byddwn yn monitro effaith y darpariaethau drwy barhau i ymgysylltu â chynrychiolwyr y diwydiant. Bydd y wybodaeth hon yn llywio'r angen am |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | unrhyw ddiwygiadau i'r is-ddeddfwriaeth. |

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

A ydych yn credu y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl?

| Hawliau Dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru Effeithiau negyddol? |
|---|---|---|---|
| **Erthygl 8: Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol a gohebiaeth** | Bydd y Bil yn egluro deddfwriaeth ynghylch rhannu a phrosesu data, a bydd yn sicrhau y gellir parhau i brosesu data hanesyddol ar ôl i'r pwerau perthnasol ddod i ben yn Neddf Amaethyddiaeth y DU.<br><br>Mae'r Bil yn rhoi'r pwerau i Lywodraeth Cymru gasglu data, ond bydd angen cyhoeddi cynlluniau penodol ac ymgynghori arnynt. | Mae unrhyw ddarpariaethau sy'n ymwneud â phrosesu gwybodaeth bersonol yn peri risg o amharu ar yr hawl i breifatrwydd. | Byddwn yn egluro, mewn deddfwriaeth, dibenion y casglu a phrosesu data. Bydd hyn yn helpu i liniaru'r risg o brosesu/rhannu data mewn modd anghymesur.<br><br>Trowch at wefannau'r consortia rhanbarthol i gael mwy o fanylion. |
| **Protocol 1, Erthygl 1: Diogelu eiddo** | Gall y darpariaethau tenantiaeth effeithio ar y trefniadau presennol a nodir mewn contractau preifat. Gall newidiadau yn y modd y defnyddir tir gan denantiaid neu mewn arferion busnes tenantiaid effeithio ar eiddo'r landlord, ar ei werth posibl yn y dyfodol, ac ar sut y | | Mae landlordiaid, tenantiaid a'u cynrychiolwyr wedi cael cyfle cyfartal i gyflwyno sylwadau ynglŷn â'r darpariaethau a sut y gallent effeithio arnynt.<br><br>Dim ond pan fo cymalau cyfyngol yn rhwystr afresymol i gymryd rhan yn y cynllun y bydd y |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gellid ei drin at ddibenion treth. | | ddarpariaeth yn gymwys. Bydd is-ddeddfwriaeth yn sicrhau y rhoddir dull teg a chytbwys ar waith mewn perthynas â buddiannau landlordiaid a thenantiaid. |

**YR UE/AEE (Yr Undeb Ewropeaidd/Ardal Economaidd Ewropeaidd) a Hawliau Dinasyddion y Swistir**

Nid ydym yn disgwyl i'r Bil gael effaith negyddol ar hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir. O ran Dinasyddion yr UE/AEE neu'r Swistir sy'n byw ac yn ffermio yng Nghymru, bydd y Bil yr un mor berthnasol i bob ffermwr a bydd y CFfC arfaethedig ar gael i bob ffermwr yng Nghymru sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra, ni waeth beth fo'i genedligrwydd.

Nod y Bil yw cefnogi sector amaethyddol cynaliadwy a chadarn yng Nghymru. Ar gyfer Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir sy'n dibynnu ar waith amaethyddol tymhorol, dylai'r Bil a'r CFfC arfaethedig olygu y bydd y gofyn am waith tymhorol yn cael ei gynnal gan y bydd ffermydd yn gadarn ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, mae natur tir ffermio Cymru yn golygu bod y mathau o ffermydd sy'n dibynnu ar waith tymhorol yn fwy cyffredin yn Lloegr.

# C. ASESIAD O'R EFFAITH O RAN PRAWFESUR GWLEDIG

**1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl, busnesau a chymunedau gwledig.**

## Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar fywydau pobl wledig, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol? Er enghraifft, fel defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr a defnyddwyr.

### Cymunedau gwledig ac amaethyddiaeth

Mae amcangyfrifon ar gyfer 2021[175] yn dangos mai 50,401 yw cyfanswm y bobl sy'n gweithio ar ddaliadau amaethyddol yng Nghymru. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys 37,953 o bobl sy'n brif ffermwyr, yn gyfarwyddwyr ac yn bartneriaid busnes, ynghyd â'u priod. Mae'r cyfanswm hefyd yn cynnwys 12,448 o weithwyr fferm llawn amser rheolaidd, rhan-amser rheolaidd a thymhorol/achlysurol. Nid yw'r ffigur yn cynnwys pobl hunangyflogedig na chontractwyr a all hefyd weithio ar y fferm.

Nid cyfraniad economaidd yn unig yw cyfraniad amaethyddiaeth at gymunedau gwledig. Fel y nodir gan Dwyer (2018),[176] "*whilst hardly visible in basic statistics, agriculture remains a major driver of economic and community viability in the many remote areas of Wales".* Adlewyrchwyd hyn hefyd yn yr ymatebion i'n hymgynghoriad, *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*.

Mae ffermydd yng Nghymru yn gwneud cyfraniad sylweddol at y cyfalaf cymdeithasol sydd wedi'i wreiddio mewn cymunedau gwledig. Fel y pwysleisir gan NFU Cymru[177], *"Mae llawer o ffermwyr neu unigolion sy'n rhan o'r diwydiant amaeth yn cyflawni swyddogaeth fel arweinwyr neu wirfoddolwyr mewn cymunedau gwledig sy'n cyfrannu at gydlyniad cymunedol. Yn aml iawn gwelir aelodau o'r diwydiant amaeth yn eistedd ar gynghorau cymuned, cymdeithasau rhieni ac athrawon neu ar fyrddau llywodraethwyr ysgol. Hefyd byddant yn aml yn cynorthwyo'r gymuned."*

Mae cyflwyno'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy a Chynllun Ffermio Cynaliadwy y dyfodol yn newid sylweddol yn y ffordd y bydd ffermwyr yn cael cymorth ariannol. O ystyried cyfraniad amlweddog amaethyddiaeth mewn llawer o ardaloedd gwledig, gallai'r newidiadau hyn effeithio ar gymunedau gwledig hefyd.

Isod, nodir effeithiau disgwyliedig y Bil ar gymunedau gwledig. Bydd Cynllun Ffermio Cynaliadwy y dyfodol yn destun asesiad effaith ar ôl i'r cynllun gael ei lunio'n derfynol.

*Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) a chymorth yn y dyfodol*

Mae'r Bil yn pennu Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel fframwaith polisi'r dyfodol ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae amcanion SLM yn pennu bod angen cynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy.

---

[175] Arolwg Amaethyddiaeth a Garddwriaeth mis Mehefin (2021).

[176] Dwyer, J. (2018). The implications of Brexit for agriculture, rural areas and land use in Wales.

[177] NFU Cymru (2017). Ffermio – Creu Cymru Unedig.

Mae hynny'n gofyn am fusnesau amaethyddol gwydn. Bwriad y cynllun arfaethedig ar gyfer y dyfodol fydd cefnogi ffermwyr yn unol â'r dibenion a nodir yn y Bil a disgwylir iddo gael effaith gadarnhaol ar gymunedau gwledig drwy gynyddu gwydnwch. Yn benodol, mae'r dibenion yn cynnwys gwneud busnesau amaethyddol yn fwy gwydn a helpu cymunedau gwledig i ffynnu a chryfhau'r cysylltiadau rhwng busnesau amaethyddol a'u cymunedau. Fodd bynnag, disgwylir i ddibenion eraill y cymorth hefyd gyfrannu at wneud busnesau'n fwy gwydn.

Bydd gwobrwyo ffermwyr am gyflawni'r canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu ceisio, trwy gyfrwng y dibenion ar gyfer cymorth, yn cynyddu gwytnwch ecolegol y tir y maent yn ei reoli, ynghyd â gwydnwch economaidd eu busnesau a gwydnwch cymdeithasol cymunedau gwledig drwy bresenoldeb parhaus amaethyddiaeth. Bydd gwella effeithlonrwydd y model busnes fferm o fewn gallu naturiol y tir yn galluogi cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol i barhau i ffermio, gan gynnig gwydnwch hirdymor i'r cymunedau y maent wedi'u gwreiddio ynddynt.

Bydd y CFfC arfaethedig hefyd yn cynnig ffrwd refeniw, a fydd ar wahân i'r incwm a gynhyrchir ar y fferm ac na fydd anwadalrwydd mewn amodau masnachu yn effeithio arni. Dylai'r ffrwd incwm hon gefnogi cymunedau gwledig gwydn hefyd.

Trwy wella hyfywedd ffermydd a chadernid cymunedau gwledig, bydd modd cael effaith gadarnhaol o ran darparu cyfleoedd i bobl ifanc. Gallai hyn gyfrannu at fynd i'r afael â materion fel lefelau allfudo uchel o'r Gymru wledig ymhlith pobl ifanc, ynghyd â helpu ffermwyr presennol i gynllunio ar gyfer olyniaeth.

Disgwylir hefyd y daw manteision llesiant cadarnhaol i ran cymunedau gwledig drwy gynnal a gwella cynefinoedd a thirweddau, ochr yn ochr â gwelliannau mewn ansawdd aer a dŵr. Mae ein Hasesiad o'r Effaith ar Iechyd yn Adran 2 yn manylu ar effeithiau cadarnhaol y cynllun arfaethedig ar les corfforol a meddyliol, ac mae ein hadran Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth a Lles Amgylcheddol (Adran 5) yn amlinellu'r manteision amgylcheddol disgwyliedig.

Mae'r Bil yn sefydlu'r fframwaith SLM ac yn rhoi pwerau i weinidogion sefydlu cynlluniau i helpu i gyfrannu at gyflawni SLM, megis y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig; bydd manylion terfynol y cynllun ei hun a'r asesiad effaith cysylltiedig yn cael eu cyhoeddi maes o law.

O ran plannu coed ar dir fferm, bwriad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw cefnogi ffermwyr i gynyddu gorchudd coed ar dir amaethyddol mewn lleoliadau priodol – er budd yr amgylchedd a hefyd er budd busnes y fferm – ochr yn ochr â chamau eraill a fydd yn sicrhau'r canlyniadau a ddymunir gan Lywodraeth Cymru. Gan fod y Bil yn ymwneud yn benodol ag amaethyddiaeth, tir amaethyddol yn benodol fydd yn destun SLM er mwyn cyflawni amcanion strategol y Bil. Bydd y CFfC arfaethedig yn helpu ffermwyr i gyflawni SLM, a bydd yn nodi'r camau gweithredu a gefnogir yn unol â'r diffiniadau o amaethyddiaeth a gweithgareddau amaethyddol fel y'u nodir yn y Bil.

Nod y Bil yw cadw ffermydd Cymru yn weithgar ac yn gadarn, gan ddarparu ffrwd incwm sefydlog a fydd yn galluogi ffermwyr i aros ar eu tir ac yn caniatáu iddynt drosglwyddo busnesau fferm cadarn i genedlaethau'r dyfodol.

Bwriad y Bil a CFfC y dyfodol yw cymryd camau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur mewn ffordd sy'n fuddiol i ffermydd a chymunedau gwledig. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymrwymiadau presennol Llywodraeth Cymru, fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r

Dyfodol (Cymru) 2015[178], a'n Cyllideb Garbon, sy'n nodi y dylai'r pontio i Sero Net fod yn "deg a llewyrchus"[179]. Dull Gweithredu Llywodraeth Cymru, drwy fabwysiadu SLM yn y Bil, yw hyrwyddo arferion rhannu tir a fydd yn ei gwneud yn bosibl i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy ochr yn ochr â chyflawni'r canlyniadau eraill rydym yn eu ceisio.

*Coedwigaeth*

Ni ddisgwylir i ddarpariaethau'r Bil ar gyfer coedwigaeth a choetiroedd gael effeithiau negyddol ar gymunedau gwledig yng Nghymru; maent yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth ac felly ar iechyd corfforol a meddyliol pobl sy'n byw yno. Fe fydd yna achosion lle bydd costau ymgeisio a chostau cydymffurfio yn cynyddu i dirfeddianwyr yn sgil amodau ychwanegol mewn trwyddedau cwympo coed neu yn sgil atal neu ddirymu trwyddedau cwympo coed. Fodd bynnag, disgwyliwn i Cyfoeth Naturiol Cymru ddefnyddio'r pwerau hyn yn briodol ac yn gymesur yn unol â Diben Cyffredinol CNC o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'i ddyletswydd cydbwyso o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967 ynghyd â'i ofyniad i weithredu'n unol ag egwyddorion Cyfraith Gyhoeddus, cod y rheoleiddwyr ac Egwyddorion Rheoleiddio CNC ei hun.

Mae'r manteision a ddaw i ran y sector coedwigaeth yn sgil dangos cydymffurfiaeth ag amodau amgylcheddol sylfaenol a mwy pwrpasol lle bo angen yn codi ymwybyddiaeth o ymrwymiad y sector i'r amgylchedd, ac yn lleihau'r risg o ddwyn cymhariaeth anffafriol â safonau hwsmonaeth mewn gwledydd eraill. Bydd hefyd yn helpu i leihau effaith cwympo coed ar yr amgylchedd.

Bydd busnesau bach a chanolig (BBaChau) a microfusnesau sy'n rheoli coetiroedd yn gallu manteisio ar wahanol gynlluniau cyllid cyfalaf i brynu offer arbenigol, megis y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren a ariennir gan y Rhaglen Datblygu Gwledig, ac yn fwy diweddar drwy Gynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

*Y gwaharddiad ar faglau a thrapiau glud*

Ni ragwelir y bydd y gwaharddiad ar drapiau glud yn cael mwy o effaith ar y rhai mewn cymunedau gwledig nag mewn mannau eraill. Fodd bynnag, mae rhai ffermwyr a chiperiaid yn defnyddio maglau'n rheolaidd fel ffordd o reoli llwynogod, er mwyn diogelu ŵyn ac adar hela. Er y bydd y gwaharddiad ar faglau yn effeithio ar y gweithgareddau hyn, mae digon o ddulliau amgen – a llai creulon – ar gael, megis saethu gyda chymorth lampau neu ddelweddu thermol. Bydd rhywfaint o anawsterau'n dod i ran defnyddwyr presennol maglau wrth iddynt gaffael neu ymgyfarwyddo â'r dulliau rheoli amgen hyn, ond mae'r cyhoeddiad i wahardd maglau eisoes wedi'i wneud, gan roi digon o gyfle i ffermwyr a chiperiaid droi at ddulliau llai creulon.

*Safonau Marchnata*

Gallai'r darpariaethau arwain at greu deddfwriaeth safonau marchnata ar gyfer unrhyw gynnyrch amaethyddol. Bydd newidiadau i ddeddfwriaeth yn golygu newidiadau yn y ffordd y caiff busnesau bwyd ac amaethyddiaeth eu rhedeg, ond mae'n anodd mesur yr effaith ar hyn o bryd, oherwydd

---

[178] https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf

[179] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-10/cymru-sero-net-cyllideb-garbon-2-2021-25.pdf

cwmpas y posibilrwydd o newid. Mae'n bwysig pwysleisio nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i newid safonau marchnata ar hyn o bryd, ond gallai'r sefyllfa hon newid oherwydd datblygiadau mewn technoleg, trefniadaeth y farchnad neu newidiadau cymdeithasol.

Gall fod yn anos i fusnesau bach a chanolig eu maint mewn ardaloedd gwledig addasu i newidiadau o'r fath, er enghraifft pe bai newidiadau mewn rheoliadau safonau marchnata yn golygu bod rhaid argraffu labeli newydd. Mae ffermydd Cymru yn aml yn cyflogi ychydig iawn o staff, ac fe allent ei chael hi'n anos cael gafael ar wasanaethau oherwydd eu lleoliad anghysbell.

Fodd bynnag, efallai nad effeithiau negyddol a ddaw i ran busnesau o'r fath. Pe bai newidiadau'n cael eu gwneud i wella effeithlonrwydd cadwyni cyflenwi, neu i roi hwb i hyder defnyddwyr mewn cynnyrch amaethyddol, gallai'r rhain fod o fudd ariannol i fusnesau o'r fath.

Ymatebodd grwpiau rhanddeiliaid gwledig i'r ymgynghoriad ar y cynigion. Ar y cyfan, roeddent yn gefnogol i'r syniad o roi pwerau i Weinidogion Cymru dros safonau marchnata, ond tanlinellwyd yr angen am gysondeb trawsffiniol.

Yn y pen draw, mae'n anodd iawn amcangyfrif effaith y darpariaethau hyn ar gymunedau gwledig heb gynigion pendant ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Unwaith y bydd deddfwriaeth o'r fath yn cael ei chynnig o dan y pwerau hyn, gellir cynnal dadansoddiad manylach.

*Dosbarthu Carcasau*

Bydd y darpariaethau'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl wledig. Byddai deddfwriaeth a grëir o dan y pwerau hyn naill ai'n ceisio gwella effeithlonrwydd busnesau neu'n ceisio gwella hyder defnyddwyr mewn porc, cig eidion a chig oen a gynhyrchir yng Nghymru. Yn ôl pob tebyg, ffermydd, lladd-dai a chigyddion a fyddai'n elwa ar well effeithlonrwydd. Mae llawer o ffermydd yn fusnesau bach sy'n cefnogi cymunedau gwledig, felly mae'r effaith hon yn debygol o fod yn gadarnhaol.

Mae yna bosibilrwydd na fydd y ddau amcan a grybwyllir uchod yn cyd-fynd â'i gilydd, ac y gallai deddfwriaeth a grëir i wella hyder defnyddwyr gael effaith andwyol ar effeithlonrwydd busnesau, neu i'r gwrthwyneb. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl y byddai deddfwriaeth o'r fath yn cael effaith negyddol ar y busnesau gwledig bach a chanolig sy'n ymwneud â'r gadwyn cyflenwi cig.

Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid gwledig fel rhan o'r ymgynghoriad ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru). Ar y cyfan, roedd y sylwadau a gafwyd ynglŷn â'r cynnig hwn yn gefnogol, ond pwysleisiwyd pa mor bwysig yw cael safonau cyson ledled Prydain Fawr.[180]

*Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol*

Mae'r darpariaethau'n golygu y bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i ymyrryd yn y farchnad yn ystod cyfnodau o gynnwrf economaidd difrifol. Mewn gwirionedd, dim ond er mwyn atal busnesau amaethyddol rhag methu ar raddfa eang y byddai pwerau o'r fath yn cael eu defnyddio. Byddai

[180] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-09/bil-amaethyddiaeth-cymru-crynodeb-or-ymatebion.pdf, t.82

ymyrraeth o'r fath yn cael budd cadarnhaol byrdymor ar y cyfryw fusnesau – sef busnesau y mae'r mwyafrif llethol ohonynt yn fusnesau gweledig, ac sy'n tueddu i fod yn fach.

Mae'r anhawster o ran asesu effaith bosibl y darpariaethau yn ymwneud â'u natur fel pŵer argyfwng. Mae'n anodd rhagweld pryd y byddai'r pwerau'n cael eu defnyddio ac ar gyfer pa is-sector amaethyddol. Fodd bynnag, byddai peidio â chael y pwerau hyn yn cynyddu'r risg o darfu'n ddifrifol ar gymunedau gwledig pe bai argyfwng yn digwydd yn y farchnad, felly mae'n bwysig i Weinidogion Cymru gael yr arfau i fynd i'r afael â senarios o'r fath.

Trwy feddu ar y gallu i leihau ergyd digwyddiadau eithafol yn y farchnad, byddai modd cael effaith gadarnhaol ar gymunedau gwledig. Pe bai nifer o fusnesau fferm yn methu ar yr un pryd, mae'n debygol y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar gydlyniant cymunedau gwledig, ar y Gymraeg ac ar ddiwylliant gwledig Cymru. Byddai'r effeithiau anuniongyrchol hyn yn ychwanegol at effeithiau economaidd amlwg yn sgil methiant busnesau ar raddfa eang.

Roedd grwpiau rhanddeiliaid gwledig yn cefnogi'r syniad o gynnwys y cynnig hwn yn yr ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Bil Amaethyddiaeth (Cymru).[181]

### A fydd mynediad yn broblem i bobl wledig? Os felly, beth fydd yn cael ei wneud i oresgyn rhwystrau o ran mynediad?

Nid ydym o'r farn y bydd mynediad yn broblem i bobl wledig o fewn y Bil. O ran y CFfC arfaethedig, mae ffermydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig yn bennaf a nhw fydd y prif darged.

### Sut y mae'r cynnig wedi ystyried anghenion pobl cefn gwlad e.e. y boblogaeth hŷn, diffyg tai fforddiadwy, gofynion ieithyddol?

Bydd darpariaethau'r Bil yn gymwys i bob ffermwr yng Nghymru, ni waeth beth fo'i oedran, a pha un a fydd yn cymryd rhan mewn unrhyw gynllun yn y dyfodol ai peidio. O ran pobl mewn cymunedau gwledig yn fwy cyffredinol, gan gynnwys trafodaeth ar y Gymraeg, ceir rhagor o fanylion yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ein Hasesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, a'n Hasesiad o'r Effaith ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Wrth ddatblygu ein cynigion ar gyfer y CFfC, byddwn yn cynnwys y gymuned ffermio ac yn ymgynghori â hi. Bydd y gwaith o ddatblygu polisi pellach ynghylch cyngor a chanllawiau ar gyfer y CFfC arfaethedig hefyd yn ystyried y ffordd orau o ddarparu hyn i'r gymuned ffermio, a byddwn yn ystyried gwahanol anghenion ac yn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael mewn amryw o fformatau.

### A fydd y cynnig yn arwain at agor gwasanaethau newydd neu gau gwasanaethau sy'n bodoli eisoes? Sut y byddwch yn cynyddu i'r eithaf yr effeithiau cadarnhaol ac yn lliniaru'r effeithiau negyddol?

[181] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-09/bil-amaethyddiaeth-cymru-crynodeb-or-ymatebion.pdf, t.81-2

Ni ddisgwylir y bydd y Bil yn effeithio'n uniongyrchol ar y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer ardaloedd gwledig. Er hynny, disgwylir i'r Bil gefnogi economi wledig ffyniannus a chynaliadwy – rhywbeth a ddylai gwneud ardaloedd gwledig yn ddewis mwy deniadol a hyfyw i unigolion o bob oed a phroffesiwn, gan gynnwys y rhai y mae eu gwaith yn darparu gwasanaethau hanfodol i bobl leol.

### A yw'n ofynnol prynu neu ddefnyddio tir o dan y polisi? A ydych wedi ystyried ffactorau gwledig megis gwerth tir, faint ohono sydd ar gael neu ddynodiadau cyfyngol?

Ni fydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru brynu na defnyddio tir i weithredu'r polisi.

### A fydd y cynnig yn gweithio mewn tirwedd anodd e.e. ffyrdd cul a mynyddoedd serth? Os na fydd, sut y byddwch yn goresgyn unrhyw rwystrau?

Nid ydym yn rhagweld unrhyw rwystrau oherwydd tirwedd anodd. Mae gan Lywodraeth Cymru brofiad blaenorol o ddarparu cynlluniau cymorth a gwasanaethau cynghori i ffermwyr, sy'n aml wedi'u lleoli ar dirwedd anodd, a bydd y profiad hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith cyflawni.

### A yw'r cynnig yn berthnasol i fusnesau bach a chanolig neu i ficrofusnesau? Os felly, sut ydych chi wedi ystyried eu sefyllfa hwy? A yw'r cynnig yn disgwyl i fusnesau allu cael mynediad at gymorth? (Gall hyn fod ar ffurf cyngor, hyfforddiant, cyllid ac ati.) Os ydyw, pa rwystrau y bydd busnesau gwledig yn eu hwynebu a sut y caiff y rhwystrau hyn eu goresgyn?

*SLM a chymorth yn y dyfodol*

Mae'r rhan fwyaf o ffermydd yng Nghymru yn fusnesau bach ac maent yn cyfrannu at gadernid cymunedau gwledig. Mae data sy'n deillio o 2019 yn dangos bod 87% o ffermydd Cymru yn cael eu hystyried yn ffermydd 'Bach' neu 'Bach Iawn' ar sail ar eu trosiant. Gyda chyfartaledd o 2.14 o weithwyr fesul fferm yn 2020[182], mae'n debygol iawn y byddai'r mwyafrif helaeth o ffermydd Cymru yn cael eu dosbarthu fel 'micro-endidau' (llai na 10 o weithwyr, ynghyd â bodloni meini prawf yn ymwneud â throsiant). Yn 2017, roedd gan bron i ddwy ran o dair o ffermydd yr hyn sy'n cyfateb i un neu lai o weithwyr llawn amser[183].

Daeth tystiolaeth[184] ynghylch pwysigrwydd busnesau bach i gadernid cymunedau yn yr Alban i'r casgliad bod busnesau gwledig yn cyfrannu at feithrin gwydnwch cefn gwlad yr Alban mewn ffyrdd uniongyrchol ac anuniongyrchol. Canfu'r dystiolaeth fod *"clear link between the activities of rural businesses and the resilience of rural communities",* sy'n gysylltiedig â chreu swyddi a darparu

---

[182] https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2021-08/ffeithiau-ffigurau-ffermio-2021-091.pdf

[183] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Agriculture/Agricultural-Survey/Intra-Survey-Comparisons/annual-fte-labour-proxy-on-a-farm

[184] Steiner, A. ac Atterton, J. (2014). The contribution of rural businesses to community resilience. Local Economy, 29:3. t.228-244.

gwasanaethau/cynhyrchion. Ymhellach, canfu'r dystiolaeth y gall tyfu ac arallgyfeirio'r sector busnes preifat:

- Helpu i gynnal y boblogaeth oedran gweithio mewn ardal leol, gan gyfrannu at y 'cydbwysedd demograffig' a thrwy hynny gynorthwyo i ddarparu gwasanaethau lleol (y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector);
- Defnyddio a datblygu adnoddau sy'n bodoli eisoes, gan gynyddu ansawdd bywyd a lles trigolion gwledig, gwneud llefydd yn fwy deniadol fel cyrchfannau i dwristiaid a gwella cydlyniant cymunedol.

Mae adolygiad[185] sy'n deillio o Orllewin Canolbarth Lloegr yn nodi pwysigrwydd busnesau bach o ran cyfrannu at wydnwch economaidd cymunedau lleol; "…*local economies with higher levels of small businesses and local ownership perform better in terms of economic success, job creation (especially in disadvantaged and peripheral areas), local multiplier effect, social inclusion, income redistribution, health, well-being and civic engagement, than economies more dependent on centralised economic actors. Such economies also support local distinctiveness and diversity, which can be seen as being advantageous because these factors contribute to economic resilience".*

Mae ymchwil[186] i effeithiau symud i ffwrdd oddi wrth Gynllun y Taliad Sylfaenol yn Ne-orllewin Lloegr yn archwilio'r goblygiadau ehangach sydd codi pan fydd busnesau fferm yn rhoi'r gorau i fasnachu. Yn ôl y gwaith ymchwil hwn, *"…there is a wider impact, like the ripples in the water when a stone hits, across the rural economy"*. Mae'n cydnabod y rhyng-gysylltedd rhwng amaethyddiaeth a diwydiannau fel twristiaeth a bwyd a diod, ac er bod y refeniw a ddaw i mewn i ffermio yn cael ei wario'n rhannol o leiaf yn yr economi wledig, mae'n tynnu sylw at y ffaith mai gwaith anodd iawn yw modelu'r union effaith y gallai'r newidiadau i gymorth ffermio ei chael.

Mae tystiolaeth sy'n o'r ymatebion i'n hymgynghoriad, *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, yn dangos bod ffermydd Cymru hefyd yn chwarae'r rôl economaidd allweddol hon yn eu heconomïau a'u cymunedau lleol. Mae'r crynodeb o'r ymatebion a gyhoeddwyd yn nodi bod ymatebwyr yn aml yn gwneud *"... datganiadau angerddol am gyfraniad pwysig amaethyddiaeth wrth sicrhau bod cymunedau gwledig yn parhau'n rhai byw. O'r safbwyntiau hyn, mae cysylltiad agos rhwng iechyd y sector amaethyddol a chryfder economaidd ehangach y cymunedau gwledig lle mae'r ffermwyr yn byw. At hynny, credai'r ymatebwyr fod cysylltiad agos iawn rhwng amaethyddiaeth a gwead cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol y ffordd wledig o fyw."*

Bydd SLM a'r pwerau cymorth yn cael effaith ar bob busnes fferm yng Nghymru, gan gynnwys busnesau fferm bach a chanolig a micro-endidau.

Bwriad y CFfC arfaethedig yw cynorthwyo ffermydd cymwys o bob math ledled Cymru i reoli tir yn gynaliadwy, gan roi cyngor a chymorth iddynt ar gyfer gwneud hynny. O ystyried y rôl y mae busnesau llai yn aml yn ei chwarae o ran cefnogi gwydnwch gwledig, disgwylir y bydd rhoi cymorth i ffermydd gyflawni SLM yn cael effaith gadarnhaol ar y cymunedau y maent wedi'u gwreiddio

---

[185] Leach, K. (2013). Community economic development: Localisation, the key to a resilient and inclusive local economy? *Local Economy*, *28*(7-8), 927-931.

[186] https://heartofswlep.co.uk/wp-content/uploads/2022/05/GSW-agricultural-tranistion-report.pdf

ynddynt. Mae'r amcanion SLM yn adlewyrchu'r ffaith bod gwytnwch busnesau amaethyddol yn y cymunedau a'r economïau lleol y maent yn gweithredu ynddynt yn ffactor bwysig i sicrhau bod bwyd yn cael ei gynhyrchu mewn ffordd gynaliadwy.

Wrth inni gynllunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, rydym yn archwilio ffyrdd y gallwn roi cymorth i'r diwydiant ehangach a'r gadwyn gyflenwi y tu hwnt i giât y fferm ar gyfer gweithgarwch sy'n bodloni'r diffiniad o weithgareddau ategol ynghyd ag amcanion strategol y Bil. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fusnesau gwledig a'r gymuned wledig ehangach.

*Coedwigaeth*

Mae gan fusnesau coedwigaeth fynediad at amryfal gynlluniau cyllid cyfalaf i brynu offer arbenigol ar gyfer rheoli coetiroedd, megis y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren a ariennir gan y Rhaglen Datblygu Gwledig, ac yn fwy diweddar drwy Gynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

### A yw'r cynnig yn dibynnu ar seilwaith fel cysylltiadau ffyrdd/rheilffyrdd da neu fand eang cyflym neu gysylltedd da ar gyfer ffonau symudol? Os felly, pa ddarpariaeth a fydd yn cael ei wneud i gymunedau/busnesau mewn ardaloedd gwledig mwy ynysig?

Gan fod a wnelo'r Bil ag amaethyddiaeth a chan mai cynllun cymorth amaethyddol fydd y cynllun arfaethedig, ni cheir unrhyw ddarpariaeth benodol yn ymwneud â seilwaith nac ychwaith ar gyfer gwella band eang mewn ardaloedd gwledig.

Fodd bynnag, mae gan Taliadau Gwledig Cymru brofiad o gyrraedd cwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig mwy ynysig, a byddwn yn cynnwys y profiad hwn wrth gynllunio a darparu cynlluniau yn y dyfodol i helpu i oresgyn unrhyw rwystrau a fydd yn deillio o gysylltedd gwael.

### Er bod yr un rhesymau wrth wraidd tlodi mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol, gallai'r profiad o amddifadedd fod yn wahanol mewn ardaloedd gwledig. Tlodi tanwydd (gan gynnwys tanwydd gwresogi a thanwydd trafnidiaeth), tlodi mewn gwaith, mynediad at wasanaethau ac allgáu digidol yw rhai o'r prif faterion sy'n cyfrannu at dlodi mewn ardaloedd gwledig. Sut mae eich cynnig yn helpu i drechu tlodi mewn ardaloedd gwledig?

Nod y Bil yw cefnogi cymunedau gwledig ffyniannus a chadarn drwy alluogi Gweinidogion i roi cymorth i ffermwyr gyflawni SLM. Mae hyn yn cynnwys dibenion cymorth sy'n uniongyrchol gysylltiedig â helpu busnesau amaethyddol a chymunedau gwledig i ffynnu. Mae'r CFfC arfaethedig yn bwriadu darparu ffrwd incwm ystyrlon a sefydlog i ffermwyr. Mae data sy'n deillio o 2017/18 yn dangos mai 41% yn unig o ffermydd yng Nghymru a wnaeth elw heb daliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol[187]. Mae asesiad pellach o effeithiau'r Bil o ran achosion amddifadedd i'w weld yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Mae allgáu digidol yn broblem sy'n effeithio ar rai ffermwyr yng Nghymru, a hynny oherwydd diffyg mynediad at wasanaethau band eang a'r ffaith bod pobl hŷn yn llai tebygol o ddefnyddio'r

---

[187] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/amaethyddiaeth-yng-nghymru-tystiolaeth.pdf

rhyngrwyd yn gyffredinol oherwydd diffyg sgiliau digidol a/neu gymhelliant. Gallai hyn olygu na fydd modd i ffermwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol gael mynediad at y CFfC arfaethedig, yn syml gan na fyddant yn ymwybodol ohono, os mai dulliau digidol a ddefnyddir fel y prif ddulliau o hyrwyddo'r cynllun. Felly, rydym yn bwriadu cynnal rhaglen gyfathrebu amrywiol cyn cyflwyno'r cynllun er mwyn cyrraedd cynifer o ffermwyr â phosibl, gan ganiatáu iddynt wneud dewis cytbwys ynghylch a ydynt am ymuno â'r cynllun ai peidio.

**Pa gyswllt fu rhyngoch a rhanddeiliaid gwledig? Disgrifiwch yn fras unrhyw ddigwyddiadau sydd wedi'u targedu at randdeiliaid gwledig neu unrhyw ymgysylltu a fu rhyngoch chi a rhanddeiliaid gwledig er mwyn ymgynghori â hwy. A godwyd unrhyw faterion eraill yn sgil ymgysylltu â rhanddeiliaid neu unrhyw ymgynghoriad ynghylch y cynnig hwn? Os do, beth oedd y materion hynny a sut ydych chi wedi diwygio eich cynnig i'w cadw mewn cof?**

Rydym wedi cyhoeddi tri ymgynghoriad ar ein cynigion ar gyfer cynllun a rheoliadau'r dyfodol. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad cyntaf o blith y ddau ym mis Gorffennaf 2018 ac roedd yn dwyn y teitl *Brexit a'n Tir*[188]*.* Cyhoeddwyd crynodeb llawn ac annibynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad (12,203 o ymatebion; roedd 1,036 ohonynt yn ymatebion sylweddol a chyflwynwyd 11,160 ymateb arall drwy saith ymgyrch wahanol)[189], a chyhoeddwyd ein hymateb ni i ymatebion yr ymgynghoriad hefyd[190].

Yng ngoleuni'r ymgynghoriad, fe wnaethom gyflwyno nifer o newidiadau i'n cynigion polisi, a nodwyd y newidiadau hyn yn ein hail ymgynghoriad, sef *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*[191]. Cyhoeddwyd hwn yn ystod haf 2019. Hefyd, cyhoeddwyd crynodeb annibynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw (3,322 o ymatebion; roedd 508 ohonynt yn sylweddol a chyflwynwyd 2,816 ymateb drwy dair ymgyrch wahanol)[192].

Gofynnodd ein trydydd ymgynghoriad am sylwadau ar y cynigion ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru)[193] a'n hasesiad drafft o'r effeithiau posibl. Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad

---

[188] Llywodraeth Cymru (2018). Ymgynghoriad Brexit a'n Tir.

[189] Llywodraeth Cymru (2018). Brexit a'n Tir: Crynodeb o'r Ymatebion. https://llyw.cymru/cymorth-i-ffermwyr-cymru-ar-ol-brexit

[190] Llywodraeth Cymru (2018). Brexit a'n Tir: Ein Hymateb https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/brexit-an-tir-ein-hymatebion.pdf

[191] Llywodraeth Cymru (2019). Ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir.

[192] Llywodraeth Cymru (2019). Ffermio Cynaliadwy a'n Tir: Crynodeb o'r Ymatebion. https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-05/cefnogi-ffermwyr-crynodeb-o-ymatebion_1.pdf

[193] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-12/bil-amaethyddiaeth-papur-gwyn.pdf

(1,119 o ymatebion; roedd 232 ohonynt yn sylweddol a chyflwynwyd 887 ymateb drwy ymgyrch)[194], gwnaed nifer o newidiadau i gynnwys y Bil[195].

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriadau hyn, rydym wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â ffermwyr a rhanddeiliaid gwledig eraill mewn sioeau amaethyddol rhanbarthol ac mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau pwrpasol i egluro a thrafod ein cynigion ymhellach. Rydym yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd ag amrywiaeth o randdeiliaid, ac ar hyn o bryd rydym yn cynllunio rhagor o ymgysylltu wyneb yn wyneb.

Rydym wedi cynnal rhaglen gyd-ddylunio sy'n caniatáu i randdeiliaid gydweithio â Llywodraeth Cymru wrth lunio polisïau a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig. Cynhaliwyd y digwyddiadau ymgysylltu ar gyfer cam cyntaf y gwaith cyd-ddylunio rhwng mis Mawrth a mis Hydref 2020, ac mae'r wybodaeth a ddeilliodd o'r rhaglen hon bellach ar gael i'r cyhoedd[196]. Cymerodd mwy na 1,900 o randdeiliaid ran yn y rhaglen gyd-ddylunio, gyda'r mwyafrif helaeth ohonynt yn ffermwyr.

Cynhaliwyd ail gam y gwaith cyd-ddylunio, lle gwahoddwyd ffermwyr a rhanddeiliaid eraill i roi adborth ar y Cynigion Bras ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn 2022.

*Coedwigaeth*

Rydym wedi ymgysylltu â grŵp o randdeiliaid allweddol a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr coedwigaeth, rheoli tir a chadwraeth – sef grŵp a sefydlwyd er mwyn cyfrannu at ddatblygiad ac effaith y ddarpariaeth i ddiwygio Deddf Coedwigaeth 1967. Mae'r pryderon a godwyd yn ymwneud yn bennaf â gweithredu'r pwerau gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Eir i'r afael â hyn drwy ddatblygu canllawiau clir ar gyfer y sector coedwigaeth ynghyd â chanllawiau mewnol ar gyfer CNC er mwyn sicrhau y rhoddir dull cyson a chymesur ar waith. Parheir i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth baratoi'r canllawiau hyn. Rydym wedi ymgynghori ynghylch datblygu'r ddarpariaeth i ddiwygio Deddf Coedwigaeth 1967, ac ar ei heffaith, â'r grŵp rhanddeiliaid o gynrychiolwyr coedwigaeth, rheolwyr tir a chadwraeth a sefydlwyd at y diben hwn.

## Pa dystiolaeth y gwnaethoch ei defnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan bobl cefn gwlad neu eu cynrychiolwyr?

Cafodd yr asesiad o effeithiau'r Bil ei lywio gan yr ymatebion a gafwyd i'r tri ymgynghoriad, a nodir uchod, a hefyd gan ffynonellau tystiolaeth eraill y cyfeirir atynt mewn troednodiadau.

## Pa dystiolaeth arall fyddai'n llywio'r asesiad?

Mae'r gwaith o ddatblygu polisi mewn perthynas â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dal i fod ar y gweill a byddwn yn parhau i ymgorffori tystiolaeth i lywio ein cynigion. Yn benodol, bydd y prosiectau canlynol yn llywio'r asesiad o'r cynllun terfynol.

[194] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-09/bil-amaethyddiaeth-cymru-crynodeb-or-ymatebion.pdf

[195] https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-09/bil-amaethyddiaeth-cymru-ein-hymateb-blaengynllun.pdf

[196] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-09/cynllun-ffermio-cynaliadwy-cyd-ddylunio-ffermio-dyfodol_0.pdf

Mae’r Rhaglen Monitro a Modelu’r Amgylchedd a Materion Gwledig yn ein galluogi i amcangyfrif yr effaith a gaiff camau gweithredu posibl y cynllun ar ddefnydd tir, amaethyddiaeth a chanlyniadau amgylcheddol yn seiliedig ar ddata sy’n deillio o ffermydd llawn amser ledled Cymru. Bydd hyn yn helpu i nodi effeithiau posibl ledled Cymru. Gweler y Dadansoddiad Cost a Budd mewn perthynas â sut y mae’r gwaith hwn wedi llywio’r asesiad o effeithiau.

Mae ein rhaglen gyd-ddylunio yn ategu’r gwaith modelu parhaus. Mae’r gwaith cyd-ddylunio yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ein cynigion yn ymarferol a’u bod yn gweithio i’r diwydiant, a bydd yr ail gam yn ffynhonnell dystiolaeth bwysig o ran llywio ein cynigion ar gyfer y cynllun.

Bydd manylion y cynllun ar gyfer y dyfodol yn destun asesiad effaith ac ymgynghoriad pellach.

## D. SGRINIO ASESIAD O'R EFFAITH AR DDIOGELU DATA

**Pwerau presennol: Deddf Amaethyddiaeth (Y DU)**

Ar hyn o bryd, mae Deddf Amaethyddiaeth (Y DU) 2020 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gasglu a rhannu data (Atodlen 5, Rhan 3, paragraffau 10 – 15).

Mae Deddf y DU yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru:

- Ei gwneud yn ofynnol i bobl yn y gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth, neu sy'n gysylltiedig â'r gadwyn honno, ddarparu gwybodaeth am eu gweithgareddau yn y gadwyn gyflenwi (ac eithrio defnyddwyr yn y pen draw);
- Gwneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i bobl yn y gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth, neu sy'n gysylltiedig â'r gadwyn honno, ddarparu gwybodaeth am eu gweithgareddau yn y gadwyn gyflenwi (ac eithrio defnyddwyr terfynol).

Cyn cyflwyno gofyniad, rhaid i Weinidogion gyhoeddi drafft o'r gofyniad a chaniatáu amser ar gyfer cyflwyno sylwadau ar y cynigion drafft.

Byddai rheoliadau'n cael eu cyflwyno yn y ffordd arferol, gan gynnwys is-ddeddfwriaeth ac asesiad effaith manwl.

Bydd y pwerau hyn yn dod i ben, neu'n 'machlud', ar 31 Rhagfyr 2024, ac felly mae angen eu disodli gan ddarpariaeth briodol ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru). Fel y nodir isod, mae'r Bil yn parhau â'r pwerau hyn, ond caiff y cwmpas posibl ei ehangu er mwyn mynd y tu hwnt i'r gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth, a chynnwys gweithgareddau amaethyddol. Ni fydd y Bil ei hun yn arwain at gasglu data ond bydd yn darparu sail gyfreithiol ar gyfer casglu data mewn perthynas ag amaethyddiaeth.

**Bil Cymru**

Yn y Papur Gwyn, nodwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno pwerau ar gyfer casglu a rhannu data ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru).

Byddwn yn trosglwyddo'r darpariaethau a nodir yn Neddf Amaethyddiaeth (Y DU) 2020 i Fil Amaethyddiaeth (Cymru) er mwyn sicrhau ein bod yn cadw'r pwerau presennol ar gyfer casglu a rhannu data.

Fel yn Neddf y DU, bydd y pwerau yn galluogi Gweinidogion ac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gyhoeddi cynlluniau ar gyfer casglu data penodol, ynghyd ag ymgynghori ynghylch y cynlluniau hynny.

Yn wahanol i Ddeddf y DU, bydd cwmpas y casglu data yn cael ei ehangu yn y Bil oherwydd newid yn y diffiniad o 'amaethyddiaeth'.

Caiff y diffiniad o 'amaethyddiaeth' ei ehangu er mwyn cynnwys y gweithgareddau hynny nad ydynt yn dod o fewn y gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth ond sydd, yn ôl eu natur, yn cynnwys rheoli tir a chynhyrchu nwyddau, e.e. cnydau ar gyfer biodanwyddau, garddwriaeth addurnol.

Mewn llawer o achosion, yr unig ffordd y mae'r gweithgareddau hyn yn wahanol i weithgareddau bwyd-amaeth yw'r gyrchfan ar ôl pasio giât y fferm – nid oes gwahaniaethau o ran gweithgarwch ar y fferm h.y. bydd angen rheoli tir, tyfu a thrin, a defnyddio technegau ffermio o hyd.

Mewn achosion eraill, e.e. cnydau ar gyfer ynni, efallai y bydd cyrchfan y cynnyrch y tu hwnt i giât y fferm yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, yn dibynnu ar ffactorau fel prisiau'r farchnad ac ansawdd y cynnyrch. Felly, efallai y bydd yr un cynnyrch a dyfir yn yr un modd yn cael ei ystyried yn 'fwyd-amaeth' un flwyddyn ond nid y flwyddyn wedyn.

Effaith y Bil yw caniatáu i Weinidogion gasglu data ynghylch pob agwedd ar amaethyddiaeth ni waeth beth fo'r gyrchfan y tu hwnt i giât y fferm, ac nid y rhai sy'n cyfrannu at y gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth yn unig. Ni fydd y pwerau hyn yn ymestyn i gasglu data'n ymwneud â defnyddwyr terfynol.

Ein bwriad drwy'r Bil yw darparu un sail gyfreithiol ar gyfer yr holl waith casglu data sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a'r gadwyn gyflenwi. Byddai cynigion penodol i reoleiddio'r gwaith casglu data gan ddefnyddio'r pwerau yn y Bil yn destun ymgynghoriad ac asesiad effaith. Byddai'n rhaid mynd ati i gyhoeddi drafft o'r cynigion ar gyfer gwneud casglu data yn ofynnol, a byddai'n rhaid cywain adborth. Mae'r Bil yn gofyn hefyd am fonitro'r data a gesglir a chyhoeddi adroddiad bob pum mlynedd.

**Diben casglu data yn y Bil Amaethyddiaeth**

Pan gyflwynir cynigion ar gyfer casglu data penodol, mae'r Bil yn mynnu y dylai'r data y gellir ei gasglu a'r dibenion y gellir ei gasglu atynt gael eu datgan yn glir.

Mae'r dibenion ar gyfer casglu data yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Cefnogi pobl mewn cadwyni cyflenwi bwyd-amaeth neu bobl sy'n cynnal gweithgareddau amaethyddol i gynyddu cynhyrchiant, rheoli risgiau, rheoli ansefydlogrwydd y farchnad;
- Monitro a gwerthuso cynlluniau cymorth ariannol;
- Galluogi monitro cydymffurfiaeth â rheoliadau mewn modd penodol ac ar sail risg;
- Hyrwyddo tryloywder neu degwch mewn cadwyni cyflenwi bwyd-amaeth neu weithgareddau amaethyddol;
- Hyrwyddo iechyd, lles neu olrhain anifeiliaid;
- Hyrwyddo iechyd planhigion;
- Lleihau effeithiau amgylcheddol andwyol gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chadwyni cyflenwi bwyd-amaeth neu weithgareddau amaethyddol;
- Lleihau gwastraff a fydd yn deillio o weithgareddau sy'n gysylltiedig â chadwyni cyflenwi bwyd-amaeth neu weithgareddau amaethyddol;
- Monitro neu ddadansoddi marchnadoedd sy'n gysylltiedig â chadwyni cyflenwi bwyd-amaeth neu weithgareddau amaethyddol;
- Cefnogi ymchwil a gwerthuso er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu polisïau yn y dyfodol ar weithgarwch amaethyddol a chadwyni cyflenwi bwyd-amaeth.

**Angenrheidrwydd a chymesuredd**

Canlyniad y newidiadau yw y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu mynnu y dylid casglu data neu y bydd yn gallu rheoleiddio'r gwaith o gasglu data gan bawb sy'n ymgymryd â gweithgareddau amaethyddol a'u cadwyni cyflenwi cysylltiedig, gan gynnwys y rhai lle na fwriedir i'r cynhyrchion fynd i mewn i'r gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth ac nad ydynt yn gysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth.

Bydd hyn yn arwain at barhad a chysondeb wrth gasglu data a bydd yn sicrhau ein bod yn gallu casglu gwybodaeth am yr holl dir a ffermir a'i gadwyn gyflenwi gysylltiedig, ni waeth beth fo cyrchfan y cynnyrch y tu hwnt i giât y fferm.

Mae data cyson yn arbennig o bwysig er mwyn i Lywodraeth Cymru allu ymyrryd â chymorth ariannol mewn amodau eithriadol yn y farchnad. Yn yr amgylchiadau hyn, byddai data'r farchnad sy'n profi cwymp mewn elw mewn sector yn hanfodol i gyfiawnhau cynllun. Ar hyn o bryd, cesglir data gan gyrff hyd braich, fel y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) a Hybu Cig Cymru (HCC), a gellir ei ddefnyddio at ddibenion cynllun o'r fath ar gyfer cig eidion, cig oen, cynhyrchion llaeth, porc, grawnfwydydd a hadau olew. Ymhellach, cesglir data gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfer amaethyddiaeth yn ei chyfanrwydd, ond nid yw'r data a gesglir yn ddigon cynhwysfawr i lansio cynllun cymorth ariannol mewn unrhyw sector ar gyfer unrhyw fath o argyfwng y gallai busnesau amaethyddol ei wynebu.

Mae'n bwysig cael yr opsiwn i wneud ymateb i unrhyw ymgyrch casglu data yn ofynnol, oherwydd mae angen digon o ddata i gyfiawnhau lansio cynllun. Os bydd rhai busnesau'n darparu data, ond os na fydd digon ohonynt yn ymateb ar gyfer lansio cynllun, mae hyn yn golygu na fydd y busnesau sydd wedi ymateb yn gallu cael gafael ar gymorth beth bynnag. Er ei bod yn bwysig cael yr opsiwn i wneud casglu data yn ofynnol, mae angen i unrhyw orfodaeth fod yn gymesur. Os bydd y data hwn yn cael ei gasglu mewn argyfwng, mae angen inni fod yn ymwybodol o'r straen ariannol sy'n debygol o ddod i ran busnesau mewn sefyllfaoedd o'r fath, felly nid priodol fyddai cyflwyno cosbau a allai gael mwy o effaith ar fusnesau.

**Effeithiau ar unigolion a busnesau**

Rhagwelir y bydd y newid yn y diffiniad yn effeithio'n bennaf ar fusnesau sy'n ymgymryd â gweithgareddau na ellir eu dosbarthu ar hyn o bryd o dan ddarpariaeth bresennol y gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth, gan nad yw'r cynnyrch (terfynol) yn fwyd neu'n ddiod, er ei fod yn gynnyrch a fyddai wedi cael ei dyfu neu ei drin yn amaethyddol, er enghraifft:

- Cnydau a dyfir ar gyfer bio-ynni; neu adeiladu;
- Garddwriaeth addurnol a thirluniol – planhigion a blodau ar gyfer busnesau, fel siopau blodau neu ganolfannau garddio, a phorfa ar gyfer garddio/tirlunio.

Er nad yw'r busnesau hyn yn ymgymryd â gweithgareddau ar gyfer y gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth, maent yn rheoli tir. Effaith y Bil fydd eu cynnwys yng nghwmpas casglu data posibl yn y dyfodol.

Gellir cynnal y gweithgareddau hyn fel rhan o fusnesau sydd hefyd yn ymgymryd â gweithgareddau bwyd-amaeth, neu'r rhai sy'n ymwneud yn gyfan gwbl â gweithgareddau nad ydynt yn perthyn i fwyd-amaeth. Yn y ddau achos, mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys defnyddio tir i gynhyrchu nwyddau.

Mae'r diwydiannau hyn yn gymharol fach yng Nghymru. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif bod 20 o fusnesau yng Nghymru yn 2021[197] yn gweithredu o dan ddosbarthiad 'A0130': Lluosogi Planhigion', sy'n cynnwys garddwriaeth addurnol.

O ystyried hyn, credwn y byddai'r effeithiau posibl ar unigolion a busnesau yn fach, ond mae'r pwerau'n bwysig er mwyn i Lywodraeth Cymru allu monitro amaethyddiaeth yn effeithiol a darparu cymorth. Byddai unrhyw gynigion i ehangu'r broses casglu data yn y dyfodol, er mwyn cynnwys y grŵp hwn, yn destun ymgynghoriad ac asesiad effaith pellach.

197 https://cy.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/business/activitysizeandlocation/datasets/ukbusinessactivitysizeandlocation

**Crynodeb**

Bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud casglu a rhannu data mewn perthynas ag amaethyddiaeth a'r gadwyn gyflenwi gysylltiedig yn ofynnol neu reoleiddio'r broses honno yng Nghymru.

Bwriedir i'r Bil gynnig sail gyfreithiol ar gyfer casglu data yn y maes hwn yn y dyfodol.

Pe bai'r sail gyfreithiol hon yn cael ei defnyddio ar gyfer casglu data yn y dyfodol, byddai angen is-ddeddfwriaeth ar gyfer rheoleiddio'r gwaith o gasglu data, a byddai hyn yn cynnwys cynnal ymgynghoriad ac Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data llawn. Ar gyfer unrhyw ofyniad i gasglu data, byddai'n rhaid cyhoeddi cynnig drafft a byddai'n rhaid caniatáu amser ar gyfer cyflwyno adborth. Byddai'n rhaid i gynlluniau ar gyfer unrhyw ofyniad neu unrhyw reoleiddio mewn perthynas â chasglu data wneud y canlynol:

- Disgrifio natur, cwmpas, cyd-destun a dibenion y prosesu;
- Asesu'r angenrheidrwydd, y cymesuredd a'r mesurau cydymffurfio;
- Nodi ac asesu risgiau i unigolion;
- Nodi unrhyw fesurau ychwanegol i liniaru'r risgiau hynny. Byddai hyn yn cynnwys ffactorau fel y broses ar gyfer storio data, tynnu caniatâd yn ôl, a fydd y data'n gadael y DU neu'n cael ei ddefnyddio gan unrhyw drydydd parti.

Rydym yn parhau i ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a bydd y broses hon yn parhau i fod ar y gweill wrth ddatblygu unrhyw bolisi dilynol neu is-ddeddfwriaeth ddilynol.

Mae proses Sgrinio Asesiad Diogelu Data wedi'i gwblhau ar gyfer y darpariaethau. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data llawn ar hyn o bryd.


# E. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

*Cymraeg 2050* yw strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i'r strategaeth newydd, ac mae'r targed o gyrraedd miliwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae Cymraeg sy'n ffynnu yn un o saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd.

Hefyd, mae gennym rwymedigaeth statudol i ystyried yn llawn effaith ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisïau'n effeithio ar yr iaith a'r rhai sy'n ei siarad.

Mae gan strategaeth Cymraeg 2050 dair thema gydberthynol:




Mae'r penawdau o dan bob thema yn nodi cwmpas y gweithgareddau a all effeithio ar yr iaith.

1. **Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg):** 05/06/2022

2. **A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – *Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr Cymraeg* a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?**

Mae data'r Cyfrifiad diweddaraf ar gyfer 2021 yn dangos bod 17.8% o drigolion Cymru[198] sy'n 3 oed ac yn hŷn yn gallu siarad Cymraeg. Mae siaradwyr Cymraeg i'w cael ym mhob rhan o Gymru, ond gwelir bod y niferoedd a'r gyfran o fewn y boblogaeth yn amrywio. Yr awdurdodau lleol sydd â'r gyfran fwyaf o siaradwyr Cymraeg yw Gwynedd (64.4%), Ynys Môn (55.8%), Ceredigion (45.3%) a Sir Gaerfyrddin (39.9%). Mae'r holl awdurdodau lleol hyn yn wledig eu natur i raddau helaeth. Yr awdurdod lleol sydd â'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yw Gwynedd (73,600) ac yna Sir Gaerfyrddin (72,800).

Mae *Cymraeg 2050* yn nodi bod ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn ganolog i weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg gan eu bod yn debygol o greu amodau ffafriol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg. Po fwyaf yw nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg mewn ardal, po fwyaf yw'r siawns o allu defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd.

Yn ystod y can mlynedd hyd at Gyfrifiad 2021, gostyngodd canran y bobl 3 oed a hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg o 37.1% o'r boblogaeth yn 1921 i 17.8% yn 2011. Ar draws grwpiau oedran, mae'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg ar ei mwyaf ar hyn o bryd ymhlith plant 5 i 15 oed.


Yn rhanbarthol, Sir Gaerfyrddin a welodd y gostyngiad mwyaf yn y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg – o 43.9% yn 2011 i 39.9% yn 2021. Gwelodd Powys, Sir Ddinbych, Sir Benfro a Cheredigion hefyd ostyngiad o ddau bwynt canran neu fwy yn y gyfran sy'n siarad Cymraeg. Gwelwyd cynnydd yn y gyfran sy'n siarad Cymraeg yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Dengys Ffigur 1a y newid yng nghyfran y bobl tair oed a hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021 ar lefel yr awdurdod lleol, a dengys Ffigur 1b y newid yng nghyfran y boblogaeth tair oed a hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021 ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is.

Mae'n bwysig nodi y gall cynnydd/gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg a chynnydd/gostyngiad yn nifer y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg esgor ar newidiadau yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg.

Ym mhob awdurdod lleol a welodd ostyngiad yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg, gwelwyd gostyngiad yng nghyfanswm nifer y siaradwyr hefyd.

**Ffigur 1a. Newid yn y gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl Awdurdod Lleol, 2011 a 2021**


[198] Nid yw'r Cyfrifiad yn gofyn i'r rhai sy'n byw yn Lloegr am eu gallu yn y Gymraeg.




Source: Census of population, 2011 and 2021

Newid (pwynt canran)
Gostyngiad o fwy na 3
Gostyngiad rhwng 1.5 a 3
Gostyngiad rhwng 1 a 1.5
Cynnydd o fwy na 0

**Ffigur 1b. Newid yn y gyfran sy’n gallu siarad Cymraeg, yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA), 2011 a 2021 (a)**




Source: Census of population, 2011 and 2021

Gostyngiad o fwy na 5
Gostyngiad rhwng 1 a 5
Gostyngiad rhwng 0 a 2
Cynnydd rhwng 0 a 2
Cynnydd rhwng 2 a 5
Cynnydd o fwy na 5

**Ffynonellau data eraill:**

Ynghyd â'r Cyfrifiad, mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac Arolwg Cenedlaethol Cymru (NSW) hefyd yn holi ymatebwyr yng Nghymru ynglŷn â'u gallu yn y Gymraeg, a gallwn ddefnyddio'r amcangyfrifon hyn i archwilio tueddiadau ers Cyfrifiad 2011. Dylid nodi bod yr ystadegau ar y Gymraeg a ddarperir gan y Cyfrifiad, yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac Arolwg Cenedlaethol Cymru yn wahanol i ryw raddau, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch pam y gallai'r gwahaniaethau hyn ddigwydd[199]. Y Cyfrifiad yw'r ffynhonnell ddata swyddogol o hyd o ran nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

[199] https://digidoladata.blog.llyw.cymru/2019/03/27/diweddariad-gan-y-prif-ystadegydd-trafodaeth-am-ddata-ar-y-gymraeg-syn-deillio-or-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth/

Mae data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth[200] ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021 yn amcangyfrif bod nifer y siaradwyr Cymraeg (tair oed a hŷn) wedi cynyddu 17.7% rhwng 2011 a 2021 i 883,300 (29.1% o boblogaeth Cymru). Ymhellach, yn ôl amcangyfrif Arolwg Cenedlaethol Cymru, er bod 10.7% o bobl 16 oed a hŷn yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl yn 2021[201], roedd 21.9% arall yn meddu ar beth gallu i siarad Cymraeg (4.8% yn siarad "cryn dipyn", 11.0% yn siarad "ychydig", a 6.1% yn gallu siarad "ychydig eiriau yn unig"). Mae'r gwahaniaeth rhwng siaradwyr rhugl a dysgwyr ar goll yn nata'r Cyfrifiad, yn ogystal â gwybodaeth am amlder y defnydd o'r Gymraeg. Nid yw'n glir faint o ddysgwyr sy'n dewis cofnodi eu hunain fel rhai sy'n gallu siarad, darllen, ysgrifennu a/neu ddeall Cymraeg wrth iddynt lenwi'r Cyfrifiad. Cyn Cyfrifiad 2021, bu Cymdeithas yr Iaith yn annog yr holl siaradwyr Cymraeg a'r holl ddysgwyr i gofnodi eu sgiliau Cymraeg, ni waeth beth fo lefel eu gallu – rhywbeth a allai effeithio ar ystadegau swyddogol.

Mae data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021 hefyd yn amcangyfrif bod cyfran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg 3.4 pwynt canran yn uwch nag yn 2011. Fodd bynnag, roedd yna amrywio sylweddol i'w weld ar draws Awdurdodau Lleol. Amcangyfrifir bod cyfran y siaradwyr Cymraeg mewn rhai Awdurdodau Lleol wedi tyfu'n sylweddol rhwng y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2011 a'r un cyfnod ym mis Mawrth 2021, tra bod Awdurdodau Lleol eraill wedi gweld gostyngiad. Yn gyffredinol, nid oedd yr amrywio rhanbarthol yn dilyn patrwm o ran y dosbarthiad Trefol/Gwledig/Cymoedd/Arall; gwelodd rhai Awdurdodau Lleol gwledig gynnydd tra bod eraill wedi gweld gostyngiad. Mae'n bwysig nodi bod yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn holi am amlder y defnydd o'r Gymraeg, ond nid rhugldер yn y Gymraeg, felly ni wyddys faint o ddysgwyr â lefelau gallu amrywiol a allai ddewis cofnodi eu sgiliau Cymraeg wrth ymateb i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Felly, gall unrhyw gynnydd sylweddol gynnwys y rhai nad ydynt yn rhugl, a bydd yn cynnwys y rhai nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd.

Ni welwyd patrwm clir ychwaith o ran gwir nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng gwahanol fathau o Awdurdodau Lleol.

Un rheswm posibl dros y cynnydd yn nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg yw newidiadau yn y ddarpariaeth addysg yng Nghymru. Fe wnaeth Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol baratoi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, gyda chanllawiau mwy diweddar yn pwysleisio rôl Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg wrth gefnogi *Cymraeg 2050* a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn nodi sut y bydd pob Awdurdod Lleol yn gwella'r broses o gynllunio'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.


Yn ôl yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, roedd plant 3 i 15 oed yn cyfrif am 30% o'r holl siaradwyr Cymraeg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021, er mai dim ond 16% o boblogaeth Cymru a oedd yn 3 oed ac yn hŷn. Mae deg Awdurdod Lleol yng

[200] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/annualpopulationsurveyestimatesofpersonsaged3andoverwhosaytheycanspeakwelsh-by-localauthority-measure

[201] Amcangyfrifon yr arolwg o fis Ebrill i fis Mehefin 2021

Nghymru wedi gweld cynnydd yn nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg ers 2008/09. Er bod Awdurdodau Lleol fel Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg, digwyddodd hyn o ganlyniad i gau a chyfuno ysgolion gwledig bach. Mae'r Awdurdodau Lleol hyn hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer yr ysgolion dwyieithog gan fod darpariaeth addysg wedi'i chanoli mewn ysgolion mwy.

**Ffigur 2 – Cyfran y siaradwyr Cymraeg yn ôl grŵp oedran, o gymharu â phoblogaeth gyffredinol (3+ oed) Cymru**




Ffynhonnell: Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

**Amaethyddiaeth a'r Gymraeg**


Cyhoeddwyd ystadegau lefel uchel o Gyfrifiad 2021 ym mis Rhagfyr 2022, yn ymdrin â sgiliau'r Gymraeg fesul ardal a grŵp oedran.  Mae'r adran sy'n dilyn, sy'n dadansoddi'r diwydiant amaethyddiaeth, yn defnyddio data o Gyfrifiad 2011 ond caiff ei diweddaru i adlewyrchu'r data diweddaraf cyn gynted ag y medrir.

Er gwaethaf maint bach y sector amaethyddol, sef 2% o'r holl weithwyr yng Nghymru, dengys data Cyfrifiad 2011[202] (Ffigur 3a) fod amaethyddiaeth yn gyfrifol am gyfran gymharol fwy o'r holl siaradwyr Cymraeg (5% o'r holl siaradwyr).

Y sector amaethyddiaeth (gan gynnwys pysgota a choedwigaeth) sydd â'r gyfran fwyaf o weithwyr Cymraeg eu hiaith yng Nghymru, sef 43% – dangosir hyn hefyd yn Ffigur 3b. Mae hyn o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer gweithwyr ar draws pob sector, sef 16.6%.


**Ffigur 3a. Nifer y gweithwyr sy'n siarad Cymraeg yn ôl diwydiant (miloedd)**

[202] https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/language/adhocs/008881ct08342011census




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

**Ffigur 3b. Canran y gweithwyr sy’n gallu siarad Cymraeg yn ôl diwydiant**





Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

O edrych ar draws pob awdurdod lleol, mae 86% o weithwyr amaethyddol Gwynedd yn siarad Cymraeg, sef canran sy'n uwch na'r cyfartaledd ar draws pob diwydiant yn y sir (68%); ond yn Nhorfaen, 1% yw'r ffigur ar gyfer amaethyddiaeth, o gymharu â chyfartaledd o 5% ar draws pob diwydiant (Ffigur 4). Gwelir amrywiaeth hefyd ymhlith awdurdodau lleol mwy gwledig lle mae amaethyddiaeth yn ddiwydiant amlwg. Er enghraifft, mae 21% o weithwyr amaethyddol Powys yn siarad Cymraeg o gymharu â 72% yng Ngheredigion. Mewn llawer o achosion, yr awdurdodau lleol mwy gwledig hyn yw'r un ardaloedd a welodd ostyngiadau mwy yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg rhwng cyfrifiadau 2001 a 2011 (Ffigur 1a).

Yn aml, gwelir cyfran fwy o siaradwyr Cymraeg o fewn y diwydiant amaeth mewn awdurdodau lleol gwledig sydd hefyd â chyfran fwy o siaradwyr Cymraeg ar draws yr holl weithlu (Ffigur 4). Fodd bynnag, mae yna duedd i'r gyfran o siaradwyr Cymraeg o fewn amaethyddiaeth fod yn fwy na'r gyfran ar gyfer yr holl weithwyr yn yr awdurdodau lleol hyn. Er enghraifft, yn Ynys Môn mae cyfran helaeth o gyfanswm y gweithlu yn siarad Cymraeg (58%), ond mae cyfran y gweithwyr amaethyddol yn yr awdurdod lleol yn fwy (77%). Mae'r gwahaniaeth yn fwyaf amlwg yng Nghonwy a Sir Ddinbych – awgryma hyn fod yna bwysigrwydd cymharol uwch i amaethyddiaeth mewn perthynas â'r Gymraeg.

**Ffigur 4. Canran y gweithwyr mewn Amaethyddiaeth sy'n gallu siarad Cymraeg o gymharu â'r Holl Ddiwydiannau, yn ôl Awdurdod Lleol**




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Gwelir ychwaneg o amrywio o fewn awdurdodau lleol. Yng Ngwynedd, mae gan bob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is[203] sydd ag o leiaf 10 o weithwyr yn y sector amaethyddol fwyafrif sy'n gallu siarad Cymraeg. Yn Sir Fynwy, mae'r cyfraddau o ran siarad Cymraeg ym mhob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is sydd ag o leiaf 10 o weithwyr yn y sector amaethyddol yn is na'r cyfartaledd ar gyfer pob diwydiant. Ym Mhowys, mae'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn arddangos cyfraddau siarad Cymraeg sy'n amrywio o un pen o'r ystod i'r llall, o isel iawn i uchel iawn.

Ceir 30 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru lle mae gweithwyr Cymraeg yn y sector amaethyddol yn cyfrif am 20% o leiaf o'r holl weithwyr sy'n siarad Cymraeg. Mae'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is hyn i'w cael ym Mhowys, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Gwynedd a Sir Benfro.

Gwelir bod yna gysylltiad rhwng tair thema *Cymraeg 2050*, ac eisoes mae gan amaethyddiaeth gyfran fawr o siaradwyr Cymraeg o gymharu â diwydiannau eraill. Felly, mae yna botensial i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg yn y sector amaethyddiaeth mewn amgylchedd a chanddo fwy o botensial i gynnig amodau ffafriol i'r iaith, o gymharu â diwydiannau eraill. I'r gwrthwyneb, gallai unrhyw effeithiau negyddol posibl ar amaethyddiaeth yn gyffredinol yn sgil y Bil, megis dadleoli gweithwyr amaethyddol ar ôl colli busnesau fferm, arwain at effeithiau negyddol ar y Gymraeg drwy wasgaru siaradwyr Cymraeg, drwy weld llai o siaradwyr mewn ardaloedd gwledig, trwy leihau'r cyfleoedd bob dydd i ddefnyddio'r Gymraeg, neu gyfuniad o'r ffactorau hyn.

**Amodau ffafriol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg**

Nid yw meddu ar sgiliau Cymraeg o reidrwydd yn arwain at ddefnyddio'r iaith yn y gweithle, a hynny oherwydd amryfal resymau. Yn Adroddiad Llywodraeth Cymru, 'Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector',[204] aethpwyd ati i archwilio'r berthynas rhwng gallu ieithyddol, defnydd o'r iaith ac anghenion cyflogwyr ar draws 8 sector yng Nghymru. Dyma a ganfuwyd:

- Roedd gan 68% o fusnesau bwyd-amaeth[205] (gan gynnwys amaethyddiaeth) staff â sgiliau Cymraeg, o gymharu â 66% o'r holl fusnesau; yr uchaf oedd gofal plant, sef 94%;
- Ymddengys fod 34% o staff bwyd-amaeth yn y busnesau a arolygwyd yn meddu ar sgiliau Cymraeg, o gymharu â 24% o staff ar draws pob busnes; yr uchaf oedd gofal plant, sef 66%;
- Roedd gallu lefel uwch yn fwyaf tebygol o gael ei gofnodi ar gyfer staff mewn busnesau bwyd-amaeth a chreadigol, ac roedd staff bwyd-amaeth yn meddu ar alluoedd lefel uchel ar draws pob maes (darllen, ysgrifennu, siarad, deall);

[203] Mae Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn uned adrodd ystadegol lle mae gan bob uned gyfanswm poblogaeth o tua 1,600 o bobl. Mae 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru. Gellir cyfuno'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is i greu ardaloedd daearyddol eraill fel awdurdodau lleol, wardiau, etholaethau ac ati.

[204] Llywodraeth Cymru (2014). Anghenion o ran sgiliau Cymraeg mewn wyth sector. Rhif y Prosiect: 47/2014.

[205] Wedi'i ddiffinio gan ddefnyddio codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol. Mae'n cynnwys cynhyrchu a gweithgynhyrchu ond nid yw'n cynnwys manwerthu. Cyfeiriwch at dudalen 151 o'r adroddiad am y rhestr o godau.

- Mewn busnesau bwyd-amaeth, roedd staff yn defnyddio’r Gymraeg; dywedodd 19% o fusnesau fod y staff yn meddu ar allu yn y Gymraeg ond nad oeddent yn ei ddefnyddio; ar draws pob busnes, 31% oedd y ffigur;
- Pan oedd busnesau bwyd-amaeth yn defnyddio’r Gymraeg, roeddent yn ei defnyddio at ddibenion ffurfiol ac anffurfiol, yn ysgrifenedig ac ar lafar. Roedd y busnesau hyn hefyd yn defnyddio’r Gymraeg i gynnal busnes gyda phartneriaid allanol (cleientiaid, cwsmeriaid ac ati). Nid oedd hyn mor gyffredin mewn sectorau eraill, ac mae’n awgrymu bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio fel mater o drefn mewn llawer o fusnesau bwyd-amaeth sydd â staff Cymraeg eu hiaith.

Mae’r canlyniadau hyn yn cyflwyno tystiolaeth bod busnesau bwyd-amaeth yng Nghymru, gan gynnwys amaethyddiaeth, yn cynnig amodau mwy ffafriol ar gyfer defnyddio’r Gymraeg o gymharu â diwydiannau eraill, a bod hyn yn ymestyn y tu hwnt i’r rhyngweithio sy’n digwydd o fewn y busnes. Ar gyfer ffermydd, bydd y rhyngweithio sy’n digwydd y tu allan i’r busnes yn cynnwys masnachu anifeiliaid, porthiant, peiriannau ac ati, ynghyd ag amrywiaeth o weithgareddau eraill. Ar gyfer y 43% o ffermydd[206] yng Nghymru sydd wedi arallgyfeirio i feysydd eraill (e.e. twristiaeth), mae’n bosibl bod y rhyngweithio busnes hwn yn digwydd mewn ystod ehangach o fusnesau hefyd.

**Cymraeg, amaethyddiaeth a’r gymuned leol**

Mae canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19[207] yn awgrymu bod siaradwyr Cymraeg yn aml yn teimlo eu bod yn rhan o gymunedau cryf; yn achos pobl a oedd yn cytuno bod ganddynt ymdeimlad o berthyn i’w cymuned, roeddent yn fwy tebygol o siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd o gymharu â’r rhai a oedd yn anghytuno. Mae ymdeimlad o berthyn hefyd yn debygol o fod yn gysylltiedig â rhyngweithio ag aelodau eraill o’r gymuned, a gall y rhyngweithio hwn ddigwydd yn Gymraeg.

Yn ei adroddiad, *Ffermio – Creu Cymru Unedig.*, mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) Cymru yn dod i’r casgliad bod *“ffermwyr Cymru yn hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth Cymru a’r iaith Gymraeg”*, o ystyried cyfran uchel y siaradwyr Cymraeg ym maes amaethyddiaeth a’r graddau y mae ffermwyr yn cyfrannu at eu cymunedau. Mae’r adroddiad yn pwysleisio bod *“... llawer o ffermwyr neu unigolion sy’n rhan o’r diwydiant amaeth yn cyflawni swyddogaeth fel arweinwyr neu wirfoddolwyr mewn cymunedau gwledig sy’n cyfrannu at gydlyniad cymunedol”.* Gall cyfranogi mewn rhwydweithiau a gweithgareddau cymunedol ffurfiol fod yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth (e.e. grwpiau technegol, Clybiau Ffermwyr Ifanc, sioeau amaethyddol), neu’n gysylltiedig â phethau eraill (e.e. cyngor lleol, eglwys/capel, clybiau chwaraeon, grwpiau cymorth cymunedol, grwpiau cerddoriaeth a drama), tra bydd rhwydweithiau eraill yn llai ffurfiol (cyfeillgarwch, sgwrsio â chymdogion). Drwy gymryd rhan yn y rhwydweithiau hyn, bydd gweithwyr amaethyddol Cymraeg eu hiaith, a’u teuluoedd, yn cefnogi’r arfer o ddefnyddio’r Gymraeg mewn amrywiaeth o leoliadau.

[206] Llywodraeth Cymru (2019). Incwm ffermydd yng Nghymru, Ebrill 2018 i Mawrth 2019.

[207] Llywodraeth Cymru (2020). Pa ffactorau sy’n gysylltiedig â phobl yn siarad Cymraeg? Rhif Ymchwil Cymdeithasol 27/2020.

**Y Gymraeg a'r Bil**

*Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) a chymorth yn y dyfodol*

Mae gan newidiadau i strwythur y sector amaethyddol y potensial i newid y modd y bydd y sector yn cyfrannu at wydnwch y Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o berthnasol os gwelir newid mewn patrymau allfudo siaradwyr Cymraeg o ardaloedd gwledig o ganlyniad i SLM a chymorth yn y dyfodol, neu os gwelir pobl ddi-Gymraeg yn mudo i'r ardaloedd hyn. Bydd hyn yn dibynnu ar effeithiau economaidd y Bil a chymorth yn y dyfodol; mae'r gwaith dadansoddi economaidd yn parhau wrth inni lunio'r cymorth arfaethedig.

Mae'r Bil yn pennu SLM fel fframwaith polisi'r dyfodol ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru ac mae'n darparu'r pwerau ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC), lle bydd ffermwyr yn cael cymorth i gyflawni SLM. Bwriad y CFfC sydd mewn golwg yw helpu ffermwyr i roi camau ar waith a fydd yn sicrhau'r canlyniadau a ddymunir gan Lywodraeth Cymru. Ni fwriedir i'r cynllun annog newidiadau ar raddfa fawr mewn defnydd tir ar ffermydd cyfan; yn hytrach, ein nod yw cefnogi arferion SLM mewn modd cyfannol, gan gyflawni pob un o'r pedwar amcan SLM, fel bod tir amaethyddol yn cael ei gadw o fewn y diwydiant. Un o egwyddorion allweddol y CFfC arfaethedig yw y dylid cadw ffermwyr ar y tir. Nod y Bil yw cefnogi sector gweithgar a chadarn, a'r bwriad yw y bydd y CFfC arfaethedig yn darparu ffrwd incwm sefydlog i'r ffermydd a fydd yn cymryd rhan ynddo. Yn ei dro, bydd sector amaethyddol cynaliadwy yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth i genedlaethau'r dyfodol, a bydd yn cynnig rheswm i bobl ifanc aros yn eu cymunedau.

Bwriad y Bil a'r CFfC arfaethedig yw cymryd camau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur mewn ffordd sy'n fuddiol i ffermydd a chymunedau gwledig. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymrwymiadau presennol Llywodraeth Cymru fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[208], lle pennir dyletswydd i ystyried cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol, a'n Cyllideb Garbon, sy'n nodi y dylai'r pontio i sero net fod yn "deg a llewyrchus"[209]. Dull gweithredu Llywodraeth Cymru, drwy fabwysiadu SLM yn y Bil, yw hyrwyddo arferion rhannu tir, gan sicrhau y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn gallu ffermio yng Nghymru. Bydd cynorthwyo a galluogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy drwy'r dibenion cymorth yn cyfrannu at y nod o gadw ffermwyr ar eu tir yng Nghymru a chynnal y Gymraeg o fewn y sector.

Mae'r pedwerydd amcan SLM yn y Bil yn nodi'r nod penodol o gynnal, hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ochr yn ochr â diogelu a gwella adnoddau diwylliannol yn ehangach. Rhaid i ddatblygiad unrhyw gymorth amaethyddol yn y dyfodol ystyried y ffordd orau o gyflawni'r amcanion SLM i gyd felly mae'r Gymraeg yn elfen allweddol o fframwaith polisi'r dyfodol ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru.

Yn ogystal, mae cefnogi'r Gymraeg mewn cyd-destun amaethyddol, yn uniongyrchol ac anuniongyrchol, yn un o ddibenion cymorth y Bil.  Diben y cymorth fel y'i disgrifir yw cynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnyddio.

---

[208] https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf

[209] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-10/cymru-sero-net-cyllideb-garbon-2-2021-25.pdf

Mae Thema 3 strategaeth *Cymraeg 2050* yn rhoi pwyslais ar greu amodau ffafriol er mwyn i'r Gymraeg allu goroesi a ffynnu, yn benodol gyda'r nod o 'Gefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg eu hiaith'. Mae nifer o ardaloedd a chanddynt ddwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn cynnwys cyfran fwy o'r boblogaeth a gyflogir yn y sector amaethyddiaeth, y sector cyhoeddus a'r sector twristiaeth. Mae *Cymraeg 2050* yn nodi ei bod yn bwysig cynnal a thyfu cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.

Bydd y Bil yn cefnogi ac yn cyfrannu at *Cymraeg 2050* mewn nifer o ffyrdd.

Yn gyntaf, bydd y Bil yn rhoi pwerau i ffermwyr gael eu gwobrwyo am weithredu yn unol â dibenion SLM – rhywbeth a fydd yn creu ffrwd incwm sefydlog i ffermydd mewn cymunedau gwledig. Ni fydd newidiadau yn y farchnad nwyddau ehangach a'r amgylchedd masnachu yn effeithio ar y ffrwd incwm hon, ac felly bydd yn helpu i greu cadernid i fusnesau fferm, yn cynnwys ar gyfer tenantiaid amaethyddol, a'r gymuned ehangach. Un o ddibenion cymorth y Bil yw cynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnyddio, yn ogystal â dibenion a fydd yn cael effaith bositif mwy anuniongyrchol ar y Gymraeg, megis gwneud busnesau amaethyddol yn fwy gwydn a helpu cymunedau gwledig i ffynnu.

Mae busnesau amaethyddol gwydn yn cyfrannu at swyddi ar gyfer siaradwyr Cymraeg iau nawr ac yn y dyfodol, a hynny ar ffermydd ac mewn busnesau lleol, gan gefnogi'r diwydiant amaethyddol a'r cymunedau gwledig ehangach. Mae hyn yn helpu i gadw pobl mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith ac yn lleihau'r angen i bobl ifanc chwilio am waith mewn mannau eraill, gan helpu i fynd i'r afael â phroblemau allfudo mewn perthynas ag iechyd y Gymraeg.

Yn ail, bydd y CFfC arfaethedig, trwy gyfrwng y fframwaith SLM, yn cynorthwyo ffermwyr i reoli eu ffermydd mewn ffordd a fydd yn cynnal ac yn gwella gallu tir amaethyddol i gefnogi anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Bydd hyn yn helpu i gefnogi gwydnwch hirdymor cymunedau gwledig a Chymraeg eu hiaith drwy sicrhau y gellir parhau i ffermio'r tir yn y dyfodol.

Yn drydydd, bydd gwasanaeth cynghori yn cyd-fynd â'r CFfC arfaethedig er mwyn helpu ffermwyr i gydymffurfio â'r cynllun a chymryd rhan ynddo. Gallai'r gwasanaeth hwn gynnwys cymysgedd o ddulliau darparu, gan gynnwys cynghorydd yn ymweld â ffermydd a chyfleoedd i ffermwyr rannu gwybodaeth â'i gilydd. Bydd y gwasanaeth cynghori hwn ar gael yn ddwyieithog, yn unol â Safonau'r Gymraeg ac i ategu *Cymraeg 2050.* Bydd hyn yn rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, ac yn fwy anffurfiol gyda'u cymheiriaid, gan helpu i gynnwys y Gymraeg mewn bywyd bob dydd.

Ymhellach, bydd Cynllun Ffermio Cynaliadwy'r dyfodol yn cynnwys elfen gydweithredol a fydd yn annog ffermwyr i gydweithio dros ardaloedd mwy ac yn cynnig cyfleoedd iddynt wneud hynny. Trwy gydweithio, bydd modd i ffermwyr sy'n siarad Cymraeg weithio gyda'i gilydd, rhoi cyfle i ddysgwyr weithio ochr yn ochr â siaradwyr iaith gyntaf ac ymarfer eu sgiliau iaith, a sicrhau bod ffermwyr di-Gymraeg yn dod i gysylltiad â'r iaith yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Gofynnir i'r rhai sy'n ymgeisio ar gyfer y Cynllun Rheoli Cynaliadwy presennol ddangos sut y bydd eu cynigion yn cefnogi ac yn annog defnydd o'r Gymraeg, ac rydym yn archwilio sut y gellir annog prosiectau cydweithredol i wneud yr un peth wrth inni gynllunio'r agwedd hon ar y CFfC arfaethedig.

*Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol*

Cyfyngedig fydd effaith y darpariaethau mewn perthynas â *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg* a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021, gan na fydd unrhyw effeithiau yn sgil defnyddio taliadau ymyrryd mewn argyfwng a Chymorth Storio Preifat yn effeithio'n uniongyrchol ar nifer y siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, gallant gefnogi amcanion o dan Thema 3 *Cymraeg 2050* gan fod cymorth ariannol i ffermwyr yn debygol o helpu i gynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith.

3. **Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg.**

## Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?

*SLM a chymorth yn y dyfodol*

Un o ddibenion cymorth y Bil yw cynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnyddio. Bydd dibenion cymorth eraill y Bil yn gyfrannu'n anuniongyrchol at iechyd y Gymraeg.

Mae ymchwil[210] sy'n ymwneud â ffermydd 'Bach'[211] a 'Bach Iawn'[212] yng Nghymru yn cynnig rhywfaint o ddealltwriaeth o rôl ffermydd Cymru yn eu cymunedau. Rhyngddynt, mae'r ffermydd Bach a Bach Iawn hyn yn cyfateb i 87% o holl ffermydd Cymru. Er bod ffermydd Bach Iawn yn cyfateb i 59% o ffermydd Cymru, dim ond 5% o'r allbwn safonol y maent yn gyfrifol amdano ac maent yn cwmpasu 15% o'r tir ffermio, tra bod ffermydd Bach (28% o Ffermydd Cymru) yn cyfrif am 22% o'r allbwn a 45% o'r tir ffermio.

Mae'r adroddiad yn disgrifio'r gwahaniaethau rhwng ffermydd Bach a Bach Iawn, gyda ffermydd Bach yn fwy tebygol o ymdebygu i ffermydd teuluol 'traddodiadol' a ffermydd Bach Iawn yn fwy tebygol o gael eu hystyried yn 'ffermydd ffordd o fyw'.

Canfu'r ymchwil fod ffermwyr ar ffermydd Bach yn fwy tebygol na ffermwyr ar ffermydd Bach Iawn o:

- Feddu ar brofiad blaenorol o ffermio*
- Bod wedi etifeddu neu gymryd drosodd y fferm deuluol
- Cynhyrchu incwm yn sgil y fferm er mwyn ennill bywoliaeth*
- Bod yn ddibynnol ar warged masnach a thaliadau Cynllun y Taliad Sengl ar gyfer eu bywoliaeth
- Cymryd rhan mewn cynllun amaeth-amgylcheddol neu gynllun cadwraeth*
- Gallu siarad Cymraeg yn rhugl*
- Siarad Cymraeg bob dydd

---

[210] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-10/deall-cymhellion-ffermwyr-ffermydd-bach-bach-iawn-adroddiad-llawn.pdf

[211] Wedi'i ddiffinio fel ffermydd ag allbwn safonol rhwng €25,000 a €125,000

[212] Wedi'i ddiffinio fel ffermydd ag allbwn safonol o dan €25,000

- Siarad Cymraeg yn y cartref*
- Bod yn perthyn i 'lawer' o fudiadau cymdeithasol neu fudiadau ffermio
- Ymwneud, cydweithio a chymdeithasu â ffermwyr eraill*
- Teimlo'n rhan o gymunedau ffermio a chymunedau gwledig

*Canfyddiad ystadegol arwyddocaol[213].

Roedd ffermwyr ar ffermydd Bach Iawn yn fwy tebygol o fod wedi prynu eu fferm (canfyddiad ystadegol arwyddocaol) ac yn fwy tebygol o fod yn perthyn i 'ychydig' o fudiadau cymdeithasol neu fudiadau ffermio, ac roeddent ddwywaith yn fwy tebygol o fod wedi cael addysg hyd at lefel gradd.

Mae'r adroddiad hefyd yn edrych yn benodol ar y gwahaniaeth rhwng ffermwyr Cymraeg a di-Gymraeg. Canfuwyd bod siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o deimlo'n rhan o'r gymuned wledig a'u bod yn nodi lefelau uwch o gyfranogiad mewn mudiadau cymdeithasol a mudiadau ffermio na'r rhai nad oeddent yn siarad Cymraeg. Roedd siaradwyr Cymraeg hefyd yn fwy tebygol o fod wedi etifeddu eu fferm, tra'r oedd ffermwyr di-Gymraeg yn fwy tebygol o fod wedi ei phrynu.

Mae'r canfyddiadau hyn yn cyfrannu'n fawr at y sylfaen dystiolaeth ynglŷn â sefyllfa ffermwyr Cymru yn eu cymunedau. Maent yn awgrymu bod y ffermwyr hynny sy'n ffermio er mwyn ennill bywoliaeth, ac sy'n fwy tebygol o fod yn rhan o gynlluniau cymorth y llywodraeth, hefyd yn fwy tebygol o fod yn siaradwyr Cymraeg ac yn rhan o deuluoedd ffermio sefydledig, a bod ganddynt lefelau uwch o gyfranogiad yn eu cymunedau lleol. Mae'n bwysig nodi nad yw'r astudiaeth yn ystyried nodweddion ffermydd Canolig, Mawr neu Fawr Iawn[214]. O ystyried bod y ffermydd Bach hyn yn fwy tebygol o dderbyn taliadau Cynllun y Taliad Sengl, bydd unrhyw newidiadau i'r system gymorth yn fwy tebygol o effeithio arnynt, naill ai mewn ffordd gadarnhaol neu ffordd negyddol. Os na all ffermydd barhau i fasnachu, mae'n bosibl y bydd hynny'n arwain at effeithiau dilynol ar y gymuned ffermio leol, y gymuned wledig leol, a'r Gymraeg, yn dibynnu ar yr hyn a fydd yn digwydd i'r fferm a'r teulu ffermio yn yr amgylchiadau hynny.

Nododd astudiaeth academaidd ynghylch cyfalaf cymdeithasol mewn ffermio mynydd yn Cumbria[215] fod cael llai o ffermydd mawr mewn ardal yn wahanol iawn i gael llawer o ffermydd bach, o ran cyfalaf cymdeithasol a chyfle ar gyfer ymdrechion cydweithredol. Nodwyd hefyd y clymau ymddiriedaeth cryf a'r cytundebau anffurfiol sydd wedi datblygu ac wedi bod ar waith dros flynyddoedd lawer a thros sawl cenhedlaeth (e.e. trefniadau pori tir comin a chydweithio). Mae'r dystiolaeth sy'n deillio o Cumbria yn awgrymu y gall newidiadau o ran nifer a strwythur ffermydd arwain at wanhau cyfalaf cymdeithasol a chydlyniant cymunedol; yng Nghymru, a gallai hyn hefyd effeithio ar y Gymraeg ac ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Mae gan y Bil bedwar amcan mewn perthynas â Rheoli Tir yn Gynaliadwy, a bydd angen i Weinidogion eu hystyried wrth iddynt wneud penderfyniadau ynghylch cefnogi a rheoleiddio

---

[213] Derbyniodd yr arolwg 419 o ymatebion defnyddiadwy yn dilyn cyswllt cychwynnol â 1,916 o unigolion, gan gynhyrchu cyfradd ymateb o 21.9%.

[214] Wedi'u diffinio fel ffermydd ag allbwn safonol rhwng €125,000 a €250,000, €250,000 i €500,000 a mwy na €500,000 yn y drefn honno.

[215] https://www.researchgate.net/publication/312474569_Social_Capital_in_Hill_Farming

amaethyddiaeth yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r rhain yn ymwneud â chynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy, ymdrin â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur, a gwarchod, gwella a hyrwyddo cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol yn ogystal â chynnal, hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r amcanion yn ategu deddfwriaeth, ymrwymiadau a strategaethau presennol Llywodraeth Cymru, megis *Cymraeg 2050 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)*.

Drwy gefnogi cynaliadwyedd ffermydd, bydd y ffermydd hynny'n gallu gwrthsefyll yn well yr heriau a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd a newidiadau yn yr amgylchedd masnachu. Ymhellach, drwy reoli eu tir a chynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy, bydd ffermwyr yn helpu i ddiogelu hyfywedd ffermio yng Nghymru yn y dyfodol, gan gefnogi cymunedau Cymraeg cadarn.

Yn ei adroddiad ar heriau triphlyg Brexit, Covid-19 a'r Newid yn yr Hinsawdd, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru[216] yn tynnu sylw at y ffaith y gallai'r newid yn yr hinsawdd effeithio'n anghymesur ar ffermwyr, gweithwyr amaethyddol a thrigolion cymunedau gwledig yn sgil ffactorau fel colli cyflogaeth, llai o allbwn economaidd ac amodau gwaith sy'n gwaethygu oherwydd tywydd eithafol. Nod y Bil yw gweithredu yn wyneb yr argyfwng hinsawdd a meithrin gwytnwch er mwyn lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Yn ei dro, dylai hyn helpu i gefnogi cynaliadwyedd cymunedau gwledig Cymraeg.

Caiff y CFfC arfaethedig ei seilio ar yr egwyddor y dylai fod ar gael i ffermwyr o bob math, gan gynnwys ffermydd tenant y Ddeddf Daliadau Amaethyddol. Rydym yn ystyried sut y gallwn strwythuro taliadau, e.e. drwy gapio, er mwyn sicrhau y dosberthir y cyllid yn deg.

Fe fydd yna gyfnod pontio rhwng y system gymorth bresennol a'r CFfC arfaethedig er mwyn caniatáu i ffermydd addasu ac er mwyn sicrhau na fydd taliadau unrhyw ffermwr yn dod i ben yn sydyn, pa un a fyddant yn dewis ymuno â'r cynllun newydd ai peidio. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad ar ein dull o fynd i'r afael â hyn ochr yn ochr â'n hymgynghoriad ar y cynigion terfynol ar gyfer y cynllun yn 2023. Yn y cyfamser, rydym yn cyflwyno fframwaith cymorth er mwyn i ffermydd allu cymryd camau yn wyneb yr heriau uniongyrchol a wynebwn, a pharatoi ar gyfer y CFfC. Bydd y mentrau hyn yn helpu i liniaru effeithiau negyddol posibl ar gymunedau gwledig a chymunedau Cymraeg.

*Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol*

Ni fydd y darpariaethau'n cael unrhyw effaith ar y sefyllfa bresennol; ond yn sgil gallu parhaus Gweinidogion Cymru i gefnogi busnesau amaethyddol mewn argyfwng, dylai siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd gwledig allu parhau i ddefnyddio'r iaith yn eu cymuned.

## Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?

---

[216] https://phw.nhs.wales/publications/publications1/ymateb-i-her-driphlyg-brexit-covid-19-ar-newid-yn-yr-hinsawdd-i-iechyd-llesiant-a-thegwch-yng-nghymru/

Ni fydd yna unrhyw effeithiau uniongyrchol ar addysg, ond mae cynnal diwydiant amaethyddol ffyniannus yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg o bob oed ddefnyddio'r iaith a meithrin eu sgiliau Cymraeg mewn diwydiant lle defnyddir y Gymraeg mewn sawl ardal fel y brif iaith gyfathrebu. Mae hyn yn cyfrannu at un o nodau *Cymraeg 2050*, sef creu amodau ffafriol ar gyfer y Gymraeg; mantais i siaradwyr Cymraeg rhugl a dysgwyr fel ei gilydd.

Mae ein cynigion o ran Cynllun Ffermio Cynaliadwy'r dyfodol yn parhau i ddatblygu. Fel yn achos Cyswllt Ffermio ar hyn o bryd, sef rhaglen bresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi, bydd amryfal gyfleoedd hyfforddi ar gael i'r rhai sy'n gweithio yn y byd amaeth, a bydd y rhain yn cael eu darparu'n ddwyieithog, yn unol â Safonau'r Gymraeg. Bydd cyrsiau a deunyddiau dysgu dwyieithog yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr cael eu trochi yn y Gymraeg, a dod yn gyfarwydd â therminoleg sy'n benodol i'r diwydiant – rhywbeth a allai eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn amlach yn ystod eu gwaith.

### Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? (e.e. iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, digidol, ieuenctid, seilwaith, yr amgylchedd, llywodraeth leol ac ati.)

Bydd y CFfC arfaethedig yn darparu gwasanaeth cynghori, wedi'i deilwra i gefnogi'r gwaith o gyflawni dibenion SLM. Bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog, yn unol â Safonau'r Gymraeg.

Mae Cyswllt Ffermio yn cysylltu'n rheolaidd â chyfran helaeth o ffermwyr Cymru drwy ei gylchlythyrau, ei ddigwyddiadau trosglwyddo gwybodaeth a'i gymorth wyneb yn wyneb. Mae'r gwasanaeth a ddarperir trwy gyfrwng Cyswllt Ffermio eisoes yn cynnal digwyddiadau a gweithgareddau lle defnyddir y Gymraeg fel y brif iaith, a bydd y rhain yn parhau i fod yn nodwedd o'r gwasanaeth cynghori yn y CFfC arfaethedig. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar y gwasanaeth Cymraeg a ddarperir.

### Sut y byddwch chi'n sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg ac yn gallu cael mynediad atynt a'u defnyddio mor rhwydd â gwasanaethau Saesneg? Pa dystiolaeth / data y gwnaethoch eu defnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau â diddordeb yn y Gymraeg?

Bydd yr holl fanylion mewn perthynas â'r Bil a'r ddeddfwriaeth ddilynol, megis y CFfC, ar gael yn ddwyieithog. Wrth ddelio â ffermwyr ar-lein trwy gyfrwng Taliadau Gwledig Cymru, mae 7.51% o'r cysylltiadau wedi gofyn am gael cyfathrebu yn Gymraeg, ond nid yw hyn yn adlewyrchu lefel yr ymgysylltu trwy gyfrwng y Gymraeg; mae llawer o bobl sydd wedi gofyn am ohebiaeth yn Saesneg yn troi at y Gymraeg wrth gael sgyrsiau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.

Yn ei ymateb i'n hymgynghoriad, *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, soniodd Comisiynydd y Gymraeg am dystiolaeth anecdotaidd nad yw deunyddiau ysgrifenedig yn Gymraeg mor hawdd eu deall â deunyddiau cyfatebol yn Saesneg. Mae'n bosibl hefyd bod diffyg opsiynau Cymraeg yn y gorffennol wedi peri bod ffermwyr yn gyfarwydd â llenwi gwaith papur eu busnes yn Saesneg, gan ofyn am ohebiaeth Saesneg yn awtomatig. Wrth inni barhau i ddatblygu CFfC y dyfodol, ynghyd â'r gwasanaethau cymorth cysylltiedig, byddwn yn ystyried yr hyn y gellir ei wneud i sicrhau bod deunyddiau Cymraeg yn cael eu hysgrifennu mewn arddull sy'n adlewyrchu iaith a geirfa bob dydd.

Byddai annog siaradwyr Cymraeg (a dysgwyr sy'n teimlo bod ganddynt y gallu) i fanteisio ar opsiynau gohebiaeth Gymraeg yn cyfrannu at *Cymraeg 2050* drwy gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

## Pa dystiolaeth arall a fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?

*SLM a chymorth yn y dyfodol*

Hyd yma, mae tri ymgynghoriad (*Brexit a'n Tir, Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, a Phapur Gwyn Amaeth (Cymru)) wedi'u cwblhau ar ddyfodol cymorth amaethyddol yng Nghymru. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried effaith ein cynigion ar y Gymraeg.

Derbyniodd *Brexit a'n Tir* (2018) 12,203 o ymatebion, ac roedd 1,043 ohonynt yn sylweddol. O blith yr ymatebion hyn, un farn amlwg iawn oedd y byddai cymunedau gwledig yn ei chael hi'n anodd cynnal eu hunain heb sector amaethyddol ffyniannus ac y byddai'r Gymraeg yn dioddef yn sylweddol. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hefyd mai dim ond gydag economi wledig ffyniannus y byddai gweledigaeth *Cymraeg 2050* yn cael ei gwireddu.

Derbyniodd *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir* (2019) 3,322 o ymatebion, ac roedd 508 ohonynt yn sylweddol. Fel yn achos *Brexit a'n Tir*, roedd yr ymatebwyr yn glir bod economi wledig gref yn hanfodol i'r Gymraeg, a bod amaethyddiaeth yn rhan hanfodol o gymunedau gwledig. Nodwyd pryder, felly, y gallai unrhyw beth a fyddai'n newid strwythur y sector amaethyddol effeithio ar y Gymraeg.

Cafwyd cyfanswm o 1,119 o ymatebion yn ystod ymgynghoriad Papur Gwyn Amaeth (Cymru), a oedd hefyd yn gofyn i ymatebwyr am sylwadau ar ddrafft cyntaf yr Asesiadau Effaith Integredig. Roedd hyn yn cynnwys 232 o ymatebion gan unigolion a sefydliadau, a chyflwynwyd 887 yn ychwaneg trwy gyfrwng ymgyrch a drefnwyd gan y Gynghrair yn erbyn Chwaraeon Creulon. Mynegodd yr ymatebwyr farn debyg i'r un a fynegwyd yn y ddau ymgynghoriad blaenorol mewn perthynas â'r Gymraeg, a chynigiodd rhai awgrymiadau ar sut y gallai'r cynigion gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys drwy annog mwy o ddwyieithrwydd a phwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg yn fwy rheolaidd yn Llywodraeth Cymru ac ar draws adrannau.

Gofynnodd adroddiad Cyswllt Ffermio, '*Iaith y Pridd/The Language of the Land*,[217] i aelodau'r gymuned ffermio 'Sut all amaethyddiaeth gyfrannu at y nod o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050'. Soniwyd am chwe thema, ac mae dwy ohonynt yn uniongyrchol berthnasol i'r Bil:

- Y system gymorthdaliadau – pwysleisiodd yr ymatebwyr fod taliadau sy'n cefnogi'r fferm deuluol yn galluogi teuluoedd i aros mewn ardaloedd gwledig, sydd yn ei dro yn cefnogi'r Gymraeg;
- Cefnogi gweithgarwch ar y tir – mynegwyd y farn y byddai symud oddi wrth reolaeth amaethyddol weithredol o'r tir yn lleihau gweithgarwch yn yr economi wledig ehangach, a fyddai, yn ei dro, yn arwain at ddirywiad yn y Gymraeg.

[217] Cyswllt Ffermio (2020). Adroddiad Iaith y Pridd. https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/newyddion-digwyddiadau/adroddiadau/adroddiad-iaith-y-pridd-22092020

Bydd Cynllun Ffermio Cynaliadwy y dyfodol ar gael i ffermwyr o bob math a bydd yn gwobrwyo dulliau gweithredol o reoli'r tir. Bydd hyn yn helpu i gefnogi busnesau fferm a'r economi ehangach, ac yn helpu i gynnal cymunedau gwledig Cymraeg cadarn. Ymhellach, un o egwyddorion allweddol y CFfC arfaethedig yw y dylid cadw ffermwyr ar y tir ac mae amcanion strategol y Bil yn adlewyrchu hyn; mae'r amcanion sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth i'w cyflawni ochr yn ochr ag amcanion sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy a gwarchod a gwella adnoddau diwylliannol, gan gynnwys cynnal, hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Rydym wedi cymryd rhan mewn rhaglen gyd-ddylunio gyda ffermwyr a rheolwyr tir eraill wrth inni ystyried y Bil a'r CFfC arfaethedig. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol posibl o ran y Gymraeg yn cael eu nodi a'u datrys cyn gynted â phosibl. Fel gyda'r gwaith cyd-ddylunio blaenorol, bydd yr ail gam yn cael ei wneud yn ddwyieithog, a bydd cyfranogwyr yn cael cymryd rhan yn Gymraeg os ydynt yn dewis[218].

Mae gwaith dadansoddi pellach yn cael ei wneud i lywio'r gwaith o lunio'r cynllun ac i amcangyfrif effaith economaidd y cynllun ar lefel busnesau fferm, ar lefel sector ac ar lefel rhanbarthol. Bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn llywio'r gwaith o asesu effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl y CFfC arfaethedig ar gymunedau gwledig, ac felly ar y Gymraeg. Bydd yn ein galluogi i nodi unrhyw effeithiau negyddol posibl a chymryd camau i'w lliniaru lle bo angen.

Bydd data Cyfrifiad 2021 yn parhau i gynnig rhagor o wybodaeth werthfawr am nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn amaethyddiaeth pan gaiff ei gyhoeddi. Rydym yn bwriadu defnyddio'r data hwn pan fyddwn yn asesu effeithiau'r CFfC arfaethedig yn fanylach os byddwn yn cael gweud hynny.

Caiff yr asesiad effaith hwn ei adolygu'n barhaus wrth i'n cynigion polisi ar gyfer y cynllun, a'r dystiolaeth sylfaenol, gael eu datblygu.

*Tenantiaethau*

Nid oes unrhyw ddata cyfredol yn cael ei gasglu nac ar gael ynghylch nifer y ffermwyr tenant Cymraeg eu hiaith na nifer yr achosion cyflafareddu presennol a gynhelir yn Gymraeg.

### Sut y byddwch yn gwybod a yw eich polisi yn llwyddiant?

Mae'r Bil yn darparu'r pwerau ar gyfer monitro a gwerthuso SLM yn ei gyfanrwydd, ynghyd â'r cynlluniau a gyflwynir o dan y dibenion ar gyfer cymorth. Bydd strategaeth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol yn manylu ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu asesu'r modd y cyflawnir canlyniadau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

[218] Yn ystod y cam cyntaf o gyd-ddylunio, roedd cyfranogwyr yn gallu cwblhau'r arolwg a chymryd rhan mewn trafodaethau un i un naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, Cynhaliwyd 8 o'r 28 sesiwn grŵp yn Gymraeg gyda'r gweddill yn cael eu cynnal yn Saesneg ond yn cynnwys siaradwyr Cymraeg. Roedd yr holl hwyluswyr ac aelodau tîm y prosiect yn ddwyieithog.

## F. ASESIAD O'R EFFAITH AR FIOAMRYWIAETH

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys nod 'Cymru Gydnerth': *'Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).'*

Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Llywodraeth Cymru yn datgan ein huchelgais i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, am ei gwerth cynhenid, ac i sicrhau manteision parhaol i'r gymdeithas. Mae'n nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni ymrwymiadau Cynllun Strategol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol ar gyfer Bioamrywiaeth a'r Targedau Bioamrywiaeth Aichi cysylltiedig[219], i atal y dirywiad yn ein bioamrywiaeth erbyn 2020 ac yna i wrthdroi'r dirywiad hwnnw.

Ymrwymodd Rhaglen Lywodraethu 2021[220] i 'ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn'.

Mae Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn ymateb i'r ymrwymiad hwn drwy bennu'r amcan o gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision a ddarperir ganddynt, fel un o amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM). Wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Bil, bydd yn rhaid i Weinidogion ystyried y ffordd orau o gynnal a gwella'r elfennau hyn.

Dylid darparu cymorth ar gyfer amaethyddiaeth yn y dyfodol o dan unrhyw un o'r dibenion SLM a nodir yn Adran 1 y ddogfen hon, dibenion y byddai llawer ohonynt yn cefnogi bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys 'cynyddu gwytnwch ecosystemau' yn benodol, ond mewn llawer o achosion gallai'r deg diben arall hefyd gael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth e.e. byddai gwella ansawdd aer a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn eu tro, o fudd i fioamrywiaeth.

Y tu hwnt i'r gwerth cynhenid, mae yna nifer o fanteision allweddol i'w cael o ganlyniad i fwy o fioamrywiaeth. Yn eu plith mae:

- Cyfraniad bioamrywiaeth at wytnwch ecosystemau – mae bioamrywiaeth yn darparu nifer o wasanaethau ecosystemau ychwanegol, megis rheoleiddio a darparu, sy'n allweddol i gynaliadwyedd sector ffermio Cymru;
- Harddwch ac ymdeimlad o le mewn perthynas â thirwedd Cymru, sef elfennau y mae'r sector twristiaeth yn dibynnu arnynt (nodwn rywfaint o fanylion am bwysigrwydd economaidd yr amgylchedd naturiol i dwristiaeth Cymru yn *Amaethyddiaeth yng Nghymru*[221]);

---

[219] Mae'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD) a'r Targedau Bioamrywiaeth Aichi cysylltiedig, ar gyfer y cyfnod 2011-2020, yn darparu fframwaith bioamrywiaeth cyffredin ar gyfer gwledydd sy'n rhan o'r Cenhedloedd Unedig.

[220] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-01/rhaglen-lywodraethu-diweddariad-rhagfyr-2021.pdf

[221] Llywodraeth Cymru (2019). Amaethyddiaeth yng Nghymru.

- Lles personol drwy ddod i gysylltiad â natur.[222]

Bwriad y polisi hwn hefyd yw cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, fel y nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

## Ymgorffori bioamrywiaeth

1. **Sut y bydd eich cynnig yn integreiddio bioamrywiaeth i'r broses o wneud penderfyniadau?**

*SLM a phwerau cymorth*

Mae'r Bil yn mynd i'r afael yn benodol â'r angen i gynnal a gwella lefelau gwytnwch ecosystemau, y mae bioamrywiaeth yn elfen sylfaenol ohono. Mae gwytnwch ecosystemau yn cynnwys:

- Amrywiaeth: o fewn a rhwng rhywogaethau, ac o fewn a rhwng ecosystemau;
- Maint: ardaloedd sy'n ddigon mawr i gynnal poblogaethau, cefnogi prosesau ecolegol ac ymdopi â phwysau fel ysglyfaethu a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd;
- Cyflwr: rheoli effeithiau a phwysau fel y gall yr amgylchedd gynnal amrywiaeth o organebau a phoblogaethau iach;
- Cysylltedd: mae organebau a phoblogaethau yn gallu symud o fewn a rhwng ecosystemau;
- Y gallu i addasu: gallu ecosystemau i addasu i newid.

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion ddarparu cymorth ar gyfer amaethyddiaeth a'i reoleiddio yn y ffordd a fydd, yn eu barn hwy, yn cyfrannu orau at gyflawni amcanion SLM, gan gynnwys yr amcan o gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau. Bydd hyn yn ymgorffori bioamrywiaeth ym mhenderfyniadau'r Llywodraeth.

Bydd dibenion SLM ar gyfer cymorth yn y dyfodol yn integreiddio bioamrywiaeth ymhellach ym mhenderfyniadau'r Llywodraeth. Mae cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau wedi'i bennu fel un o'r 11 diben ar gyfer cymorth yn y dyfodol, ond bydd cymorth ar gyfer gweithredu sy'n targedu'r dibenion eraill hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth mewn llawer o achosion. Yn yr un modd, gall cymryd camau i gefnogi bioamrywiaeth helpu i gyflawni'r dibenion eraill. Er enghraifft, gellid lliniaru perygl llifogydd a sychder drwy weithredu ar fioamrywiaeth, megis creu cynefinoedd coetir newydd a all arafu llif y dŵr. Yn yr un modd, bydd sefydlu ardal dorlannol (e.e. llwyni a choed ar hyd cyrsiau dŵr) o dan y diben o wella ansawdd dŵr nid yn unig yn gwella ansawdd dŵr ond bydd hefyd yn cyfoethogi cynefinoedd coetiroedd ac yn diogelu cynefinoedd dyfrol.

Bydd y Bil hefyd yn cefnogi'r integreiddio hwn ar lefel busnesau fferm. Bydd y pwerau cymorth yn ei gwneud yn bosibl i ddarparu cyllid, hyfforddiant a chymorth cynghori i ffermydd ar gyfer

[222] Y Sefydliad Iechyd Meddwl a WWF-UK (2020). Thriving with Nature. A Guide for Everyone. https://www.mentalhealth.org.uk/sites/default/files/Thriving-With-Nature-compressed.pdf

cyflawni'r canlyniadau rydym yn eu ceisio, gan gynnwys cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy.

*Coedwigaeth*

Mae'r darpariaethau coedwigaeth, fel y'u disgrifir yn Adran 1 y ddogfen hon, yn ceisio gwella'r rheoliadau a'r prosesau presennol sy'n effeithio ar y ffordd y caiff coetiroedd eu rheoli yng Nghymru er mwyn diogelu bywyd gwyllt a gwytnwch ecosystemau yn well. Bydd cefnogi ac annog y gwaith o reoli coetiroedd mewn modd gweithredol yn gwella ac yn diogelu cynefinoedd coetiroedd.

Yn sgil ei rôl reoleiddio, mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gyfrifol am Asesu Effeithiau Amgylcheddol rheoli cwympo coed ar gyfer creu coetiroedd newydd, datgoedwigo, llwybrau coedwig/chwareli, a gwirio cynlluniau Glastir – Creu Coetir.

Bydd y darpariaethau hyn yn golygu bod modd gorfodi amodau "amgylcheddol" o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967; byddant yn gwneud y Ddeddf Goedwigaeth yn gydnaws â deddfwriaeth amgylcheddol arall, fel Rheoliadau Cynefinoedd 2017; a byddant yn galluogi CNC i gyflawni ei ddyletswydd SMNR (rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy) ac unrhyw ddyletswydd Adran 6 o dan yr un Ddeddf.

*Tenantiaethau*

Bydd y darpariaethau'n sicrhau mynediad teg i ffermwyr tenant at y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC ) arfaethedig. Un o'r amcanion strategol y mae'n rhaid i'r cynllun ei gyflawni yw gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a chynyddu lefelau gwytnwch ecosystemau. O'r herwydd, mae'r holl effeithiau sy'n gysylltiedig ag SLM a chymorth i amaethyddiaeth yng Nghymru yn y dyfodol hefyd yn berthnasol i ffermydd â thenantiaid.

Bydd y darpariaethau tenantiaeth yn y Bil hefyd yn sicrhau dull teg a chytbwys rhwng buddiannau tenantiaid a landlordiaid. Bydd achosion yn cael eu penderfynu gan gymrodeddwr annibynnol neu (pan fo'r ddau barti'n cytuno) gan drydydd parti a gaiff ei gyfarwyddo i ystyried yr holl faterion perthnasol. Bydd hyn yn cynnwys y gweithgareddau a gyflawnir fel rhan o'r CFfC arfaethedig, yn cynnwys gweithgareddau sydd â'r nod o wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a chynyddu lefelau gwytnwch ecosystemau.

*Safonau Marchnata*

Gallai'r pwerau a gynhwysir o fewn y darpariaethau hyn ymwneud â dulliau cynhyrchu amaethyddol, i'r graddau y maent yn ymwneud â safonau marchnata. Fodd bynnag, nid cynyddu bioamrywiaeth yw'r prif amcan ar gyfer defnyddio'r pwerau hyn, felly dim ond yn anuniongyrchol y bydd y darpariaethau hyn yn effeithio ar fioamrywiaeth. Mae'n annhebygol y byddai'r effaith hon yn negyddol.

2. **A yw eich cynnig wedi sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried fel rhan o benderfyniadau busnes?**

Mae’r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion ddarparu cymorth ar gyfer amaethyddiaeth a’i reoleiddio mewn ffordd a fydd, yn eu barn hwy, yn cyfrannu orau at gyflawni amcanion SLM. Bydd hyn yn ymgorffori bioamrywiaeth ym mhenderfyniadau’r Llywodraeth.

Ar lefel busnesau fferm, gallai llawer o gamau gweithredu sy’n targedu cyflawni dibenion SLM esgor ar arbedion cost i fusnesau fferm (e.e. cynlluniau rheoli maethynnau yn arwain at leihau mewnbynnau) yn ogystal â manteision bioamrywiaeth. Ar gyfer y camau hynny na fyddant o bosibl yn esgor ar arbedion cost yn uniongyrchol, bydd y gallu i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer ymgymryd â hwy yn cefnogi camau pellach er budd bioamrywiaeth. Bydd yr elfennau hyn gyda’i gilydd yn helpu ffermydd i gynnwys bioamrywiaeth yn eu proses cynllunio busnes.

### 3. Sut y mae eich cynnig yn gwella dealltwriaeth ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth, gan annog eraill i weithredu?

*Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth*

Mae’r Bil yn nodi bod ‘Cynnal a gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a’r amgylchedd hanesyddol, a’u hymgysylltiad â nhw’ yn ddiben SLM y gellir darparu cymorth ar ei gyfer. Mae dros ddwy ran o dair o hawliau tramwy cyhoeddus Cymru ar dir fferm, ac felly maent yn ffynhonnell fynediad hanfodol at fioamrywiaeth, yr amgylchedd naturiol a’n tirweddau.

Drwy gefnogi a gwella ein hawliau tramwy cyhoeddus, gellir cynnig gwell cyfle i bobl fwynhau’r awyr agored a gwella eu dealltwriaeth o fioamrywiaeth Cymru.

Er mwyn inni allu gwneud y gorau o’r manteision, dylid cefnogi blaenoriaethau cymunedau lleol. Bydd modd i’r cymorth yn y dyfodol, gan gynnwys o dan y CFfC arfaethedig, ymgorffori’r blaenoriaethau a nodir mewn Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy ynghyd â blaenoriaethau Fforymau Mynediad Lleol wrth wneud penderfyniadau. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y bydd cyllid yn cefnogi dull sy’n seiliedig ar leoedd a bydd yn helpu i roi mynediad y cyhoedd at natur wrth galon cymunedau.

Yn dibynnu ar y defnydd ac ar ymddygiad y cyhoedd, gall gwell mynediad hefyd beri risg i fioamrywiaeth a chael effeithiau negyddol ar gynhyrchu bwyd. Ar ddechrau’r pandemig Covid-19, gwelwyd pobl yn mynd ati i chwilio am fynediad i fannau agored a’r amgylchedd naturiol ac, mewn rhai achosion, mynegwyd pryderon ynglŷn â’r effeithiau ar fioamrywiaeth. Dangosodd canfyddiadau arolwg a gynhaliwyd ym Mharc Cenedlaethol Eryri[223] yr effaith negyddol y gall gorddefnyddio cefn gwlad ei chael, gyda chanfyddiadau’n ymwneud â rhywogaethau adar, sbwriel, erydiad a gwersylla anghyfreithlon. Ymhellach, tynnodd arolwg gan y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol sylw at y ffaith bod ffermwyr, ers dechrau’r pandemig Covid-19, wedi gweld cynnydd mewn achosion o gŵn yn poeni defaid, wrth i fwy a mwy o bobl gael cŵn ac wrth i fynediad i gefn gwlad gynyddu. Mae cynnydd mewn sbwriel wedi cael sylw eang yn y cyfryngau. Yn 2021, cyflwynwyd mesurau newydd i fynd i’r afael â phoeni da byw yng Nghymru a Lloegr, er mwyn

---

[223] https://eryri.llyw.cymru/gwarchod/gwaith-cadwraeth/bywyd-gwyllt-dan-glo/

lliniaru'r mater hwn. Ymhellach, mae'r Cod Cefn Gwlad wedi cael ei ddiweddaru[224] ers hynny i adlewyrchu'r ffordd y mae pobl bellach yn defnyddio cefn gwlad, a'i nod yw lleihau'r risg o effeithiau negyddol. O ran cymorth yn y dyfodol ar gyfer gwella mynediad, bydd angen ystyried ymhellach sut y gellir lliniaru'r effeithiau negyddol hyn.

Ymhellach, dylai darparu cymorth ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu helpu i hyrwyddo dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a lleihau'r potensial ar gyfer effeithiau negyddol yn sgil gwella mynediad. Bydd cymorth yn y dyfodol, gan gynnwys o dan y CFfC arfaethedig, yn gallu cefnogi ffermydd i gynnal ymweliadau addysgol ar gyfer plant ysgol a dysgwyr eraill.

Trwy gynorthwyo plant i ddysgu am gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, gellir esgor ar nifer o effeithiau cadarnhaol ar fioamrywiaeth. Mae profiadau gyda'r amgylchedd naturiol nid yn unig o fudd i ddatblygiad gwybyddol plant, ond maent hefyd yn arwain at ddatblygu cysylltiad â natur[225]. Felly, byddai ymweliadau addysgol â ffermydd yn galluogi plant i ddysgu am gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy ac yn codi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd naturiol, ac fe allent annog stiwardiaeth amgylcheddol a fyddai, yn ei dro, yn helpu i gefnogi bioamrywiaeth yn y dyfodol.

*Annog eraill i weithredu, gan ddarparu hyfforddiant arbenigol*

Trwy bennu bod 'cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau' yn un o 11 diben SLM ar gyfer cymorth, bydd modd i Weinidogion ariannu'n uniongyrchol fentrau sy'n cefnogi bioamrywiaeth yn unol â'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur. Bydd hyn yn cynnwys y gallu i gefnogi hyfforddiant arbenigol a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn ymwneud â bioamrywiaeth i fusnesau fferm.

*Coedwigaeth*

Mae'r darpariaethau coedwigaeth i ddiwygio Deddf Coedwigaeth 1967 er mwyn gallu cynnwys amodau amgylcheddol mewn trwyddedau cwympo coed yn rhoi ffocws ar fioamrywiaeth a'r amgylchedd i'r busnesau hynny y mae arnynt angen trwydded gwympo.

## Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro

4. **A ydych wedi defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael o fioamrywiaeth i lywio eich cynnig a'r asesiad hwn?**

*SoNaRR*

Cyflwynodd ein pecyn tystiolaeth *Amaethyddiaeth yng Nghymru*[226] grynodeb o'r dystiolaeth yn deillio o'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) 2016 CNC, a lywiodd ein blaenoriaethau datblygol. Casgliad cyffredinol SoNaRR bryd hynny oedd *"...Mae gan bob ecosystem broblemau ag un neu ragor o nodweddion cydnerthedd. Mae hyn yn golygu y gall eu*

---

[224] https://naturalresources.wales/about-us/news-and-events/news/new-countryside-code-guidance-to-support-farmers-and-land-managers/?lang=cy

[225] https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC6401598/

[226] Llywodraeth Cymru (2019). Amaethyddiaeth yng Nghymru.

*capasiti i ddarparu gwasanaethau a manteision ecosystemau fod mewn perygl. Ar sail ein hasesiad ni, ni ellir dweud bod gan unrhyw ecosystem yr holl nodweddion sydd eu hangen ar gyfer cydnerthedd."*

Mae SoNaRR 2021[227] yn nodi'r cyfleoedd canlynol i gefnogi gwytnwch ecosystemau ar dir fferm caeedig, yn benodol:

- Creu rhwydweithiau ecolegol gwydn drwy adfer a chreu cynefinoedd o fewn ac o amgylch systemau cynhyrchu.
- Ehangu amaeth-goedwigaeth a gwrychoedd. Cynyddu nifer y coed a'r gwrychoedd er mwyn dal a storio carbon a chynyddu gwasanaethau ecosystemau tra'n cynnal y prif ddiben mewn perthynas â chynhyrchu bwyd.
- Gyda pherchnogion ceffylau, hyrwyddo dulliau rheoli tir sy'n ystyriol o natur. Caiff oddeutu 6% o Dir Fferm Caeedig ei reoli ar gyfer ceffylau. Ar hyn o bryd, ni chaiff y tir hwn ei ystyried mewn polisi defnydd tir, ac yn aml caiff ei reoli'n wael.
- Defnyddio a rheoli maethynnau yn gynaliadwy. Defnyddio dulliau dadansoddi pridd, dulliau cynllunio maethynnau a dulliau taenu manwl gywir i leihau mewnbynnau artiffisial a diwallu gofynion cnydau.
- Hyrwyddo ymyriadau i atal amonia rhag cael ei ryddhau i'r aer, gan gynnwys gorchuddio storfeydd slyri, cyfyngu ar wrtaith sy'n seiliedig ar wrea a chwistrellu slyri.

Byddwn yn parhau i ymgorffori tystiolaeth sy'n deillio o SoNaRR, a'r cyfleoedd a nodir, wrth inni ddatblygu polisi o ganlyniad i'r Bil, gan gynnwys ar gyfer y CFfC arfaethedig.

*Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir (GMEP)*

Fe wnaeth y rhaglen GMEP[228] fonitro deg dangosydd bioamrywiaeth canlyniadau lefel uchel sy'n cwmpasu cefn gwlad yn ei gyfanrwydd, ac ar gyfer Rhywogaethau a Chynefinoedd â Blaenoriaeth. Mae'r canlyniadau hyn yn llywio asesiad o effeithiau Glastir yn y dyfodol ynghyd â thueddiadau cenedlaethol hirdymor. Dyma a ganfu'r asesiad sylfaenol yn benodol:

- Gall newidiadau mewn cyflwr cynefinoedd o ganlyniad i reolaeth gymryd amser hir i'w gwireddu, ac mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd cysondeb o ran dull gweithredu;
- O ran ardaloedd a dargedwyd ar gyfer eu gwella dros nifer o flynyddoedd, e.e. Gorgorsydd a Glaswellt y Gweunydd a Phorfeydd Brwyn, mae eu cyflwr wedi gwella;
- Cynnydd yn nifer y gwrychoedd a gaiff eu rheoli ond dirywiad yng nghyfoeth rhywogaethau coediog;
- Tueddiadau cadarnhaol dros y deng mlynedd diwethaf o ran presenoldeb rhywogaethau planhigion sy'n arwydd o gyflwr da cynefinoedd a thiroedd wedi'u gwella. Dim newid ar gyfer coetiroedd a thiroedd âr.

---

[227] https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/693305/sonarr2020-theme-biodiversity.pdf

[228] https://gmep.wales/sites/default/files/GMEP-Final-Report-2017.pdf

*Canolfannau Cofnodion Amgylchedd Lleol*

Roedd ein hadolygiad o dystiolaeth y Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP) yn cynnwys Adolygiad o Gofnodion Cyfraniad Rhywogaethau a gedwir gan Ganolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol yng Nghymru[229].

Mae'r rhaglen modelu a monitro barhaus yn cynnwys yr Arolwg Maes Cenedlaethol sy'n galluogi adrodd ar dueddiadau hirdymor ac sydd wedi llywio ein blaenoriaethau. Mae monitro bioamrywiaeth yn elfen bwysig o'r gwaith hwn ac mae'n cynnig sylfaen dystiolaeth bwysig ar gyfer datblygu cymorth yn y dyfodol.

*ERAMMP*

Fe wnaethom gomisiynu ystod o adolygiadau tystiolaeth gan ERAMMP[230] er mwyn llywio ein cynigion, gan gynnwys adolygiadau'n ymwneud â'r materion canlynol sy'n berthnasol i fioamrywiaeth:

- Rheoli maethynnau pridd;
- Rheoli porfa;
- Gwytnwch ecosystemau;
- Rheoli perygl llifogydd;
- Dull systemau o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr;
- Gwella ansawdd aer.

Roedd yr adolygiadau tystiolaeth hyn yn rhan o becyn tystiolaeth ehangach a luniwyd gan gymuned o adolygwyr ar draws disgyblaethau. Fe wnaeth hyn sicrhau bod modd sefydlu consensws a bod sail dystiolaeth drylwyr a chyfredol wedi'i darparu ar gyfer datblygu polisi. Defnyddiwyd cyfanswm o 849 o bapurau ymchwil wedi'u hadolygu gan gymheiriaid.

### 5. A ydych wedi defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effeithiau allweddol ar fioamrywiaeth i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth?

Fe wnaeth adolygiadau tystiolaeth ERAMMP, a ddisgrifir yng nghwestiwn 4, asesu'r gadwyn resymeg a'r cysylltiadau achosol â chanlyniadau ar gyfer amrywiaeth o ymyriadau posibl. Ymhellach, aeth y gwaith hwn ati i ystyried y cyfaddawdau a'r cydfanteision ar gyfer pob ymyriad[231]. Anaml y gwelwyd bod ymyriadau'n effeithio ar ganlyniadau unigol yn unig; dengys hyn gyfle i gyflawni amryfal fanteision, ond dengys hefyd fod angen ystyried cyfaddawdau er mwyn osgoi cyflawni un canlyniad ar draul rhai eraill.

---

[229] Smart, S.M, et al. (2019) Adroddiad ERAMMP-22: LERCs. Adroddiad i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017)(CEH NEC06297).

[230] Gellir gweld Adolygiadau Tystiolaeth ERAMMP yn https://erammp.wales/cy/cynllun-ffermio-cynaliadwy-sfs-adolygiad-pecyn-tystiolaeth-2019

[231] Emmett, B.A. et al. (2019). Adroddiad-10A: Dadansoddiad Integredig. Adroddiad ERAMMP i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297)

Mae'r fframwaith SLM a ddarperir gan y Bil yn bwriadu osgoi cyfaddawdau negyddol drwy fynnu y dylai unrhyw gymorth neu reoliadau ar gyfer amaethyddiaeth yn y dyfodol ystyried sut orau i gyflawni amcanion SLM. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y bydd ffactorau sy'n sbarduno newid, a ffactorau negyddol posibl, yn cael eu hystyried yn gyfannol.

Ymhellach, tynnodd yr adolygiadau sylw at y ffaith bod elfen ofodol ynghlwm wrth a fyddai'r manteision yn cael eu gwireddu neu a ellid sicrhau gwerth ychwanegol yn perthyn i lawer o gamau gweithredu posibl ar gyfer cyflawni canlyniadau. Canfuwyd hyn ar gyfer camau gweithredu bioamrywiaeth hefyd. Er enghraifft, gall gweithredu ar draws nifer o ffermydd cysylltiedig neu ar raddfa'r dalgylch gynnig cyfle i sicrhau gwerth ychwanegol.

Drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau SLM (yn hytrach na chamau gweithredu penodol) drwy'r dibenion ar gyfer cymorth, bydd y Bil hefyd yn darparu ar gyfer dull sy'n seiliedig ar leoedd, lle gellir cymryd y camau cywir yn y lleoedd cywir i sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cyflawni a bod cyfleoedd i gael gwerth ychwanegol yn cael eu hystyried.

Mae'r adroddiad hwn, ynghyd â thystiolaeth arall, yn parhau i lywio cynigion polisi wrth iddynt ddatblygu. Mae'r Dadansoddiad Cost a Budd sy'n cyd-fynd â'r Bil yn cynnwys asesiad pellach o'r effeithiau posibl ar fioamrywiaeth.

### 6. A all eich cynnig gyfrannu at ein corff o wybodaeth am fioamrywiaeth?

Mae'r Bil yn cyflwyno'r gofyniad i fonitro ac adrodd ar gyflawni SLM a'r dibenion SLM a ariennir o dan bwerau cymorth. Bydd cynlluniau yn y dyfodol yn destun monitro a gwerthuso manwl a bydd y canfyddiadau ar gael i'r cyhoedd.

## Llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni camau gweithredu bioamrywiaeth

### 7. A all eich cynnig gefnogi gweithredu ar fioamrywiaeth mewn unrhyw ffordd?

Nod y Bil yw galluogi cymorth uniongyrchol ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth. Bydd y fframwaith SLM yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion ystyried y ffordd orau o gefnogi gwytnwch ecosystemau, sy'n cynnwys bioamrywiaeth, wrth arfer pwerau yn y Bil.

Mae'r Bil hefyd yn pennu bod 'cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau' yn ddiben ar gyfer cymorth yn y dyfodol. Bydd hyn yn esgor ar gymorth uniongyrchol ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth. Disgwylir gweld manteision i fioamrywiaeth hefyd drwy'r dibenion eraill ar gyfer cymorth.

Bydd modd i gymorth yn y dyfodol o dan yr 11 diben, gan gynnwys y CFfC arfaethedig, gefnogi partneriaeth a chydweithio ar gyfer gweithredu ar sail bioamrywiaeth yn unol â blaenoriaethau lleol, ynghyd â sicrhau canlyniadau ar raddfa fwy.

*Coedwigaeth*

Bydd ein darpariaethau i ddiwygio Deddf Coedwigaeth 1967 er mwyn ychwanegu amodau at drwyddedau cwympo coed yn helpu i fynd i'r afael â'r anghysondeb rhwng y Ddeddf Coedwigaeth

a deddfwriaeth amgylcheddol arall, ac yn helpu i ddiogelu bywyd gwyllt a'r amgylchedd yn well yn ystod gwaith cwympo coed.

**8. A all eich cynnig helpu i ddatblygu capasiti ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth?**

Rydym eisiau sicrhau bod gan ein diwydiant amaethyddol yr wybodaeth gywir am arloesedd er mwyn gallu gwella cynhyrchiant a chadernid a chyflawni'r canlyniadau rydym yn eu ceisio, gan gynnwys cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau.

Gellid datblygu a darparu ar gyfer meithrin sgiliau ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth o dan gymorth yn y dyfodol, gan gynnwys fel rhan o'r CFfC arfaethedig, trwy gyfrwng amrywiaeth o sianeli, yn cynnwys cyngor arbenigol, ymarfer trosglwyddo gwybodaeth a digwyddiadau arddangos ar ffermydd. Yn bwysig, rydym hefyd eisiau sicrhau y caiff hyfforddiant sgiliau, arloesedd a chymorth cyfalaf eu cydgysylltu'n llwyr er mwyn galluogi ffermwyr a choedwigwyr i fabwysiadu'r dechnoleg a'r technegau cywir i wella gwydnwch eu busnes.

**9. A ydych chi wedi cofnodi penderfyniadau a chamau gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth?**

Mae ein darpariaethau'n gyson â'n dyletswydd A6 a gallent gael eu cynnwys mewn unrhyw adroddiadau ar ein dyletswydd A6 a lunnir gan Lywodraeth Cymru.

## Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn

**10. A gydymffurfir â'r holl ddeddfwriaeth i sicrhau bod rhywogaethau a chynefinoedd morol a daearol yn cael eu diogelu?**

Mae'r Bil yn canolbwyntio'n benodol ar ddiogelu bioamrywiaeth a chynefinoedd a bydd yn rhoi pwerau i Weinidogion gefnogi amaethyddiaeth wrth gyflawni SLM. Bydd unrhyw ofyniad am drwyddedau, monitro a gorfodi, e.e. yn sgil y CFfC arfaethedig, yn cael ei ystyried a'i weithredu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r ddeddfwriaeth.

*Coedwigaeth*

Nod penodol ein darpariaethau coedwigaeth yw diogelu rhywogaethau a chynefinoedd coetiroedd yn well a darparu gwell cysylltiad rhwng y Ddeddf Goedwigaeth a deddfwriaeth amgylcheddol arall.

Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA), Asesiad Amgylcheddol Strategol nac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd mewn perthynas â'r Bil, ond bydd unrhyw ofynion yn cael eu hystyried ar gyfer is-ddeddfwriaeth benodol a all ddeillio o ganlyniad i'r Bil.

**11. A yw'r cynnig yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth yn y lle cyntaf?**

Mae'r Bil yn bwriadu mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth a chynyddu gwytnwch ecosystemau. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i'r cymorth a ddarperir ar gyfer amaethyddiaeth yn y dyfodol ystyried y ffordd orau o gynnal gwytnwch ecosystemau ochr yn ochr ag amcanion eraill yn ymwneud ag SLM.

Disgwylir i'r Bil gefnogi'r ddarpariaeth gynyddol o gynefinoedd gweithredol drwy alluogi cymorth ar gyfer cynnal a gwella cyflwr cynefinoedd, ac amrywiaeth a gwytnwch ecolegol cynefinoedd lled-naturiol, coetiroedd fferm a choed a gwrychoedd eraill ar dir fferm.

Rydym wedi cynnal amrywiaeth o adolygiadau tystiolaeth (Keenleyside et al[232]). Ar gyfer glaswelltir wedi'i led-wella (a allai fod o werth sylweddol, er enghraifft, fel cynefin ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau cyffredin sy'n dirywio, megis y drudwy, y siglen felen a'r gornchwiglen), mae'r adolygiadau hyn wedi dangos bod yna gyfle i sicrhau enillion cadwraeth cymharol syml a phwysig (gan gynnwys cysylltedd) o ganlyniad i ddefnyddio ymyriadau sy'n briodol ar gyfer tir lled-naturiol, heb yr angen i adfer cynefinoedd yn ddwys. O ystyried bod tua 20% o Gymru o dan laswelltir lled-naturiol[233] a bod tua 90% o'r tir yn amaethyddol[234], mae polisi ar gyfer y dyfodol sy'n cyd-fynd â'r dibenion ar gyfer cymorth, gan gynnwys y CFfC arfaethedig, yn cynnig y potensial i wella bioamrywiaeth ledled Cymru.

*Coedwigaeth*

Byddai'r darpariaethau coedwigaeth yn caniatáu i CNC ychwanegu amodau at drwyddedau cwympo coed neu ddiwygio trwyddedau cwympo coed er mwyn sicrhau bod gwaith cwympo coed yn cael ei wneud mewn modd cynaliadwy. Ar hyn o bryd, ni all CNC osod amodau ar drwyddedau cwympo coed er mwyn sicrhau cyfanrwydd safleoedd gwarchodedig, rhywogaethau gwarchodedig neu 'dderbynyddion amgylcheddol' sensitif eraill. Mae'r darpariaethau'n helpu i fynd i'r afael â'r anghysondeb rhwng Deddf Coedwigaeth 1967 a deddfwriaeth amgylcheddol arall.

## Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol

### 12. A yw eich cynnig yn cyfrannu at ddatblygu cydnerthedd ein hecosystemau?

Mae cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau wedi'i bennu fel un o'r pedwar amcan SLM, a hefyd fel un o'r 11 diben ar gyfer cymorth a rheoleiddio yn y dyfodol i gefnogi amaethyddiaeth. Bydd hyn yn esgor ar allu darparu manteision ar raddfa fawr. Disgwylir y bydd modd gwella gwytnwch ecosystemau drwy adeiladu rhwydweithiau cynefinoedd cryfach a hyrwyddo cysylltedd. Dengys tystiolaeth y byddai'r camau canlynol,[235] sy'n cyd-fynd ag SLM, yn helpu i hyrwyddo cysylltedd cynefinoedd ar raddfa tirwedd:

---

[232] Keenleyside, C.B., et al. (2019). Atodiad 4: Adeiladu Cadernid yr Ecosystem. Adroddiad ERAMMP i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297).

[233] Arolwg Cefn Gwlad (2007) https://countrysidesurvey.org.uk/sites/default/files/CS-Wales-Results2007-Chapter03.pdf

[234] Naill ai drwy dir fferm neu dir comin. https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-12/arolwg-or-cyfrifiad-amaethyddol-garddwrol-mehefin-2020-913.pdf

[235] Latham J., Sherry J. a Rothwell J. (2013) *Ecological Connectivity and Biodiversity Prioritisation in the Terrestrial Environment of Wales.* Adroddiad Gwyddoniaeth Staff CCGC Rhif 13/3/3.

- Gwella cyflwr safleoedd drwy reoli da i wella cysylltedd a ffitrwydd poblogaethau o fewn llain;
- Cynyddu maint lleiniau cynefin;
- Datblygu lleiniau clustogi o amgylch lleiniau;
- Ehangu cynefin i uno lleiniau â'i gilydd;
- Datblygu cerrig sarn rhwng lleiniau;
- Datblygu coridorau;
- Gwella cyflwr tir rhwng lleiniau cynefin er mwyn cynyddu hydreiddedd;
- Gwella maint a chyflwr nodweddion tirwedd megis gwrychoedd, ymylon caeau a chyrsiau dŵr;
- Datblygu rhwydweithiau o gynefinoedd; ac
- Annog ardaloedd di-dor mawr o gynefin ar raddfa tirwedd.

### 13. A yw eich cynnig yn cyfrannu at greu cynefinoedd newydd?

Trwy gyfrwng y pwerau cymorth, bydd y Bil yn arwain at gynnal a chreu nodweddion tirwedd sy’n darparu cynefinoedd pwysig i fywyd gwyllt ar bob tir amaethyddol ledled Cymru, a bydd yn diogelu mesurau amddiffyn ar gyfer y cynefinoedd hyn y gellid, fel arall, fod wedi’u colli. Er mwyn gwella gwytnwch rhwydweithiau cynefinoedd yng Nghymru, mae’r sylfaen dystiolaeth sy’n sail i’r ystod o gamau gweithredu y gellir eu hariannu o dan ddibenion y Bil (Keenleyside et al[236]) yn awgrymu bod angen creu neu adfer cynefinoedd ar diroedd wedi’u lled-wella a’u gwella. Mae adfer a chreu yn elfennau hanfodol o reoli cynefinoedd lled-naturiol ar raddfa tirwedd.

## Mynd i’r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

### 14. A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar gynefinoedd neu rywogaethau trwy newid defnydd tir neu achosi llygredd?

Gan fod y Bil yn ymwneud â deddfwriaeth sylfaenol, ni fydd yn esgor ar unrhyw newidiadau uniongyrchol o ran defnydd tir. Bwriad y darpariaethau yn y Bil yw gwella cynefinoedd a rhywogaethau, a sicrhau manteision ehangach megis gwella ansawdd aer a dŵr – sef rhywbeth sydd hefyd o fudd i fioamrywiaeth.

Wrth ddatblygu polisi yn y dyfodol, gan gynnwys y CFfC arfaethedig, bydd angen ystyried unrhyw effeithiau negyddol posibl a sut y gellir eu lliniaru.

O ran unrhyw newidiadau arfaethedig i ddefnydd tir ar gyfer bodloni amcanion SLM, e.e. plannu coed er mwyn dal a storio mwy o garbon, byddai’n rhaid iddynt gael eu cymeradwyo drwy’r rheoliadau EIA ar sail prosiectau unigol dros bum hectar yn y ffordd arferol, gan roi sylw dyledus i fioamrywiaeth ar y safle arfaethedig.

---

[236] Keenleyside, C.B., et al. (2019). Atodiad 4: Adeiladu cadernid yr ecosystem. Adroddiad ERAMMP i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (CEH NEC06297).

Fel y nodir uchod, gallai mwy o fynediad i gefn gwlad o ganlyniad i'r diben ar gyfer cymorth ynghylch gwell mynediad ac ymgysylltiad gael effaith negyddol ar gynefinoedd a rhywogaethau lleol pe na bai'r defnyddwyr mynediad yn ymwybodol o'r Cod Cefn Gwlad a'u cyfrifoldebau yn yr amgylchedd naturiol. Yn achos cynigion i gynyddu mynediad, byddai angen iddynt ystyried sut y gellid lliniaru'r risg hon.

**15. A gydymffurfiwyd â'r holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd? Byddai hyn yn cynnwys:**

Bwriedir i'r Bil adeiladu ar y ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â'r pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd, ynghyd â'i gwneud yn bosibl i gymryd camau uniongyrchol i leihau'r pwysau hwn. Byddai cymryd camau i leihau llygredd, rheoli rhywogaethau estron goresgynnol, a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo, yn cyd-fynd â darparu SLM a dibenion ar gyfer cymorth yn y dyfodol.

*Tenantiaethau*

Bydd achosion yn cael eu pennu gan gymrodeddwr annibynnol neu (pan fo'r ddau barti'n cytuno) gan drydydd parti a gaiff ei gyfarwyddo i ystyried yr holl faterion perthnasol. Gall hyn gynnwys deddfwriaeth sy'n ymwneud â rheoli llygredd ac ati.

**16. Sut y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu lliniaru?**

*Dull system gyfan o reoli amaethyddiaeth yn gynaliadwy*

Drwy'r dibenion SLM ar gyfer cymorth, bwriad y Bil yw annog dull system gyfan o gynnal a gwella cynaliadwyedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd mewn perthynas ag amaethyddiaeth yng Nghymru. Drwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion ystyried y ffordd orau o gyflawni'r amcanion hyn, sy'n cynnwys lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd, dylid gallu lleihau effeithiau negyddol anfwriadol.

Bydd y dibenion ar gyfer cymorth yn y dyfodol yn ei gwneud yn bosibl i gymryd camau uniongyrchol i leihau llygredd a lliniaru newid yn yr hinsawdd mewn amaethyddiaeth. Gellir cyflawni llawer o'r canlyniadau sydd gennym mewn golwg trwy gyfrwng camau a fydd yn sicrhau cydfanteision, gan gefnogi dull gweithredu system gyfan ymhellach.

Caiff effaith ein darpariaethau ar lygredd a newid yn yr hinsawdd ei hystyried yn yr Asesiadau o'r Effaith ar y Newid yn yr Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol.

*Cefnogi pryfed peillio*

Mae tystiolaeth[237] yn dangos y ceir pryder cynyddol ynghylch statws poblogaeth pryfed peillio, ynghyd â'r gwasanaeth peillio a ddarperir ganddynt. Mae'r prif fygythiadau i bryfed peillio yn

[237] Potts, S.G., Biesmeijer, J.C., Kremen, C., Neumann, P., Schweiger, O., a Kunin, W. E. (2010). Global pollinator declines: trends, impacts and drivers. Trends in ecology & evolution, 25(6), 345-353.

cynnwys colli cynefinoedd, llygredd amgylcheddol, newid yn yr hinsawdd a lledaeniad rhywogaethau estron. Mae adolygiad a gynhaliwyd yn 2015 yng nghyd-destun statws glöynnod byw y DU yn awgrymu y gallai newid yn yr hinsawdd fod yn fwy o fygythiad i rywogaethau'r DU nag a feddyliwyd yn flaenorol[238].

Bydd dull gweithredu yn y dyfodol sy'n seiliedig ar ddibenion ar gyfer cymorth SLM yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n wynebu pryfed peillio gan gynnwys colli cynefinoedd, llygredd amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd. Byddai llawer o gamau gweithredu sy'n cyd-fynd ag SLM hefyd o fudd i bryfed peillio. Er enghraifft:

- Lleihau gwrteithiau artiffisial;
- Lleihau'r defnydd o blaladdwyr drwy reoli plâu'n integredig;
- Amaeth-goedwigaeth a chreu a rheoli gwrychoedd;
- Plannu glaswelltir a dolydd sy'n doreithiog o rywogaethau (ar ffurf tir pori parhaol a hefyd fel rhan o system gylchdro);
- Creu coridorau bywyd gwyllt, lleiniau pryfed peillio a chloddiau chwilod mewn caeau.

Byddai cymryd camau i gynnal a chreu cynefinoedd yn cyd-fynd â'r dibenion ar gyfer cymorth yn y dyfodol a byddai o fudd i bryfed peillio hefyd. Gallai hyn gynnwys plannu coed/rheoli coetiroedd, creu a chynnal gwrychoedd ac adfer/cynnal cynefinoedd pwysig fel afonydd, nentydd a phyllau, gorgorsydd a rhosydd yr ucheldir a'r iseldir.

**Tabl cryno**

| **Rhif y cwestiwn** | **Cyfleoedd i weithredu'n gadarnhaol** | **Effeithiau negyddol y cynnig** | **Camau sydd eu hangen i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cadarnhaol ac atal effeithiau negyddol** |
|---|---|---|---|
| 1 **Sut y bydd eich cynnig yn integreiddio bioamrywiaeth i'r broses o wneud penderfyniadau?** | Bydd y fframwaith SLM yn sail i'r cymorth a'r rheoleiddio ar gyfer amaethyddiaeth yn y dyfodol. Rhaid ystyried yr amcan 'cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau' wrth | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol yn codi gan fod y Bil yn ymwneud â deddfwriaeth sylfaenol. | Bydd angen i gymorth yn y dyfodol o dan y Bil ystyried y ffordd orau o gyflawni amcanion SLM yn gyffredinol. Dylai hyn leihau cyfaddawdau ac effeithiau negyddol. |

[238] Fox, R., Brereton, T., Asher, J., August, T., Botham, M., Bourn, N., Cruickshanks, K., Bulman, C., Ellis, S., Harrower, C. a Middlebrook, I., (2015). The State of the UK's Butterflies 2015.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddatblygu cymorth yn y dyfodol. | | |
| 2 **A yw eich cynnig wedi sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried fel rhan o benderfyniadau busnes?** | Mae'r fframwaith SLM yn bwriadu sicrhau y defnyddir dull system gyfan wrth ddarparu cymorth i amaethyddiaeth – bydd yr amcan o ran gwytnwch ecosystemau yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hymgorffori ym mhenderfyniadau'r llywodraeth yn y dyfodol ynghylch amaethyddiaeth | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol yn codi gan fod y Bil yn ymwneud â deddfwriaeth sylfaenol. | Mae llawer o gamau gweithredu sy'n gyson ag SLM yn cyflwyno manteision economaidd i fusnesau fferm. Felly, mae gan gymorth yn y dyfodol o dan y Bil, gan gynnwys y CFfC, y potensial i ymgorffori bioamrywiaeth yn y broses o wneud penderfyniadau ar fusnesau fferm. |
| 3 **Sut y mae eich cynnig yn gwella dealltwriaeth ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth, gan annog eraill i weithredu?** | Bydd y Mesur yn ei gwneud yn bosibl i ddarparu cymorth er mwyn gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth yn y sector amaethyddiaeth a'r boblogaeth ehangach | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol yn codi gan fod y Bil yn ymwneud â deddfwriaeth sylfaenol. | Bydd cymorth yn y dyfodol yn gallu ariannu mwy o fynediad i gefn gwlad, mwy o ymweliadau addysgol a mwy o hyfforddiant proffesiynol ar gyfer y sector. Bydd angen i gynlluniau yn y dyfodol ystyried sut i liniaru'r effeithiau negyddol posibl sydd ynghlwm wrth fwy o fynediad. |
| 6 **A all eich cynnig gyfrannu at ein corff o wybodaeth am fioamrywiaeth?** | Mae'r Bil yn cyflwyno gofyniad i fonitro ac adrodd ar gyflawni SLM a'r canlyniadau rydym yn eu ceisio. Bydd hyn yn | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol yn codi gan fod y Bil yn ymwneud â | Bydd angen strategaeth fonitro a gwerthuso gadarn ar gymorth yn y dyfodol, gan adeiladu ar raglen |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cyfrannu at ein sylfaen wybodaeth. | deddfwriaeth sylfaenol. | fonitro a gwerthuso bresennol Llywodraeth Cymru er mwyn gallu pennu newid a sbardunau newid yn y tymor hir. |
| 7 **A all eich cynnig gefnogi gweithredu ar fioamrywiaeth mewn unrhyw ffordd?** | Bydd y Bil yn ei gwneud yn bosibl i ddarparu cymorth ar gyfer y sector amaethyddiaeth i gymryd camau er mwyn sicrhau manteision bioamrywiaeth. | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol yn codi gan fod y Bil yn ymwneud â deddfwriaeth sylfaenol. | Bydd angen i gymorth yn y dyfodol sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd mewn lleoliad ar gyfer anghenion y lleoliad hwnnw. Bydd cyngor, canllawiau a chymorth yn bwysig er mwyn sicrhau dull sy’n seiliedig ar leoedd a chefnogaeth ar gyfer y cam hwn. |
| 8 **A all eich cynnig helpu i ddatblygu capasiti ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth?** | Bydd y Bil yn ei gwneud yn bosibl i ddarparu cymorth i ddatblygu capasiti ar gyfer gweithredu yn y sector amaethyddiaeth lle bo hynny’n cyfrannu orau at gyflawni amcanion SLM. | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol yn codi gan fod y Bil yn ymwneud â deddfwriaeth sylfaenol. | Bydd angen i gymorth yn y dyfodol, gan gynnwys y CFfC, ystyried y ffordd orau o ymgysylltu â gwahanol ffermydd i ddatblygu capasiti ledled Cymru, ynghyd ag annog cyfranogiad a sicrhau dull sy’n seiliedig ar leoedd. Gallai hyn gynnwys digwyddiadau, hyfforddiant arbenigol neu weminarau, ond rhaid ei deilwra yn ôl gofynion y sector. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9 **A ydych chi wedi cofnodi penderfyniadau a chamau gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth?** | Mae ein darpariaethau'n gyson â'n dyletswydd A6 a gallent gael eu cynnwys mewn unrhyw adroddiadau ar ein dyletswydd A6 a lunnir gan Lywodraeth Cymru. | | Bydd angen i gymorth yn y dyfodol sicrhau y cydymffurfir â'r ddyletswydd hon. |
| 10 **A gydymffurfir â'r holl ddeddfwriaeth i sicrhau bod rhywogaethau a chynefinoedd morol a daearol yn cael eu diogelu?** | Cydymffurfir â'r holl ddeddfwriaeth. | | Bydd angen i unrhyw ofyniad mewn perthynas â thrwyddedau, monitro a gorfodi, e.e. fel rhan o'r CFfC arfaethedig, sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â deddfwriaeth. |
| 11 **A yw'r cynnig yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth <u>yn y lle cyntaf?</u>** | Ydyw. Mae cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau yn un o bedwar amcan SLM. Rhaid i'r cymorth a'r rheoleiddio mewn perthynas ag amaethyddiaeth yn y dyfodol ystyried sut y gellir cyflawni hyn. | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol yn codi gan fod y Bil yn ymwneud â deddfwriaeth sylfaenol. | Mae cymorth yn y dyfodol sy'n ceisio bodloni mwy nag un o'r dibenion ar gyfer cymorth yn cynnig y cyfle i sicrhau'r manteision mwyaf posibl i fioamrywiaeth. e.e. mae ecosystemau llawn cennau yn agored i niwed yn sgil allyriadau amonia.[239] Felly, bydd camau a gymerir ar y fferm i gefnogi diben |

[239] https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/693285/sonarr2020-theme-air-quality.pdf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 'ansawdd aer' y cymorth hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth. |
| 12 **A yw eich cynnig yn cyfrannu at ddatblygu cydnerthedd ein hecosystemau?** | Ydyw. Mae'r Bil yn ymdrin yn benodol â gwytnwch ecosystemau ac yn ei gwneud yn bosibl i ddarparu cymorth ar gyfer amaethyddiaeth er mwyn cynnal a gwella ecosystemau | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol yn codi gan fod y Bil yn ymwneud â deddfwriaeth sylfaenol. | Mae llawer o gamau sy'n cynyddu gwytnwch ecosystemau hefyd yn cynnig nifer o fanteision eraill, e.e. gall camau i wella ansawdd dŵr gynyddu bioamrywiaeth y pridd ac arbed costau i fusnesau fferm drwy ddefnyddio llai o fewnbynnau. Drwy gynllunio cymorth ar gyfer y dyfodol mewn ffordd a fydd yn cyflawni nifer o ddibenion ar gyfer cymorth, fel gyda'r CFfC, gellir sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ledled Cymru. |
| 13 **A yw eich cynnig yn cyfrannu at greu cynefin newydd?** | Bydd y Bil yn darparu'r fframwaith ar gyfer creu cynefinoedd a bydd yn galluogi rhoi cymorth ar gyfer hyn. | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol yn codi gan fod y Bil yn ymwneud â deddfwriaeth sylfaenol. | Gallai newidiadau i ddefnydd tir gael effeithiau negyddol os na chânt eu rheoli'n gywir. Byddai unrhyw newidiadau o ran defnydd tir yn destun asesiadau EIA yn y ffordd arferol er mwyn sicrhau bod bioamrywiaeth pob safle yn cael ei hystyried. Rhaid i |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gymorth yn y dyfodol sicrhau bod cynefinoedd newydd yn cael eu creu yn y lleoliadau mwyaf priodol. |
| 14 **A fydd y cynnig yn achosi unrhyw effeithiau negyddol i gynefinoedd neu rywogaethau?** | Bwriad y Bil yw esgor ar effeithiau cadarnhaol ar gynefinoedd a rhywogaethau, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (e.e. gwell ansawdd aer/dŵr) | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol yn codi gan fod y Bil yn ymwneud â deddfwriaeth sylfaenol. | Fel cwestiwn 13. |
| 15 **A gydymffurfiwyd â'r holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd?** | Do. Mae'r Bil yn bwriadu adeiladu ar y ddeddfwriaeth bresennol a lleihau'r pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd. | Amherthnasol | Bydd angen i unrhyw gynllun yn y dyfodol o dan y Bil, gan gynnwys y CFfC, ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon. |
| 16 **Sut y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu lliniaru?** | Mae SLM yn cyflwyno dull system gyfan o ymdrin â sector amaethyddol gwydn. Rhaid ystyried amcanion SLM wrth ddatblygu'r cymorth a'r rheoleiddio yn y dyfodol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl drwy annog camau gweithredu sy'n sicrhau nifer o gydfanteision. | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol yn codi gan fod y Bil yn ymwneud â deddfwriaeth sylfaenol. | Bydd angen i'r CFfC arfaethedig sicrhau bod y camau cywir yn cael eu cymryd yn y lleoliad cywir ledled Cymru er mwyn lleihau effeithiau negyddol posibl a sicrhau'r manteision mwyaf posibl. Bydd Datganiadau Ardal CNC, ynghyd â phennu cyfleoedd lleol ar gyfer gweithredu a chydweithredu, yn bwysig ar gyfer hyn. |

## G. ASESIAD O'R DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

**Pa dystiolaeth a ystyriwyd er mwyn deall sut y mae'r cynnig yn cyfrannu at anghydraddoldeb canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Ystyr anfantais economaidd-gymdeithasol yw byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas, ac mae'n cwmpasu amrywiaeth o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys incwm a chyfoeth, ond hefyd amddifadedd mewn perthynas â ffactorau fel gwaith, iechyd a'r amgylchedd ffisegol.

**Ffermwyr**

Mae Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC) yn system sy'n defnyddio cysylltiadau galwedigaeth a chyflogaeth i grwpio unigolion mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol. Mae'n defnyddio codau'r Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC) a'r categorïau canlynol sy'n disgrifio cysylltiadau cyflogaeth:

1. Cyflogwyr – sefydliadau mawr;
2. Cyflogwyr – sefydliadau bach;
3. Hunangyflogedig – dim gweithwyr;
4. Rheolwyr – sefydliadau mawr;
5. Rheolwyr – sefydliadau bach;
6. Goruchwylwyr;
7. Gweithwyr eraill.

Mae'r strwythur NS-SEC sy'n deillio o hyn fel a ganlyn:

1. Galwedigaethau rheoli a phroffesiynol uwch
    1.1. Cyflogwyr mawr a galwedigaethau rheoli a gweinyddol uwch
    1.2. Galwedigaethau rheoli a phroffesiynol uwch
2. Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol is
3. Galwedigaethau canolradd
4. Cyflogwyr bach a gweithwyr ar eu liwt eu hunain
5. Galwedigaethau goruchwylio a thechnegol is
6. Galwedigaethau gwaith lled-ailadroddus
7. Galwedigaethau gwaith ailadroddus
8. Erioed wedi gweithio, neu ddi-waith hirdymor

Er bod y dosbarthiad ei hun yn weddol syml ac nad yw o reidrwydd yn dangos amddifadedd economaidd-gymdeithasol, mae'n ddefnyddiol gan y dangoswyd bod NS-SEC yn rhoi arwydd o brofiadau, ymddygiadau a chanlyniadau bywyd pobl. Er enghraifft, mae data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn dangos bod NS-SEC yn rhagfynegydd rhesymol mewn perthynas

â disgwyliad oes[240], oedran mamau[241], statws priodasol rhieni newydd, a chyffredinrwydd ysmygu.[242] Mae'r rhai sydd mewn categori economaidd-gymdeithasol uwch fel arfer yn byw'n hwy ac maent yn llai tebygol o ysmygu, gyda menywod yn rhoi genedigaeth yn ddiweddarach yn eu hoes ar ôl iddynt briodi. Mae'r gwrthwyneb yn fwy tebygol o ddod i ran y rhai sydd mewn categori economaidd-gymdeithasol is, gyda phrofiadau, ymddygiadau a chanlyniadau yr ystyrir eu bod yn llai ffafriol ac yn niweidiol i iechyd a lles cyffredinol.

At hynny, mae NS-SEC yn arwydd o nodweddion cyflogaeth, megis *"..."…remuneration (hourly or weekly wages versus monthly or annual salaries, payments for overtime, whether on an incremental pay scheme), job prospects (opportunities for promotion and notice period) and work autonomy (deciding the pace, the timing and/or the planning of tasks)*."[243] Mae amodau cyflogaeth llai ffafriol yn fwy tebygol o ddod i ran y rhai sydd mewn categori economaidd-gymdeithasol is, a cheir tystiolaeth sy'n dangos bod hyn yn cael effaith ar iechyd yn ogystal ag ar incwm a chyfoeth.

Er hynny, mae'n bwysig nodi nad yw NS-SEC yn cynnwys gwybodaeth am lefel neu natur enillion, oriau a weithiwyd, y math o gontract (yn achos cyflogeion) na lefel addysg.

Mae ffermwyr yng Nghymru fel arfer yn hunangyflogedig heb unrhyw gyflogeion, neu maent yn cyflogi nifer fechan o staff, ac felly maent yn perthyn i gategori 4 y system NS-SEC. Gellir dosbarthu gweithwyr fferm eraill yng nghategorïau 4, 5, 6, neu 7, yn dibynnu ar eu rôl.

Fodd bynnag, ceir amrywiaeth eang o brofiad ymhlith ffermwyr o ran incwm a chyfoeth, a bydd hyn yn effeithio ar safon byw a chanlyniadau. Ym mlwyddyn ariannol 2019-20, roedd incwm cyfartalog busnesau fferm[244,245] ar gyfer pob fferm yng Nghymru yn £26,200, ond roedd yn amrywio'n sylweddol yn ôl y math o fferm. Incwm cyfartalog busnesau fferm ar gyfer ffermydd llaeth oedd £50,700, y cyfartaledd ar gyfer ffermydd gwartheg a defaid mewn ardaloedd llai ffafriol oedd £22,600, a'r cyfartaledd ar gyfer ffermydd gwartheg a defaid (ar yr iseldir) oedd £16,600. Er bod incwm ffermydd llaeth yn uwch ar gyfartaledd na mathau eraill o ffermydd dros

---

240 https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/lifeexpectancies/datasets/onslongitudinalstudylsbasedestimatesoflifeexpectancylebythenationalstatisticssocioeconomicclassificationnssecenglandandwales

241 https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/livebirths/datasets/birthsbyparentscharacteristics

242 https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/drugusealcoholandsmoking/adhocs/005387smokingbynssec

243 https://www.researchgate.net/publication/12406395_The_new_UK_National_Statistics_Socio-Economic_Classification_NS-SEC_Investigating_social_class_differences_in_self-reported_health_status

244 https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2021-03/farm-incomes-april-2019-march-2020-914.pdf

245 Incwm busnes fferm yw'r enillion ariannol i bob gweithiwr di-dâl (fel ffermwyr, eu partneriaid, gweithwyr teuluol eraill ac ati) ac mae'n gymaradwy gydag elw net o weithgareddau amaethyddol. Mae'n cynnwys incwm o gynlluniau talu sylfaenol a chynlluniau taliadau amaeth-amgylcheddol.

y degawd diwethaf, mae ffermydd o'r fath hefyd yn dioddef ansefydlogrwydd o flwyddyn i flwyddyn, ac mae hyn yn arwain at ansicrwydd i ffermwyr.

Mae lefelau incwm busnesau fferm yn amrywio'n sylweddol yng Nghymru. Mae gan rai ffermydd incwm o dros £75,000, tra bod ychydig o dan un o bob pump o ffermydd Cymru ag incwm busnes fferm negyddol. Ffermydd llaeth sydd â'r gyfran fwyaf o ffermydd yn y dosbarth incwm uchaf, a ffermydd defaid/biff mewn ardaloedd difreintiedig sydd â'r gyfran fwyaf o ffermydd ag incwm negyddol (bron i draean o ffermydd).

Nododd y rhan fwyaf (68%) o'r rhai a ymatebodd i arolwg o ffermydd Bach a Bach Iawn yng Nghymru, a gynhaliwyd yn 2021,[246] fod o leiaf un person ar yr aelwyd yn hunangyflogedig neu'n gyflogedig oddi ar y fferm er mwyn ychwanegu at incwm yr aelwyd. Yn ogystal, dywedodd bron i hanner (47%) yr ymatebwyr eu bod yn cynnal gweithgareddau anamaethyddol eraill o'u daliad. Y gweithgaredd mwyaf cyffredin o bell ffordd oedd darparu llety i dwristiaid, megis tai gwyliau, gwely a brecwast, gwersylla a glampio. Roedd ffynonellau incwm eraill yn cynnwys gwaith contractio, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a gweithgareddau'n ymwneud â cheffylau. Ymhellach, nododd llawer o aelwydydd ffermio yn yr astudiaeth fod taliadau uniongyrchol gan Gynllun y Taliad Sylfaenol yn rhan hanfodol o'u hincwm ar y pryd, gyda ffermydd Bach yn fwy tebygol o nodi hyn (69% o gymharu â 45% ar gyfer ffermydd Bach Iawn).

Er eu bod yng nghanol strwythur dosbarthu'r NS-SEC, mae'n amlwg fod rhai ffermwyr yn wynebu pwysau mawr mewn perthynas ag incwm eu busnes fferm, a hefyd mewn perthynas ag incwm eu haelwyd – rhywbeth a allai arwain at amddifadedd materol. Mae'n anochel y bydd hyn yn cael effaith ar ansawdd eu bywydau. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn nodi bod lefelau incwm isel, ynghyd ag ansicrwydd ynghylch hyfywedd ariannol y sector ffermio, yn her allweddol mewn perthynas ag iechyd meddwl ffermwyr[247].

Mae'r Bil yn pennu Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) fel fframwaith polisi'r dyfodol ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion ystyried y ffordd orau o gyflawni'r amcanion wrth arfer pwerau o dan y Bil.

Bwriedir i'r gwaith o gyflawni'r amcanion hyn gael effaith gadarnhaol ar amgylchiadau economaidd-gymdeithasol ffermydd a chymunedau gwledig. Ategir hyn gan y gofyniad y dylid cyflawni'r amcanion mewn ffordd sy'n:

a) diwallu anghenion y presennol heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain

b) cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

---

[246] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-10/deall-cymhellion-ffermwyr-ffermydd-bach-bach-iawn-adroddiad-llawn.pdf

[247] https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/y-cyfarwyddiaeth-gwybodaeth/ymchwil-a-gwerthuso/publications/cefnogi-cymunedau-ffermio-yn-ystod-cyfnodau-o-ansicrwydd/

Bydd y pwerau ar gyfer cymorth yn y dyfodol yn galluogi Gweinidogion i gefnogi camau gweithredu'n uniongyrchol o dan yr 11 diben, e.e. drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig. Disgwylir i'r pwerau ar gyfer cymorth yn y dyfodol effeithio ar amgylchiadau economaidd-gymdeithasol ffermwyr yn y ffyrdd canlynol:

1. Bydd gan Weinidogion bwerau i roi cymorth (cymorth ariannol neu gymorth o fath arall) ar gyfer cyflawni'r canlyniadau rydym yn eu ceisio. Byddai hyn, fel drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) arfaethedig, yn rhoi ffrwd incwm sefydlog i'r ffermwyr o dan sylw, na fyddai ffactorau fel anwadalrwydd y farchnad yn effeithio arni.
2. Yn benodol, gellir rhoi cymorth o dan y diben i wneud busnesau amaethyddol yn fwy gwydn, yn unol ag amcanion SLM. Mae hyn yn cyfrannu at leihau anfantais yn y tymor byr ac yn ein hamddiffyn rhag ergydion annisgwyl neu ffynonellau anfantais yn y dyfodol.
3. Gellir cyflawni llawer o'r dibenion ar gyfer cymorth mewn ffyrdd sy'n cynnig budd ariannol i fusnes y fferm. Er enghraifft, mae cynlluniau rheoli maethynnau yn cefnogi gwell ansawdd aer a dŵr, ond mae hefyd yn lleihau costau mewnbynnau drwy ddefnyddio llai o wrtaith. Gall defnyddio ynni'n fwy effeithlon arbed costau a gallai cynhyrchu ynni adnewyddadwy roi incwm i'r fferm os oes modd gwerthu'r ynni nad yw'r fferm yn ei ddefnyddio.

Mae'n bosibl y gallai'r pontio rhwng y system gymorth bresennol a chynlluniau'r dyfodol gael effeithiau economaidd-gymdeithasol negyddol. Bydd y Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion roi dull pontio a reolir ar waith wrth symud i'r system newydd, er mwyn sicrhau na fydd cyllid unrhyw ffermwr yn dod i ben yn sydyn, ynghyd â phwerau i liniaru effeithiau negyddol posibl. Byddwn yn ymgynghori ar ein dull pontio yn 2023.

**Cymunedau gwledig**

Er mai ffermwyr fydd yn teimlo effeithiau mwyaf y Bil, rydym yn cydnabod y rôl economaidd, gymdeithasol a diwylliannol allweddol sydd gan amaethyddiaeth yn y Gymru wledig, ac felly disgwylir i'r Bil gael effaith ar gymunedau gwledig yn fwy cyffredinol.

Gall anfantais economaidd-gymdeithasol arwain at anghydraddoldeb canlyniadau mewn meysydd fel addysg, iechyd, diogelwch personol a safonau byw. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC)[248] yn cynnig cyfres o ddangosyddion yn ymwneud â ffactorau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd. Yn gyffredinol, cymysg yw'r darlun ar gyfer aelwydydd sy'n byw mewn ardaloedd gwledig:

- **Incwm:** Ni welir unrhyw duedd glir o ran amddifadedd incwm mewn ardaloedd gwledig. Ardaloedd cefnog mewn dinasoedd a threfi sy'n tueddu i fod â'r lefelau amddifadedd isaf, tra bod yr ardaloedd lleiaf cefnog mewn dinasoedd a threfi yn tueddu i fod â'r lefelau amddifadedd uchaf. Gwelir bod ardaloedd gwledig rhwng y ddau begwn yma.
- **Cyflogaeth:** Yn yr un modd â'r maes incwm, mae eithafion o ran amddifadedd cyflogaeth i'w gweld mewn dinasoedd a threfi, tra bod ardaloedd gwledig ar sbectrwm rhwng y ddau begwn.

[248] https://llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru

- **Iechyd:** Mae gan ardaloedd gwledig ganlyniadau cymedrol i dda ar draws yr holl ddangosyddion iechyd ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, heb unrhyw batrwm amlwg; mae'r amddifadedd iechyd mwyaf difrifol yn digwydd mewn ardaloedd trefol.
- **Addysg:** Mae'r darlun ar gyfer addysg mewn ardaloedd gwledig yn debyg iawn i'r darlun ar gyfer iechyd, gyda chanlyniadau cymedrol i dda ar draws yr holl ddangosyddion addysg, heb unrhyw batrwm clir.
- **Cael gafael ar wasanaethau:** Dyma'r prif faes lle mae ardaloedd gwledig yn dangos lefelau amddifadedd uchel yn gyson. Mae rhai trigolion yn gallu ymdopi â'r pellter at wasanaethau ac maent yn ei dderbyn fel aberth gwerth ei gwneud er mwyn gallu elwa ar fanteision ffordd o fyw eraill sy'n gysylltiedig ag ardaloedd gwledig. I eraill, yn enwedig i bobl hŷn neu anabl, gall fod yn anodd iawn iddynt gael gafael ar wasanaethau ac fe all hyn gyfrannu'n uniongyrchol at ansawdd bywyd gwaeth.
- **Tai:** Mewn ardaloedd gwledig ni welir llawer iawn o bobl yn byw mewn tai gorlawn neu dai sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan; fodd bynnag, mae pobl mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o fyw mewn tai sydd o ansawdd gwael neu sy'n cynnwys peryglon difrifol.
- **Yr Amgylchedd Ffisegol:** Mae ardaloedd gwledig yn tueddu i sgorio'n wael o ran mynediad at fannau gwyrdd cyhoeddus, ond mae eu sgoriau ar gyfer 'Mannau Gwyrdd Amgylchynol' yn uchel oherwydd natur werdd gynhenid yr amgylchedd gwledig yng Nghymru. Gwelir hyn er gwaethaf y ffaith bod mesur Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cynnwys hawliau tramwy cyhoeddus yng nghefn gwlad[249], er efallai nad yw unrhyw un o'r rhain o fewn pellter digon hygyrch i aelwydydd gwledig[250]. Fodd bynnag, mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol[251] yn dangos bod aelwydydd mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o fod â gardd a bod gerddi mewn ardaloedd gwledig, ar gyfartaledd, yn llawer mwy na gerddi mewn ardaloedd trefol. Felly, mae'n bosibl nad yw diffyg mynediad at fan gwyrdd cyhoeddus yn broblem mor fawr ag y byddai i bobl mewn amgylcheddau trefol.
  Mae lefelau llygredd yn peri mwy o broblemau mewn amgylcheddau trefol nag ardaloedd gwledig, tra bod perygl llifogydd yn amrywio'n sylweddol ar sail ffactorau eraill.
- **Diogelwch Cymunedol:** Mae ardaloedd gwledig yn tueddu i fod â lefelau trosedd is a llai o ymddygiad gwrthgymdeithasol nag ardaloedd mwy trefol; fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y gall natur ac effaith troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd gwledig fod yn wahanol iawn i'r rhai a welir mewn ardaloedd trefol.

Un ffordd y gallai'r Bil effeithio ar feysydd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru mewn ardaloedd gwledig yw drwy wella mynediad i gefn gwlad. O dan y dibenion ar gyfer cymorth o dan gynlluniau'r dyfodol, e.e. y CFfC arfaethedig, bydd modd i Lywodraeth Cymru gefnogi camau gweithredu ar ffermydd i gynnal a gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol, a'u hymgysylltiad â nhw. Mae'r mesurau y byddai ffermwyr yn gallu eu

[249] I gael rhagor o fanylion, cyfeiriwch at Adroddiad Technegol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2019 (https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-2019-adroddiad-technegol.pdf)

[250] 5 munud o gerdded neu bellter o 300m

[251] https://cy.ons.gov.uk/economy/environmentalaccounts/articles/oneineightbritishhouseholdshasnogarden/2020-05-14

cymryd i gyflawni'r diben hwn yn cynnwys uwchraddio a gwella llwybrau presennol, sefydlu mynediad newydd, a chynnal ymweliadau addysgol. Bydd gwell mynediad i gefn gwlad o fudd i'r rhai sy'n byw'n lleol, ond bydd o fudd hefyd i'r rhai sy'n teithio o ymhellach i ffwrdd i fwynhau'r amgylchedd naturiol.

Gallai effaith gadarnhaol ddod i ran y meysydd Iechyd ac Addysg hefyd o ganlyniad i'r Bil. Mae'r Bil yn nodi rhestr o ddibenion ar gyfer cymorth yn y dyfodol i helpu i gyflawni ei amcanion strategol; bydd nifer o'r dibenion hyn ar gyfer cymorth, megis aer glanach, dŵr glanach, a gwella iechyd anifeiliaid, yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd pobl. Mae'r Bil yn nodi bod ymgysylltu â chefn gwlad ac adnoddau diwylliannol yn un o'r amcanion strategol, a bydd hyn yn arwain at gyfleoedd a fydd yn galluogi pobl, yn enwedig plant a phobl ifanc, i gymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol yn ymwneud ag amaethyddiaeth yng Nghymru.

Bwriad y Bil hefyd yw cefnogi cymunedau gwledig ffyniannus yn fwy cyffredinol. Mae ffermydd yn darparu busnes i amrywiaeth o fentrau yn eu heconomïau lleol, ac felly disgwylir i'r Bil a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig gael effaith gadarnhaol ar economïau gwledig, gyda'r potensial i gael effaith gadarnhaol ar incwm a chyflogaeth. Yn ei dro, bydd cynaliadwyedd cymunedau gwledig yn cyfrannu at fanteision cadarnhaol mewn perthynas â chyfalaf cymdeithasol, diwylliant a'r iaith Gymraeg.

***Pa wybodaeth a gasglwyd drwy ymgysylltu â'r rhai y mae'r cynnig/penderfyniad yn effeithio arnynt, yn benodol felly y rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol?***

Rydym wedi cynnal tri ymgynghoriad hyd yn hyn, sef Brexit a'n Tir, Ffermio Cynaliadwy a'n Tir a'r Papur Gwyn Amaeth. Cawsom lawer o ymatebion gan ffermwyr unigol yng Nghymru yn ogystal â chan nifer o sefydliadau sy'n eu cynrychioli. Cafodd Brexit a'n Tir 521 o ymatebion sylweddol gan unigolion a sefydliadau yn y maes ffermio, cafodd Ffermio Cynaliadwy a'n Tir 198 o ymatebion a chafodd y Papur Gwyn Amaeth 30 o ymatebion; er, mae'n werth nodi na chyflwynodd pob ymatebydd wybodaeth am gefndir y diwydiant a gall y ffigurau hyn fod yn dangyfrif. Rydym wedi ymgymryd â cham cyntaf y gwaith cyd-ddylunio er mwyn galluogi ffermwyr – sef y rhai y bydd y Bil a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig yn effeithio fwyaf arnynt – i helpu i lunio dyfodol polisi ffermio yng Nghymru. Roedd y prosiect cyd-ddylunio yn cynnwys cyfranogwyr a oedd yn amrywio o ran oedran, math o fferm, sector, deiliadaeth, ac aelodaeth â chynlluniau Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, rydym yn ymgymryd ag ail gam y gwaith hwn.

Rydym wedi mynychu digwyddiadau wyneb yn wyneb pan fo hynny'n bosibl, fel Ffeiriau Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru. Rydym yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd â ffermwyr, academyddion ac arbenigwyr eraill wrth inni ystyried manylion y CFfC arfaethedig. Byddwn yn ymgynghori ar gynigion terfynol y CFfC yn 2023.

***A ystyriwyd nodweddion gwarchodedig?***

Cyfeiriwch at yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gael rhagor o fanylion am sut y bydd y Bil yn effeithio ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

***A yw cymunedau buddiant a mannau o ddiddordeb wedi'u hystyried?***

Y prif gymunedau buddiant mewn perthynas â'r Bil yw'r gymuned amaethyddol a'r gymuned Gymraeg. O ystyried bod y Bil yn ymwneud â'r diwydiant amaethyddol, cafodd yr effeithiau ar y rhai yn y gymuned amaethyddol eu hystyried yn fanwl drwy gydol yr asesiad effaith. Cafodd yr effeithiau ar y Gymraeg, ynghyd â'r effeithiau ar y rhai sy'n siarad yr iaith a'r rhai sy'n ei dysgu, eu hystyried yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

Yn ogystal, mae'r newid mewn polisi amaethyddol tuag at Reoli Tir yn Gynaliadwy yn golygu bod sefydliadau amgylcheddol yn cynrychioli cymuned fuddiant sylweddol arall. Mae sefydliadau o'r fath wedi bod wrthi'n ymateb i'n hymgynghoriadau; cafodd *Brexit a'n Tir* 160 o ymatebion sylweddol gan unigolion a sefydliadau â buddiannau amgylcheddol, cafodd *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir* 32 o ymatebion a chafodd y Papur Gwyn Amaeth 27 o ymatebion. Bwriad penodol y Bil yw esgor ar ganlyniadau cadarnhaol o ran lliniaru newid yn yr hinsawdd a'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Gellir dod o hyd i Asesiad llawn o'r Effaith ar Fioamrywiaeth yn Atodiad F, tra mae Adran 5 y ddogfen hon yn ymdrin â Lles Amgylcheddol.

Y prif 'gymunedau lle' yw cymunedau gwledig Cymru yn fwy cyffredinol. Manylir ar yr effeithiau ar y rhai sy'n byw mewn Ardaloedd Gwledig yn yr Asesiad o'r Effaith o ran Prawfesur Gwledig, a cheir trafodaeth ychwanegol yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan fod demograffeg cymunedau gwledig yn tueddu i fod yn wahanol i ddemograffeg amgylcheddau trefol.

***Pa wybodaeth a ystyriwyd ynglŷn â thueddiadau yn y dyfodol?***

Datganodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd yn 2019 ac argyfwng natur yn 2021. Mae adroddiad sy'n dwyn y teitl *Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol: Meysydd i weithredu arnynt mewn gwaith, hinsawdd a newid*[252] yn pwysleisio'r cysylltiad rhwng newid hinsawdd ac anghydraddoldeb, gan nodi mai ar y poblogaethau tlotaf a'r rhai mwyaf ar y cyrion y bydd y newid yn yr hinsawdd yn effeithio. Gyda hyn mewn golwg, trwy sicrhau bod deddfwriaeth yng Nghymru yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r Argyfyngau Hinsawdd a Natur, bydd modd cael effaith gadarnhaol bwysig ar y rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol yn ein cymdeithas. Mae aelwydydd sy'n dioddef amddifadedd yn debygol o'i chael hi'n anos gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol, er enghraifft, methu â fforddio addasiadau priodol yn eu cartrefi neu symud o ardal sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd. Unigolion mewn amddifadedd iechyd sy'n wynebu'r risg fwyaf yn sgil ansawdd aer gwael.

Yn ei adroddiad, *Ymateb i Her Driphlyg Brexit, COVID-19 a'r Newid yn yr Hinsawdd i iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru*, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi bod ffermwyr a gweithwyr amaethyddol ymhlith y rhai y bydd y newid yn yr hinsawdd yn effeithio fwyaf ar eu galwedigaeth. Felly, mae'n bwysig cynhyrchu bwyd a rheoli tir mewn ffordd sy'n cyfrannu at liniaru'r newid yn yr hinsawdd er mwyn sicrhau hyfywedd ffermydd i ffermwyr y dyfodol, a diogelwch bwyd i'r genedl. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod cymunedau gwledig yn arbennig o agored i'r 'her driphlyg', a bwriad y Bil yw cefnogi cynaliadwyedd y Gymru wledig ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

[252] https://phw.nhs.wales/publications/publications1/anghydraddoldeb-yng-nghymrur-dyfodol-meysydd-gweithredu-mewn-gwaith-hinsawdd-a-newid-demograffig/

Mae gan y Bil bedwar amcan strategol, a rhaid i Weinidogion Cymru ystyried y ffordd orau o gyflawni pob un ohonynt. Rhaid cyflawni amcanion strategol yn ymwneud â lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo, cynnal a gwella ecosystemau, a gwarchod, gwella a hyrwyddo cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol ochr yn ochr â'r amcan strategol cyntaf, sef cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill yn gynaliadwy. Felly, bwriad y Bil yw mynd i'r afael â thueddiadau'r argyfyngau hinsawdd a natur yn y dyfodol, a bydd y dibenion ar gyfer cymorth yn y dyfodol, e.e. y CFfC arfaethedig, yn darparu ar gyfer targedu materion penodol fel llygredd aer, llygredd dŵr a pherygl llifogydd. I gael rhagor o fanylion am sut y disgwyliwn i'r Bil effeithio ar newid hinsawdd a bioamrywiaeth, gweler yr Asesiadau o'r Effaith ar Les Amgylcheddol a Bioamrywiaeth.

***Pa ddata a ystyriwyd (data cenedlaethol a lleol)?***

Rydym wedi ystyried amrywiaeth eang o ffynonellau data a ffynonellau tystiolaeth eraill drwy gydol ein hasesiadau effaith. Mae'r rhain yn cynnwys data fel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, data'r Cyfrifiad a data arolygon a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, llenyddiaeth academaidd, ac ymchwil a gynhyrchir gan sefydliadau sydd â buddiant mewn amaethyddiaeth. Gyda'i gilydd, mae'r gwahanol ffynonellau hyn yn ein galluogi i asesu effeithiau posibl y Bil mewn perthynas ag amryfal ffactorau sy'n berthnasol i statws economaidd-gymdeithasol.

**Sut y gallai'r cynnig waethygu ymhellach yr anghydraddoldeb canlyniadau a brofir o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Ni ddisgwylir i'r Bil effeithio ar unrhyw un mewn modd a fydd yn gwaethygu anghydraddoldeb canlyniadau oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol.

Serch hynny, rydym yn cydnabod bod y Bil yn cynrychioli newid sylweddol mewn polisi amaethyddol yng Nghymru, a bydd angen ystyried hyn wrth ddatblygu cynigion ar gyfer y CFfC er mwyn lleihau'r risg y bydd unrhyw un yn dioddef effeithiau andwyol, yn enwedig o ran y rhai sydd eisoes yn dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Er mwyn lliniaru effeithiau andwyol, bydd taliad pontio'n cael ei gynnig yn ystod y cyfnod pontio rhwng y Cynllun y Taliad Sylfaenol presennol a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn y dyfodol. Golyga na fydd taliadau ffermwyr yn dod i ben yn sydyn, pa un a fyddant yn dewis ymuno â'r cynllun newydd ai peidio.

Byddwn yn archwilio'r posibilrwydd o gapio taliadau wrth inni gynllunio'r CFfC arfaethedig, ynghyd ag archwilio'r ffordd orau o weithredu hyn, er mwyn sicrhau na fydd ffermwyr sydd mewn perygl o ddioddef anghydraddoldeb canlyniadau yn wynebu anfantais bellach.

I gael rhagor o fanylion am sut y disgwyliwn i'r Bil effeithio ar wahanol grwpiau demograffig, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig, cyfeiriwch at yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

**Sut y gallai'r penderfyniad wella canlyniadau i'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Bwriad fframwaith deddfwriaethol y Bil, a'r dibenion ar gyfer cymorth yn y dyfodol, yw cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth bresennol ac ymrwymiadau Llywodraeth Cymru o ran yr argyfyngau hinsawdd a natur, a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Y ffordd gyntaf y bydd y Bil yn cefnogi gwell canlyniadau i'r rheini sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol yw gwell canlyniadau iechyd. Bydd aer a dŵr glanach yn arbennig yn lleihau'r risgiau i iechyd, yn enwedig ymhlith grwpiau mwy agored i niwed. Ymhellach, bydd gwell mynediad i gefn gwlad yn cynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer hamdden ac ymarfer corff, gan fod o fudd i iechyd corfforol a meddyliol. Ceir rhagor o fanylion am effeithiau'r Bil ar iechyd yn Adran 2 y ddogfen hon.

Yr ail ffordd y bydd y Bil yn cefnogi'r rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol yw drwy leihau perygl llifogydd a sychder. Fel arfer, mae pobl sy'n dioddef amddifadedd â llai o rym i newid eu sefyllfa, er enghraifft, drwy symud i eiddo gwahanol os yw eu cartref mewn ardal lle ceir perygl mawr o lifogydd. O'r herwydd, bydd pennu SLM fel fframwaith ar gyfer ffermio yng Nghymru yn y dyfodol o fudd arbennig i'r rhai sy'n dioddef anfantais oherwydd y canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol y bwriedir i'r Bil a'r CFfC arfaethedig esgor arnynt.

Yn fwy penodol, mae'r Bil yn bwriadu dod â budd i ffermwyr mewn nifer o ffyrdd, gan wella canlyniadau i'r rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion yng Nghymru roi cymorth i ffermwyr ar gyfer gweithredu arferion SLM a chyflawni'r canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio eu cyflawni. Bydd cymryd rhan yn y CFfC arfaethedig yn rhoi ffrwd incwm sefydlog i ffermwyr, gan roi sicrwydd iddynt o ran eu sefyllfa ariannol eu hunain a hefyd o ran eu gallu i gyflogi gweithwyr a chontractwyr. Bydd y sefydlogrwydd hwn yn esgor ar fanteision economaidd a allai, yn eu tro, arwain at fanteision iechyd meddwl drwy leddfu ansicrwydd a straen ariannol. Disgwylir hefyd y ceir manteision cymdeithasol cadarnhaol drwy alluogi ffermwyr a'u teuluoedd i barhau i fod yn aelodau o'u cymunedau.

Mae SLM yn fframwaith cyfannol y bwriedir iddo fod o fudd i'r amgylchedd ac i ffermwyr. Wrth inni gynllunio'r CFfC arfaethedig, rydym yn archwilio nifer o gamau gweithredu SLM a fydd yn helpu ffermwyr i leihau eu costau, gan gael effaith gadarnhaol ar incwm ffermwyr. Ymhellach, bwriad SLM yw gwella gallu i wrthsefyll effeithiau negyddol y newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â lliniaru'r effeithiau hyn yn uniongyrchol – rhywbeth a fydd yn helpu busnesau fferm i baratoi ar gyfer y dyfodol a sicrhau y bydd ffermydd yn parhau i fod yn hyfyw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Sut y byddwch yn monitro effaith y penderfyniad hwn? (Ystyriwch ganlyniadau ehangach)**

Mae'r Bil yn darparu'r pwerau ar gyfer monitro a gwerthuso SLM yn ei gyfanrwydd, ynghyd â chynlluniau yn y dyfodol a ddaw o dan y dibenion ar gyfer cymorth. Bydd strategaeth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol yn manylu ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu asesu'r modd y cyflawnir canlyniadau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.